



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Rhif: WG48223

Llywodraeth Cymru

# Ymgynghoriad ar y Papur Gwyn ar Roi Diwedd ar Ddigartrefedd yng Nghymru

Dyddiad cyhoeddi: 10 Hydref 2023  
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 16 Ionawr 2024

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd / This document is also available in English.  
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

## Trosolwg

Mae'r Papur Gwyn hwn yn nodi amrywiaeth o gynigion ar gyfer newidiadau i bolisi a'r gyfraith, i roi diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru.

## Sut i ymateb

Byddwch cystal â chyflwyno'ch sylwadau erbyn 16 Ionawr 2024, yn un o'r ffyrdd canlynol:

- cwblhau ein ffurflen ar-lein
- lawrlwytho, cwblhau ein ffurflen ymateb ac e-bostio [DiwygioDeddfwriaethDigartrefedd@llyw.cymru](mailto:DiwygioDeddfwriaethDigartrefedd@llyw.cymru)
- lawrlwytho, cwblhau ein ffurflen ymateb a'i phostio i:

Tîm Deddfwriaeth Atal Digartrefedd  
Llywodraeth Cymru  
Parc Cathays  
Caerdydd  
CF10 3NQ

I gael gwybodaeth am ddigwyddiadau ymgynghori anfonwch e-bost atom:  
[DiwygioDeddfwriaethDigartrefedd@llyw.cymru](mailto:DiwygioDeddfwriaethDigartrefedd@llyw.cymru)

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.

## Manylion Cysylltu

I gael rhagor o wybodaeth:

Tîm Deddfwriaeth Atal Digartrefedd  
Llywodraeth Cymru  
Parc Cathays  
Caerdydd  
CF10 3NQ

E-bost: [DiwygioDeddfwriaethDigartrefedd@llyw.cymru](mailto:DiwygioDeddfwriaethDigartrefedd@llyw.cymru)

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd: [hyperlink](#)

## Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru ac ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarperir gennych wrth ichi ymateb i'r ymgynghoriad. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol hyn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau cytbwys ynghylch sut y maent yn cyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus. Y sail gyfreithlon ar gyfer prosesu gwybodaeth yn yr ymarfer casglu data hwn yw ein tasg gyhoeddus; hynny yw, arfer ein hawdurdod swyddogol i ymgymryd â rôl a swyddogaethau craidd Llywodraeth Cymru (Erthygl 6(1)(e)).

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â nhw neu sy'n cynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol. Yn achos ymgynghoriadau ar y cyd, mae'n bosibl y bydd hyn hefyd yn cynnwys awdurdodau cyhoeddus eraill. Pan fo Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad pellach o'r ymatebion i ymgynghoriad, yna gall trydydd parti achrededig (e.e. sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori) gael ei gomisiynu i wneud y gwaith hwn. Ymgymerir â gwaith o'r fath dim ond o dan contract. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion caeth ar gyfer prosesu data personol a'u cadw'n ddiogel.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion cyn cyhoeddi'ch ymateb.

Dylech hefyd fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth a'i bod yn bosibl y bydd Llywodraeth Cymru o dan rwymedigaeth gyfreithiol i ddatgelu gwybodaeth.

Os caiff eich manylion chi eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, caiff yr adroddiadau hyn eu cadw am gyfnod amhenodol. Ni fydd gweddi eich data a gedwir fel arall gan Lywodraeth Cymru yn cael eu cadw am fwy na thair blynedd.

### **Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig**

Rhif: WG48223

Gallwch weld y ddogfen hon mewn ieithoedd eraill. Os oes ei hangen arnoch mewn fformat gwahanol, cysylltwch â ni.

## Eich hawliau

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl:

- i wybod am y data personol a gedwir amdanoch chi a'u gweld
- i'w gwneud yn ofynnol inni gywiro gwallau yn y data hynny
- (o dan rai amgylchiadau) i wrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu'r data
- (o dan rai amgylchiadau) i'ch data gael eu 'dileu'
- (o dan rai amgylchiadau) i gludadwyedd data
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

I gael rhagor o fanylion am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw ac am y defnydd a wneir ohoni, neu os ydych am arfer eich hawliau o dan Reoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data gweler y manylion cyswllt isod:

Y Swyddog Diogelu Data:

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

CAERDYDD

CF10 3NQ

e-bost:

[dataprotectionofficer@llyw.cymru](mailto:dataprotectionofficer@llyw.cymru)

Dyma fanylion cyswllt Swyddfa'r  
Comisiynydd Gwybodaeth:

Wycliffe House

Water Lane

Wilmslow

Cheshire

SK9 5AF

Ffôn: 0303 123 1113

Gwefan: <https://ico.org.uk/>

## Cynnwys

Rhestr Termau .....	7
Rhagair y Gweinidog.....	10
Cyflwyniad.....	12
Yr achos dros newid .....	17
Crynodeb o'r diwygiadau arfaethedig .....	23
<b>Pennod 1: Diwygio'r ddeddfwriaeth graidd bresennol mewn perthynas â digartrefedd .....</b>	<b>26</b>
Atal a rhyddhad.....	26
Y tri phrawf: angen blaenoriaethol, bwriadoldeb a chysylltiad lleol .....	36
Dyletswydd statudol i roi cymorth er mwyn helpu'r ymgeisydd i gadw llety .....	51
Symleiddio'r system ddigartrefedd bresennol drwy gael gwared ar y "ddyletswydd rhyddhad" (adran 73 o'r Ddeddf Tai 2014) .....	52
Prawf methiant afresymol i gydweithredu .....	53
Cyfathrebu rhwng yr awdurdod tai lleol a'r ymgeisydd .....	54
Cwestiynau'r ymgynghoriad .....	56
<b>Pennod 2: Rôl gwasanaeth cyhoeddus Cymru o ran atal digartrefedd .....</b>	<b>57</b>
Dyletswyddau ehangach ar wasanaeth cyhoeddus Cymru i atal digartrefedd .....	57
Cwestiynau'r ymgynghoriad .....	74
<b>Pennod 3: Cynigion wedi'u targedu i atal digartrefedd i'r rhai yr effeithir arnynt yn anghymesur.....</b>	<b>75</b>
Plant, pobl ifanc a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal.....	76
Pobl ag anghenion iechyd cymhleth, gan gynnwys salwch meddwl, camddefnyddio sylweddau a'r rhai sy'n gadael yr ysbyty .....	83
Goroewyr trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.....	89
Pobl anabl.....	95
Cyn-aelodau o'r Lluoedd Arfog .....	103
Pobl sy'n gadael y carchar .....	105
Pobl nad oes ganddynt Hawl i Gyllid Cyhoeddus.....	119
Cwestiynau'r ymgynghoriad .....	122
<b>Pennod 4: Mynediad at lety .....</b>	<b>123</b>
Addasrwydd a Llety Dros Dro .....	123
Dyrannu tai cymdeithasol.....	137
Opsiynau tai ychwanegol ar gyfer cyflawni'r brif ddyletswydd digartrefedd.....	154
Achosion o droi pobl allan .....	156
Cwestiynau'r ymgynghoriad .....	157

<b>Pennod 5: Gweithredu .....</b>	<b>158</b>
Rhoi'r diwygiadau arfaethedig ar waith .....	158
Cwestiynau'r ymgynghoriad .....	167
<b>Atodiad 1: Cwestiynau'r ymgynghoriad.....</b>	<b>168</b>

## Rhestr Termau

<b>Â phrofiad o fod mewn gofal</b>	Person sydd wedi cael llety gan adran gwasanaethau cymdeithasol am gyfnod o 24 awr neu fwy cyn ei benblwydd yn 18 oed.
<b>Ailgartrefu Cyflym</b>	Nod Ailgartrefu Cyflym yw helpu i leihau'r defnydd o lety dros dro i'r eithaf a gwella mynediad at dai sefydlog cyn gynted â phosibl. Bydd hyn yn helpu i osgoi'r effeithiau dadsefydlogol ac ymleiddiol sy'n gysylltiedig â bod yn ddiartref am gyfnodau hir neu gyfnodau hir o aros mewn lleoliadau brys neu leoliadau dros dro wrth barhau i fod yn ddiartref.
<b>Anabledd</b>	Nam corfforol neu feddyliol sy'n cael effaith hirdymor 'sylweddol' a 'hirdymor' ar allu person i gyflawni gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd. Mae effaith 'sylweddol' yn golygu mwy nag effaith fach neu ddibwys, e.e. mae'n cymryd mwy o amser i gwblhau tasg feunyddiol megis gwisgo nag y byddai'n ei gymryd fel arfer Ystyr 'hirdymor' yw 12 mis neu fwy, e.e. cyflwr anadlu sy'n datblygu o ganlyniad i haint yn yr ysgyfaint.
<b>Arbenigwyr drwy brofiad</b>	Pobl sydd â phrofiad personol o ddiartrefedd ac sydd wedi rhannu'r profiadau hynny er mwyn llywio gwaith y Panel Adolygu Arbenigol a'r gwaith o ddatblygu'r Papur Gwyn hwn.
<b>Awdurdod Tai Lleol</b>	Cyngor sir neu fwrdeistref sirol yng Nghymru ac, at ddibenion y ddogfen hon, swyddogaeth benodol yr awdurdod lleol sy'n darparu'r gwasanaeth diartrefedd statudol.
<b>Cyn-filwyr/cyn-bersonél y lluoedd arfog</b>	Unrhyw un sydd wedi gwasanaethu am o leiaf un diwrnod yn Lluoedd Arfog Ei Fawrhydi (Rheolaidd neu wrth Gefn), neu Forwyr Masnachol sydd wedi bod ar ddyletswydd ar ymgyrchoedd milwrol a ddiffinnir yn gyfreithiol. <sup>1</sup>
<b>Digartref ac ar y stryd</b>	"Ystyr "digartref ac ar y stryd" ("street homeless"), mewn perthynas â pherson, yw nad oes llety ar gael i'r person ei feddiannu yn y Deyrnas Unedig neu yn rhywle arall, y mae'r person— a) â'r hawl i'w feddiannu yn rhinwedd buddiant ynddo neu yn rhinwedd gorchymyn llys, b) â thrwydded ddatganedig neu oblygedig i'w feddiannu, neu c) yn ei feddiannu fel preswylfa yn rhinwedd unrhyw ddeddfiad neu reol gyfreithiol sy'n rhoi i'r person yr hawl i barhau i feddiannu neu'n cyfyngu ar hawl person arall i adennill meddiant."
<b>Dyletswydd i atal</b>	Adran 66 o'r Ddeddf Tai 2014 – y ddyletswydd i helpu i atal ymgeisydd rhag cael ei wneud yn ddiartref.

<sup>1</sup> [V8eterans Factsheet 2020 \(publishing.service.gov.uk\)](https://publishing.service.gov.uk)

<b>Dyraniadau</b>	Y system a ddefnyddir i ddarparu tai cymdeithasol i bobl sydd wedi gwneud cais amdanynt.
<b>Enwebiadau</b>	Ystyr enwebiad yw pan fydd awdurdod lleol yn argymhell y dylid ystyried rhoi eiddo tai cymdeithasol i berson o'r rhestr aros.
<b>Heb Hawl i Gyllid Cyhoeddus</b>	Bydd person Heb Hawl i Gyllid Cyhoeddus pan fydd yn 'ddarostyngedig i reolaeth fewnfudo', fel y'i diffinnir gan adran 115 o Ddeddf Mewnfudo a Lloches 1999. Ni all person sy'n ddarostyngedig i reolaeth fewnfudo hawlio cyllid cyhoeddus oni fydd eithriad yn gymwys.
<b>Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig a Chymdeithasau Tai</b>	Landlordiaid cymdeithasol sydd wedi'u cofrestru o dan Ran 1 o Ddeddf Tai 1996. Sefydliadau nid-er-elw annibynnol sy'n ymdrechu i ddarparu tai fforddiadwy er mwyn bodloni'r galw gan fuddsoddi mewn cymunedau ar yr un pryd.
<b>MAPPA</b>	Mae Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Amddiffyn y Cyhoedd (MAPPA) ar waith er mwyn sicrhau y caiff troseddwyr treisgar a throseddwyr rhyw eu rheoli'n llwyddiannus
<b>Mynd o sofa i sofa</b>	Aros dros dro mewn cyfres o gartrefi sy'n eiddo i bobl eraill, gan gysgu ar eu soffas fel arfer
<b>Nodweddion gwarchoddedig</b>	Nodweddion a warchodir gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010: oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol.
<b>Prif ddyletswydd</b>	Adran 75 o'r Ddeddf Tai 2014 – y ddyletswydd i sicrhau llety i ymgeisydd ag angen blaenoriaethol pan ddaw'r ddyletswydd yn adran 73 (y ddyletswydd i helpu i sicrhau llety ar gyfer ymgeiswyr digartref) i ben.
<b>Rhentu Doeth Cymru</b>	Mae Rhentu Doeth Cymru yn helpu pobl sy'n gosod neu'n rheoli eiddo rhent yng Nghymru i gydymffurfio â'u rhwymedigaethau o dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014 ac yn rhoi cyngor ar osod cartrefi diogel ac iach ar rent. Hefyd, mae'n prosesu cofrestriadau landlordiaid a thrwyddedau grant ac yn rhoi hyfforddiant i bobl sy'n ymwneud â'r farchnad rentu ledled Cymru.
<b>Rhywun sy'n gadael gofal</b>	Mae pobl sy'n gadael gofal yn cynnwys person ifanc sy'n perthyn i un o'r categorïau a nodir yn adran 104(2) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 sydd â hawl i gael cymorth o dan adrannau 105 i 115 o'r Ddeddf honno. <sup>2</sup>

<sup>2</sup> Am ragor o ddiffiniadau, gweler paragraff 397 – Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 – Rhan 6 Cod Ymarfer (Plant sy'n Derbyn Gofal a Phlant sy'n Cael eu Lletya)



<b>Salwch meddwl</b>	Cyflyrau iechyd sy'n cynnwys newidiadau i emosiynau, ffyrdd o feddwl neu ymddygiad (neu gyfuniad o'r rhain). Gall salwch meddwl fod yn gysylltiedig â gofid a/neu broblemau wrth gymryd rhan mewn gweithgareddau cymdeithasol, gweithgareddau gwaith neu weithgareddau teuluol.
<b>Trais yn erbyn menywod a merched</b>	Term ambarél a ddefnyddir yn rhyngwladol am amrywiaeth eang o fathau o gam-drin, megis lladd domestig, cam-drin domestig, ymosodiadau rhywiol, cam-drin a brofwyd yn blentyn, anffurfio organau cenhedlu benywod, priodas dan orfod ac aflonyddu yn y gwaith ac mewn bywyd cyhoeddus. Er bod dynion a bechgyn hefyd yn dioddef o lawer o'r mathau hyn o gam-drin, maent yn cael effaith anghymesur ar fenywod a merched ac yn digwydd am mai benywod ydyn nhw. Term a fabwysiadwyd o ddatganiad gan y Cenhedloedd Unedig yn 1993 yw trais yn erbyn menywod a merched, ac mae'n cynnwys unrhyw weithred dreisgar sy'n seiliedig ar rywedd ac sy'n arwain at niwed corfforol, rhywiol neu seicolegol i fenywod, neu'n debygol o arwain at niwed o'r fath, gan gynnwys bygythiadau o weithredoedd o'r fath, gorfodaeth neu amddifadu o ryddid yn fympwyl, mewn bywyd cyhoeddus neu breifat.
<b>Y Cod Canllawiau</b>	Y Cod Canllawiau i Awdurdodau Lleol ar Ddyrannu Llety a Digartrefedd (Saesneg yn unig) <sup>3</sup> ; y ddogfen ganllawiau ategol ar gyfer Deddf Tai 2014.
<b>Y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant</b>	Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
<b>Y Ddeddf Tai</b>	Deddf Tai (Cymru) 2014
<b>Ymgeisydd</b>	Y sawl sy'n gwneud cais i awdurdod tai am help am ei fod yn ddigartref neu dan fygythiad o ddigartrefedd.
<b>Yr ystad ddiogel</b>	Mae'r ystad ddiogel yn cynnwys carchardai, safleoedd cymeradwy, llety mechnïaeth a llety cadw ieuencid.

<sup>3</sup> [allocation-of-accommodation-and-homelessness-guidance-for-local-authorities.pdf \(llyw.cymru\)](#)

## Rhagair y Gweinidog

Mae Llywodraeth Cymru yn am roi diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru. Lle na ellir atal profiad unigolyn o ddigartrefedd, rydym yn ymrwymedig i sicrhau y bydd y profiad o ddigartrefedd yn brin ac yn fyrhoedlog ac na fydd yn ailddigwydd.

Rydym wedi dechrau cynnal rhaglen waith i gyflawni'r nod hwn; a gychwynwyd gan waith y [Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd](#) ac yn sgil cyhoeddi ein strategaeth yn 2019, drwy ein hymateb i ffactorau allanol gan gynnwys pandemig byd-eang ac argyfwng costau byw sy'n dal i fynd rhagddo, a gwaith i gyflawni ein hymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu i ddiwygio gwasanaethau digartrefedd yn sylfaenol, i ganolbwyntio ar atal ac Ailgartrefu Cyflym.

Mae angen diwygiadau deddfwriaethol sylweddol er mwyn cyflawni'r trawsnewid systemig hwn, ac rwy'n falch o gyflwyno ar gyfer newidiadau i'r gyfraith yn y Papur Gwyn hwn.

Mae'r cynigion yn seiliedig ar argymhellion a chynghor a roddwyd i Lywodraeth Cymru gan Banel Adolygu Arbenigol Annibynnol, a gadeiriwyd gan yr Athro Suzanne Fitzpatrick ac a lywiwyd gan waith ymgysylltu ar raddfa eang â rhanddeiliaid a defnyddwyr gwasanaethau, dan arweiniad Crisis a Cymorth Cymru. Rwy'n ddiolchgar i'r Panel Adolygu Arbenigol sydd wedi gweithio mewn modd cydweithredol ac adeiladol i ddatblygu pecyn o gynigion deddfwriaethol a chynigion polisi ehangach, sydd â'r nod o roi diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru.

Fel y cyfeiria'r Panel yn ei adroddiad, mae'r cynigion yn cynrychioli newid sylweddol yn y ffordd y caiff digartrefedd ei reoli yng Nghymru, nid yn unig gan y rhai sy'n gweithio mewn awdurdodau tai lleol a'r sector tai ehangach, ond ym mhob rhan o'r gwasanaeth cyhoeddus. Rydym wedi cydnabod ers tro na ellir atal digartrefedd drwy ddarparu tai yn unig, a bod gan bob gwasanaeth cyhoeddus a'r trydydd sector ran i'w chwarae er mwyn rhoi diwedd arno. Fel y gwnaethom nodi yn ein strategaeth 2019, mae Llywodraeth Cymru yn ei chyfanrwydd yn ymrwymedig i'r ffordd hon o weithio a bydd y cynigion uchelgeisiol a phellgyrhaeddol hyn yn creu'r system ddigartrefedd a fydd yn gwireddu'r weledigaeth hon. Os cânt eu datblygu'n ddeddfwriaeth, bydd ein cynigion yn trawsnewid profiad pobl sy'n ddigartref ac sy'n wynebu risg o ddigartrefedd, ac yn arwain at newid sylfaenol yn y system ddigartrefedd a rôl y gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio ynddi ac sy'n cydweithio â hi.

Fel y nododd y Panel Adolygu Arbenigol, mae'r trawsnewid hwn yn hollbwysig oherwydd, drwy ehangu cyfrifoldeb am atal digartrefedd, byddwn yn creu cyfle i atal yr anfantais, trawma a tharfu ehangach y gall digartrefedd eu hachosi. Drwy wneud hynny, cawn gyfle i wella llesiant unigolion a'u cyfleoedd mewn bywyd, lleihau risgiau iechyd a chynyddu disgwyliad oes. O ganlyniad i hynny, dros y tymor hwy, gallwn leihau'r baich ar ein gwasanaethau cyhoeddus.

Bydd rhoi diwygiadau ar waith ar raddfa mor fawr yn her, a byddai'n esgeulus peidio â chydabod, wrth inni gyhoeddi'r Papur Gwyn, fod Llywodraeth Cymru yn wynebu ei sefyllfa ariannol anoddaf ers datganoli; o ganlyniad i lefelau chwyddiant uwch nag erioed o'r blaen, camreoli'r economi a chyllid cyhoeddus gan lywodraethau olynol y DU dros y 13 mlynedd diwethaf, ac oherwydd ymrwymadau heb eu cyllido a wnaed gan Lywodraeth y DU, yn enwedig mewn perthynas â chyflogau'r sector cyhoeddus.

Rwy'n ymrwymedig i weithio'n agos gyda'n partneriaid i brofi ein cynigion a chydweithio wrth inni gynllunio ar gyfer eu rhoi ar waith yn y dyfodol. Byddwn yn dibynnu ar bartneriaethau cryf rydym wedi'u sefydlu, gan wneud gwell defnydd o'r systemau sydd eisoes yn bodoli, ac

ar yr arloesedd a'r creadigrwydd sydd yn y sector tai i roi diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru. Ni allwn ganiatáu i'r heriau sy'n ein hwynebu heddiw ddadwneud y cynnydd rydym yn ei wneud na lleihau ein huchelgais ar gyfer dyfodol Cymru.

Yn olaf ac yn bwysicaf oll, hoffwn ddiolch i bob un o'r unigolion a rannodd eu profiadau personol o ddigartrefedd â ni. Mae ein cynigion yn seiliedig ar eich dealltwriaeth a'ch arbenigedd. Rwy'n gobeithio y byddwch yn gweld eich cyfraniad ac rwy'n gobeithio y bydd ein cynigion yn arwain at y newid ystyrllon rydych wedi gofyn inni amdano. Edrychaf ymlaen at barhau i weithio gyda chi a gwasanaeth cyhoeddus Cymru i roi diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru.



Julie James AS/MS  
Gweinidog Newid Hinsawdd  
Minister for Climate Change



## Cyflwyniad

1. Mae'r Papur Gwyn hwn yn nodi amrywiaeth o gynigion ar gyfer newidiadau i bolisïau a'r gyfraith, er mwyn rhoi diwedd ar ddirgaredd yng Nghymru.

2. Mae'r cynigion yn y Papur Gwyn hwn yn rhan o broses hirdymor o drawsnewid y system dirgaredd a thai, fel y nodir yn y Rhaglen Lywodraethu<sup>4</sup> a'r Cytundeb Cydweithio.<sup>5</sup> Cyn ystyried y cynigion yn y Papur Gwyn hwn, gall fod yn ddefnyddiol i'r darllenydd ymglyfarwyddo â rhan 2 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 (y Ddeddf Tai).<sup>6</sup> Y Ddeddf hon sy'n darparu'r fframwaith deddfwriaethol presennol sy'n llywodraethu gwasanaethau dirgaredd, a chyfeirir ati drwy gydol y ddogfen hon. Mae llawer o'r cynigion yn y ddogfen hon yn ymwneud â diwygio'r deddfwriaeth hon.

3. Yn gyntaf, bydd y Papur Gwyn yn nodi'r cefndir a'r cyd-destun polisi ar gyfer y diwygiadau deddfwriaethol arfaethedig cyn amlinellu ein cynigion o dan bum prif thema:

- Diwygio'r deddfwriaeth graidd bresennol mewn perthynas â dirgaredd.
- Rôl gwasanaeth cyhoeddus Cymru o ran atal dirgaredd.
- Cynigion wedi'u targedu er mwyn atal dirgaredd ar gyfer pobl yr effeithir yn anghymesur arnynt.
- Mynediad at dai.
- Gweithredu.

4. Ar gyfer pob cynnig, byddwn yn nodi beth yw'r gyfraith bresennol, sut mae'r gyfraith yn gweithio'n ymarferol a sut rydym yn cynnig newid y gyfraith er mwyn sicrhau bod dirgaredd yng Nghymru yn beth prin a byrhoedlog nad yw'n ailddigwydd.

5. Ynghyd â'r Papur Gwyn hwn, cyhoeddir Asesiad Effaith Integredig sy'n cynnwys ein Hasesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ac Asesiad Effaith Rheoleiddiol sy'n nodi ein hasesiad cynnar o gostau a manteision ein cynigion.

## Cefndir

6. Mae'r cynigion yn y Papur Gwyn hwn yn seiliedig ar argymhellion a chynghor a roddwyd i Lywodraeth Cymru gan Banel Adolygu Arbenigol annibynnol ("[y Panel](#)"), a alwyd ynghyd gan y Gweinidog Newid Hinsawdd i adolygu'r deddfwriaeth bresennol mewn perthynas â rhoi diwedd ar ddirgaredd yng Nghymru, a gwneud argymhellion penodol ar gyfer diwygiadau cyfreithiol.<sup>7</sup>

7. Rhwng mis Awst 2022 a mis Awst 2023, mae'r Panel, a gadeirir gan yr Athro Suzanne Fitzpatrick, wedi ystyried y deddfwriaeth bresennol sydd ar waith yng Nghymru a ledled y Deyrnas Unedig, ochr yn ochr â thystiolaeth gan wasanaethau a phobl â phrofiad personol o ddirgaredd ac arbenigwyr mewn ymarfer, polisi ac

<sup>4</sup> [Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru: diweddariad \[HTML\] | LLYW.CYMRU](#)

<sup>5</sup> [Y Cytundeb Cydweithio: 2021 | LLYW.CYMRU](#)

<sup>6</sup> [Deddf Tai \(Cymru\) 2014 \(legislation.gov.uk\)](#)

<sup>7</sup> [Panel Adolygu Arbenigol Cymru \(crisis.org.uk\)](#)

ymchwil ym maes digartrefedd. Mae Llywodraeth Cymru wedi gweithio'n agos gyda'r Panel i datblygu'r Papur Gwyn hwn ochr yn ochr â'i waith. Mae hyn wedi cynnwys ystyried argymhellion mewn modd iteraidd wrth iddynt ddatblygu, cynnal profion ychwanegol ar y cynigion hyn ym mhob rhan o Lywodraeth Cymru a chydag awdurdodau lleol a phartneriaid eraill o bob cwr o Gymru, ynghyd â chynnal asesiad helaeth o'r effaith.

8. Rydym yn ddiolchgar i'r Panel am ei waith trylwyr, cynhwysfawr ac ystyriol dros y flwyddyn ddiwethaf ac am ei adroddiad a'i argymhellion sydd ar gael [yma](#).

9. Er bod y Papur Gwyn hwn yn seiliedig ar argymhellion y Panel i raddau helaeth, nid yw'n eu hailadrodd yn fanwl. Er enghraifft, mae'r Panel wedi nodi sawl argymhelliad sy'n ymwneud â datblygu canllawiau statudol i ategu deddfwriaeth ac ni chaiff y cynigion hynny ynglŷn â chanllawiau eu harchwilio'n fanwl yn y Papur Gwyn hwn. Prif ddiben y Papur Gwyn hwn yw cyflwyno amrywiaeth o gynigion deddfwriaethol lefel uchel i'r cyhoedd yng Nghymru, er mwyn llywio'r gwaith o ddatblygu Bil yn y dyfodol. Bydd y cynigion hyn yn canolbwyntio ar egwyddorion, syniadau, a bwriad, yn hytrach na manylion y strwythur deddfwriaethol newydd.

10. Wrth inni ystyried yr ymatebion a gawn drwy'r ymgynghoriad hwn, byddwn yn mireinio ac yn gwella ein cynigion er mwyn datblygu deddfwriaeth i'r Senedd ei hystyried. Wrth i'r gwaith hwn fynd rhagddo, byddwn yn datblygu canllawiau manwl i ategu'r deddfwriaeth arfaethedig, a gobeithiwn ddefnyddio'r naratif manwl yn adroddiad y Panel, ynghyd â'r ymatebion i'r ymgynghoriad, wrth inni wneud hynny.

11. Wrth i'r cynigion yn y Papur Gwyn gael eu mireinio, rydym yn bwriadu gweithio'n agos gyda rhanddeiliaid; yn enwedig y rhai sy'n gweithio mewn awdurdodau tai lleol, y sector tai ehangach a'r gwasanaeth cyhoeddus, i ddylunio cynllun gweithredu sy'n sicrhau strategaeth gyflawnadwy sy'n cyd-fynd ag uchelgais a graddfa'r diwygiadau hyn ac sy'n dysgu ac yn rhannu arferion gorau a chymorth gan gymheiriaid. Rydym hefyd yn cydnabod y bydd rhoi'r diwygiadau ar waith yn creu angen sylweddol am hyfforddiant, a byddwn yn gweithio gyda'r sector i ystyried y ffordd orau o ddiwallu'r angen hwn wrth i Fil gael ei fireinio yn y dyfodol.

## **Datblygu'r Papur Gwyn**

12. Mae gwaith y Panel a'r gwaith o ddatblygu'r Papur Gwyn hwn yn seiliedig ar brofiad personol pobl o ddigartrefedd.

13. Mae Cymorth Cymru wedi gweithio gyda mwy na 300 o bobl i roi tystiolaeth i'r Panel ynglŷn â realiti bod yn ddigartref yng Nghymru. Fel rhan o'r gwaith hwn, ymgysylltodd Cymorth Cymru â phobl sy'n byw ym mhob rhan o Gymru, gan gynnwys pobl sy'n byw mewn llety dros dro, pobl ifanc, pobl sy'n gadael gofal, goroeswyr cam-drin a phobl yn y carchar. Mae sawl adroddiad sy'n crynhoi'r gwaith ymgysylltu hwn wedi ei gyhoeddi ar wefan Cymorth Cymru.<sup>8</sup>

14. Er mwyn sicrhau bod lleisiau a phrofiadau pobl â nodweddion gwarchoddedig yn llywio'r gwaith hwn, gwnaethom gomisiynu Tai Pawb i gasglu tystiolaeth o brofiadau

---

<sup>8</sup> [Arbenigwyr trwy Brofiad \(cymorthexperts.cymru\)](#)

pobl â nodweddion gwarchoddedig o ddigartrefedd.<sup>9</sup> Fel rhan o'r gwaith hwnnw, rydym wedi ymgysylltu â cheiswyr lloches, ffoaduriaid, pobl anabl, pobl Ddu, Asiaidd ac ethnig leiafrifol, Sipsiwn a Theithwyr, pobl hŷn a phobl LHDTC+.

15. Rydym hefyd wedi gweithio gydag elusen Plant yng Nghymru er mwyn deall profiad plant dibynnol o ddigartrefedd. Mae'r gwaith hwn wedi datgelu prinder sylweddol o waith ymchwil ar y grŵp hwn a'r angen i wneud rhagor o waith fel rhan o'r broses ymgynghori.

16. Mae'r profiadau a rannwyd gan y bobl yr ymgysylltwyd â nhw gan Cymorth Cymru a Tai Pawb yn rhoi'r dystiolaeth graidd ar gyfer y cynigion sydd yn y Papur Gwyn hwn, p'un a ydynt yn argymhellion penodol sydd wedi'u targedu er budd grŵp gwarchoddedig penodol neu'n rhan o'n huchelgeisiau polisi ehangach. Byddwn yn parhau i ymgysylltu â phobl sydd â phrofiad personol drwy gydol y cyfnod ymgynghori er mwyn parhau i ddatblygu ein cynigion.

17. Yn ogystal ag ymgysylltu â phobl sydd â phrofiad personol, rydym hefyd wedi mynd ati mewn partneriaeth â Crisis Cymru i gynnal amrywiaeth o ddigwyddiadau er mwyn ymgysylltu â rhanddeiliaid, gan gynnwys:

- pedwar digwyddiad rhanbarthol i rhanddeiliaid ar gyfer y trydydd sector, awdurdodau lleol a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig;
- wyth digwyddiad rhithwir ar gyfer ymgysylltu â rhanddeiliaid ar amrywiaeth o bynciau gan gynnwys digartrefedd a thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, rôl iechyd a gofal cymdeithasol, iechyd meddwl a defnyddio sylweddau, anabledd a'r System Cyfiawnder Troseddol;<sup>10</sup>
- Chwe chyfarfod wythnosol â landlordiaid cymdeithasol cofrestredig, a alwyd ynghyd gan Cartrefi Cymunedol Cymru
- Grŵp cyfeirio, a gynhaliwyd bob mis gyda 21 o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru<sup>11</sup>;
- comisiynu darn o waith ymchwil ar arferion sy'n gysylltiedig â dyrannu tai cymdeithasol yng Nghymru a digwyddiad cenedlaethol i drafod y canfyddiadau;
- bod yn bresennol mewn amrywiaeth o gyfarfodydd, cynadleddau a byrddau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i rhanddeiliaid am y gwaith.

## Y cyd-destun polisi

18. Mae'r dirwedd y mae gwasanaethau tai a digartrefedd yn gweithio ynddi wedi newid mewn ffordd ddi-droi'n-ôl ers i Lywodraeth Cymru ddeddfu yn y maes hwn am y tro cyntaf yn 2014. Yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf y mae rhai o'r newidiadau mwyaf arwyddocaol wedi digwydd, wrth i bandemig y Coronafeirws, y rhyfel yn Wcráin a'r argyfwng costau byw effeithio ar bob rhan o'r system dai yng Nghymru.

19. Mae angen diwygiadau deddfwriaethol sylweddol er mwyn cyflawni'r trawsnewid systemig sy'n angenrheidiol er mwyn ymateb i'r newidiadau hyn a mynd i'r afael ag

<sup>9</sup> [Experiences-of-homelessness-Final-Version-PDF.pdf \(taipawb.org\)](#)

<sup>10</sup> [Panel Adolygu Arbenigol Cymru \(crisis.org.uk\)](#)

<sup>11</sup> Nid oedd staff ar gael o un awdurdod lleol i gymryd rhan.

anghenion ac amgylchiadau pobl sy'n ddigartref neu sy'n wynebu risg o ddigartrefedd yng Nghymru.

20. Mae Llywodraeth Cymru yn am roi diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru. Lle na ellir atal profiad unigolyn o ddigartrefedd, rydym yn ymrwymedig i sicrhau y bydd y profiad o ddigartrefedd yn brin ac yn fyrhoedlog ac na fydd yn ailddigwydd. Er mwyn cyflawni'r ymrwymiad hwn, rhaid i'r gwasanaeth digartrefedd a'r gwasanaeth cyhoeddus ehangach allu ymyrryd yn gynharach a chanolbwyntio ar atal.

21. Lle na fydd yr ymyriad cynharach hwn yn gweithio, mae Ailgartrefu Cyflym yn hanfodol er mwyn lleihau effaith ddinistriol digartrefedd a sicrhau na fydd yn digwydd eto.

22. Nod Ailgartrefu Cyflym, sef dull gweithredu a gydnabyddir yn rhyngwladol, yw helpu i leihau'r defnydd o lety dros dro i'r eithaf a gwella mynediad at dai sefydlog cyn gynted â phosibl. Ni ddylid diystyru buddiannau tai diogel, sefydlog a hunangynhwysol i bobl sydd wedi profi digartrefedd neu sydd wedi wynebu risg o ddigartrefedd. Yn y tymor hwy, dylid darparu cartrefi o'r fath i'r mwyafrif o bobl sy'n ddigartrefedd cyn gynted â phosibl. Bydd hyn yn helpu i osgoi'r effeithiau dadsefydlogol ac ymyleiddiol sy'n gysylltiedig â bod yn ddigartref am gyfnodau hir neu gyfnodau hir o aros mewn lleoliadau brys neu leoliadau dros dro wrth barhau i fod yn ddigartref.

23. Mae Ailgartrefu Cyflym yn seiliedig ar ddull systematig o ddeall pa dai sydd eu hangen, sut y caiff y tai hynny eu hariannu, eu datblygu a'u dyrannu i bobl ddigartref. Mae'r dull hwn, pan gaiff ei roi ar waith yn briodol, yn golygu y bydd yr angen am lawer o fathau o lety dros dro yn lleihau dros amser a, phan fydd angen llety dros dro, mai dim ond am gyfnod byr y dylai fod angen i berson aros yno. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllawiau ar Ailgartrefu Cyflym.<sup>12</sup>

24. Ar hyn o bryd, mae'r galw am bob math o lety yn fwy na'r cyflenwad. Ar ben hynny, a heb ystyried lleoliad, mae gallu person neu deulu i gael gafael ar adnodd tai cyfyngedig yn dibynnu ar fforddiadwyedd, mynediad at amrywiaeth o opsiynau tai a phrosesau dyrannu. I bobl anabl, pobl y mae angen iddynt gael cymorth gan fwy nag un gwasanaeth cymorth a rhai grwpiau ethnig gwarchoddedig, fel Sipsiwn a Theithwyr, gall hygyrchedd fod yn llai byth.

25. Ochr yn ochr â datblygu diwygiadau deddfwriaethol, mae Llywodraeth Cymru yn datblygu amrywiaeth o fentrau polisi a champau gweithredu, gan weithio'n agos gydag awdurdodau lleol a phartneriaid eraill i leihau profiad unigolion o gyfnodau estynedig mewn llety dros dro, a allai fod yn niweidiol. Rydym yn disgwyl gweld proses systematig a strategol yn datblygu sy'n cysylltu'r gwaith o ddatblygu, cefnogi a chyflenwi tai â'r angen am dai. Bydd y broses hon yn gwella mynediad ac effeithlonrwydd o ran helpu aelwydydd sy'n ddigartref i symud i gartrefi sefydlog priodol gyda'r cymorth sydd ei angen arnynt.

26. Dechreuodd y gwaith i gyflawni'r trawsnewid hwn ym mis Mehefin 2019 pan ddechreuodd y Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd ar ei waith i wneud argymhellion

---

<sup>12</sup> [Ailgartrefu Cyflym: canllawiau \[HTML\] | LLYW.CYMRU](#)

polisi i Lywodraeth Cymru er mwyn rhoi diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru.<sup>13</sup> Yn yr un flwyddyn, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei strategaeth sy'n nodi ein huchelgais i roi diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru drwy sicrhau ei fod yn brin, yn fyrhoedlog ac nad yw'n ailddigwydd.<sup>14</sup>

27. Er mwyn adeiladu ar y gwaith hwn, mae Rhaglen Lywodraethu 2021 – 2026 Llywodraeth Cymru a'r Cytundeb Cydweithio yn cynnwys ymrwymiad i ddiwygio gwasanaethau digartrefedd mewn ffordd sylfaenol, i ganolbwyntio ar atal ac Ailgartrefu Cyflym, drwy gyflwyno pecyn o ddiwygiadau deddfwriaethol er mwyn creu newid sylweddol yn ein system ddigartrefedd.

---

<sup>13</sup> [Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd | LLYW.CYMRU](#)

<sup>14</sup> [Strategaeth ar ddigartrefedd | LLYW.CYMRU](#)



## Yr achos dros newid

### Deddf Tai (Cymru) 2014 (“y Ddeddf Tai 2014”).

28. Mae'r mwyafrif o'r diwygiadau arfaethedig yn y Papur Gwyn hwn yn ymwneud â rhan 2 o'r Ddeddf Tai 2014 (gwasanaethau digartrefedd) sy'n nodi amrywiaeth o ddyletswyddau statudol i awdurdodau lleol sy'n canolbwyntio ar ddarparu llety a gwasanaethau atal digartrefedd.

29. Cyflwynodd y Ddeddf Tai 2014 nifer o newidiadau i'r ffordd yr eid i'r afael â digartrefedd yng Nghymru ac roedd yn cynnwys ffocws cadarn ar ymyrryd yn gynnar; gan sicrhau bod help ar gael i unrhyw un a oedd yn wynebu risg o ddigartrefedd. Roedd y Ddeddf Tai 2014 yn ceisio lleihau'r pwyslais ar y cysyniad o angen blaenoriaethol fel prawf ar gyfer mynediad at gymorth digartrefedd ac roedd yn cynnwys llety rhent preifat fel ateb posibl i fynd i'r afael â digartrefedd. Roedd y Ddeddf Tai 2014 hefyd yn ceisio sefydlu ffyrdd y byddai awdurdodau lleol ac ymgeiswyr am wasanaethau digartrefedd yn cydweithio â'i gilydd er mwyn atal unigolion rhag cael eu gwneud yn ddigartref a hwyluso partneriaeth gryfach rhwng sefydliadau er mwyn atal digartrefedd, darparu llety addas a rhoi cymorth i bobl sy'n ddigartref yn eu hardal leol. Golygai hyn fod mwy o bobl yn cael cynnig hawl i gymorth na chyn i'r ddeddfwriaeth ddod i rym ac nad cynnig tai cymdeithasol oedd y prif fath o gymorth a oedd ar gael mwyach; yn lle hynny, gallai awdurdodau lleol gyflawni eu dyletswyddau digartrefedd yn haws drwy gynnig llety yn y sector preifat.

30. Ymhlith y prif newidiadau a wnaed drwy'r Ddeddf Tai 2014 roedd:

- Cyflwyno dyletswyddau newydd ar awdurdodau lleol i helpu i atal digartrefedd ar gyfer unrhyw un sy'n gofyn am help, a chymryd ‘camau rhesymol’ i atal neu leihau digartrefedd.
- Newid diwylliant sefydliadau fel sail i ddull sy'n canolbwyntio ar unigolion/gweithio mewn partneriaeth rhwng awdurdodau lleol a phobl sy'n gofyn am gymorth.
- Cynyddu'r amser pan ystyrir bod pobl dan fygythiad o ddigartrefedd o 28 diwrnod i 56 diwrnod ac ymestyn y ddyletswydd i atal i bawb, nid dim ond pobl ag angen blaenoriaethol.
- Newidiadau i'r ffordd y caiff darpariaethau angen blaenoriaethol, bwriadoldeb a chysylltiad lleol eu rhoi ar waith.
- Creu fframwaith newydd er mwyn cynnwys cymdeithasau tai yn y gwaith o leihau digartrefedd.
- Creu fframwaith newydd er mwyn gweithio gyda'r sector rhentu preifat i leihau digartrefedd.

### Effaith Deddf Tai (Cymru) 2014

#### Newid i ddiwylliant o atal

31. Yn 2018, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru werthusiad er mwyn asesu'r ffordd y cafodd y Ddeddf Tai 2014 ei gweithredu a'i heffaith, gan ddefnyddio data ansoddol a

meintiol<sup>15</sup>. Dangosodd y gwerthusiad hwn gefnogaeth unfrydol i ethos a bwriad y Ddeddf ymhlith awdurdodau lleol a darparwyr gwasanaethau a gymerodd ran, a gwelwyd tystiolaeth bellach o effeithiau ymarferol cadarnhaol o ran gweithgareddau atal a chanlyniadau defnyddwyr gwasanaethau. Ar adeg cyhoeddi'r ddogfen hon, roedd ystadegau swyddogol ar ddiartrefedd hefyd yn cadarnhau'r honiadau o effeithiau cadarnhaol, gan fod digartrefedd wedi cael ei atal ar gyfer bron i ddwy ran o dair o aelwydydd dan fygythiad o ddiartrefedd a bod dwy ran o bump o aelwydydd digartref wedi cael rhyddhad rhag digartrefedd yn ar ôl i'r Ddeddf gael ei gweithredu.

32. Canfu'r gwerthusiad fod awdurdodau lleol ledled Cymru wedi croesawu'r cysyniad o gymryd "camau rhesymol" mewn modd strategol, gan arwain at ganlyniadau gwell i bobl a oedd yn ddiartrefedd neu dan fygythiad o ddiartrefedd. Fodd bynnag, ochr yn ochr ag effeithiolrwydd gwaith atal, gwelwyd bod hyn yn amrywio'n sylweddol ledled Cymru ac o fewn ardaloedd awdurdodau lleol. Roedd y gwerthusiad yn nodi'n glir fod angen gwneud rhagor o waith i roi'r dull sy'n canolbwyntio ar unigolion a welir yn y Ddeddf Tai 2014 ar waith yn llwyr.

### **Yr angen am newid systemig pellach**

33. Er gwaethaf tystiolaeth o ganlyniadau cadarnhaol amrywiol, tynnodd y gwerthusiad sylw hefyd at nifer o heriau parhaus mewn perthynas â gweithredu'r Ddeddf Tai 2014 yn llwyddiannus, gan gynnwys gwrthwynebiad i newid ymhlith rhai aelodau o staff, anawsterau wrth ddefnyddio systemau newydd a gyflwynwyd gan y Ddeddf, ac anghysondebau o ran safon arferion casglu data. Fodd bynnag, mae'n bosibl mai'r testun pryder mwyaf oedd yr awgrym, er bod awdurdodau lleol yn parhau i *'ymateb i ddiartrefedd a'r problemau y mae'n eu hachos'*, nad yw'r ddeddfwriaeth yn mynd i'r afael â'r ffactorau strwythurol sy'n achosi digartrefedd o hyd. Roedd hyn yn cael ei gymhlethu gan gynnydd yn y galw am wasanaethau digartrefedd a oedd, ynghyd â'r ffaith nad oedd digon o lety ar gael i bobl symud i mewn iddo, yn cael effaith negyddol ar allu awdurdodau lleol i atal digartrefedd a chynnig rhyddhad rhag digartrefedd.<sup>16</sup>

34. Mae Monitor Digartrefedd: Cymru 2021, a gomisiynwyd ac a ariannwyd gan Crisis, <sup>17</sup>yn nodi, er bod y Ddeddf Tai 2014 yn sicr wedi cynyddu ymatebion awdurdodau lleol i geisio atal digartrefedd, fod lle i wella; gan ddweud y dylid adolygu hyd y cyfnod ar gyfer gweithgarwch atal (56 diwrnod) ac ystyried i bwy y dylai dyletswyddau atal fod yn gymwys er mwyn mynd i'r afael â'r galw cynyddol ar y system yn well.

35 Ers 2014, mae niferoedd cyffredinol y bobl sy'n cysylltu ag awdurdodau lleol er mwyn atal digartrefedd a chael rhyddhad o ddiartrefedd wedi cynyddu ac mae awdurdodau lleol yn helpu mwy o bobl dan y dyletswyddau perthnasol nag erioed o'r blaen. Fodd bynnag, mae cyfran y bobl a gaiff eu helpu'n llwyddiannus o dan y dyletswyddau hyn yn aros yr un fath ar y cyfan o un flwyddyn i'r llall. Mae rhai wedi awgrymu mai cyfyngiadau yn y Ddeddf Tai 2014 a'r adnoddau sydd ar gael i

---

<sup>15</sup> A. Ahmed, M. Rogers, M. Wilding, A. Gibbons, K. Jones, I. Madoc-Jones (2018) Gwerthusiad ôl-weithredu o Ran 2 Deddf Tai (Cymru) 2014: Adroddiad Terfynol.

<sup>16</sup> Ibid

<sup>17</sup> Fitzpatrick, S., Pawson, H., Bramley, G., Young, G., Watts, B. a Wood, J. (2021) Y Monitor Digartrefedd: Cymru 2021. Llundain: Crisis

awdurdodau lleol er mwyn atal digartrefedd rhag digwydd yn y lle cyntaf sy'n gyfrifol am hyn.<sup>18</sup>

36. Hefyd, mae rhai wedi dweud bod awdurdodau lleol, drwy gymryd y “camau rhesymol” sy'n ofynnol gan y Ddeddf Tai, yn aml yn cael eu cyfyngu i arlwy safonol o weithgareddau sy'n canolbwyntio ar atal digartrefedd nad ydynt yn ei gwneud yn bosibl dilyn y dull sy'n canolbwyntio ar unigolion ac sydd wedi'i deilwra'n helaeth a ddychmygir gan y Ddeddf Tai 2014<sup>19</sup>. Mae hyn yn aml yn gysylltiedig â mynediad at adnoddau ariannol i roi'r ddeddfwriaeth ar waith.

37. Er bod y Ddeddf Tai 2014 wedi gwella mynediad at gymorth digartrefedd ar y cyfan, mae tystiolaeth yn dangos bod canlyniadau ar gyfer rhai grwpiau yn wael o hyd. Bu cynnydd yn nifer y bobl sy'n ddigartref ac ar y stryd rhwng cyflwyno'r Ddeddf Tai 2014 a dechrau pandemig y Coronafeirws yn 2020. Cyn hyn, nid oedd modd atal digartrefedd pobl a oedd yn ddigartref ac ar y stryd ac, yn aml, nid oeddent yn cyrraedd y trothwy o ran bod yn agored i niwed i gael eu hystyried yn bobl ag angen blaenoriaethol, neu nid oeddent yn ei gyrraedd ym marn yr awdurdod lleol. Mae tystiolaeth o'r gwerthusiad a gyhoeddwyd yn 2018 yn awgrymu mai'r grŵp hwn a gafodd y budd lleiaf o'r newidiadau a gyflwynwyd gan y Ddeddf Tai 2014.<sup>20</sup>

38. Mae canlyniadau ar gyfer pobl sengl, yn enwedig pobl o dan 35 oed, yn anfoddhaol o hyd, er gwaethaf newidiadau pellach i'r gyfraith ers y Ddeddf Tai 2014. Gellir priodoli hyn yn rhannol i bwysau cynyddol yn y system, prinder llety fforddiadwy priodol a chymhlethdod cynyddol anghenion pobl. Gall hefyd fod yn gysylltiedig â pholisi lles Llywodraeth y DU; yn enwedig effaith yr hyn a elwir yn Dreth Ystafell Wely a rhewi cyfradd y Lwfans Tai Lleol. Mae cyfradd ddisymud y Lwfans Tai Lleol yn arbennig o broblemus am ei bod yn lleihau'r adnoddau sydd ar gael i aelwydydd incwm isel yng Nghymru ac yn effeithio ar eu gallu i fforddio rhenti'r sector preifat. Mae hyn yn destun pryder sylweddol, gan fod y gallu i roi'r Ddeddf Tai ac unrhyw ddiwygiadau yn y dyfodol ar waith yn llwyddiannus yn dibynnu ar allu awdurdodau lleol i gyflawni dyletswyddau digartrefedd drwy'r sector rhentu preifat.

39. Er gwaethaf yr ethos cadarn o weithio mewn partneriaeth, nid yw'r Ddeddf Tai 2014 wedi cyflawni'r cryfder partneriaeth rhwng sefydliadau sy'n ofynnol i roi diwedd ar ddigartrefedd. Mae Llywodraeth Cymru yn glir nad dim ond mater sy'n ymwneud â thai yw digartrefedd, ac ategir hyn gan Arbenigwyr drwy Brofiad hefyd. Mewn llawer o achosion (ond nid pob un) mae'n broblem sy'n deillio o amrywiaeth o faterion cymhleth gan gynnwys defnyddio sylweddau, problemau iechyd meddwl neu salwch meddwl, teuluoedd yn chwalu, cam-drin, materion ariannol neu ymwneud â'r System Cyfiawnder Troseddol, sy'n gofyn am ymateb amlddisgyblaethol. Mewn gormod o achosion, mae gwasanaethau digartrefedd yn gweithio gyda phobl sydd â bywydau hynod gymhleth ac anhrefnus heb gymorth partneriaid arbenigol. Bydd angen i ddiwygiadau deddfwriaethol ystyried a ellid gwneud mwy i atgyfnerthu ymatebion amlasiantaethol i bobl ag anghenion lluosog er mwyn atal digartrefedd, sicrhau y gall

---

<sup>18</sup> Ibid

<sup>19</sup> [MacKie, Peter K., Thomas, Ian](#) a Bibbings, Jennie 2017. Atal digartrefedd: Reflecting on a year of pioneering Welsh legislation in practice. *European Journal of Homelessness* 11 (1) , tt. 81-107.

<sup>20</sup> Gwerthusiad ôl-weithredu o Ran 2 Deddf Tai (Cymru) 2014: Adroddiad Terfynol (llyw.cymru)

unigolion gadw eu cartrefi newydd a sicrhau y caiff y risg o ddigartrefedd mynych ei lleihau cymaint â phosibl.

## Effeithiau Allanol

40. Yn y degawd ers i'r Ddeddf Tai 2014 gael ei datblygu, mae ffactorau allanol, gan gynnwys pandemig byd-eang, ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd, y rhyfel yn Wcráin ar argyfwng costau byw, wedi newid y cyd-destun strategol yn sylweddol ac wedi dwysáu'r pwysau yn y system dai. O ganlyniad i hynny, rydym wedi gweld cynnydd yn y galw a chymhlethdod cynyddol ymhlith y bobl sy'n cysylltu â gwasanaethau, ynghyd â phrinder llety sydd ar gael i bobl a heriau sy'n gysylltiedig ag adeiladu cartrefi addas yn ddigon cyflym i fodloni'r galw, oherwydd heriau mewn cadwyni cyflenwi a phrinder llafur. Ar adeg ysgrifennu'r ddogfen hon, mae Cymru'n parhau i wynebu effeithiau'r argyfwng costau byw a all gynyddu nifer y bobl sy'n wynebu risg o ddigartrefedd, wrth i renti a morgeisi barhau i lyncu mwy o incymau pobl ac wrth i'r straen ar gyllidebau ar gyfer darparu gwasanaethau gynyddu.

41. Gellir dadlau mai'r ffactor allanol mwyaf arwyddocaol oedd pandemig COVID-19. Ar ddechrau 2020, wrth i ddifrifoldeb posibl y pandemig ddod yn hysbys, rhoddodd Llywodraeth Cymru ganllawiau a chyllid ychwanegol i awdurdodau lleol er mwyn sicrhau bod pawb a oedd yn dod i gysylltiad â gwasanaethau digartrefedd nad oedd ganddynt lety yn cael y llety a'r cymorth roedd eu hangen arnynt i gadw'n ddiogel. Cafodd hyn ei alw'n bolisi 'neb heb help'. Os oedd angen, gofynnwyd i awdurdodau gaffael lle mewn llety gwely a brecwast (ynghyd â mathau eraill o lety dros dro, gan gynnwys gwestai). Yn ddealladwy ddigon, arweiniodd hyn at gynnydd yn nifer y bobl a oedd yn aros mewn safleoedd o'r fath. Roedd hyn yn angenrheidiol am nad oedd llety arall ar gael ac er mwyn lliniaru risgiau i iechyd y cyhoedd a helpu pobl a fyddai wedi bod yn ddigartref ac ar y stryd neu'n mynd o sofffa i sofffa yn flaenorol.

42. Rhwng dechrau pandemig COVID-19 a diwedd mis Mehefin 2023, mae mwy na 38,600 o bobl a oedd yn ddigartref yn flaenorol wedi cael eu helpu i symud i lety brys dros dro. Felly, mae'r ymateb i ddigartrefedd yn ystod y pandemig wedi datgelu graddau gwirioneddol digartrefedd yng Nghymru.

43. Am fod y pandemig wedi creu pwysau ychwanegol ar aelwydydd ac wedi cynyddu nifer y bobl ddigartref a oedd yn dod i gysylltiad â gwasanaethau digartrefedd, y disgwyliad oedd y byddai nifer y bobl hynny'n lleihau wrth i'r pandemig a'r risg i iechyd y cyhoedd leddfu, ac y byddai anterth lefelau digartrefedd yn cael eu gweld yn ystod y pandemig. Nid felly y bu hi, a hynny i raddau helaeth oherwydd pwysau eraill ar aelwydydd yn sgil yr argyfwng costau byw a'r pwysau ehangach ar y cyflenwad tai. Mae'r data diweddaraf sydd ar gael yn dangos bod nifer y bobl ddigartref a nifer y bobl a gaiff eu lleoli mewn llety dros dro yn uwch nag a welwyd yn ystod y pandemig.<sup>21</sup>

44. Ar adeg ysgrifennu'r ddogfen hon, mae 10,869 o unigolion mewn llety dros dro ledled Cymru, ac mae 3,346 ohonynt yn blant dibynnol dan 16 oed (nid yw hyn yn cynnwys pobl o Wcráin mewn llety uwch-noddwr cychwynnol). Oherwydd pwysau ehangach yn y system dai, mae opsiynau i symud ymlaen o lety dros dro yn

---

<sup>21</sup> [Darpariaeth llety digartrefedd a chysgu allan: Mehefin 2023 | LLYW.CYMRU](#)

gyfyngedig iawn ac, yn ystod y mis diwethaf pan gafodd y data hyn eu casglu, dim ond 582 o unigolion digartref a gafodd eu symud i lety hirdymor addas.

45. Yn anffodus, rydym wedi gweld cynnydd yn nifer y bobl sy'n ddigartref ac ar y stryd am y tro cyntaf neu'n dychwelyd i sefyllfa o'r fath. Ar 31 Mehefin 2023, roedd tua 173 o unigolion yn cysgu allan ledled Cymru.

46. Er gwaethaf yr heriau, mae Gweinidogion Cymru wedi datgan yn glir na ellir goddef digartrefedd mwyach.<sup>22</sup> Mae'r dull "neb heb help" wedi datgelu graddfa'r broblem yng Nghymru ac mae'r trefniadau cyfreithiol a roddwyd ar waith ers y pandemig wedi ein galluogi i ddiogelu grwpiau o bobl a oedd yn wynebu risg benodol yn flaenorol. Drwy weithredu fel hyn, rydym wedi gwneud cyfraniad sylweddol at greu Cymru decach a mwy cyfartal ac rydym yn bwriadu diogelu'r amddiffyniadau hynny ymhellach drwy'r diwygiadau a nodir yn y Papur Gwyn hwn.

47. Bydd yr argyfwng costau byw yn effeithio ar bawb yng Nghymru a disgwylir yn eang iddo effeithio ar bobl sy'n rhentu eiddo a pherchen-feddianwyr. Mae hefyd yn amlwg y bydd yr argyfwng costau byw yn arwain at effeithiau unigryw ac anodd ar bobl sydd eisoes yn wynebu risg o ddigartrefedd ac aelwydydd ar incymau isel. Bydd yr effeithiau hyn yn cynnwys y risg o gael eu troi allan, costau uwch cyfleustodau rhagdaledig ac (ar gyfer pobl mewn llety dros dro) llai o bŵer i reoli costau bwyd, teithio, golchi dillad a storio.<sup>23</sup> Mae gwaith ymchwil ehangach yn awgrymu y bydd y risgiau hyn yn cael effeithiau anghymesur ar grwpiau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol. Mae'r grwpiau hyn tua dwywaith yn fwy tebygol (16%) na phobl sy'n ystyried eu hunain yn Wyn (7%) o ddweud eu bod yn disgwyl cael eu troi allan (yn ôl data a gofnodwyd yng ngaeaf 2022).<sup>24</sup> Mae pobl â phrofiad blaenorol o ddigartrefedd ddwywaith a hanner yn fwy tebygol (24%) nag eraill o ddweud hyn.<sup>25</sup>

### **Sut y bydd diwygiadau deddfwriaethol yn bodloni'r galw hwn?**

48. Ni fydd diwygiadau deddfwriaethol ar eu pen eu hunain yn mynd i'r afael â'r pwysau sylweddol yn y system ddigartrefedd yng Nghymru, ond byddant yn ffurfioli'r dull polisi Ailgartrefu Cyflym ar gyfer rhoi diwedd ar ddigartrefedd ac yn gosod y sylfeini ar gyfer arferion sy'n seiliedig ar dystiolaeth, sydd wedi bod fwyaf effeithiol o ran lleihau digartrefedd craidd. Mae'r arferion hyn yn cynnwys cynyddu ymdrechion i atal digartrefedd i'r eithaf, ehangu'r cyfrifoldeb am ddigartrefedd i'r gwasanaeth cyhoeddus ehangach, cynyddu dyraniadau tai cymdeithasol i aelwydydd digartref a rhoi cymorth tenantiaeth i'r bobl sy'n wynebu'r risg fwyaf o ddigartrefedd mynych.

---

<sup>22</sup> [Rhoi diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru: cynllun gweithredu lefel uchel 2021 i 2026 \(llyw.cymru\)](#)

<sup>23</sup> Allard, M. (2022) "I don't know what the winter's going to bring:" experiences of homelessness during a cost of living crisis. Llundain: Crisis

<sup>24</sup> Bramley, G., Fitzpatrick, S., McIntyre, J., Johnsen, S. (2022) Homelessness Amongst Black and Minoritised Ethnic Communities in the UK: A Statistical Report on the State of the Nation. Caeredin: Prifysgol Heriot-Watt.

[https://pure.hw.ac.uk/ws/portalfiles/portal/67022958/Homelessness\\_Amongst\\_Black\\_and\\_Minoritised\\_Ethnic\\_Communities\\_State\\_of\\_the\\_Nation\\_Report\\_2.pdf](https://pure.hw.ac.uk/ws/portalfiles/portal/67022958/Homelessness_Amongst_Black_and_Minoritised_Ethnic_Communities_State_of_the_Nation_Report_2.pdf)

<sup>25</sup> Allard, M. (2022) "I don't know what the winter's going to bring:" experiences of homelessness during a cost of living crisis. Llundain: Crisis

49. Nod cyflwyno'r ddeddfwriaeth arfaethedig fydd sefydlu arferion ym mhob rhan o'r gwasanaeth cyhoeddus ehangach a fydd yn arwain at ganfod y risg o ddigartrefedd yn gynharach, gwneud atgyfeiriadau mwy effeithlon ac effeithiol at wasanaethau cymorth a sicrhau cydweithredu amlasiantaethol er mwyn atal digartrefedd. Bydd y gwaith diwygio hefyd yn cynnig cyfle i fynd i'r afael â chanfyddiadau'r gwerthusiad er mwyn gwella gwasanaethau digartrefedd yng Nghymru ymhellach.

50. Bydd llwyddiant y diwygiadau arfaethedig yn dibynnu ar nifer o ymyriadau polisi allweddol eraill. Mae'r dadansoddiad modelu dilyniannol a ddefnyddiwyd ym Monitor Digartrefedd 2021 yn dangos bod angen newidiadau eraill, ochr yn ochr â'r arferion a amlinellir uchod, er mwyn lleihau digartrefedd, gan gynnwys rhai y gall Llywodraeth Cymru ddylanwadu arnynt a rhai y mae Llywodraeth y DU yn gyfrifol amdanynt<sup>26</sup>:

- Cynyddu'r cyflenwad o dai drwy amrywiaeth o gamau gweithredu gan gynnwys adeiladu tai newydd, cynyddu dyraniadau, aildechrau defnyddio cartrefi gwag a datblygu llety a arweinir gan anghenion gan gynnwys mwy o lety ar gyfer pobl sengl a phobl ag anghenion cymorth lluosog.
- Rhoi cymorth ariannol/cymorth mewn perthynas â dyledion.
- Codi lefel y Lwfans Tai Lleol a'i fynegeo'n effeithiol yn unol â lefelau rhenti preifat.
- Gwella lefelau recriwtio a chadw staff gweithlu'r sector tai.
- Meithrin gallu yn y sector tai a'r gwasanaeth cyhoeddus ehangach.
- Gwella gwasanaethau ar gyfer pobl Heb Hawl i Gyllid Cyhoeddus.

---

<sup>26</sup> Fitzpatrick, S., Pawson, H., Bramley, G., Young, G., Watts, B. a Wood, J. (2021) Y Monitor Digartrefedd: Cymru 2021. Llundain: Crisis

## Crynodeb o'r diwygiadau arfaethedig

51. Mae pob un o'r cynigion yn helpu i gyflawni un neu fwy o'n hegwyddorion gweithio allweddol:

- Bydd y diwygiadau'n mynd ymhellach tuag at gyflawni nod Llywodraeth Cymru o wneud digartrefedd yn beth prin a byrhoedlog nad yw'n ailddigwydd.
- Bydd y diwygiadau'n hwyluso'r gwaith o ddarparu gwasanaethau sy'n ystyriol o drawma (yn seiliedig ar ddealltwriaeth y gall dod i gysylltiad â thrawma effeithio ar ddatblygiad niwrolegol, biolegol, seicolegol a chymdeithasol ac ymddygiad unigolyn) ac sy'n canolbwyntio ar unigolion (anghenion, cryfderau a dewisiadau'r cleient unigol yw'r sail ar gyfer dylunio'r gwasanaeth a ddarperir iddo).
- Bydd y diwygiadau'n helpu i gyflawni nod polisi hirdymor Llywodraeth Cymru mewn perthynas ag Ailgartrefu Cyflym (gallu pobl ddigartref i gael tai hirdymor yn gyflym, dod yn fwy hunangynhaliol ac aros yn eu tai) a chynnal y newid sylweddol i arferion a gyflawnwyd mewn ymateb i bandemig y Coronafeirws.
- Bydd y diwygiadau'n sicrhau y bydd holl wasanaeth cyhoeddus Cymru yn gyfrifol am atal digartrefedd.

52. Drwy'r diwygiadau deddfwriaethol arfaethedig, yr arferion a'r canllawiau ategol, ein nod yw cyflawni'r canlynol:

- Bydd y risg o ddigartrefedd yn cael ei hatal mor gynnar â phosibl a bydd y cyfrifoldeb am ganfod ac atal digartrefedd yn cael ei rannu gan bob rhan o wasanaeth cyhoeddus Cymru.
- Bydd yr awdurdod tai lleol yn cynnig gwasanaeth sy'n canolbwyntio ar unigolion ac sy'n ystyriol o drawma a arweinir gan anghenion y cleient, lle bynnag y bo modd.
- Bydd y system yn haws i'w defnyddio ac, i'r rhai y bydd angen iddynt ei defnyddio, bydd yn cynnig mwy o gymorth cydgysylltiedig amlasiantaethol er mwyn diwallu amrywiaeth o anghenion cymorth.
- Bydd safonau'r llety dros dro sydd ar gael yn well a bydd gwelliannau pellach yn digwydd dros amser. Bydd y defnydd cyffredinol o lety dros dro yn lleihau dros amser.
- Byddwn yn manteisio i'r eithaf ar y defnydd o dai cymdeithasol i roi diwedd ar ddigartrefedd ac yn defnyddio amrywiaeth o opsiynau eraill.
- Caiff camau gweithredu wedi'u targedu eu cymryd er mwyn gwella profiad y bobl sydd fwyaf tebygol o wynebu effeithiau digartrefedd.

53. Mae'r tabl isod yn rhoi crynodeb o'r ffordd y bydd y diwygiadau deddfwriaethol a gynigir yn y Papur Gwyn hwn yn mynd i'r afael â'r egwyddorion a amlinellir uchod.

### System sy'n canolbwyntio ar unigolion ac sy'n ystyriol o drawma

<p>Mae digartrefedd yn beth prin</p> <p>Mae digartrefedd yn beth byrhoedlog</p>	<p>Caiff y risg o ddigartrefedd ei chanfod yn gynharach ac mae gweithgarwch i atal digartrefedd yn digwydd yn gynt.</p> <p>Mae defnyddwyr gwasanaethau yn bartneriaid gweithredol yn y gwasanaethau a ddarperir iddynt, sy'n hawdd ei ddeall, yn cyd-fynd â'u hanghenion ac yn cynnig ymyriadau effeithiol.</p> <p>Mae ymyriadau wedi'u targedu ar waith er mwyn diogelu'r bobl sy'n wynebu'r risg fwyaf o ddigartrefedd.</p> <p>Caiff tai cymdeithasol eu dyrannu i fwy o aelwydydd digartref.</p> <p>Gwasanaeth cyhoeddus Cymru sy'n gyfrifol am atal digartrefedd, ac mae'n cydweithio i ymateb i'r rhybuddion a chynnig cymorth cyfannol i bobl ag anghenion cymhleth.</p>	<p>Rydym yn cynnig y dylai'r cyfnod pan fydd disgwyl i awdurdodau lleol wneud gwaith ymyrryd ystyriol gael ei ymestyn i chwe mis neu, pan fydd Hysbysiad Cymryd Meddiant wedi cael ei gyflwyno, i gyfnod yr hysbysiad hwnnw.</p> <p>Drwy ddiwygiadau sy'n ymwneud â "chamau rhesymol", Cynlluniau Tai Personol a gwella hawliau adolygu; ein nod yw creu system sy'n canolbwyntio ar unigolion ac ymgorffori hawliau cryfach yn y system a fydd yn sicrhau bod gan ddefnyddwyr gwasanaethau ddealltwriaeth gadarn o'r ffordd y caiff eu hachosion eu reoli, y byddant yn gyfranogwyr gweithredol yn eu gwasanaethau ac y gallant gael gwasanaeth effeithiol o safon ofynnol sydd â siawns dda iawn o'u hatal rhag cael eu gwneud yn ddigartref.</p> <p>Rydym yn cynnig cyflwyno diwygiadau ataliol wedi'u targedu ar gyfer y bobl sy'n wynebu'r risg fwyaf – gan gynnwys goroeswyr trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, pobl ifanc ddigartref, pobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal a phobl yn y System Cyfiawnder Troseddol.</p>
---------------------------------------------------------------------------------	--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------	------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------



		<p>Rydym yn cynnig cyflwyno dyletswyddau newydd i ganfod, atgyfeirio a chydweithredu i atal digartrefedd, a fydd yn gymwys i bob rhan o wasanaeth cyhoeddus Cymru a thu hwnt.</p> <p>Rydym yn cynnig deddfu i gynyddu dyraniadau tai cymdeithasol i aelwydydd digartref.</p>
Nid yw digartrefedd yn aiddigwydd	<p>Mae'r bobl sydd ei angen yn cael cymorth parhaus sy'n eu helpu i gadw eu contract meddiannaeth.</p> <p>Mae'r cartref dros dro a'r cartref sefydlog a roddir i berson sy'n ddigartref yn y lle cywir, yn cael ei ddyrannu ar yr adeg gywir, ac yn addas i'w anghenion.</p>	<p>Rydym yn cynnig cyflwyno dyletswydd newydd i helpu i gadw contract meddiannaeth.</p> <p>Rydym yn cynnig gwella safonau mewn perthynas ag addasrwydd llety.</p> <p>Rydym yn cynnig cyflwyno diwygiadau sy'n sicrhau bod awdurdodau lleol mewn sefyllfa well i ddarparu ar gyfer anghenion eu holl boblogaeth ddigartref, gan gynnwys pobl anabl.</p>
Mae'n haws defnyddio'r system ddigartrefedd yng Nghymru.	Mae'r system ddigartrefedd yng Nghymru mor syml â phosibl; o ran ei defnyddio fel ymgeisydd, ac o ran ei chynnal fel awdurdod lleol.	<p>Rydym wedi adolygu'r dyletswyddau digartrefedd presennol ac wedi cynnig cyfres ddiwygiedig o ddyletswyddau rydym yn gobeithio y byddant yn haws eu deall i ymgeiswyr ac yn symlach i'r awdurdod lleol eu cyflawni.</p> <p>Rydym yn cynnig y dylid cyfathrebu mewn ffordd fwy hygyrch.</p> <p>Rydym yn cynnig y dylai fod mwy o gyfleoedd i ymgeisydd wneud cais am adolygiad o benderfyniadau allweddol yn ei achos.</p>

## **Pennod 1: Diwygio'r ddeddfwriaeth graidd bresennol mewn perthynas â digartrefedd**

54. Mae'r bennod hon yn amlinellu'r ffordd y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu sicrhau bod y gyfraith yn helpu i atal digartrefedd rhag digwydd i gynifer o bobl â phosibl. Mae'n nodi darpariaethau perthnasol y Ddeddf Tai 2014. Rhoddir disgrifiad cychwynnol o'r ddeddfwriaeth bresennol, ynghyd â dadansoddiad cryno o fanteision ac anfanteision y sefyllfa bresennol. Ar ôl hynny, nodir ein diwygiadau a goblygiadau ehangach y diwygiadau hyn. Mae'r bennod hon yn ystyried y canlynol:

- Y cyfnod pan ddylai awdurdod tai lleol asesu person i weld a yw dan fygythiad o ddigartrefedd, a'r hyn a all sbarduno'r asesiad hwn.
- Atgyfnerthu ac egluro'r camau rhesymol y dylid eu cymryd er mwyn atal digartrefedd person a'r defnydd o gynlluniau tai personol.
- Yr hawliau adolygu sydd ar gael i ymgeisydd.
- Y tri phrawf: angen blaenoriaethol, bwriadoldeb a chysylltiad lleol.
- Dyletswydd statudol i roi cymorth er mwyn helpu'r ymgeisydd i gadw llety.
- Symleiddio'r system ddigartrefedd bresennol drwy gael gwared ar y "ddyletswydd rhyddhad" (adran 73 o'r Ddeddf Tai 2014).
- Newidiadau i'r prawf methiant afresymol i gydweithredu.
- Cyfathrebu rhwng yr awdurdod tai lleol a'r ymgeisydd

### **Atal a rhyddhad**

#### **Ystyr "digartref" neu "dan fygythiad o ddigartrefedd"**

#### **Yr hyn y mae'r gyfraith yn ei ddweud ar hyn o bryd**

55. Mae adran 55 o'r Ddeddf Tai 2014 yn nodi ystyr "digartref" neu "dan fygythiad o ddigartrefedd" at ddibenion y ddeddfwriaeth. Ystyrir bod person dan fygythiad o ddigartrefedd os yw'n debygol y bydd y person yn ddigartref o fewn 56 diwrnod (adran 55(4)). Mae person yn ddigartref os yw, ynghyd ag unrhyw un sydd fel arfer yn byw gyda'r person, heb lety yn y Deyrnas Unedig neu yn rhywle arall, y mae ganddynt hawl gyfreithiol i'w feddiannu.

56. Mae person hefyd yn ddigartref os oes ganddo lety ond na all gael mynediad iddo, neu os mai strwythur, cerbyd neu gwch symudol wedi'i addasu i bobl fyw ynddo (fel carafán neu gwch preswyl) yw'r llety ac nad oes man lle y gellir ei leoli er mwyn darparu llety.

57. Mae'r Ddeddf Tai 2014 yn nodi na chaniateir i berson gael ei drin fel person sydd â llety oni bai ei fod yn llety y byddai'n rhesymol i'r person barhau i'w feddiannu. Mae'r Cod Canllawiau i Awdurdodau Lleol ar Ddyrannu Llety a Digartrefedd ("y Cod Canllawiau")<sup>27</sup> yn nodi pryd y gallai fod yn amhriodol meddiannu llety, ac mae cyfraith achosion ar y pwnc hwn hefyd.

58. Hefyd, mae Adran 57 o'r Ddeddf Tai 2014 yn darparu'n benodol nad yw'n rhesymol i berson feddiannu llety os yw'n debygol y bydd yn hyn yn golygu y bydd y

<sup>27</sup> [allocation-of-accommodation-and-homelessness-guidance-for-local-authorities\\_1.pdf \(llyw.cymru\)](#)

person, neu aelod o aelwyd y person, yn wynebu camdriniaeth. Mae aelod o aelwyd y person yn cynnwys rhywun sydd fel arfer yn byw gyda'r person fel aelod o'i deulu, neu unrhyw berson arall y gallai fod yn rhesymol disgwyl iddo fyw gyda'r person. Ystyr "camdriniaeth" yw trais corfforol, ymddygiad bygythiol neu fygyllus ac unrhyw ffurf arall ar gamdriniaeth a all, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, arwain at y perygl o niwed. Bydd "cam-drin domestig" yn digwydd pan fo cysylltiad rhwng y dioddefwr a'r camdriniwr (adran 58). Defnyddiwyd y term "camdriniaeth" er mwyn sicrhau na chaiff y Ddeddf ei chyfyngu i drais corfforol. Gweler pennod 3: trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol am ein cynigion i ddiwygio'r diffiniad hwn.

59. Mae adran 57(3) o'r Ddeddf Tai 2014 hefyd yn darparu, wrth benderfynu a yw'n rhesymol i berson barhau i feddiannu llety, y caiff awdurdod tai lleol roi sylw i'r amgylchiadau cyffredinol presennol mewn perthynas â thai yn yr ardal. Hefyd, rhaid i awdurdod tai lleol roi sylw i ba un a yw'r llety'n fforddiadwy i'r person hwnnw ai peidio. Mae'r Cod Canllawiau'n esbonio y gallai hyn gynnwys ystyried cyflyrau corfforol, gorlenwi, a'r math o lety. Bwriedir i rai mathau o lety roi llety dros dro mewn argyfwng, ac ni ddylid ystyried ei bod yn rhesymol i rywun barhau i feddiannu yn y tymor hwy.

### **Y ffordd y mae'r gyfraith yn gweithio ar hyn o bryd**

60. Er y nodir yn glir yn y Cod Canllawiau mai 56 diwrnod yw'r cyfnod byrraf o amser y dylai awdurdod tai lleol ei gymryd cyn cymryd camau i atal digartrefedd rhywun, mae llwythi achosion uchel, prinder staff a'r ffaith bod llawer o bobl ddigartref yn dod i gysylltiad ag awdurdod tai lleol yn golygu eu bod yn tueddu i weithio'n adweithiol yn hytrach nag yn rhagweithiol, ac nad ydynt yn gallu gwneud y gwaith atal yr hoffent ei wneud. Caiff yr her hon ei dwysáu gan ddiffyg ymwybyddiaeth ymhlith y boblogaeth gyffredinol, i bob golwg, y gall gwasanaethau digartrefedd ac opsiynau tai awdurdodau tai lleol gynnig gwybodaeth a chymorth i atal digartrefedd. O ganlyniad i hynny, mae ymgeiswyr yn tueddu i gysylltu â'r awdurdodau ar adeg argyfwng, gan gyfyngu ar y cyfle i ymgymryd â gweithgarwch atal.

61. Er y gall nifer o ffactorau arwain at ddigartrefedd, yng Nghymru mae'r ffactor sy'n cyfrannu at y nifer mwyaf o geisiadau digartrefedd yn digwydd ar ddiwedd tenantiaeth.<sup>28</sup> Nodwedd yw adfeddu gan landlordiaid, yn hytrach na'r unig ffactor sy'n achosi digartrefedd, ond mae'n debygol o barhau i fod yn arwyddocaol er gwaethaf y mesurau diogelu a godwyd drwy Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 ("Deddf 2016").

62. Roedd y cyfnod 56 diwrnod yn cyd-fynd ag adran 21 o Ddeddf Tai 1988, a oedd yn caniatáu adfeddu eiddo ar sail 'heb fai' ar gyfer tenantiaeth fyrddaliadol sicr gyfnodol neu denantiaeth gyfnodol statudol (a oedd wedi codi'n awtomatig ar ôl i denantiaeth fyrddaliadol sicr cyfnod penodol wedi dod i ben). Nid yw'r adran hon o Ddeddf 1988 yn gymwys yng Nghymru mwyach ar ôl i Ddeddf 2016 gael ei chyflwyno.

---

<sup>28</sup> [the-homelessness-monitor-great-britain-2022\\_full-report\\_final.pdf \(crisis.org.uk\)](https://www.crisis.org.uk/publications/the-homelessness-monitor-great-britain-2022-full-report-final.pdf)

63. Mae adran 174 (y sail 'heb fai') o Ddeddf 2016 yn darparu y caiff y landlord, o dan gontract safonol cyfnodol, ddod â'r contract hwnnw i ben drwy roi cyfnod rhybudd o chwe mis o leiaf i ddeiliad y contract (hysbysiad landlord). Ar gyfer rhai contractau safonol cyfnodol, dau fis yw'r cyfnod rhybudd byrraf ar gyfer hysbysiad 174 o hyd. Mae'r contractau hyn wedi'u rhestru yn Atodlen 8A i Ddeddf 2016 (ac maent yn cynnwys llety â chymorth, llety i bobl ddigartref a meddiannaeth yn rhinwedd swydd).

64. Mae effaith Deddf 2016 yn golygu, yn y mwyafrif o achosion, y bydd y broses a ddilynir ar ôl i hysbysiad adfeddu gael ei gyflwyno yn cymryd mwy o amser: chwe mis yn hytrach nag wyth wythnos (56 diwrnod). Am y rheswm hwn, ac er mwyn cefnogi gwaith atal mwy effeithiol, rydym yn cynnig gwneud newid i'r cyfnod pan ddylid ystyried bod person dan fygythiad o ddigartrefedd.

### **Newidiadau Arfaethedig**

**Bydd person dan fygythiad o ddigartrefedd os yw'n debygol y bydd y person yn ddigartref o fewn chwe mis neu os bydd wedi cael Hysbysiad Ceisio Meddiant**

65. Rydym yn cynnig y dylid ystyried bod person dan fygythiad o ddigartrefedd os yw'n debygol y bydd y person yn dod yn ddigartref o fewn chwe mis. Hefyd, hoffem ei gwneud yn glir yn y gyfraith y dylid ystyried bod person dan fygythiad o ddigartrefedd pan fydd wedi cael hysbysiad landlord.

66. Bydd y newid hwn yn helpu awdurdod tai lleol i weithredu er mwyn atal digartrefedd yn fwy rhagweithiol a chyn i'r sefyllfa droi'n argyfwng. Bydd hyn hefyd yn cyd-fynd â gofynion adran 173 o Ddeddf 2016, gan gynnig eglurdeb a symleiddiad i denantiaid a gwasanaethau digartrefedd ac opsiynau tai. Os caiff y cynigion hyn eu datblygu'n ddeddfwriaeth ddrafft, rydym yn bwriadu rhoi hyfforddiant a chanllawiau ychwanegol i awdurdodau tai lleol a'r gwasanaeth cyhoeddus ehangach er mwyn eu helpu i adnabod yr amgylchiadau a allai greu bygythiad o ddigartrefedd. Bydd yr hyfforddiant a'r canllawiau hyn hefyd yn cefnogi'r dyletswyddau arfaethedig i ganfod ac atgyfeirio a amlinellir yn nes ymlaen yn y Papur Gwyn hwn.

67. Er bod awdurdodau lleol a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig yng Nghymru wedi ymrwmo i atal achosion o droi allan sy'n gwneud pobl yn ddigartref, mae Deddf 2016 yn rhoi'r hawl iddynt adfeddu eiddo a roddwyd i berson o dan gontract diogel os bydd y rhesymau perthnasol wedi cael eu profi ac os bydd llys yn ystyried ei bod yn rhesymol rhoi gorchymyn. Rydym o'r farn y byddai hysbysiad a roddwyd i adfeddu eiddo landlord cymdeithasol cofrestredig, o dan gontract diogel, hefyd yn cynrychioli bygythiad o ddigartrefedd ac y dylai fod yn ddarostyngedig i'r newid arfaethedig hwn.

68. Rydym yn cynnig un newid ychwanegol sy'n targedu pobl sy'n byw mewn llety sy'n strwythur, yn gerbyd neu'n gwch symudol wedi'i addasu i bobl fyw ynddo (megis carafán neu gwch preswyl):

**Lle y caniateir i berson fyw mewn ardal, ond lle na all gael dŵr glân, cyfleusterau gwastraff a chyfleusterau toiled, dylai berthyn i'r diffiniad o berson digartref yn unol ag adran 55 o'r Ddeddf Tai**

## **Sicrhau neu helpu i sicrhau argaeledd llety**

### **Yr hyn y mae'r gyfraith yn ei ddweud ar hyn o bryd**

69. Pan fydd awdurdod tai lleol wedi canfod bod person yn ddigartref neu dan fygythiad o ddigartrefedd, rhaid iddo gynnal asesiad o achos y person. Bydd yr asesiad hwn yn ystyried amgylchiadau'r ymgeisydd (ac unrhyw un sy'n byw gydag ef) a'i anghenion o ran cymorth tai i osgoi cael ei wneud yn ddigartref. Os bydd awdurdod tai lleol yn cynnal asesiad sy'n dod i'r casgliad bod yr ymgeisydd yn ddigartref neu dan fygythiad o ddigartrefedd o fewn 56 diwrnod, yna gall fwrw ymlaen â phennu pa ddyletswyddau sy'n ddyledus i'r ymgeisydd er mwyn atal digartrefedd neu gynnig llety i'r ymgeisydd.

70. Mae adran 66 o'r Ddeddf Tai 2014 yn nodi dyletswydd i atal ymgeisydd rhag cael ei wneud yn ddigartref, a dyma gam ataliol cychwynnol y cymorth. Os bydd dyletswydd adran 66 yn gymwys (os bydd yr ymgeisydd dan fygythiad o ddigartrefedd ac yn gymwys i gael help), bydd yn rhaid i'r awdurdod tai lleol helpu'r ymgeisydd i sicrhau neu gadw llety addas.

71. Mae adran 64 o'r Ddeddf Tai 2014 yn amlinellu'r ffyrdd y gall awdurdod tai lleol sicrhau neu helpu i sicrhau bod llety addas ar gael i ymgeisydd ei feddiannu. Mae adran 64(2) yn cynnwys rhestr o enghreifftiau o'r hyn y gall awdurdod tai lleol ei ddarparu neu ei drefnu. Ymhlith yr enghreifftiau mae gwasanaeth cyfryngu, taliadau ar ffurf grant neu fenthyciad, sicrwydd y caiff taliadau eu gwneud, eiriolaeth a llety. Hefyd, mae'r Cod Canllawiau yn cynnwys rhestr o ymyriadau y dylai awdurdod tai lleol fod wedi'u rhoi ar waith fel cyfres ofynnol o ymyriadau sydd ar gael. Mae'r rhestr hon, nad yw'n hollgynhwysfawr, yn cynnwys gwasanaethau cam-drin domestig, opsiynau cyflogaeth a hyfforddiant, cyngor annibynnol ar dai, gwasanaethau lles arbenigol i bersonél y lluoedd arfog/cyn-filwyr, camau i ymyrryd yn achos ôl-ddyledion rhent a chamau i gefnogi ymgeiswyr anabl. Ni ddylai awdurdod tai lleol gael ei gyfyngu i'r rhestr hon (ac nid yw'n ofynnol iddo gynnig yr holl wasanaethau chwaith). Dylai ymyriadau arloesol eraill sy'n seiliedig ar y galw lleol gael eu canfod a'u hystyried hefyd.

72. Caiff 'help i sicrhau' ei ddiffinio o dan adran 65 o'r Ddeddf Tai 2014. Rhaid i'r awdurdod tai lleol gymryd camau rhesymol i helpu i sicrhau y bydd llety addas ar gael i berson, gan ystyried (ymhlith pethau eraill) yr angen i wneud y defnydd gorau o adnoddau'r awdurdod. Mae'r Cod yn cynnwys canllawiau ar amrywiaeth o "gamau rhesymol" ond nid yw'n rhestr hollgynhwysfawr o gwbl, ac nid yw chwaith yn gyfres ragnodol o ymyriadau gofynnol i'w cynnig i bob ymgeisydd. Mae adran 65(b) o'r Ddeddf Tai 2014 a pharagraff 12.7 o'r Cod Canllawiau yn pwysleisio, lle y bydd dyletswydd o dan adran 66 yn gymwys, y bydd dyletswydd ar awdurdod tai lleol i helpu ymgeisydd, ond na fydd dyletswydd i sicrhau llety.

73. Mae adran 73 o'r Ddeddf Tai 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod tai lleol helpu i sicrhau llety ar gyfer ymgeiswyr digartref sy'n gymwys i gael help.

74. Disgwylir i awdurdod tai lleol ddefnyddio ymriadau mewn modd rhagweithiol, a rhaid iddo gynnig cymorth i ymgeiswyr ar sail unigol. Hefyd, mae Gweinidogion Cymru dan rwymedigaeth i roi canllawiau i awdurdodau tai lleol mewn perthynas â'r ffordd y gallant sicrhau, neu helpu i sicrhau, llety addas ar gyfer ymgeisydd.

### **Y ffordd y mae'r gyfraith yn gweithio ar hyn o bryd**

75. Wrth gynnal asesiad o dan adran 62 o'r Ddeddf Tai 2014, rhaid i'r awdurdod tai lleol geisio canfod beth yw'r canlyniad yr hoffai'r ymgeisydd ei gyflawni yn sgil cymorth yr awdurdod ac asesu i weld a allai unrhyw swyddogaeth ddigartrefedd gyfrannu at gyflawni'r canlyniad hwnnw. Nid yw'n ei gwneud yn ofynnol defnyddio Cynlluniau Tai Personol at y diben hwn, ond mae canllawiau Llywodraeth Cymru yn hyrwyddo eu defnydd ac, er nad ydw'n rhywbeth a wneir gan bawb, mae sawl awdurdod tai lleol yng Nghymru wedi dechrau defnyddio Cynlluniau Tai Personol gyda'u cleientiaid.

76. Mae tystiolaeth yn awgrymu y gall Cynlluniau Tai Personol gyfoethogi a gwella profiad defnyddwyr gwasanaethau os bydd gan weithwyr proffesiynol ym maes tai y gallu a'r adnoddau i'w cwblhau'n iawn a'u bod yn cyd-fynd ag asesiad unigoleddig o anghenion person.

77. Rydym wedi clywed tystiolaeth gadarn gan y Panel Adolygu Arbenigol bod y gofyniad presennol i awdurdod tai lleol gymryd camau rhesymol er mwyn helpu i sicrhau bod llety addas ar gael i ymgeisydd yn annigonol. Y rheswm dros hyn yw ei fod yn rhy agored i'w ddehongli, a all arwain at ddiffyg gweithredu neu gamau gweithredu annigonol. Hefyd, bydd y cysyniad o gamau rhesymol yn aml yn cael ei roi ar waith yn anghyson, gan na all awdurdod tai lleol gynnig gwasanaeth unffurf ledled Cymru ac mae'n bosibl na fydd ymgeiswyr yn cael budd o amrywiaeth lawn o wasanaethau pan fyddant yn gwneud eu cais digartrefedd. Ni ellir mynd i'r afael â'r mater hwn drwy ddeddfwriaeth yn unig, ond mae cyfleoedd, drwy ddeddfwriaeth a chanllawiau cysylltiedig, i gryfhau'r camau rhesymol y disgwylir i awdurdod tai lleol eu cymryd, sicrhau bod cleientiaid yn deall y camau hyn yn dda (drwy ddefnyddio Cynlluniau Tai Personol) a sicrhau y caiff gwasanaeth mwy unffurf ei ddarparu ledled Cymru.

### **Newidiadau Arfaethedig**

**Dyletswydd statudol i lunio Cynllun Tai Personol sy'n cynnwys y camau y bydd yr awdurdod tai lleol yn eu cymryd i sicrhau llety ar gyfer yr ymgeisydd**

78. Rydym yn cynnig cyflwyno gofyniad i gwblhau Cynllun Tai Personol ar gyfer pob ymgeisydd digartrefedd. Dylai'r Cynllun fod yn seiliedig ar anghenion trylwyr o anghenion, cofnodi'r canlyniadau yr hoffai'r ymgeisydd eu cyflawni, a'r camau y bydd yr ymgeisydd a'r awdurdod tai lleol yn eu cymryd i gyflawni'r canlyniadau hynny. Rydym yn cynnig y dylai Cynlluniau Tai Personol gael eu cwblhau gydag ymgeiswyr sy'n destun y ddyletswydd i atal (adran 66) a'r brif ddyletswydd (adran 75) ac y dylent nodi'r camau y mae awdurdod tai lleol yn bwriadu eu cymryd i atal digartrefedd a sicrhau llety sefydlog neu dymor hwy.

79. Drwy wneud y cynnig hwn, rydym yn gobeithio hwyluso'r gwaith o ddarparu gwasanaeth sy'n canolbwyntio ar unigolion ac sydd wedi'i deilwra yn unol ag anghenion unigolyn, ac sy'n arwain at weithgarwch sydd â'r siawns orau posibl o atal person rhag cael ei wneud yn ddigartref. Lle bynnag y bo'n bosibl ac yn briodol, dylai ymgeiswyr gael eu grymuso i gymryd rhan weithredol yn y broses o greu a chyflawni eu Cynlluniau Tai Personol, ond rydym yn cydnabod na fydd hyn yn bosibl i bob ymgeisydd.

80. Os caiff y cynnig hwn ei ddatblygu mewn Bil yn y dyfodol, rydym yn bwriadu datblygu Cynlluniau Tai Personol ochr yn ochr ag adnoddau rheoli achosion eraill gydag awdurdodau tai lleol a phobl â phrofiad personol o ddigartrefedd. Ein bwriad yw sicrhau y byddant yn cyfleu amrywiaeth o anghenion gan gynnwys effaith bod ag un neu fwy o nodweddion gwarchoddedig ar brofiad neu risg person o ddigartrefedd.

**Rydym yn cynnig dyletswydd statudol i adolygu'r asesiad o anghenion a'r Cynllun Tai Personol gyda'r ymgeisydd o fewn amserlen benodedig o wyth wythnos**

81. Dylai'r Cynlluniau Tai Personol gael eu hadolygu'n rheolaidd er mwyn adlewyrchu newidiadau i anghenion ac amgylchiadau'r ymgeisydd. Rydym yn awgrymu y dylid cynnal adolygiad rheolaidd bob wyth wythnos ac adolygiadau ychwanegol os bydd newidiadau i amgylchiadau person (a nodir gan yr ymgeisydd neu'r awdurdod tai lleol) ac os bydd y ddyletswydd sy'n ddyledus i ymgeisydd yn newid. Rhaid i'r Cynlluniau Tai Personol fod ar gael i'r ymgeisydd yn ôl yr angen a dylid ei gadw fel rhan o drefniadau rheoli achos unigoliedig.

82. Dylai Cynlluniau Tai Personol gael eu datblygu mewn ffordd sy'n adlewyrchu anghenion yr ymgeisydd. Mae'n bosibl y bydd angen cymorth ychwanegol ar gyfer pobl y mae eu hamgylchiadau'n fwy cymhleth ac, ar adegau, yn anhrefnus. Mae'n bosibl na fydd rhai ymgeiswyr yn ymwneud â'r Cynllun Tai Personol yn y ffordd y byddai'r awdurdod tai lleol yn ei disgwyl, a dylid rhagweld y bydd cydbwysedd y cyfrifoldeb yn amrywio, yn dibynnu ar amgylchiadau a gallu'r ymgeisydd. Dylai'r Cynllun Tai Personol gael ei ddefnyddio mewn ffordd sy'n canolbwyntio ar unigolion ac sy'n ystyriol o drawma. Ni fwriedir i'r Cynllun Tai Personol gael ei ddefnyddio fel rhestr wirio a ddefnyddir i farcio'r cleient, na chael ei ddefnyddio mewn unrhyw ffordd sy'n helpu i dynnu cymorth yn ôl.

**Rydym yn cynnig dyletswydd statudol i gynnwys safbwyntiau ymgeisydd ar ei anghenion o ran llety mewn Cynllun Tai Personol**

83. Rydym yn cynnig dyletswydd statudol ychwanegol sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r asesiad o anghenion a'r Cynllun Tai Personol gofnodi safbwyntiau'r ymgeisydd ar y math o lety sydd ei angen arno. Bydd y safbwyntiau hyn yn cynnwys gofynion deddfwriaethol presennol megis hygyrchedd a lleoliad, ond dylent fynd ymhellach na hynny.

84. Mae'n bosibl y bydd gan unigolion ofynion sy'n hanfodol i'w hiechyd meddwl a'u hymdeimlad o lesiant, megis gallu byw gyda'u hanifeiliaid anwes, neu gael eu lleoli mewn llety a fydd yn eu helpu i roi'r gorau i ddefnyddio sylweddau neu alcohol. Mewn achosion o'r fath, rhaid ystyried yr amgylchiadau personol hyn wrth asesu

addasrwydd llety. Dylid ystyried ffactorau eraill hefyd, gan gynnwys y profiad o fod ag un neu fwy o nodweddion gwarchoddedig, priodoldeb diwylliannol a diogelwch.

85. Wrth ystyried addasrwydd llety dros dro a llety symud ymlaen ar gyfer ymgeisydd, rhaid ystyried yr asesiad o anghenion a'r Cynllun Tai Personol (gweler Adran 4: Mynediad at lety).

### **Cryfhau'r camau a gymerir i atal ddigartrefedd**

86. Fel yr amlinellir uchod, ar hyn o bryd rhaid i awdurdodau tai lleol gymryd camau rhesymol er mwyn helpu i sicrhau llety, gan ystyried (ymhlith pethau eraill) yr angen i wneud y defnydd gorau o adnoddau'r awdurdod.

87. Drwy'r diwygiadau hyn, rydym yn cynnig cryfhau'r gofyniad hwn fel y bydd y camau a gymerir gan yr awdurdod tai lleol yn fwy tebygol o atal yr ymgeisydd rhag cael ei wneud yn ddigartref a/neu'n debygol o sicrhau llety.

88. Er ei bod yn bosibl mai dim ond hyn a hyn o effaith a gaiff y newid arfaethedig hwn ar arferion da llawer o awdurdodau tai lleol, credwn fod y dull mwy gweithredol yn angenrheidiol, a'r nod polisi yw y bydd ymgeisydd yn fwy tebygol o gael amrywiaeth o wasanaethau sy'n addas i'w anghenion ac sydd â siawns resymol o lwyddo i liniaru ei risg o ddigartrefedd. Bydd angen i'r newid arfaethedig i'r gyfraith gael ei ategu gan ganllawiau ychwanegol a fydd yn helpu i sicrhau y caiff gwasanaeth unffurf ei ddarparu ledled Cymru a sicrhau cyllid ar gyfer yr amrywiaeth o wasanaethau y bydd eu hangen.

89. Rydym hefyd yn cynnig y dylid cyfeirio at y mesurau rhesymol wedi'u teilwra a fydd yn ofynnol ar gyfer pobl ag anghenion cymorth ychwanegol, er mwyn eu hatal rhag cael eu gwneud yn ddigartref neu eu rhyddhau o ddigartrefedd. Un enghraifft o grŵp cleientiaid o'r fath fyddai pobl sydd yn y carchar. Gweler Pennod 3 ar atal wedi'i dargedu am ragor o wybodaeth.



## Hawl unigolion i wneud cais am adolygiad o benderfyniadau

### Yr hyn y mae'r gyfraith yn ei ddweud ar hyn o bryd

90. Mae adran 85 o'r Ddeddf Tai yn nodi bod gan ymgeisydd hawl i wneud cais am adolygiad o rai penderfyniadau yn eu hachos o fewn 21 diwrnod i gael eu hysbysu ynghylch y penderfyniadau hynny (neu'n hwyrach os bydd yr awdurdod tai lleol yn caniatáu hynny).<sup>29</sup> Mae'r penderfyniadau hyn yn ymwneud â chymhwysedd yr ymgeisydd i gael help, p'un a oes dyletswydd yn ddyledus iddo o dan adrannau 66, 68, 73 neu 75 (dyletswyddau i ymgeiswyr sy'n ddigartref neu sydd dan fygythiad o ddigartrefedd) o'r Ddeddf Tai 2014 a phryd y daw'r dyletswyddau hynny i ben (gan gynnwys pan fydd yr awdurdod wedi atgyfeirio achos yr ymgeisydd at awdurdod arall neu wedi penderfynu bod yr amodau ar gyfer atgyfeirio wedi'u bodloni). Mae'r weithdrefn i'w dilyn mewn perthynas ag adolygiadau wedi'u nodi yn y rheoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru o dan adran'86 o'r Ddeddf Tai 2014. Y rheoliadau presennol yw Rheoliadau Digartrefedd (Gweithdrefn Adolygu) (Cymru) 2015.<sup>30</sup>

### Y ffordd y mae'r gyfraith yn gweithio ar hyn o bryd

91. Mae Shelter Cymru yn rhoi cyngor ar y broses ar gyfer adolygu penderfyniad awdurdod tai lleol.<sup>31</sup> Nid yw Llywodraeth Cymru yn casglu data fel mater o drefn ar ba mor aml y caiff adolygiad ei gynnal ar gyfer ymgeisydd na'r math o adolygiad a gynhelir, sy'n ei gwneud yn anodd asesu effeithiolrwydd yr hawl adolygu bresennol a chanfod a roddir cyfle rhesymol i ymgeisydd herio awdurdod tai lleol. Nid oes cwynion na phryderon ynglŷn â'r dull adolygu wedi cael eu nodi mewn llenyddiaeth nac mewn gwaith ymgysylltu parhaus ag awdurdodau tai lleol, ond mae'r Panel Adolygu Arbenigol wedi nodi pwyntiau allweddol yn y broses ddigartrefedd lle nad oes hawl adolygu yn bodoli, ac mae wedi gwneud argymhellion y dylid creu hawliau o'r fath.

## Newidiadau Arfaethedig

92. Rydym yn cynnig cynnwys hawl ychwanegol i wneud cais am adolygiad yn y meysydd canlynol:

- **Hawl i wneud cais am adolygiad mewn perthynas â'r camau rhesymol a gymerwyd i atal digartrefedd neu sicrhau llety a amlinellwyd yn asesiad ymgeisydd o'i anghenion o ran tai ac yn ei Gynllun Tai Personol.**
- **Hawl i wneud cais am adolygiad o addasrwydd llety unrhyw bryd tra bydd yn meddiannu'r llety (a ddylai fod ar gael y tu hwnt i 21 diwrnod).**

93. Mewn perthynas â chamau rhesymol, byddai'r hawl hon yn asesu teilyngdod y camau sy'n ofynnol gan yr awdurdod tai lleol, yn ogystal ag unrhyw rai sy'n ofynnol

<sup>29</sup> Adran 85 o'r Ddeddf Tai 2014.

<sup>30</sup> [Rheoliadau Digartrefedd \(Gweithdrefn Adolygu\) \(Cymru\) 2015 \(legislation.gov.uk\)](#)

<sup>31</sup> [Asking for a review - Shelter Cymru.](#)

gan yr ymgeisydd, mewn perthynas â dyletswyddau i atal digartrefedd neu ryddhau o ddigartrefedd. Byddai'r hawl adolygu hefyd yn cynnwys ystyried unrhyw fethiant gan yr awdurdod tai lleol i gymryd camau y cytunwyd arnynt gyda'r ymgeisydd, neu o ran dod â'i ddyletswydd i ben pan oedd yr ymgeisydd o'r farn bod y camau a nodwyd yn y Cynlluniau Tai Personol heb gael eu cymryd. Byddai angen i'r awdurdod tai lleol ddangos ei fod wedi cyfleu'r camau i'w cymryd ac y gellir caniatáu hawl adolygu os na chaiff y camau hynny eu cymryd.

94. O ran addasrwydd, mae gan ymgeisydd hawl ar hyn o bryd i wneud cais am adolygiad o addasrwydd llety a gynigir p'un a yw wedi derbyn y llety ai peidio (adran 85(3) o'r Ddeddf Tai 2014). Mae hyn yn gymwys i lety dros dro a llety hirdymor. Fodd bynnag, nid oes rhwymedigaeth benodol i hysbysu'r ymgeisydd ynghylch ei hawl i wneud cais am adolygiad a rhaid i'r cais am adolygiad gael ei wneud o fewn 21 diwrnod i'r cynnig o lety neu gyfnod hwy o bosibl os bydd yr awdurdod tai lleol yn caniatáu hynny o dan adran 85(5).

95. Rydym yn cynnig creu hawl ychwanegol i gael adolygiad o benderfyniad awdurdod tai lleol ar ôl iddo asesu addasrwydd llety dros dro a llety a ddarperir o dan y brif ddyletswydd tai (adran 75 o'r Ddeddf Tai 2014). Dylai'r hawl i gael adolygiad fod ar gael unrhyw bryd yn ystod y cyfnod pan fydd rhywun yn meddiannu llety, a dylai'r hawl honno gael ei chyfleu'n glir.

96. Dylai'r amserlenni ar gyfer cwblhau'r adolygiad fod mor fyr â phosibl, er mwyn cadw'r cyfnod y bydd rhywun yn ei dreulio'n byw mewn llety anaddas mor fyr â phosibl. Yn ddelfrydol, dylai'r adolygiad gael ei gwblhau o fewn tair wythnos, a dylid rhoi gwybod i'r ymgeisydd ar unwaith beth yw'r penderfyniad ynghylch yr adolygiad. Os bydd angen ymestyn y cyfnod hwn, dylid gwneud hyn drwy gytundeb ysgrifenedig rhwng yr ymgeisydd a'r adolygydd. Efallai y bydd angen oedi o'r fath, os bydd angen casglu tystiolaeth helaeth ac ati. Os caiff y cynnig hwn ei ddatblygu, byddwn yn rhoi ystyriaeth bellach i gysoni ag adran 88 o'r Ddeddf Tai sy'n nodi hawliau apelio.

97. Dylai'r broses a'r hawl i gael adolygiad gael eu cyfleu'n glir i'r unigolyn, a dylid cymryd camau i sicrhau ei fod yn deall y broses, gan gynnwys unrhyw benderfyniad ynghylch yr adolygiad. Dylai'r broses o ddatblygu'r Cynllun Tai Personol gefnogi'r gwaith o gasglu tystiolaeth ar gyfer adolygiadau o'r fath, a dylai'r cynllun hefyd gael ei ddiweddarau i gynnwys ceisiadau am adolygiadau, canlyniadau penderfyniadau a'u gwaith rhesymu. Pan fydd yr awdurdod tai lleol yn adolygu'r asesiad o anghenion o ran tai a'r Cynllun Tai Personol, dylai'r adolygiad hwnnw gynnwys ailystyried addasrwydd y llety y mae'r ymgeisydd yn byw ynddo.

98. Bwriad y cynigion hyn yw sicrhau y bydd asesiadau brys, dros dro a thymor hwy o addasrwydd yn fwy sensitif i anghenion unigolyn a bod modd eu haddasu wrth i anghenion yr unigolyn newid.

99. Nid ydym yn cynnig unrhyw amrywiad i'r cyfnodau amser ar gyfer adolygiad neu unrhyw elfennau ymarferol eraill o'r trefniadau adolygu presennol.

## **Gwasanaethau gwybodaeth a chyngor**

### **Yr hyn y mae'r gyfraith yn ei ddweud ar hyn o bryd**

100. Mae adran 60 o'r Ddeddf Tai 2014 yn gosod dyletswydd gyffredinol ar awdurdod tai lleol i ddarparu gwasanaeth sy'n rhoi gwybodaeth a chyngor am ddiartrefedd a sut i'w atal, y mae'n rhaid iddo fod ar gael am ddim i unrhyw berson yn ei ardal neu sydd â chysylltiad lleol â'r ardal. Rhaid i'r gwasanaeth hwn fod yn hygyrch ac ar gael, nid yn unig i bobl y mae prif ddyletswydd statudol yn ddyledus iddynt o dan ran 2 o'r Ddeddf Tai 2014, ond i bawb y mae angen tai arnynt sy'n cysylltu â'r awdurdod tai lleol. Mae hyn yn cynnwys pobl nad oes ganddynt angen blaenoriaethol, pobl sy'n ddiartref yn fwriadol a phobl o wledydd tramor nad ydynt yn gymwys fel arall am gymorth tai. Rhaid i'r gwasanaeth gynnwys cyhoeddi gwybodaeth a chyngor sy'n ymwneud â'r materion canlynol:

- (a) y system y darperir ar ei chyfer a sut mae'r system yn gweithredu;
- (b) a oes unrhyw help arall ar gyfer pobl sy'n ddiartref neu sy'n wynebu risg o ddiartrefedd ar gael yn ardal yr awdurdod;
- (c) sut i gael gfael ar yr help sydd ar gael.

101. Rhaid i'r awdurdod tai lleol weithio ochr yn ochr ag awdurdodau cyhoeddus eraill, sefydliadau gwirfoddol a phersonau eraill i sicrhau y caiff y gwasanaeth ei gynllunio i ddiwallu anghenion grwpiau sy'n wynebu risg benodol o ddiartrefedd. Gall y gwasanaeth sy'n ofynnol o dan adran 60 o'r Ddeddf Tai 2014 gael ei integreiddio â'r gwasanaeth sy'n ofynnol o dan adran 17 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdod tai lleol roi gwybodaeth a chyngor am ofal a chymorth (adran 60(6) o'r Ddeddf Tai 2014).<sup>32</sup>

### **Y ffordd y mae'r gyfraith yn gweithio ar hyn o bryd**

102. Nod polisi dyletswydd adran 60 yw sicrhau bod awdurdod tai lleol yn rhoi lefel sylfaenol o wybodaeth a chyngor am ddiartrefedd i bawb yn ei ardal. Mae'n gymwys p'un a yw unigolion yn gymwys a ph'un a oes ganddynt gysylltiad lleol ai peidio, a dylai weithredu fel dyletswydd "dal popeth" fel bod pawb, dan unrhyw amgylchiadau, yn cael gwasanaeth sylfaenol. Mae hyn yn arbennig o bwysig i bobl nad ydynt yn gymwys i gael cymorth tai a diartrefedd, gan gynnwys pobl Heb Hawl i Gyllid Cyhoeddus.

103. Mae'r rhan hon o'r Ddeddf Tai 2014 yn gweithio'n dda ar hyn o bryd. Nid yw'r dystiolaeth sydd ar gael yn dangos yr angen am newid ac ni chafwyd adborth ar yr adran hon yn ystod gwaith y Panel na'r gwaith ymgysylltu yn ystod y broses ddyllunio. Felly, ni chynigir diwygiadau deddfwriaethol.

---

<sup>32</sup> [Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant \(Cymru\) 2014 \(legislation.gov.uk\)](http://legislation.gov.uk)

## Y tri phrawf: angen blaenoriaethol, bwriadoldeb a chysylltiad lleol

104. Os bydd person yn cysylltu â'r awdurdod tai lleol am ei fod yn ddigartref neu dan fygythiad o ddigartrefedd, bydd yr awdurdod tai lleol yn defnyddio tri phrawf er mwyn penderfynu pa ddyletswyddau sy'n ddyledus i'r person hwnnw. Mae'r profion hyn yn ymwneud ag angen blaenoriaethol, bwriadoldeb a chysylltiad lleol. Mae'r profion yn amrywio o ran y defnydd a wneir ohonynt a'u lle yn y broses o asesu digartrefedd. Isod, rydym yn amlinellu pob un o'r profion yn eu trefn ac yn asesu eu heffeithiolrwydd yn erbyn bwriadau polisi'r diwygiadau arfaethedig: sicrhau bod y system ddigartrefedd yn addas i bawb y mae ei hangen arnynt a bod digartrefedd yn beth prin a byrhoedlog nad yw'n ailddigwydd.

### Angen blaenoriaethol

#### Yr hyn y mae'r gyfraith yn ei ddweud ar hyn o bryd

105. Un o nodau'r diwygiadau yn y Papur Gwyn hwn yw cryfhau gwaith atal a hwyluso ymyriadau cynharach er mwyn sicrhau y caiff digartrefedd ei osgoi ar gyfer cynifer o bobl â phosibl. Mae'r prif ddyletswyddau atal presennol (fel y'u nodir yn y Ddeddf Tai 2014 ac yn y bennod flaenorol) yn berthnasol i'r rhai sy'n gymwys i gael cymorth, sy'n wynebu risg o ddigartrefedd o fewn 56 diwrnod a heb ystyried a oes gan berson angen blaenoriaethol, a yw'n ddigartref yn fwriadol neu a oes ganddo gysylltiad lleol ag ardal.<sup>33</sup>

106. Os bydd gwaith i atal digartrefedd yn methu, neu os na fydd yn bosibl oherwydd amgylchiadau penodol ymgeisydd, mae'r dyletswyddau a ddarperir gan adrannau 68 a 73 o'r Ddeddf Tai 2014 yn ei gwneud yn ofynnol dod o hyd i lety dros dro neu lety addas, yn y drefn honno. Os bydd gan yr awdurdod lleol reswm dros gredu bod yr ymgeisydd yn ddigartref ac yn gymwys i gael help a bod ganddo "angen blaenoriaethol am lety", bydd dyletswydd ar yr awdurdod lleol ar unwaith o dan adran 68 o'r Ddeddf Tai 2014 i sicrhau bod llety addas ar gael i'r ymgeisydd (a'i aelwyd) nes y bydd yn cwblhau ei ymchwiliad i weld a oes dyletswydd yn ddyledus i'r person o dan adran 73 (dyletswydd i helpu i sicrhau) o'r Ddeddf Tai 2014.

107. Er mwyn i adran 68 fod yn gymwys, nid oes rhaid i'r awdurdod lleol fod yn gwbl fodlon, ond rhaid bod ganddo reswm dros gredu y gall yr ymgeisydd fod yn gymwys ac yn ddigartref a bod ganddo angen blaenoriaethol. Hefyd, gall fod yn ofynnol i'r awdurdod lleol weithredu os bydd ganddo reswm dros gredu neu os bydd yn fodlon bod gan yr ymgeisydd angen blaenoriaethol a bod y ddyletswydd i helpu i sicrhau llety addas yn ddyledus iddo. Mae trothwy uwch yn gymwys drwy adran 73 (a elwir yn gyffredin yn ddyletswydd rhyddhad) lle mae'n *rhaid i'r awdurdod lleol fod yn fodlon* bod yr ymgeisydd yn ddigartref ac yn gymwys i gael help.

108. Gall y ddyletswydd i helpu i sicrhau llety ar gyfer person sy'n gwneud cais am gymorth digartrefedd, o dan adran 73 o'r Ddeddf Tai 2014, ddod i ben dan yr amgylchiadau sydd wedi'u cynnwys yn adran 74 neu 79, gan gynnwys os bydd yr awdurdod lleol yn fodlon nad yw'r person yn ddigartref mwyach am fod ganddo lety

---

<sup>33</sup> Dim ond i berson nad yw'n gymwys i geisio cymorth y caniateir i awdurdod lleol roi gwybodaeth, cyngor a chymorth i gael gfael ar help.

addas sy'n debygol o bara am chwe mis o leiaf. Fodd bynnag, oherwydd y pwysau yn y system ar hyn o bryd, ar adeg ysgrifennu'r ddogfen hon, daw'r ddyletswydd i ben yn y rhan fwyaf o achosion am un o'r ddau reswm canlynol:

- am fod y cyfnod o 56 diwrnod wedi dod i ben, neu
- cyn diwedd y cyfnod o 56 diwrnod, os bydd awdurdod lleol yn fodlon bod camau rhesymol wedi cael eu cymryd i helpu i sicrhau bod llety addas ar gael i'r ymgeisydd, ond nad oes llety sy'n debygol o bara am gyfnod o chwe mis o leiaf ar gael i'r ymgeisydd.

109. Yn y naill sefyllfa neu'r llall, rhaid i'r awdurdod lleol adolygu asesiad yr ymgeisydd er mwyn penderfynu a oes gan yr ymgeisydd hawl i sicrhau llety, fel y darperir gan adran 75 o'r Ddeddf Tai 2014 (adran 62(9)).

110. Mae adran 75 o'r Ddeddf Tai 2014 yn gosod dyletswydd ar awdurdod lleol i sicrhau llety addas, lle mae'r gofynion i helpu i sicrhau llety a ddarperir gan adran 73 wedi dod i ben, ar gyfer ymgeiswyr:

- sy'n gymwys,
- sy'n parhau i fod yn ddigartref,
- sydd ag angen blaenoriaethol, ac
- nad ydynt yn ddigartref yn fwriadol, os yw'r awdurdod lleol yn ystyried bwriadoldeb,
- neu, os ydynt yn ddigartref yn fwriadol, ymgeiswyr sy'n perthyn i un o'r categorïau o bobl y gellir rhoi cymorth iddynt o hyd

111. Dim ond ar ôl i ddyletswydd adran 73 ddod i ben y bydd y ddyletswydd hon yn ddyledus ac, mewn achosion priodol, bydd y ddyletswydd i helpu i atal a ddarperir gan adran 66 wedi bod yn ddyledus yn gyntaf hefyd.

112. Mae dyletswydd adran 75 yn ddyletswydd ddiamod y mae'n rhaid cydymffurfio â hi er mwyn sicrhau bod llety addas ar gael i'r ymgeisydd ei feddiannu am chwe mis o leiaf. Wrth sicrhau llety ar gyfer ymgeiswyr, rhaid i'r awdurdod lleol roi blaenoriaeth i leihau'r risg y bydd digartrefedd yn ailddigwydd er mwyn galluogi ymgeiswyr i sefydlu, neu ailsefydlu, ffordd sefydlog o fyw.

113. Os na fydd yr ymdrechion 'rhyddhad' o dan adran 73 o'r Ddeddf Tai 2014 yn llwyddo, dim ond aelwydydd ag angen blaenoriaethol fydd â hawl i gael tai wedi'u sicrhau gan yr awdurdod tai lleol (naill ai yn y sector rhentu preifat neu yn y sector tai cymdeithasol).

114. Mae 11 o gategoriâu o bobl wedi'u rhestru yn adran 70 o'r Ddeddf Tai 2014 fel pobl y mae'r ddyletswydd olaf o dan adran 75 yn gymwys iddynt, neu bobl ag "angen blaenoriaethol".

115. Tan 24 Hydref 2022, roedd 10 categori o angen blaenoriaethol. Hwn oedd y dyddiad y daeth Rheoliadau Digartrefedd (Angen Blaenoriaethol a Bwriadoldeb) (Cymru) 2022 i rym. Roedd y Rheoliadau hyn yn diwygio adran 70 o'r Ddeddf Tai 2014 i ychwanegu categori arall, sef pobl sy'n ddigartref ac ar y stryd, i'w hystyried

yn bobl ag angen blaenoriaethol.<sup>34</sup> Roedd y diwygiad hwn yn sicrhau y bydd person sy'n ddigartref ac ar y stryd a ddaw i gysylltiad ag awdurdod lleol fel rhywun sy'n gymwys i gael cymorth yn cael ei ystyried yn berson ag angen blaenoriaethol, ac felly y bydd yr awdurdod lleol dan ddyletswydd interim i sicrhau llety addas (o dan adran 68 o'r Ddeddf Tai 2014) yn ogystal â rhoi cymorth ehangach i'r unigolyn yn unol ag adran 75 o'r Ddeddf Tai 2014. Mae'r Rheoliadau'n darparu pont ddeddfwriaethol drosiannol rhwng y polisi 'neb heb help' a fabwysiadwyd mewn ymateb i bandemig COVID-19 a'r pecyn ehangach o ddiwygiadau deddfwriaethol a diwygiadau polisi a amlinellir yn y Papur Gwyn hwn.

## **Y ffordd y mae'r gyfraith yn gweithio ar hyn o bryd**

116. O ystyried nod polisi'r Ddeddf Tai 2014 (i atal digartrefedd mewn cynifer o achosion â phosibl), y gobaith oedd mai dim ond ar gyfer nifer cyfyngedig o ymgeiswyr y byddai angen y ddyletswydd i sicrhau llety a ddarperir gan adran 75. Mae'n wir bod y Ddeddf Tai 2014 wedi lleihau arwyddocâd y prawf angen blaenoriaethol yn sylweddol, ond mae data'n awgrymu na lwyddwyd i ryddhau lleiafrif sylweddol o aelwydydd rhag digartrefedd rhwng gweithredu'r Ddeddf Tai 2014 a 2019 (cyn dechrau pandemig y Coronafeirws) ac, yn yr achosion hyn, fod y prawf angen blaenoriaethol wedi parhau i gyfrannu at benderfynu pa aelwydydd a fyddai'n cael llety a pha rai na fyddai'n cael llety.

## **Newid dull mewn ymateb i bandemig y Coronafeirws (2020-2022)**

117. Mewn ymateb i bandemig y Coronafeirws, rhoddodd Llywodraeth Cymru ganllawiau a chyllid ychwanegol i awdurdodau lleol er mwyn sicrhau bod pawb a oedd yn dod i gysylltiad â gwasanaethau digartrefedd nad oedd ganddynt llety yn cael y llety a'r cymorth roedd eu hangen arnynt i gadw'n ddiogel. Os oedd angen, gofynnwyd i awdurdodau lleol gaffael lle mewn llety gwely a brechwast (ynghyd â mathau eraill o llety dros dro, gan gynnwys gwestai, i ddarparu'r gwasanaeth hwn. Yn ddealladwy ddigon, arweiniodd hyn at gynnydd yn nifer y bobl a oedd yn aros mewn safleoedd o'r fath. Roedd hyn yn angenrheidiol am nad oedd llety arall ar gael ac er mwyn lliniaru risgiau i iechyd y cyhoedd a helpu pobl a fyddai wedi bod yn ddigartref ac ar y stryd neu'n wynebu risg o hynny.

118. Cafodd hyn ei alw'n ddull "neb heb help" ac, yn sgil ei roi ar waith, gwelwyd newid sylweddol yn y ffordd roedd y prawf angen blaenoriaethol yn cael ei ddefnyddio, a'i arwyddocâd. Caiff hyn ei gadarnhau yn y data statudol, sy'n dangos bod awdurdodau lleol wedi penderfynu bod bron i 1,659 o aelwydydd yn ddigartref ond heb angen blaenoriaethol ac felly nad oedd dyletswydd i sicrhau llety yn ddyledus iddynt yn 2018-19. Erbyn 2022-23 roedd y nifer hwn wedi lleihau i 165.<sup>35</sup>

119. Cyn dechrau'r pandemig, roedd gwaith yn mynd rhagddo i ailystyried rôl y prawf angen blaenoriaethol a darparu sylfaen dystiolaeth y gellid ei defnyddio i ystyried dyfodol posibl y prawf angen blaenoriaethol yng Nghymru. Cafodd y datblygiad polisi hwn ei hwyluso gan yr ymateb i'r pandemig ac mae cynnal yr arferion presennol yn ffocws pwysig ar gyfer y diwygiadau arfaethedig hyn.

---

<sup>34</sup>Diffinnir y term 'digartref ac ar y stryd' yn adran 71 o'r Ddeddf Tai

<sup>35</sup>[Aelwydydd y rhoddwyd cymorth iddynt yn ôl canlyniad a'r math o aelwyd \(llyw.cymru\).](#)

120. Yn 2020, daeth adolygiad o angen blaenoriaethol yng Nghymru a gynhaliwyd gan Lywodraeth Cymru i'r casgliad bod mwy na hanner y rhanddeiliaid a gymerodd ran yn feirniadol o'r prawf angen blaenoriaethol am wrthod rhai pobl sy'n ddigartref.<sup>36</sup> Dadleuodd y cyfranogwyr yn yr adolygiad nad oedd rhesymeg gadarn na chyfiawnhad amddiffynadwy i'r prawf angen blaenoriaethol; ei fod 'yn eithaf mympwyol ac yn eithaf goddrychol' a'i fod yn elfen o'r gyfraith sy'n creu rhwystrau sy'n atal pobl – yn enwedig pobl sengl – rhag cael y cymorth sydd ei angen arnynt.

121. Er gwaethaf hyn, roedd y cyfranogwyr yn cydnabod bod angen rhyw fath o ddogni a blaenoriaethu oherwydd y cyfyngiadau presennol ar adnoddau. Er bod y mwyafrif o'r ymatebion o'r farn bod y prawf angen blaenoriaethol yn 'rhwyd ddiogelwch' ar gyfer grwpiau agored i niwed,<sup>37</sup> roedd y rhan fwyaf hefyd am weld newidiadau i fynd i'r afael â gwendidau presennol y prawf, er enghraifft drwy ymestyn grwpiau angen blaenoriaethol. Fodd bynnag, credid bod y grwpiau presennol wedi'u 'dylunio'n dda' a'u bod yn helpu i osgoi system lle roedd penderfyniadau'n cael eu gwneud mewn modd cwbl oddrychol.

122. Ymhellach, nododd y cyfranogwyr mai'r 'trothwy uchel ar gyfer bod yn agored i niwed' oedd un o brif wendidau'r prawf, ac awgrymodd rhai y gall hynny atal pobl sy'n ddigartref ac ar y stryd rhag cael llety dros dro ac annog eraill i fynd yn fwy agored i niwed er mwyn 'ennill' statws blaenoriaethol. Hefyd, dywedwyd bod y prawf agored i niwed ei hun yn arwain at effeithiau trawmatig ar bobl sy'n ddigartref a staff rheng flaen, y gall fod angen iddynt ddod â dyletswydd tai i ben heb ddod o hyd i ateb.

123. Ar ben hynny, roedd y cyfranogwyr bron yn unfrydol yn eu casgliad nad oedd y prawf angen blaenoriaethol (a'r prawf agored i niwed yn arbennig) yn cael ei roi ar waith yn gyson, a'i bod yn ymddangos bod gweithwyr rheng flaen yn allweddol wrth benderfynu pwy a gaiff gymorth a sut. Serch hynny, cafodd rhai awdurdodau lleol eu cydnabod am geisio cydweithio er mwyn sicrhau mwy o gysondeb, er enghraifft drwy Fforwm Rhanbarthol Gogledd Cymru.

124. Fodd bynnag, wrth drafod y posibilrwydd o ddiddymu'r prawf angen blaenoriaethol yng Nghymru, tynnodd y cyfranogwyr sylw at nifer o broblemau posibl, gan gynnwys cynnydd posibl yn nifer y bobl a gaiff eu rhoi mewn llety anaddas a drud dros dro. Esboniodd y cyfranogwyr y byddai rhoi llety i fwy o bobl sengl yn broblemus oherwydd prinder opsiynau addas o ran llety un ystafell wely a llety a rennir, ac felly y byddai pobl yn araf yn gadael llety dros dro. Mae'r rhagolwg hwn wedi dod yn ffaith, ar sail y niferoedd sydd bellach yn byw mewn llety dros dro yng Nghymru yn dilyn y dull "neb heb help".<sup>38</sup>

125. Ymhlith yr effeithiau negyddol pellach a nodwyd yn yr adolygiad roedd y ffaith bod rhai aelwydydd yn tynnu'n ôl o'r system oherwydd amseroedd aros hir; cynnydd yn y galw ar farchnadoedd tai lleol ac adnoddau awdurdodau lleol; y ffaith bod rhai'n cael eu hannog i 'chwarae'r' system er mwyn cael cymorth; y ffaith bod mathau eraill o allgáu'n dod i'r amlwg; y ffaith bod cymorth yn ar gyfer aelwydydd agored i niwed

---

<sup>36</sup> [Adolygiad o angen blaenoriaethol yng Nghymru: crynodeb | LLYW.CYMRU](#)

<sup>37</sup> Mae'r awduron yn diffinio 'mwyafrif' ei ddiffinio fel 'mwy na hanner cyfranogwyr y gwaith ymchwil yn fras'.

<sup>38</sup> [Darpariaeth llety digartrefedd a chysgu allan: Ionawr 2023 | LLYW.CYMRU](#).

sydd ag angen blaenoriaethol ar hyn o bryd yn cael ei wanhau; y ffaith bod aelwydydd sy'n ceisio cymorth yn cael eu hanghymell rhag ymgysylltu'n gynnar neu mewn ffordd ystyrion; ac effeithiau andwyol ar gyfraniad gwasanaethau perthynol megis iechyd, cyfiawnder troseddol a gofal cymdeithasol am fod y cyfrifoldeb am dai wedi'i ddatganoli.

126. Fel y nodir uchod, cafodd canfyddiadau'r adolygiad eu disodli'n gyflym gan gamau gweithredu a gymerwyd mewn ymateb i bandemig y Coronafeirws. Fodd bynnag, mae'r pryderon ynglŷn ag angen blaenoriaethol yn dal yn berthnasol i ddiben y diwygiadau sydd yn y Papur Gwyn hwn ac maent wedi'u nodi isod:

- Mae'r prawf angen blaenoriaethol yn golygu bod rhai pobl ddigartref yn cael eu troi ymaith, yn enwedig pobl sengl a phobl sy'n mynd o sofffa i sofffa, heb ateb priodol. Cafodd y sefyllfa hon ei disgrifio fel un "anghyfiawn ac anfoesol" yn yr adolygiad.
- Dywedir bod y prawf angen blaenoriaethol yn cael ei ddefnyddio'n anffurfiol i atal aelwydydd nad oes ganddynt angen blaenoriaethol rhag cael cymorth.
- Mae'r prawf yn cynnwys trothwy cymharol uchel ar gyfer bod yn agored i niwed, er gwaethaf y gofynion tystiolaeth cyfyngedig a bennir gan y prawf "rheswm dros gredu".<sup>39</sup> Dywedir bod hyn yn golygu na all pobl agored i niwed megis pobl sy'n cysgu allan gael llety dros dro a chymorth. Hefyd, roedd cyfranogwyr yn feirniadol o'r prawf agored i niwed am ei foed yn annog pobl i fynd yn fwy agored i niwed er mwyn 'ennill' statws blaenoriaethol.
- Caiff y prawf angen blaenoriaethol ei roi ar waith yn anghyson, yn enwedig wrth asesu pa mor agored i niwed yw ymgeisydd, lle mae'n ymddangos bod gweithwyr rheng flaen yn allweddol wrth benderfynu pwy a fydd yn cael cymorth a sut.
- Tynnodd llawer o gyfranogwyr sylw at effeithiau trawmatig y prawf angen blaenoriaethol ar bobl sy'n profi digartrefedd a staff rheng flaen. I'r rhai sy'n profi digartrefedd mae ailadrodd eu profiadau yn gallu fod yn drawmatig, ac mae staff rheng-flaen yn ei chael hi'n anodd iawn dod â dyletswydd tai i ben heb ddod o hyd i ateb. Ar adegau, nid fyddai'r dull hwn yn gydnaws ag arferion sy'n canolbwyntio ar unigolion ac sy'n ystyriol o drawma.
- Mae'r prawf angen blaenoriaethol yn rhoi'r ffocws ar broses a phenderfynu ar hawliau, yn hytrach nag anghenion yr unigolyn. Roedd ymdeimlad bod y broses o benderfynu ar hawliau a herio penderfyniadau yn defnyddio llawer iawn o adnoddau, yn arbennig mewn perthynas â phrofi bod pobl yn agored i niwed. Hefyd, dywedir bod y broses hon yn rhy feddygol, gan osod disgwyliadau afresymol ar sgiliau a galluoedd staff digartrefedd rheng flaen.

---

<sup>39</sup> Cafodd y prawf rheswm dros gredu ei fabwysiadu ar gyfer asesu angen blaenoriaethol fel prawf is na 'bod yn fodlon' bod gan yr ymgeisydd angen blaenoriaethol. Byddai gwneud hynny'n codi'r baich ar ymgeiswyr a'r bobl sy'n eu cefnogi i ddangos eu bod yn agored i niwed. Mae canllawiau Llywodraeth Cymru yn esbonio, os bydd gan yr awdurdod lleol unrhyw amheuaeth ynglŷn â ph'un a yw'r ymgeisydd yn bodloni unrhyw rai o'r meini prawf hyn ai peidio, yna bydd yn rhaid iddo dderbyn dyletswydd interim i roi llety nes y bydd wedi cwblhau ei ymholiadau i weld a yw person yn ddigartref ac yn gymwys (*R (on the application of IA) v City of Westminster Council* [2013] EWHC 1273 (QB)).



127. Roedd cael gwared ar y prawf angen blaenoriaethol yn gyfan gwbl yn un o argymhellion allweddol y Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd arbenigol, a oedd yn credu ei fod yn rhwystr rhag atal digartrefedd yn ei adroddiad a gyhoeddwyd yn 2019.<sup>40</sup> Hefyd, mewn arolwg o awdurdodau lleol a gynhaliwyd er mwyn llywio'r Monitor Digartrefedd: Cymru 2021, gwelwyd bod cefnogaeth amlwg o blaid cael gwared ar y prawf angen blaenoriaethol (15 allan o 22 o awdurdodau), er bod hyn yn amodol ar gyflwyno adnoddau ychwanegol.<sup>41</sup>

128. Roedd Monitor Digartrefedd 2021 yn nodi bod yr ymateb i'r pandemig wedi dangos yn glir y rhwystr y mae'r prawf angen blaenoriaethol yn ei gynrychioli i aelwydydd nad ydynt yn cyrraedd y trothwy angen blaenoriaethol, yn enwedig y rhai sy'n ddigartref ac ar y stryd. Dangosodd tystiolaeth a gyflwynwyd gan Crisis mai dynion sengl a phobl sy'n ddigartref ac ar y stryd yw'r prif grŵp o ymgeiswyr sy'n wynebu'r rhwystrau hyn yn fynych. Gwelodd Crisis hefyd mai'r grwpiau hyn o bobl a gafodd y budd mwyaf o ddiwygiadau cyfreithiol yn yr Alban i gael gwared ar angen blaenoriaethol.<sup>42</sup>

129. Fel y nodir uchod, mae pobl sy'n ddigartref ac ar y stryd ymhlith y rhai sydd wedi cael y budd lleiaf o dan y Ddeddf Tai 2014, ac mae hyn i'w weld drwy'r data ar gysgu allan sy'n dangos bod tua 240 o bobl yn cysgu allan yn ystod cyfnod o bythefnos yn ystod hydref 2015. Cododd y ffigur 69% i 405 dros yr un cyfnod yn 2019 (y flwyddyn ddiwethaf y mae gennym ddata cyflawn ar ei chyfer).<sup>43</sup> O ganlyniad i'r ymateb i'r pandemig yng Nghymru, rydym wedi gweld lleihad amlwg yn nifer y bobl sy'n cysgu allan, gyda'r ffigurau'n gostwng i'r lefel isaf, sef 51 ym mis Chwefror 2021.<sup>44</sup> Fodd bynnag, nid yw'r ffigur hwn wedi cael ei gynnal ac mae twf araf wedi datblygu ers hynny, sy'n dangos bod angen gwaith parhaus i roi diwedd ar ddigartrefedd ar y stryd yng Nghymru.

130. Mae'r Panel wedi mynegi cefnogaeth glir o blaid diddymu'r prawf angen blaenoriaethol ynghyd â buddsoddi'n sylweddol mewn adnoddau a chyflenwad tai, gan gynnwys mwy o lety dros dro addas.

## Newidiadau Arfaethedig

**Rydym yn cynnig y dylid diddymu'r prawf angen blaenoriaethol fel nad yw'r prawf hwn yn angenrheidiol mwyach ar gyfer ymgeiswyr digartref sy'n gymwys i gael budd o'r dyletswyddau o dan adrannau 68, 73 a 75 o'r Ddeddf Tai (neu'r dyletswyddau cyfatebol mewn deddfwriaeth ddiwygiedig).**

131. Dylai fod cyfnod paratoi wedi'i ddiffinio'n glir cyn i'r prawf gael ei ddiddymu, ac ar ôl hynny dylai'r newid ddod i rym ar unwaith. Yn ystod y cyfnod paratoi, bydd yn hollbwysig bod y camau sydd eisoes yn bodoli yn parhau, gan gynnwys ychwanegu pobl sy'n ddigartref ac ar y stryd fel categori angen blaenoriaethol. Rydym yn croesawu sylwadau ar gyfnod paratoi addas fel rhan o'r ymgynghoriad hwn,

<sup>40</sup> [Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd: adroddiad Hydref 2019 \(llyw.cymru\)](#).

<sup>41</sup> [y-monitor-digartrefedd-cymru-2021.pdf \(crisis.org.uk\)](#)

<sup>42</sup> [no one left out report 2021 english-welsh.pdf \(crisis.org.uk\)](#)

<sup>43</sup> [Darpariaeth llety digartrefedd a chysgu allan | llyw.cymru](#)

<sup>44</sup> [Darpariaeth llety digartrefedd a chysgu allan | llyw.cymru](#)

132. Mae llawer o awdurdodau lleol eisoes yn gweithio mewn ffordd “niwtral o ran angen blaenoriaethol”; ar ôl parhau ag arferion a ddilynwyd yn ystod y pandemig sydd, i raddau, wedi cael eu ffurfioli drwy fabwysiadu'r 11<sup>eg</sup> categori angen blaenoriaethol yng Nghymru. Rydym yn ymwybodol bod y ffordd hon o weithio wedi cyfrannu at y pwysau eithriadol sydd ar wasanaethau digartrefedd ar hyn o bryd a'r nifer digynsail o bobl sy'n aros mewn llety dros dro. Dyma pam nad ydym yn cynnig y dylid diddymu'r prawf angen blaenoriaethol ar unwaith. Yn ystod y cyfnod paratoi, bydd angen proffilio'r cyflenwad tai'n glir fel rhan o'r broses o fabwysiadu dull Ailgartrefu Cyflym. Bydd hyn yn sicrhau y gall unrhyw un sy'n ddigartref symud i mewn i gartref sefydlog cyn gynted â phosibl, yn hytrach nag aros mewn llety dros dro am gyfnodau hir, ac yn gwneud cynnydd sylweddol tuag at gyflawni ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddarparu 20,000 o gartrefi cymdeithasol ychwanegol yn ystod tymor y senedd hon.<sup>45</sup> Mae'r gwaith hwn eisoes yn mynd rhagddo ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru.

133. Dylai'r amser paratoi arfaethedig gydnabod y pwysau sydd ar wasanaethau digartrefedd a thai ar hyn o bryd, yr ydym yn disgwyl iddo barhau yn y tymor byr i'r tymor canolig. Mae'r ymrwymiad tymor hwy i ddiddymu'r prawf angen blaenoriaethol yn arwydd o'r system yr hoffem ei chreu ar gyfer y dyfodol, ond dim ond pan gaiff y mwyafrif helaeth o ddigartrefedd ei atal a phan fydd Ailgartrefu Cyflym yn norm cyfforddus ar gyfer arferion ym maes digartrefedd ledled Cymru y bydd yn effeithiol.

134. Rhaid nodi hefyd na fwriedir i ddiddymu'r prawf angen blaenoriaethol olygu na fydd gan awdurdod lleol ffordd o reoli eu hadnoddau na threfnu'r ffordd y caiff pobl eu blaenoriaethu ar gyfer dyraniad o dai cymdeithasol. Bydd polisïau dyrannu yn parhau i gyflawni rôl allweddol yn y gwaith o benderfynu sut y caiff cyflenwad cyfyngedig o dai ei gynnig, a chaiff hyn ei archwilio ymhellach ym mhennod 4: Mynediad at Lety.

---

<sup>45</sup> [Ailgartrefu Cyflym: canllawiau \[HTML\] | LLYW.CYMRU](#)

## Y prawf bwriadoldeb

### Yr hyn y mae'r gyfraith yn ei ddweud ar hyn o bryd

135. Bydd p'un a yw person yn ddigartref yn fwriadol ai peidio yn effeithio ar ba ddyletswyddau a fydd yn ddyledus i'r person hwnnw o dan y Ddeddf Tai 2014. Er mwyn i berson fod yn ddigartref yn fwriadol, rhaid iddo fod wedi meddiannu llety o'r blaen, a bod y feddiannaeth honno wedi dod i ben. Rhaid bod y llety wedi bod ar gael i'r ymgeisydd, ac unrhyw un arall y byddai'n rhesymol disgwyl iddo fyw gyda'r ymgeisydd. Mae dwy ffordd y gall person fod yn ddigartref, neu dan fygythiad o ddigartrefedd, yn fwriadol:

- (i) drwy weithred neu anweithred (adran 77(2) o'r Ddeddf Tai 2014).

136. Mae hyn yn golygu ei bod yn rhaid ei fod wedi gwneud rhywbeth neu fethu â gwneud rhywbeth yn fwriadol i achosi ei ddigartrefedd pan ddylai fod wedi gwybod beth fyddai'r canlyniadau, megis ildio tenantiaeth addas neu gael ei droi allan am ymddygiad gwrthgymdeithasol.

- (ii) drwy ymrwymo i gytundeb i roi'r gorau i feddiannu llety y byddai wedi bod yn rhesymol iddo barhau i'w feddiannu (adran 77(4) o'r Ddeddf Tai 2014).

137. Diben y prawf bwriadoldeb yw ystyried a yw person wedi'i wneud ei hun yn ddigartref yn fwriadol ai peidio cyn cael gafael ar gymorth.

138. Rhoddodd y Ddeddf Tai y pŵer i awdurdodau lleol ddewis p'un a fyddant yn defnyddio'r prawf bwriadoldeb yng Nghymru ai peidio. Yn rhinwedd adran 78(2) o'r Ddeddf Tai 2014, wrth asesu ymgeisydd ar gyfer help mewn perthynas â digartrefedd, gall awdurdod tai lleol ddiystyru p'un a yw'r ymgeisydd yn ddigartref yn fwriadol ai peidio at ddibenion adrannau 68 a 75 oni bai ei fod wedi penderfynu ystyried un neu fwy o'r categorïau o ymgeiswyr a nodir gan Weinidogion Cymru.

139. Mae adran 78(1) o'r Ddeddf Tai 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n pennu categori neu gategoriâu o ymgeiswyr y gall yr awdurdod benderfynu eu hystyried o ran p'un a yw'r ymgeiswyr yn y categori hwnnw yn ddigartref yn fwriadol. Cafodd Rheoliadau Digartrefedd (Bwriadoldeb) (Categoriâu Penodedig) (Cymru) 2015 ("Rheoliadau Bwriadoldeb 2015") eu gwneud o dan yr adran hon a'u diwygio gan Rheoliadau Digartrefedd (Angen Blaenoriaethol a Bwriadoldeb) (Cymru) 2022 i ychwanegu categori penodedig arall o ymgeiswyr (pobl sy'n ddigartref ac ar y stryd). Rhaid i'r awdurdod lleol yn ei dro gyhoeddi hysbysiad o'i benderfyniad i ystyried bwriadoldeb a pha un o'r categorïau penodol a ganiateir y bydd yn ei ystyried.

140. Rhaid i'r awdurdod lleol benderfynu a yw'r ymgeisydd mewn categori penodedig at ddibenion adrannau 68 a 75 o'r Ddeddf Tai 2014 yn ddigartref yn fwriadol. Gall ddiystyru bwriadoldeb oni fydd pob un o'r canlynol yn digwydd:

- (a) bod yr ymgeisydd yn perthyn i gategori penodedig o bobl, a
- (b) bod yr awdurdod lleol wedi penderfynu ystyried bwriadoldeb mewn perthynas â'r holl ymgeiswyr yn y categori hwnnw, a

(c) bod yr awdurdod lleol wedi cyhoeddi hysbysiad o'i benderfyniad i ystyried bwriadoldeb mewn perthynas â'r holl ymgeiswyr yn y categori penodedig hwnnw, a bod yr holl weithdrefnau perthnasol wedi cael eu dilyn.

141. Er enghraifft, os bydd ymgeisydd yn ddigartref o ganlyniad i ddioddef cam-drin domestig, yna bydd yn perthyn i gategori rhagnodedig. Os oedd yr awdurdod lleol wedi penderfynu ystyried bwriadoldeb ar gyfer y categori hwn o bobl, wedi cyhoeddi hysbysiad i'r perwyl hwnnw ac wedi dilyn yr holl weithdrefnau perthnasol, yna bydd yn rhaid iddo ystyried bwriadoldeb ar gyfer yr ymgeisydd penodol hwn. Ond, os nad oedd yr awdurdod lleol wedi penderfynu ystyried bwriadoldeb ar gyfer pobl a oedd yn ddigartref o ganlyniad i ddioddef cam-drin domestig, yna gallai ddewis diystyru bwriadoldeb ar gyfer yr ymgeisydd hwn. Hefyd, os na fydd person yn perthyn i'r un o'r categorïau penodedig, gallai'r awdurdod lleol ddewis peidio ag ystyried bwriadoldeb ar gyfer y person hwnnw.

142. Bydd adran 96(4) o'r Ddeddf Tai 2014 yn gymwys pan fydd gan yr awdurdod tai lleol reswm dros gredu y gall ymgeisydd sy'n byw gyda phlentyn fod yn ddigartref neu dan fygythiad o ddigartrefedd ond nad yw'n cael cynnig cymorth o bosibl am ei fod yn anghymwys neu'n ddigartref yn fwriadol. Dan amgylchiadau o'r fath, rhaid i awdurdod tai lleol sicrhau bod ei adran dai'n rhoi'r cyfryw gymorth i'r adran gwasanaethau cymdeithasol y byddai'n rhesymol i'r adran gwasanaethau cymdeithasol ofyn amdano (gweler Rhan 3 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014).

143. Hefyd, mae'r Cod Canllawiau'n glir, er mwyn i ddigartrefedd fod yn fwriadol, ei bod yn rhaid i'r weithred neu'r anweithred a arweiniodd at ddigartrefedd fod yn fwriadol ac na ddylid ystyried bod gweithredoedd neu anweithredoedd o ganlyniad i fod yn agored i niwed (a ddiffinnir yn adran 71 o'r Ddeddf Tai 2014) yn fwriadol.<sup>46</sup> Dylid ymgynghori â'r gwasanaethau cymorth ehangach priodol cyn dod i gasgliad ynghylch statws bwriadoldeb yr ymgeisydd. Ar ben hynny, os bydd gan berson anghenion cymorth nas diwallwyd ac na fydd wedi cael cynnig cyngor a chymorth er mwyn helpu i'w atal rhag bod yn ddigartref, yna gall yr awdurdod lleol benderfynu iddo gael ei wneud yn ddigartref am nad oedd yn gallu ymdopi heb gymorth ac y gellid ystyried nad gweithred fwriadol oedd colli'r llety.

### **Y ffordd y mae'r gyfraith yn gweithio ar hyn o bryd**

144 Mae'r newid diwylliannol a gyflawnwyd gan y Ddeddf Tai 2014 tuag at atal digartrefedd a rhyddhad o ddigartrefedd wedi golygu bod y prawf 'bwriadoldeb' wedi mynd yn llawer llai arwyddocaol dros y degawd diwethaf. Mae tystiolaeth yn awgrymu mai anaml iawn y caiff y prawf bwriadoldeb ei ddefnyddio'n ymarferol yng Nghymru a bod cychwyn adran 75(3) o'r Ddeddf Tai 2014 ym mis Rhagfyr 2019 wedi lleihau cwmpas cymwys bwriadoldeb i raddau helaeth ar gyfer teuluoedd â phlant a phobl ifanc o dan 21 oed a oedd yn ddigartref.<sup>47</sup> Mae'r tabl isod yn amlinellu'r data

<sup>46</sup> [allocation-of-accommodation-and-homelessness-guidance-for-local-authorities\\_1.pdf \(llyw.cymru\)](#)

<sup>47</sup> Fitzpatrick, S., Pawson, H., Bramley, G., Young, G., Watts, B. a Wood, J. (2021) Y Monitor Digartrefedd: Cymru 2021. Llundain: Crisis; StatsCymru: [Aelwydydd y rhoddwyd cymorth iddynt yn ôl canlyniad a'r math o aelwyd \(llyw.cymru\)](#) Cyrchwyd 19/05/23.

statudol diweddaraf ar benderfyniadau ynghylch bwriadoldeb yng Nghymru ac yn dangos lleihad yn y defnydd a wneir ohono dros y pedair blynedd diwethaf.<sup>48</sup>

Tabl 1

	<b>2017/20 18</b>	<b>2018/20 19</b>	<b>2019/20 20</b>	<b>2020/20 21</b>	<b>2021/20 22</b>	<b>2022/20 23</b>
<b>Cyfanswm y canlyniadau</b>	28,881	31,170	31,320	28,833	28,683	31,194
<b>Nifer y canlyniadau – cymwys, digartref ac ag angen blaenoriaeth ol, ond yn fwriadol.</b>	159	201	129	93	72	93

145. Ceir tystiolaeth bod y ffordd y caiff y prawf bwriadoldeb ei ddehongli a'i ddefnyddio yn amrywio'n fawr ledled Cymru.<sup>49</sup> Daeth y gwerthusiad o'r Ddeddf Tai 2014 i'r casgliad bod y mwyafrif o ddarparwyr gwasanaethau o'r farn bod bwriadoldeb yn 'groes i ethos y Ddeddf', gyda rhai'n dweud bod bwriadoldeb yn cael ei ddefnyddio fel ffordd o 'borthgadw' mynediad at wasanaethau a rheoli adnoddau cyfyngedig, gan arwain at effeithiau andwyol posibl ar ganlyniadau defnyddwyr gwasanaethau

146. Mae tystiolaeth arall yn nodi safbwyntiau rhai awdurdodau lleol sy'n dadlau, er na chaiff y prawf bwriadoldeb ei ddefnyddio'n aml, ei fod yn ddefnyddiol fel ffordd o gymell ymddygiad da neu fel ffordd o atal ymddygiad gwael.<sup>50</sup> Mae rhai awdurdodau lleol wedi codi pryderon y bydd rhai unigolion yn 'gwaethygu eu sefyllfa'n fwriadol' er mwyn cael llety neu gamarwain yr awdurdod ynglŷn â'u sefyllfa wirioneddol, a bod hyn yn peri her wrth sicrhau y caiff llety a gwasanaethau eu blaenoriaethu ar gyfer y bobl â'r angen mwyaf. Mae adborth seiliedig ar arferion a gafwyd wrth ddatblygu'r diwygiadau hyn wedi dangos achosion, er eu bod yn brin, lle y gall y system ddigartrefedd yng Nghymru gael ei chamddefnyddio'n fwriadol, a phan fydd hyn yn digwydd caiff adnoddau eu cyfeirio i ffwrdd oddi wrth y bobl fwyaf anghenus. Mae awdurdodau lleol yn glir bod angen ffordd, gyda phrawf bwriadoldeb neu hebdo, o ddiogelu'r system rhag y camddefnydd hwn a sicrhau y bydd canlyniadau am ymddygiad anonest a thwyllodrus.

147. Fel yr amlinellir yn Yr Achos dros Newid, un o nodau'r diwygiadau hyn yw creu system ddigartrefedd yng Nghymru sy'n ystyriol o drawma ac sy'n galluogi dull sy'n canolbwyntio ar unigolion o ddarparu gwasanaethau. Yn ein barn ni, nid yw'r prawf bwriadoldeb yn hwyluso ffordd o weithio sy'n ystyried effaith cysylltiad â thrawma ar ymddygiad unigolyn ac y gall presenoldeb y prawf (ni waeth pa mor aml y caiff ei ddefnyddio) annog diwylliant sy'n galluogi penderfyniadau proffesiynol ynghylch pwyl

<sup>48</sup> [Aelwydydd y rhoddydd cymorth iddynt yn ôl canlyniad a'r math o aelwyd \(llyw.cymru\).](#)

<sup>49</sup> Gwerthusiad o'r Ddeddf Tai

<sup>50</sup> Fitzpatrick, S., Pawson, H., Bramley, G., Young, G., Watts, B. a Wood, J. (2021) Y Monitor Digartrefedd: Cymru 2021. Llundain: Crisis

sy'n haeddu cymorth a phwy nad yw'n ei haeddu. Un o nodau allweddol y diwygiadau arfaethedig hyn yw sbarduno newid sy'n dod â diwylliant o'r fath i ben.

148. Ceir gwahaniaeth barn ymhlith awdurdodau lleol ynghylch a ddylai'r prawf bwriadoldeb barhau neu gael ei ddiddymu.<sup>51</sup> Fodd bynnag, mae tystiolaeth a gasglwyd gan y Panel Adolygu Arbenigol yn awgrymu y gall defnyddio'r prawf bwriadoldeb arwain at ddigartrefedd mynych gan y bydd pobl yn aml yn 'dod drwy'r system eto' yn dilyn penderfyniad ynghylch bwriadoldeb. Mewn rhai achosion, bydd anghenion cymhleth y bobl hyn wedi cynyddu a gwaethygu sy'n golygu y bydd angen cymorth mwy dwys i'w diwallu. O ystyried mai nod y diwygiadau hyn yw sicrhau bod digartrefedd yn beth prin a byrhoedlog nad yw'n ailddigwydd, rydym am ailystyried perthnasedd y prawf hwn.

### **Newidiadau Arfaethedig**

**Rydym yn cynnig y dylid tynnu'r prawf bwriadoldeb o'r ddeddfwriaeth ac na chaiff ei ddefnyddio mwyach wrth benderfynu a oes gan ymgeisydd hawl i'r ddyletswydd atal a'r brif ddyletswydd (dyletswydd interim adran 68 i sicrhau llety (yng nghyd-destun dod â'r ddyletswydd i ben) a dyletswydd adran 75 (dyletswydd i sicrhau llety) o'r Ddeddf Tai 2014) neu unrhyw ddyletswyddau yn y dyfodol mewn deddfwriaeth newydd.**

---

<sup>51</sup> Ibid

## Cysylltiad lleol

149. Mae Adranau 80 a 81 o'r Ddeddf Tai 2014 yn ymwneud â chysylltiad lleol. Bydd p'un a oes gan berson gysylltiad lleol ai peidio yn effeithio ar allu'r awdurdod lleol i atgyfeirio'r cais at awdurdod gwahanol. Gwneir atgyfeiriadau yn ôl disgrisiwn yn unig: nid yw'n ofynnol i awdurdodau lleol atgyfeirio ymgeiswyr at awdurdodau lleol eraill. Yn gyffredinol, nid yw chwaith yn ofynnol iddynt wneud unrhyw ymholiadau i weld a oes gan ymgeisydd gysylltiad lleol ag ardal.

150. Nod cyffredinol y prawf cysylltiad lleol yw sicrhau na fydd awdurdod lleol yn mynd i gostau anghymesur am ailgartrefu pobl yn ei ardal ac y caiff adnoddau lleol eu cyfeirio tuag at ddiwallu anghenion y boblogaeth leol (a ddiffinnir yn y Cod Canllawiau fel pobl leol a phobl nad ydynt o'r ardal leol y byddai'n afresymol iddynt ddychwelyd i'w hardal wreiddiol).

151. Mae adran 81 o'r Ddeddf Tai 2014 yn darparu bod gan berson gysylltiad lleol ag ardal awdurdod tai lleol yng Nghymru neu yn Lloegr os yw'n byw yno fel arfer, a bod hynny o ddewis y person ei hun; os yw'r person yn cael ei gyflogi yno; o ganlyniad i gysylltiadau teuluol, neu o ganlyniad i amgylchiadau neilltuol.

152. Er mwyn cydnabod ble na fydd cysylltiad lleol yn gymwys o bosibl, mae'r Ddeddf Tai 2014 hefyd yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru bennu amgylchiadau lle na ddylid trin person fel pe bai'n cael ei gyflogi mewn ardal, neu lle na ddylid ystyried bod person yn byw mewn ardal o'i ddewis ei hun. Nid oes cyfnod penodedig y mae'n rhaid i ymgeisydd ei dreulio'n byw mewn ardal er mwyn cael ei ystyried yn rhywun sydd â chysylltiad lleol. Pan fydd awdurdodau lleol yn penderfynu defnyddio'r prawf cysylltiad lleol, bydd angen iddynt ystyried yr holl amgylchiadau a phenderfynu a yw'n amlwg bod yr ymgeisydd wedi ymgartrefu yn yr ardal ac, os nad yw hynny'n wir, a oes ganddo gysylltiad clir â rhywle arall. Os gwelir nad oes gan ymgeisydd gysylltiad lleol â'r ardal y mae'n gwneud cais digartrefedd ynddi, gall yr awdurdod lleol benderfynu atgyfeirio'r achos at awdurdod arall yng Nghymru neu Loegr.

## Amodau ar gyfer atgyfeirio

153. Dim ond darpariaethau ar gyfer atgyfeiriadau cysylltiad lleol rhwng awdurdodau lleol yng Nghymru a Lloegr sydd wedi'u cynnwys yn y Ddeddf Tai 2014. Mae Deddf Tai 1996 yn darparu ar gyfer atgyfeiriadau i'r Alban ac oddi yno.

154. Bydd yr amodau ar gyfer atgyfeiriad wedi'u bodloni pan fydd y canlynol yn wir am yr ymgeisydd neu unrhyw un y byddai'n rhesymol disgwyl iddo fyw gyda'r ymgeisydd:

- nid oes ganddo gysylltiad lleol â'r ardal lle y gwnaeth y cais digartrefedd, ac
- mae ganddo gysylltiad lleol ag awdurdod arall yng Nghymru neu yn Lloegr, ac
- nid yw'n wynebu risg o gam-drin domestig neu annomestig yn yr ardal y caiff ei atgyfeirio iddi.

155. Yn dilyn hysbysiad ynghylch yr atgyfeiriad, ni fydd yr awdurdod yn ddarostyngedig i'r ddyletswydd interim i ddarparu llety o dan adran 68 o'r Ddeddf Tai

2014 mwyach ond bydd dyletswydd yn ddyledus ganddo o dan adran 82(1) i sicrhau bod lleu ar gael ar gyfer yr ymgeisydd nes y bydd cytundeb ynghylch a yw'r amodau ar gyfer atgyfeirio wedi'u bodloni. Os na all awdurdodau gytuno a yw'r amodau ar gyfer atgyfeirio wedi'u bodloni, *dylai'r penderfyniad gael ei wneud yn unol â threfniadau y gellir eu cyfarwyddo drwy orchymyn Gweinidogion Cymru o dan adran 80(5) ar gyfer Cymru ac adran 80(6) ar gyfer Lloegr*. Hyd yma, nid yw hyn erioed wedi bod yn ofynnol. Mae'r Ddeddf Tai 2014 a'r Cod Canllawiau yn nodi darpariaethau ar gyfer nifer o grwpiau neu amgylchiadau penodol lle y gall fod angen eglurhad ynghylch cysylltiad lleol gan gynnwys pobl sy'n gadael gofal, cyn-aelodau o'r lluoedd arfog, pobl sy'n gadael y carchar, cyn-geiswyr lloches a dioddefwyr camdriniaeth a chamdriniaeth ddomestig.<sup>52</sup>

## Y ffordd y mae'r gyfraith yn gweithio ar hyn o bryd

156. Ceir gwahaniaeth barn ynghylch gwerth parhaus y prawf cysylltiad lleol.

157. Argymhellodd y Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd y dylid cael gwared ar y prawf cysylltiad lleol ac roedd y mwyafrif o'r cyfranogwyr yn astudiaeth y Monitor Digartrefedd yng Nghymru (2021) yn feirniadol o'r arferion presennol, gan gynnwys rhai a oedd o blaid tynnu'r prawf o'r ddeddfwriaeth. Fodd bynnag, mae'r mwyafrif helaeth o awdurdodau lleol, fel y gwelir drwy'r ymatebion i arolwg y Monitor Digartrefedd yng Nghymru (2021) ac adborth a gasglwyd drwy gydol y gwaith o ddatblygu'r Papur Gwyn hwn, o blaid cadw'r prawf cysylltiad lleol.<sup>53</sup>

158. Mae'r dystiolaeth o effaith y prawf cysylltiad lleol yn gyfyngedig ond mae gwaith a wnaed gan Crisis yn amlinellu pam y bydd pobl yn chwilio am gymorth y tu allan i'w hawdurdod lleol o bosibl ac, felly, pam y gallai'r prawf cysylltiad lleol roi rhai unigolion dan anfantais.<sup>54</sup> Er bod rhywfaint o waith ymchwil yn awgrymu bod pobl yn symud i ardaloedd sydd â mwy o wasanaethau, mae adroddiad Crisis yn dweud bod hyn yn llai cyffredin na'r disgwyl. Fel arfer, bydd pobl sy'n ceisio cymorth y tu allan i'w hawdurdod lleol yn tynnu sylw at ddau ddylanwad neu fwy sy'n eu cymell i wneud hynny, a gellir categorio'r dylanwadau hynny fel ffactorau gwthio (colli cyflogaeth, ffoi rhag perygl neu erledigaeth, awdurdodau 'cartref' amharod i helpu ac amodau parôl neu fechnïaeth) a ffactorau tynnu (ffrindiau'n byw yn yr ardal, ymweliadau blaenorol â'r ardal a bod wedi byw yn yr ardal o'r blaen).

---

<sup>52</sup> Ystyr camdriniaeth yw trais corfforol, ymddygiad bygythiol neu fygyllus ac unrhyw ffurf arall ar gamdriniaeth a all, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, arwain at y perygl o niwed. Bydd camdriniaeth yn ddomestig os bydd cysylltiad rhwng y dioddefwr a'r camdriniwr am eu bod wedi cytuno i briodi ei gilydd (p'un a yw'r cytundeb hwnnw wedi cael ei derfynu ai peidio), yn briod neu mewn partneriaeth sifil â'i gilydd neu wedi bod yn briod neu mewn partneriaeth sifil â'i gilydd o'r blaen, yn byw gyda'i gilydd mewn perthynas deuluol barhaus ar hyn o bryd neu wedi gwneud hynny yn y gorffennol, yn byw gyda'i gilydd fel rhan o'r un aelwyd ar hyn o bryd neu wedi gwneud hynny yn y gorffennol, (gan gynnwys unrhyw berson sydd yn y berthynas honno drwy briodas neu bartneriaeth sifil neu berthynas deuluol barhaus), yn rhieni i'r un plentyn neu'n bobl sydd â chyfrifoldeb rhieni dros blentyn (neu wedi cael cyfrifoldeb o'r fath)

<sup>53</sup> Fitzpatrick, S., Pawson, H., Bramley, G., Young, G., Watts, B. a Wood, J. (2021) Y Monitor Digartrefedd: Cymru 2021. Llundain: Crisis – roedd 19 allan o'r 22 o gynrychiolwyr cynghorau yn credu na fyddai dod â'r prawf cysylltiad lleol i ben yn fuddiol.

<sup>54</sup> [no one left out report 2021 english-welsh.pdf \(crisis.org.uk\)](https://www.crisis.org.uk/no-one-left-out-report-2021-english-welsh.pdf)



159. Mae'r gwaith a wnaed gan Tai Pawb i lywio'r Papur Gwyn yn awgrymu y gall effaith y prawf cysylltiad roi rhai grwpiau gwarchoddedig dan anfantais ychwanegol.<sup>55</sup> Mae'r adroddiad yn dweud bod grwpiau cyfeillgarwch cadarn yn gallu cyflawni rôl teulu i rai pobl LHDTTC+, yn enwedig ar ôl i deulu chwalu neu yn dilyn profiad o homoffobia a thrawsffobia, a bod y "teuluoedd darganfyddedig" hyn yn darparu'r rhwydwaith o gymorth sydd ei angen ar berson i ffynnu yn dilyn profiad o ddigartrefedd. Nid yw hwn yn brofiad a gwmpesir gan y rheolau presennol ynghylch cysylltiad lleol.

160. Hefyd, nid yw'n amlwg pa mor effeithiol yw'r prawf cysylltiad lleol o ran rheoli digartrefedd mewn ardal leol. Dangosodd gwaith ymchwil a wnaed gyda phobl â phrofiad o ddigartrefedd y byddai hanner y cyfranogwyr hynny'n aros yn eu hardal awdurdod lleol 'newydd', hyd yn oed pe bai cymorth yn cael ei wrthod iddynt. Mae unigolion yn blaenoriaethu ardaloedd lle mae ganddynt eisoes rwydweithiau cymorth, cyfleoedd gwaith a chyfleoedd eraill a chanfyddiad o fod yn fwy diogel ac anhysbys, yn achos ardaloedd trefol, yn hytrach na symud i ardaloedd sydd â mwy o wasanaethau.

161. Er bod awdurdodau lleol yn ymwybodol o'r heriau hyn; maent yn codi pryderon y byddai cael gwared ar y prawf yn cynyddu'r galw yn eu hardaloedd, ar adeg o bwysau sylweddol ar adnoddau. Mae'r pryderon hyn wedi cael eu codi gan y mwyafrif helaeth o awdurdodau, waeth beth fo'u demograffeg. Ystyrir bod y prawf cysylltiad lleol yn adnodd rheoli achosion hollbwysig ac, nes yr eir i'r afael â'r pwysau o ran cyflenwad tai a phwysau eraill sy'n ymwneud â thai sy'n wynebu awdurdodau lleol, bydd rôl cysylltiadau lleol yn bwysig o hyd.

162. Mae tystiolaeth a gasglwyd drwy ymgysylltu â phobl sydd â phrofiad personol o ddigartrefedd yn codi pryderon ynglŷn â chysylltiad lleol. Yn aml, bydd y pryderon hyn yn ymwneud â defnyddio'r prawf cysylltiad lleol yn anghyfreithlon neu ei ddehongli'n anghywir, yn hytrach na'r gyfraith ei hun, gan gynnwys ei ddefnyddio ar gyfer pobl sy'n ffoi rhag camdriniaeth a defnyddio'r prawf i atal ceisiadau yn hytrach na'i ddefnyddio ar yr adeg briodol yn y broses.

163. Bwriedir i'r diwygiadau arfaethedig yn y Papur Gwyn hwn ymateb i'r heriau presennol yn y system ddigartrefedd a chreu system y dyfodol. Bwriad polisi a diben y prawf cysylltiad lleol yw rheoli'r galw am wasanaethau digartrefedd. Ceir tensiwn rhwng y diben hwn a bwriad polisi cyffredinol y diwygiadau hyn, sef creu system sy'n canolbwyntio ar unigolion ac sy'n ystyriol o drawma. Er nad yw'r prawf cysylltiad lleol yn cyd-fynd yn llwyr â nodau'r diwygiadau, mae'n amlwg, o ystyried yr adborth anorchfygol gan awdurdodau lleol, y dylai barhau i gael ei ddefnyddio yn y tymor byr i'r tymor canolig.

164. O ystyried yr heriau a amlinellir uchod, rydym o'r farn y dylai'r prawf cysylltiad lleol newid er mwyn sicrhau ei fod yn gallu ystyried anghenion pobl dan amgylchiadau penodol, ailflaenoriaethu anghenion y grŵp o ymgeiswyr a hwyluso system sy'n gwyro'n fwy tuag at ddilyn dull sy'n canolbwyntio ar unigolion. Mae'n bosibl hefyd, drwy wella'r ffordd y caiff y prawf cysylltiad lleol ei ddefnyddio drwy

---

<sup>55</sup> [Experiences-of-homelessness-Final-Version-PDF.pdf \(taipawb.org\)](https://www.taipawb.org/experiences-of-homelessness-final-version-pdf)

ddarparu gwell canllawiau a hyfforddiant, y gellir gwella profiad uniongyrchol defnyddwyr gwasanaethau.

## Newidiadau Arfaethedig

**Rydym yn cynnig ychwanegu grwpiau eraill o bobl at y rhestr o eithriadau er mwyn darparu ar gyfer cysylltiadau nad ydynt yn rhai teuluol â chymunedau ac ystyried yn well y rhesymau pam na all rhywun ddychwelyd i'w awdurdod lleol gwreiddiol.**

165. Yn unol ag argymhelliad y Panel, rydym yn cynnig y dylai'r grwpiau canlynol o ymgeiswyr gael eu heithrio rhag y darpariaethau cysylltiad lleol:

- a) Pobl sydd â phrofiad o fod mewn gofal ac nad ydynt yn byw mewn llety a ddarparwyd drwy ddyletswyddau gwasanaethau cymdeithasol.
- b) Cyn-filwyr a phobl sydd wedi cyd-fyw â chyn-filwyr tra oeddent yn gwasanaethu.
- c) Pobl sy'n wynebu risg o gam-drin domestig neu fath arall o gam-drin neu gamfanteisio os cânt eu hatgyfeirio at awdurdod tai lleol arall, p'un a gawsant eu cam-drin yn flaenorol ai peidio.
- d) Pobl sydd wedi dioddef cam-drin domestig, neu fath arall o gam-drin neu gamfanteisio, ac a fydd yn profi trawma o ganlyniad i'r cam-drin domestig hwnnw neu'r math arall o gam-drin neu gamfanteisio, os cânt eu hatgyfeirio at awdurdod tai lleol arall.
- e) Pobl sy'n gadael y carchar y mae angen iddynt symud i ardal newydd fel rhan o'u proses adsefydlu, neu er mwyn helpu i fodloni'r cyfyngiadau a osodwyd ar ble y gallant fyw o ganlyniad i'w trosedd.

166. Rydym hefyd yn cynnig ystyried ymhellach sut y gall y maen prawf "amgylchiadau neilltuoel" presennol fod yn gymwys i rai grwpiau penodol sy'n wynebu risg fwy o niwed yn sgil y prawf cysylltiad lleol, gan annog awdurdodau tai lleol i fod yn fwy hyblyg pan fyddant yn canfod y bydd y niwed hwn yn digwydd. Gallai grwpiau o'r fath gynnwys:

- Pobl ifanc 25 oed ac iau
- Aelodau o'r gymuned LHDTTC+
- Ymgeiswyr anabl y mae angen iddynt gael gfael ar gymorth penodol
- Cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr
- Pobl sy'n ceisio rhoi'r gorau i ddefnyddio sylweddau

167. Byddai newidiadau i'r prawf cysylltiad lleol yn cael eu hatgyfnerthu drwy wasanaeth ailgysylltu o'r dechrau i'r diwedd sydd â chymorth priodol, sy'n galluogi pobl i adleoli i'w gwlad wreiddiol os mai hynny sydd er eu lles pennaf ac os hoffent fynd ar drywydd yr opsiwn hwnnw. Caiff y camau polisi ehangach hyn eu harchwilio ynghyd â'r diwygiadau a gynigir yn y Papur Gwyn hwn, ochr yn ochr ag ystyried sut y gellir helpu ymgeiswyr i gael gfael ar atebion amgen o ran tai os nad oes ganddynt gysylltiad lleol ond nad ydynt am symud i ardal lle mae ganddynt gysylltiad lleol.

168. Mae'r Panel Adolygu Arbenigol wedi gwneud sawl argymhelliad ar gyfer canllawiau atodol ynglŷn ag unrhyw brawf cysylltiad lleol diwygiedig, a chaiff hyn ei ystyried ymhellach os caiff y cynnig hwn ei ddatblygu'n ddeddfwriaeth ddrafft.

169. O ystyried ein cynigion uchod, y prawf cysylltiad lleol fyddai'r unig brawf sy'n weddill ar gyfer mynediad at y brif ddyletswydd yng Nghymru. Ein cynnig ni yw y byddai'r prawf yn parhau i gael ei ddefnyddio yn ôl disgrisiwn a, phan gaiff ei ddefnyddio, y bydd yn rhaid i benderfyniad gael ei wneud cyn i'r ddyletswydd adran 73 gael ei derbyn (adran 80(1)(b) o'r Ddeddf Tai 2014). Ar ôl i'r ddyletswydd honno gael ei derbyn, ni fydd yn bosibl i'r awdurdod lleol wrthod derbyn y brif ddyletswydd (adran 75 o'r Ddeddf Tai 2014). Er hynny, un canlyniad anfwriadol posibl i hyn yw y daw'r prawf yn bwysicach i awdurdodau lleol ac y caiff ei ddefnyddio'n fwy trwyadl nag sy'n ofynnol fel rhan o ddull sy'n canolbwyntio ar unigolion ac sy'n ystyriol o drawma. Fel y cyfryw, rydym hefyd yn bwriadu cyhoeddi canllawiau statudol clir ar y defnydd o brawf cysylltiad lleol diwygiedig, a monitro'r ffordd y caiff ei ddefnyddio.

## **Dyletswydd statudol i roi cymorth er mwyn helpu'r ymgeisydd i gadw llety**

**Rydym yn cynnig gosod dyletswydd newydd ar awdurdodau tai lleol er mwyn helpu person i gadw llety os bydd yr ymgeisydd wedi cael cymorth i sicrhau llety (a allai olygu'r llety y mae'n byw ynddo ar hyn o bryd) neu os bydd yr ymgeisydd wedi cael cynnig llety ac wedi'i dderbyn.**

170. Bydd y ddyletswydd hon yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod tai lleol roi'r cyfryw gymorth i'w ymgeisydd a/neu unrhyw aelod o'i aelwyd sy'n rhesymol angenrheidiol ym marn yr awdurdod tai lleol, gan ystyried anghenion yr ymgeisydd ac adnoddau'r awdurdod ei hun, er mwyn helpu'r ymgeisydd i gadw'r llety.

171. Yn seiliedig ar waith y Panel Adolygu Arbenigol, credwn y dylai'r ddyletswydd fod yn gymwys i ymgeisydd y mae'r awdurdod tai lleol wedi asesu bod angen cymorth arno i gadw ei llety, yn hytrach na'i bod yn ddyletswydd sy'n gymwys i bawb. Lle bo angen, byddai awdurdod tai lleol hefyd yn cael eu caniatáu i wneud cais i gymorth gael ei ddarparu gan awdurdodau cyhoeddus eraill, gan gynnwys swyddogaethau eraill awdurdod lleol. Y bwriad polisi yma yw bod cyfrifoldeb ar awdurdod lleol cyfan – nid dim ond yr awdurdod tai lleol. Mae ymestyn y ddyletswydd sy'n ymwneud â helpu pobl i gadw contract i awdurdodau cyhoeddus eraill yn cyd-fynd â'r ddyletswydd arfaethedig i gydweithredu. Felly, gallai fod yn ofynnol i unrhyw awdurdod cyhoeddus y mae'n ofynnol iddo gydweithredu ag awdurdod tai lleol i atal digartrefedd helpu i gadw contract hefyd, gan gynnwys rhoi pob math o gymorth.

172. A thybio y bydd deiliad contract yn ymgartrefu yn ei gartref newydd, ar ôl cael cymorth gan awdurdod tai lleol, bydd angen pwynt terfyn ar gyfer y ddyletswydd hon. Er cysondeb â'r cyfnod contract gofynnol ar gyfer deiliaid contractau yng Nghymru, credwn mai 12 mis ddylai'r pwynt fod. Fodd bynnag, os bydd yr awdurdod tai lleol,

mewn partneriaeth â'r landlord, yn asesu bod deiliad y contract wedi ymgartrefu a'i fod yn byw'n sefydlog yn ei gartref, dylai allu dod â'r ddyletswydd i ben ar y sail ei fod yn fodlon nad oes risg amlwg y bydd y contract yn methu.

### **Symleiddio'r system ddigartrefedd bresennol drwy gael gwared ar y "ddyletswydd rhyddhad" (adran 73 o'r Ddeddf Tai 2014)**

173. Os caiff ein cynigion i ddiddymu'r profion angen blaenoriaethol a bwriadoldeb eu datblygu'n ddeddfwriaeth yn y dyfodol, ni fydd angen cynnal y ddyletswydd rhyddhad a ddarperir gan adran 73 o'r Ddeddf Tai 2014 mwyach, gan y bydd y gwahaniaeth a oedd yn bodoli rhwng pobl ag angen blaenoriaethol a phobl heb angen blaenoriaethol yn dod i ben yn naturiol.

174. Nod y cynnig i gael gwared ar y ddyletswydd rhyddhad yw creu proses lle y bydd y ddyletswydd atal (adran 66 o'r Ddeddf Tai 2014) yn ddyledus i berson sydd dan fygythiad o ddigartrefedd, a'r brif ddyletswydd tai (adran 75 o'r Ddeddf Tai 2014) yn ddyledus i berson sy'n ddigartref, oni wneir atgyfeiriad o dan gysylltiad lleol (adran 80 o'r Ddeddf Tai 2014).

175. Rydym yn ymwybodol y bydd awdurdodau tai lleol, yn ymarferol, wedi bod yn gweithredu mewn modd 'niwtral o ran angen blaenoriaethol' ers y pandemig (ac ar ôl i Reoliadau Digartrefedd (Angen Blaenoriaethol a Bwriadoldeb) (Cymru) 2022 ddod i rym, a oedd yn pennu bod gan bobl a oedd yn ddigartref ac ar y stryd angen blaenoriaethol am lety) a'u bod, cyn hynny, wedi lleihau'r defnydd o'r prawf bwriadoldeb yn sylweddol i lefelau isel iawn.

176. Fodd bynnag, nodwn ganlyniad anfwriadol posibl i gael gwared ar y ddyletswydd rhyddhad, sef colli'r camau gweithredu y disgwylir i awdurdod tai lleol eu hystyried o dan adran 64 o'r Ddeddf Tai 2014, nad ydynt yn ofynnol o dan y brif ddyletswydd. Os caiff y ddyletswydd rhyddhad ei diddymu, ein bwriad polisi yw y caiff y camau gweithredu sy'n ofynnol o dan y ddyletswydd rhyddhad ar hyn o bryd eu cynnal fel ddyletswyddau ataliol disgwylidig awdurdod tai lleol neu gael eu gosod yn erbyn eu cyfrifoldebau wrth sicrhau llety o dan y brif ddyletswydd tai (adran 75 o'r Ddeddf Tai 2014).

### **Cysylltiad lleol, pobl sydd yn y carchar a'r cynnig i ddiddymu'r ddyletswydd rhyddhad bresennol**

177. Os caiff y ddyletswydd rhyddhad (adran 73) ei dileu, fel y cynnigir, byddem yn dal yn awyddus i ganiatáu atgyfeiriadau cysylltiad lleol ar gyfer ymgeiswyr y rhoddyd cymorth iddynt yn unol ag adran 75 o'r Ddeddf Tai. Fodd bynnag, gall gwneud atgyfeiriad ar y cam atal yn hytrach na cham y brif ddyletswydd tai arwain at fanteision i bobl sydd yn y carchar ar hyn o bryd. Caiff hyn ei archwilio ymhellach yn yr adran ar gamau atal sy'n ymwneud â'r System Cyfiawnder Troseddol.

## **Prawf methiant afresymol i gydweithredu**

### **Yr hyn y mae'r gyfraith yn ei ddweud ar hyn o bryd**

178. Mae nifer o ddyletswyddau yn ddyledus gan yr awdurdod lleol o dan ran 2 o'r Ddeddf Tai 2014 i ymgeiswyr y mae angen tai arnynt. Ar gyfer pob un o'r dyletswyddau, bydd amgylchiad neu amgylchiadau penodol yn dod â'r ddyletswydd i ben. Mae adran 79 o'r Ddeddf Tai 2014 yn nodi amgylchiadau pellach lle y bydd dyletswyddau'r awdurdod tai lleol o dan adrannau 66, 68, 73 a 75 yn dod i ben. Mae'r rhan fwyaf o'r darpariaethau yn yr adran hon yn nodi rhesymau sy'n seiliedig ar ffeithiau dros ddod â dyletswydd i ben; mewn perthynas â chymhwysedd, camgymeriad, a thynnu'n ôl. Fodd bynnag, mae is-adran 79(5) yn dweud y gall unrhyw ddyletswydd sy'n ddyledus i ymgeisydd ddod i ben os bydd yr awdurdod tai lleol yn fodlon bod yr ymgeisydd yn "methu â chydweithredu, a hynny mewn modd afresymol" â'r awdurdod tai lleol wrth iddo gyflawni ei swyddogaethau.

### **Y ffordd y mae'r gyfraith yn gweithio ar hyn o bryd**

179. Er mwyn defnyddio'r prawf methiant afresymol i gydweithredu, mae angen gwneud penderfyniad mwy goddrychol ac, er nad oes gennym ddata ar y defnydd o'r prawf hwn yn ymarferol, rydym yn pryderu bod y prawf hwn yn groes i'n nodau polisi i sicrhau bod y system ddigartrefedd yn canolbwyntio ar unigolion ac yn ystyriol o drawma. Bydd person sy'n wynebu risg o ddigartrefedd wedi bod drwy bwysau a thrawma annirnadwy ar adegau, ac ni fydd llawer o opsiynau cadarnhaol ar gael iddo. Os na all gael cymorth, bydd y risg o niwed yn sylweddol, a all olygu y bydd angen i wasanaethau brys ymyrryd, yn hytrach na gwasanaethau tai.

## **Newidiadau Arfaethedig**

**Rydym yn cynnig prawf culach sy'n nodi nifer bach o resymau cyfyngedig wedi'u diffinio'n glir ar gyfer y prawf methiant afresymol i gydweithredu.**

180. Yn seiliedig ar argymhellion y Panel Adolygu Arbenigol, rydym yn cynnig y canlynol:

- a) Ymddygiad bygythiol tuag at staff awdurdodau tai lleol.
- b) Diffyg cyswllt cyson â gwasanaethau opsiynau tai.

181. Os penderfynir bwrw ymlaen â'r cynnig hwn, byddwn hefyd yn nodi gofynion ychwanegol sy'n gysylltiedig â rhannu'r penderfyniad â'r ymgeisydd. Dan yr amgylchiadau hyn, dylai'r ymgeisydd gael ei hysbysu ynghylch bwriad yr awdurdod tai lleol i ystyried ei fod wedi gwrthod cydweithredu â'r awdurdod tai lleol, a hynny'n fwriadol ac yn afresymol. Bydd hyn yn rhoi cyfle olaf i'r ymgeisydd gynnig esboniad am ei ymddygiad neu am golli cysylltiad â'r awdurdod, ac yn gyfle i esbonio'r rhesymau dros y penderfyniad iddo.

## Cyfathrebu rhwng yr awdurdod tai lleol a'r ymgeisydd

### Yr hyn y mae'r gyfraith yn ei ddweud ar hyn o bryd

182. Mae adran 84 o'r Ddeddf Tai 2014 yn nodi, os bydd awdurdod tai lleol yn dod i'r casgliad bod ei ddyletswydd i ymgeisydd o dan adran 66, 68, 73 neu 75 o'r Ddeddf Tai wedi dod i ben, y bydd yn ofynnol i'r awdurdod hysbysu'r ymgeisydd. Mae adran 84(3) yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod tai lleol roi'r hysbysiad hwn yn ysgrifenedig, a rhaid iddo esbonio pam nad yw'n ystyried ei hun yn ddarostyngedig i'r ddyletswydd berthnasol mwyach, pam mae'r ddyletswydd wedi dod i ben ac, mewn perthynas â dyletswydd adran 73, y camau rhesymol a gymerwyd, y cymorth a gynigiwyd a pham y methodd y camau. Rhaid i'r hysbysiad hefyd gynnwys gwybodaeth am hawl yr ymgeisydd i wneud cais am adolygiad o'r penderfyniadau a wnaed, ac erbyn pryd y mae'n rhaid i gais am adolygiad gael ei wneud.

183. Mae'r ddeddfwriaeth bresennol yn nodi gofyniad i hysbysu cleientiaid yn ysgrifenedig. Yn y rhaglen hyfforddi gynnar i gefnogi'r broses o roi'r Ddeddf Tai 2014 ar waith, esboniwyd i awdurdodau y gellid bodloni'r gofyniad hwn drwy neges destun neu bost electronig, ond deallir bod y mwyafrif helaeth o'r arfer yn cael ei wneud drwy lythyr. Mae adborth seiliedig ar arferion yn awgrymu mai'r prif reswm dros hyn yw'r risg o her os caiff iaith symlach neu ddulliau cyfathrebu amgen eu defnyddio.

### Y ffordd y mae'r gyfraith yn gweithio ar hyn o bryd

184. Yr adborth a gafwyd wrth ddatblygu'r cynigion polisi ar gyfer y Papur Gwyn, yn enwedig gan bobl sy'n ddiartref neu sydd wedi bod yn ddiartref, oedd bod y broses o wneud cais am gymorth yn gymhleth ac yn aneglur ac y gall y ffordd y caiff rhai penderfyniadau eu rhannu (mewn llythyrau ysgrifenedig, gan ddefnyddio iaith ddeddfol) fod yn anhygyrch. Oherwydd y galw sylweddol ar wasanaethau tai a gallu ac adnoddau'r gweithlu ei hun, gall fod yn heriol cyfathrebu'n ddigon aml a rheolaidd hefyd.

185. Mae tystiolaeth a roddwyd gan Arbenigwyr drwy Brofiad yn feirniadol o'r hysbysiadau a ddarperir gan awdurdodau tai lleol ar wahanol gamau'r broses o wneud cais<sup>56</sup> Mae gwaith diweddar gan End Youth Homelessness Cymru hefyd yn awgrymu nad yw'r system hysbysu bresennol a ddefnyddir gan y rhan fwyaf o awdurdodau tai yn hygyrch i bobl ifanc a phobl sy'n niwroamrywiol<sup>57</sup>. Hefyd, bydd problemau hygyrchedd i bobl sy'n siarad Cymraeg neu Saesneg fel ail iaith, pobl ag anawsterau dysgu a phobl na allant ddarllen. Mae awdurdodau tai lleol hefyd yn dweud bod y system bresennol a'r gofyniad i hysbysu ymgeiswyr ar bob cam o'r broses yn rhy fiwrocraidaidd ac yn dreth ar adnoddau. Byddent yn croesawu symleiddio'r broses er budd eu cleientiaid a'u timau staff.

186. Ar hyn o bryd, mae'n ofynnol i awdurdod tai lleol ysgrifennu at ymgeisydd ar adegau amrywiol yn ystod y broses o wneud cais, yn cadarnhau a fu'n llwyddiannus

---

<sup>56</sup> Adran 63 (hysbysu am ganlyniad asesiad digartrefedd, canlyniad y ddyletswydd atal, canlyniad y ddyletswydd interim, canlyniad y ddyletswydd rhyddhad a chanlyniad y brif ddyletswydd), Adran 84 (hysbysu bod y ddyletswydd atal, y ddyletswydd interim, y ddyletswydd rhyddhad a'r brif ddyletswydd wedi dod i ben).

<sup>57</sup> [EYHC Roadmap Full Report.pdf \(cardiff.ac.uk\)](http://EYHC.Roadmap.Full.Report.pdf(cardiff.ac.uk)).

neu'n aflwyddiannus, neu pan ddaw dyletswydd ddyledus i ben. Rhaid i'r llythyrau a anfonir at ymgeisydd, i roi gwybod am amrywiaeth o amgylchiadau a chanlyniadau, adlewyrchu'r dyletswyddau sy'n ddyledus, y dyletswyddau a wrthodwyd neu'r dyletswyddau sydd wedi dod i ben yn gywir. Os bydd unrhyw anghywirdeb, ac mai'r awdurdod tai lleol sydd ar fai, gallai'r ymgeisydd herio'r penderfyniad dan sylw. O ganlyniad i hynny, rydym wedi clywed gan ymarferwyr eu bod yn tueddu i fod yn ochelgar ar adegau, gan anfon gohebiaeth mewn iaith ffurfiol a all fod yn anodd ei deall a'i dilyn.

## **Newidiadau Arfaethedig**

**Rydym yn cynnig y dylid ei gwneud yn glir ei bod yn rhaid i awdurdodau tai lleol sicrhau (yn seiliedig ar asesiad trylwyr o angen a Chynllun Tai Personol) y gallant ei gyfleu i ymgeiswyr mewn ffordd sy'n hygyrch ac wedi'i theilwra yn unol ag unrhyw anghenion unigol.**

187. Fel rhan o'r ymgynghoriad hwn, rydym am archwilio arferion da mewn perthynas â ffyrdd amgen o gyfleu penderfyniadau allweddol sy'n fwy hygyrch, yn enwedig ar gyfer pobl ag anabledd dysgu neu sydd â phrofiad o niwroamrywiaeth. Gallai'r ffyrdd amgen hyn gynnwys llythyrau mewn iaith glir ochr yn ochr â llythyr ffurfiol, a gwell defnydd o dechnoleg ddigidol. Bydd angen i unrhyw gynnig y byddwn yn ei ddatblygu i ddiwygio'r ffordd y caiff penderfyniadau eu cyfleu gael ei gydbwysu â sicrhau y caiff gwybodaeth glir ei mynegi nad yw'n cynyddu'r risg o her gyfreithiol.

188. Mae awdurdodau tai lleol wedi goresgyn problemau sy'n gysylltiedig â chyfathrebu ag ymgeiswyr drwy weithio gyda swyddogion o ardaloedd eraill, gweithwyr cymorth ymgeiswyr a phartneriaid yn y trydydd sector, defnyddio ffilm, codau QR neu negeseua rhithwir gan gymheiriaid, a gweithio gydag arbenigwyr cyfathrebu. Mae hyn yn awgrymu mai trefniadau anffurfiol wedi'u datblygu ar lefel leol sydd fwyaf tebygol o wneud gwahaniaeth, yn hytrach nag unrhyw beth wedi'i ragnodi mewn deddfwriaeth. Felly, byddwn yn ystyried rôl canllawiau cliriach wrth nodi opsiynau ar gyfer cyfathrebu hygyrch ac effeithiol, gan weithio ochr yn ochr â chyrrff fel Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i rannu arferion da.

**Rydym hefyd yn cynnig ei gwneud yn ofynnol mewn deddfwriaeth i awdurdod tai lleol gyfathrebu'n rheolaidd ag ymgeiswyr ynglŷn â'r canlynol:**

- i. Hynt eu cais am lety tymor hwy a'r amserlenni disgwylidiedig.**
- ii. Eu hawliau i wneud cais am adolygiadau o addasrwydd llety ac unrhyw benderfyniadau perthnasol eraill.**
- iii. Cymorth a all fod ar gael i'r ymgeisydd.**

**Rydym yn cynnig y caiff rhagor o fanylion am gyfathrebu eu hamlinellu mewn canllawiau.**

## **Cwestiynau'r ymgynghoriad**

- 1. Ydych chi'n cytuno y bydd y cynigion hyn yn arwain at gynnydd mewn atal digartrefedd a rhyddhad o ddigartrefedd?  
i. Ydw/nac ydw**
- 2. Beth yw eich rhesymau dros hyn?**
- 3. Yn eich barn chi, a oes cynigion deddfwriaethol ychwanegol y dylem eu hystyried er mwyn sicrhau gwelliannau o ran atal digartrefedd a rhyddhau pobl o ddigartrefedd?**
- 4. Ydych chi'n cytuno â'n cynnig i ddiddymu'r prawf angen blaenoriaethol?  
i. Ydw/nac ydw**
- 5. Ydych chi'n cytuno â'n cynnig i ddiddymu'r prawf bwriadoldeb?  
i. Ydw/nac ydw**
- 6. Ydych chi'n cytuno â'n cynnig o gadw'r prawf cysylltiad lleol ond ychwanegu grwpiau eraill o bobl at y rhestr o eithriadau er mwyn darparu ar gyfer cysylltiadau nad ydynt yn rhai teuluol â chymunedau ac ystyried yn well y rhesymau pam na all rhywun ddychwelyd i'w awdurdod lleol gwreiddiol?**
- 7. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol cysylltiedig yn nodi ein gwaith meddwl cychwynol ynglŷn â chostau a manteision y cynigion hyn. A oes unrhyw gostau a manteision nad ydym wedi'u hystyried?**



## **Pennod 2: Rôl gwasanaeth cyhoeddus Cymru o ran atal digartrefedd**

### **Dyletswyddau ehangach ar wasanaeth cyhoeddus Cymru i atal digartrefedd**

189. Mae'r ffactorau sy'n achosi digartrefedd yn amrywiol ac yn bellgyrhaeddol. I rai, mae digartrefedd yn deillio o ffactorau cymhleth sy'n gofyn am ymateb yr un mor amrywiol a phellgyrhaeddol. I eraill, mae digartrefedd yn gysylltiedig â phwysau yn y farchnad eiddo ac mae'n bosibl na fydd ganddynt lawer o anghenion cymorth eraill. Beth bynnag fo gwraidd y broblem, mae tystiolaeth yn awgrymu y bydd pobl sy'n ddigartref, neu sy'n wynebu risg o hynny, yn dod i gysylltiad ag amrywiaeth o wasanaethau cyhoeddus yn rheolaidd wrth iddynt geisio deall a rheoli eu sefyllfa o ran tai.<sup>58</sup> Mae'n hanfodol bod pob un o'r gwasanaethau hyn yn gweithredu i atal digartrefedd, naill ai ar eu pen eu hunain neu gyda phartneriaid er mwyn helpu darpar ymgeisydd digartref i gael cymorth tai a digartrefedd ar gam cynnar. Rydym am sicrhau y caiff sefyllfa unigolyn o ran tai ei hystyried pan fydd yn ymwneud â'r gwasanaethau cyhoeddus hyn. Ar y sail hon, ac er mwyn cydnabod y croestoriad amlwg rhwng digartrefedd, problemau iechyd, trefniadau cyfiawnder troseddol a materion y mae'r sector gofal cymdeithasol yn gyfrifol amdanynt, rydym yn cynnig diwygiadau a fydd yn ehangu cyfrifoldeb am ganfod ac atal digartrefedd ym mhob rhan o'r gwasanaeth cyhoeddus.

190. Nod y diwygiadau a gynigir gan y Papur Gwyn hwn yw sicrhau y bydd pobl ddigartref yn cael y cymorth sy'n canolbwyntio ar unigolion sydd ei angen arnynt gan amrywiaeth o sefydliadau, gan weithio mewn partneriaeth i ymyrryd mor gynnar â phosibl ac atal digartrefedd. Yn ein barn ni, bydd arfer o'r fath nid yn unig yn atal digartrefedd yn fwy effeithiol ond hefyd yn gwella'r gwasanaethau a ddarperir i unigolion ac yn arwain at fanteision ehangach i bob agwedd ar wasanaeth cyhoeddus Cymru. Un enghraifft o arfer o'r fath fyddai gwasanaethau iechyd meddwl y GIG yn atgyfeirio unigolyn at awdurdod tai lleol pan welir bod sefyllfa ansefydlog o ran tai yn cyfrannu at ei salwch meddwl. Drwy wneud hyn, mae'n debygol y gallai'r gwasanaeth a ddarperir gan awdurdod tai lleol atal y risg o ddigartrefedd rhag dod yn ffaith, a all gael effaith gadarnhaol ar iechyd meddwl a llesiant yr unigolyn.


191. Mae'r mathau o wasanaethau cyhoeddus a gaiff eu defnyddio gan bobl ddigartref i'w gweld mewn gwaith ymchwil gan Crisis ar y ffordd y caiff Deddf Lleihau Digartrefedd 2017 ei rhoi ar waith, fel y nodir yn y siart isod<sup>59</sup>. Mae'r siart yn seiliedig ar brofiad cyfranogwyr yn Lloegr, ond mae'n debyg y bydd y profiadau'n debyg yng Nghymru.

---

<sup>58</sup> Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd: adroddiad Mawrth 2020 | LLYW.CYMRU)

<sup>59</sup> [hra-report-2022.pdf \(crisis.org.uk\)](https://www.crisis.org.uk/hra-report-2022.pdf)

Figure 2.10: Experience of contact with other services, Wave 3



192. Mae tystiolaeth sy'n seiliedig ar arferion yn awgrymu, er gwaethaf yr amrywiaeth eang o wasanaethau a all ymwneud ag unigolyn sy'n ddigartref neu sy'n wynebu risg o hynny, nad yw hyn bob amser yn arwain at yr ymateb cyfannol, amlddisgyblaethol sy'n canolbwyntio ar unigolion ac yn ystyriol o drawma sydd fwyaf effeithiol er mwyn cynnal tenantiaethau ac atal digartrefedd. Mae'r amrywiol brosiectau Tai yn Gyntaf sy'n gweithredu mewn 16 o awdurdodau lleol yng Nghymru yn dangos sut y gall math dwys o gymorth cofleidiol gan wasanaeth cyhoeddus helpu unigolion i gynnal eu tenantiaethau, gan mai'r gyfradd cynnal tenantiaeth gyfartalog a oedd wedi'i chofnodi hyd at fis Medi 2021 oedd 90%<sup>60</sup>.

193. Drwy ymgysylltu ag awdurdodau lleol, landlordiaid cymdeithasol cofrestredig a gwasanaethau cymorth digartrefedd a thai yn y trydydd sector, rydym wedi canfod yr heriau canlynol mewn perthynas â'r ymatebion amlddisgyblaethol presennol i atal digartrefedd.<sup>61</sup>

### Diffyg dealltwriaeth o ffactorau risg

194. Mae sefydlogrwydd o ran tai yn hanfodol i lwyddiant unrhyw ymyriad gwasanaeth cyhoeddus, bron. Nid oes gan weithwyr proffesiynol sy'n gweithio mewn sectorau cysylltiedig ddealltwriaeth dda o'r ffactorau risg sy'n gysylltiedig ag ansicrwydd o ran tai a digartrefedd bob amser. O ganlyniad i hynny, gellir colli cyfleoedd i ymyrryd ac atal digartrefedd yn gynnar. Yr adeg fwyaf priodol i fynd i'r afael â digartrefedd yw cyn iddo ddigwydd, gan atal unigolyn rhag colli ei gartref neu ei helpu i symud i mewn i gartref pan fydd yn gadael gofal neu leoliad sefydliadol arall. Mae tystiolaeth yn awgrymu, pan fydd unigolyn yn symud i lety dros dro neu i lety ansicr, y bydd ei allu i ymgysylltu a rheoli'r sefyllfa, a gallu gwasanaethau cyhoeddus i wneud hynny, yn lleihau.<sup>62</sup> Pan na sylwir ar y ffactorau risg neu pan

<sup>60</sup> [HF Wales Tracker - Sep 2021.pdf \(cymorthcymru.org.uk\)](https://www.cymorthcymru.org.uk/HF_Wales_Tracker_-_Sep_2021.pdf)

<sup>61</sup> Adborth a gafwyd mewn digwyddiadau cyn ymgynghori a gynhaliwyd yng Nghasnewydd, Llandrindod a Chaerfyrddin ym mis Mawrth 2023.

<sup>62</sup> ["I hoped there'd be more options:" Experiences of the Homelessness Reduction Act, 2018-2021 | Crisis | Together we will end homelessness](https://www.homelessness.org.uk/news/2021/10/14/i-hoped-there-d-be-more-options-experiences-of-the-homelessness-reduction-act-2018-2021-crisis-together-we-will-end-homelessness)

ddaw'r digartrefedd ei hun i'r amlwg yn rhy hwyr, bydd yn rhaid i dimau awdurdodau lleol ymateb i argyfwng, sy'n tueddu i arwain at ffocws ar "roi to uwchben rhywun" yn hytrach na'r ffactorau achosol sy'n arwain at yr argyfwng.

### **Ffocws diwylliannol ar bobl sydd heb do uwch eu pennau**

195. Mae'n bosibl camddeall y term digartrefedd a chredu ei fod yn golygu profiad rhywun o fod, yn llythrennol, heb do uwch ei ben. Yn aml, ceir camsyniad bod digartrefedd yn deillio o ymddygiad gwrthgymdeithasol neu ddiffyg cyfrifoldeb personol. Fodd bynnag, mewn llawer o achosion, mae'n deillio o amrywiaeth gymhleth o ffactorau strwythurol, cymdeithasol ac economaidd yn ogystal â phwysau personol, sy'n gofyn am ymateb yr un mor bellgyrhaeddol. Mae gan rai pobl anghenion isel, tra bo angen i bobl eraill gael mwy gan wasanaethau.

196. Dywed timau awdurdodau tai lleol yn fynych eu bod yn aml yn gweithio ar eu pen eu hunain gyda phobl sy'n wynebu digartrefedd ochr yn ochr ag amrywiaeth o anghenion cymorth eraill, er mai dim ond un o'r anghenion cymorth hynny yw llety. Roedd y dull 'neb heb help', a roddwyd ar waith yn ystod cyfnod y pandemig, yn benderfyniad polisi a wnaed er mwyn cydnabod risgiau iechyd y cyhoedd roedd pobl a oedd yn ddigartref ac ar y stryd yn eu hwynebu. Er bod darpariaeth a mynediad at dai yn elfen allweddol o fesurau i atal digartrefedd, erys angen hanfodol am ymateb gwasanaeth cyhoeddus ehangach.

197. Mewn llawer o achosion, yn sgil galw digynsail ar wasanaethau digartrefedd, cael ei leoli am y tymor canolig i'r tymor hir mewn llety dros dro yw'r hyn sydd ar gael i unigolyn sy'n gwneud cais am gymorth digartrefedd. Er gwaethaf ymdrechion gorau darparwyr, gall cael ei leoli mewn llety dros dro fod yn niweidiol i iechyd a llesiant unigolyn, gan arwain yn aml at waethygu strategaethau ymdopi nad ydynt yn iach a golygu y bydd angen mwy o gymorth, nid llai. Hyd yn oed pan ellir cynnig llety parhaol, ni fydd darparu llety yn unig yn mynd i'r afael ag anghenion cymhleth ehangach unigolyn.

### **Blaenoriaethau croes**

198. Ceir llawer o enghreifftiau o arferion da yng ngwasanaeth cyhoeddus Cymru o ran atal digartrefedd, fel y dangosir gan lwybrau i blant, pobl ifanc ac oedolion yn yr ystad ddiogel.<sup>63</sup> Fodd bynnag, rydym yn cydnabod nad yw'r arferion da hyn yn digwydd ym mhob rhan o'r gwasanaeth cyhoeddus mor rheolaidd ag y dylent ddigwydd, gan arwain at ganlyniadau gwaeth i rai unigolion a mwy o ddibyniaeth ar wasanaethau cyhoeddus ehangach, megis unedau brys ar gyfer gofal meddygol rheolaidd. Dan rai amgylchiadau, gall arferion awdurdod cyhoeddus danseilio ymdrechion i atal digartrefedd mewn gwirionedd. Er enghraifft, pan fydd penderfynwyr yn asesu trefniadau ailsefydlu pobl sy'n gadael yr ystad ddiogel, yn enwedig y rhai a gafodd eu heuogfarnu am droseddau rhywiol, gallant atal unigolyn rhag cael lle i fyw mewn llety a argymhellir gan weithwyr proffesiynol ym maes tai. Wrth gwrs, ceir mesurau diogelu y mae'n rhaid eu bodloni ond, yn anochel, bydd

---

<sup>63</sup><https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-03/gwasanaethau-digartrefedd-ar-gyfer-plant-pobl-ifanc-ac-oedolion-mewn-sefydliadau-diogel-.pdf>

parhau i wrthod trefniadau ailsefydlu yn effeithio ar wasanaethau cyhoeddus eraill a'r gallu i ailintegreiddio unigolyn mewn cymuned.

### **Digartrefedd fel mater sy'n ymwneud â gwasanaeth cyhoeddus**

199. Mae'r adran ganlynol yn crynhoi effaith digartrefedd ar wasanaethau cyhoeddus eraill.

### **Iechyd ac iechyd cynhwysiant**

200. Mae gwasanaethau iechyd yn targedu 'grwpiau iechyd cynhwysiant' yn gynyddol, sef pobl sydd wedi cael eu hallgáu'n draddodiadol o wasanaethau gofal iechyd prif ffrwd (oherwydd nifer o ffactorau risg, gan gynnwys stigma a gwahaniaethu a diffyg cofrestru â darparwyr gofal). Mae pobl ddigartref yn un o'r grwpiau iechyd cynhwysiant, ond ymhlith eraill mae pobl â dibyniaeth ar gyffuriau ac alcohol, mudwyr agored i niwed a dioddefwyr caethwasiaeth a masnachu pobl.

201. Iechyd gwael yw un o'r ffactorau sy'n achosi digartrefedd, ac mae'n ganlyniad digartrefedd hefyd, ac mae effeithiau'r profiad hwn ar salwch corfforol a salwch meddwl yn ddifrifol dros ben ac yn cyfyngu ar fywyd. Oedran marw pobl sy'n wynebu pob math o ddigartrefedd yng Nghymru a Lloegr yw 45 oed ymhlith dynion a 43 ymhlith menywod ar gyfartaledd (tua 30 mlynedd yn iau na'r boblogaeth gyffredinol).<sup>64</sup> Nid yn annisgwyl, mae tystiolaeth yn awgrymu bod gan unigolion sy'n ddigartref angen anghymesur o uchel am wasanaethau gofal iechyd; Dywed 78% o bobl sy'n ddigartref fod ganddynt gyflwr iechyd corfforol, ac mae gan 29% o'r bobl hynny rhwng 5 a 10 diagnosis.<sup>65</sup> Mae marwolaethau y gellir eu hatal ymhlith rhai achosion marwolaeth ar gyfradd lawer uwch ar gyfer pobl sydd â phrofiad o ddigartrefedd na'r boblogaeth ehangach yng Nghymru.<sup>66</sup> Er enghraifft, mae pobl sy'n ddigartref ddwywaith yn fwy tebygol o farw o drawiad ar y galon a chlefyd cronig y galon na'r boblogaeth gyffredinol.<sup>67</sup>

202. Caiff yr effeithiau hyn ar iechyd corfforol eu gwaethygu ymhellach gan fod pobl sy'n ddigartref yn aml yn ei chael yn anodd cael gafael ar wasanaethau gofal iechyd.<sup>68</sup> Mae hyn i'w weld wrth gymharu nifer yr ymweliadau â gwasanaethau brys

---

<sup>64</sup><https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/birthsdeathsandmarriages/deaths/bulletins/deathsofhomelesspeopleinenglandandwales/2021registrations> – cyrchwyd drwy Nodyn Briffio'r Panel Adolygu Arbenigol ar Ddigartrefedd ar gyfer Cyfarfod 7: Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Digartrefedd Mawrth 2023

<sup>65</sup> <https://homeless.org.uk/knowledge-hub/unhealthy-state-of-homelessness-2022-findings-from-the-homeless-health-needs-audit> – cyrchwyd drwy Nodyn Briffio'r Panel Adolygu Arbenigol ar Ddigartrefedd ar gyfer Cyfarfod 7: Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Digartrefedd Mawrth 2023

<sup>66</sup> Grey CNB a Woodfine L. (2019). Lleisiau'r rhai sydd â phrofiadau personol o ddigartrefedd a niwed yng Nghymru: Llywio gwaith atal ac ymateb. Caerdydd: Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru – cyrchwyd drwy Nodyn Briffio'r Panel Adolygu Arbenigol ar Ddigartrefedd ar gyfer Cyfarfod 7: Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Digartrefedd Mawrth 2023

<sup>67</sup> Watson I, MacKenzie F, Woodfine L ac Azam S. (2019). Gwneud Gwahaniaeth. Tai ac Iechyd: Yr Achos dros Fuddsoddi. Caerdydd, Iechyd Cyhoeddus Cymru – cyrchwyd drwy Nodyn Briffio'r Panel Adolygu Arbenigol ar Ddigartrefedd ar gyfer Cyfarfod 7: Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Digartrefedd Mawrth 2023

<sup>68</sup> <https://phw.nhs.wales/publications/publications1/iechyd-unigolion-sydd-a-phrofiad-personol-o-ddigartrefedd-yng-nghymru-yn-ystod-y-pandemig-covid-19-ffeithlun/> – cyrchwyd drwy Nodyn Briffio'r

rhwng pobl â phrofiad personol o ddigartrefedd; 562 o ymweliadau ag adrannau damweiniau ac achosion brys fesul 1,000 o'r boblogaeth sy'n ddigartref, o gymharu ag 83 ymhlith y boblogaeth gyffredinol.<sup>69</sup> Dangosodd prosiect cysylltu data ar iechyd a digartrefedd a gynhaliwyd yn yr Alban fod defnydd pobl o wasanaethau iechyd yn cyrraedd uchafbwynt yn union cyn iddynt wneud eu cais digartrefedd cyntaf, sef canfyddiad tebyg i brofiadau pobl a gafodd eu helpu gan y Rhaglen Cymorth Tai (Rhaglen Cefnogi Pobl gynt) yng Nghymru.<sup>70 71</sup>

203. Mae effaith digartrefedd hefyd yn ymestyn y tu hwnt i effeithiau corfforol, i iechyd meddwl. Mae diffyg data cadarn ar broblemau iechyd meddwl a digartrefedd yng Nghymru, ond mae ystadegau yn Lloegr yn dangos mai iechyd meddwl yw'r angen cymorth mwyaf cyffredin ymhlith pobl sy'n cysylltu ag awdurdodau lleol i gael cymorth ar gyfer digartrefedd.<sup>72</sup>

### Defnyddio sylweddau

204. Dywed 30% o bobl sy'n ddigartref ac ar y stryd fod defnyddio sylweddau yn ffactor sy'n cyfrannu at eu digartrefedd.<sup>73</sup> Daeth gwaith ymchwil gan Cymorth Cymru i'r casgliad bod gan fwy na dwy ran o dair o bobl sy'n ddigartref broblem cyffuriau neu broblem alcohol ac, mewn gwaith ychwanegol gan St Mungo's, gwelwyd bod cysylltiad uniongyrchol rhwng defnyddio sylweddau a'r amser y mae unigolyn wedi'i dreulio'n ddigartref ac ar y stryd.<sup>74</sup> Daeth y gwaith ymchwil hwn i'r casgliad bod gan fwy na thraean o'r bobl a oedd wedi bod yn ddigartref ac ar y stryd yn ysbeidiol ac yn hirdymor anghenion cymorth sylweddau neu alcohol.<sup>75</sup>

### Gofal cymdeithasol

205. Mae pobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal wedi'u gorgynrychioli'n sylweddol mewn gwasanaethau digartrefedd.<sup>76</sup> Yn ôl Iechyd Cyhoeddus Cymru, mae mwy nag un o bob pedwar o'r holl bobl ifanc sydd wedi cael profiad o fod mewn gofal yn ddigartref, mae 26% wedi mynd o sofffa i sofffa, ac mae 14% wedi bod yn ddigartref ac ar y stryd.<sup>77</sup> Mae plant yng Nghymru, p'un a ydynt wedi derbyn gofal ai peidio, sydd wedi cael pedwar profiad niweidiol neu fwy yn ystod plentyndod, 16 gwaith yn fwy tebygol o gael profiad o ddigartrefedd ac mae'r rhai ag amgylcheddau teuluol cefnogol bron 90% yn llai tebygol o gael profiad o ddigartrefedd na'r rhai heb

---

Panel Adolygu Arbenigol ar Ddigartrefedd ar gyfer Cyfarfod 7: Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Digartrefedd Mawrth 2023

<sup>69</sup> Song J, Moreno-Stokoe C, Grey CNB, Davies AR. (2021). Iechyd unigolion sydd â phrofiad personol o ddigartrefedd yng Nghymru, yn ystod y pandemig COVID-19. Caerdydd: Iechyd Cyhoeddus Cymru – cyrchwyd drwy Nodyn Briffio'r Panel Adolygu Arbenigol ar Ddigartrefedd ar gyfer Cyfarfod 7: Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Digartrefedd Mawrth 2023

<sup>70</sup> [Health and homelessness in Scotland: research - gov.scot \(www.gov.scot\)](https://www.gov.scot/research/publications/health-and-homelessness-in-scotland-research)

<sup>71</sup> [Prosiect Cysylltu Data Cefnogi Pobl | LLYW.CYMRU](#)

<sup>72</sup> Yr Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau. (2021). Ystadegau Digartrefedd

<sup>73</sup> <https://phw.nhs.wales/publications/publications1/iechyd-unigolion-sydd-a-phrofiad-personol-o-ddigartrefedd-yng-nghymru-yn-ystod-y-pandemig-covid-19-ffeithlun/>

<sup>74</sup> Cymorth Cymru (2016) Health Matters The health needs of homeless people in Wales

<sup>75</sup> <https://data.london.gov.uk/download/chain-reports/6ee424a2-e7e0-4ad3-9622-e225276940cd/Greater%20London%20full%202022-23.pdf>

<sup>76</sup> Gweler y rhestr termau am ddiffiniad

<sup>77</sup> [PHW-WELSH-Infographic-Care-and-homelessness.pdf \(phwwhocc.co.uk\)](#)

amgylchedd o'r fath. O ganlyniad i hynny, mae'r glasoed sy'n ddigartref yn fwy tebygol o roi gwybod bod ganddynt symptomau o iselder, eu bod yn ei chael yn anodd ymdopi â straenachosyddion yn eu bywydau a bod ganddynt fwy o broblemau iechyd corfforol o gymharu â'r rhai sy'n byw mewn llety sefydlog.<sup>78</sup>

## Addysg

206. Mae'n bosibl y bydd gan staff sy'n gweithio mewn lleoliadau addysg ac ysgolion rôl gynyddol bwysig i'w chyflawni o ran canfod y risg o ddigartrefedd ymhlith plant a phobl ifanc.<sup>79</sup> Daeth gwaith ymchwil a wnaed yn Lloegr gan Shelter i'r casgliad bod mwy na thri chwarter (77%) yr athrawon a holwyd wedi gweld plant a oedd yn ddigartref neu'n byw mewn tai gwael yn eu hysgolion dros y tair blynedd diwethaf. Roedd saith o bob 10 o athrawon (69%) wedi gweld plant a oedd yn byw mewn tai gorlawn, ansefydlog neu o ansawdd gwaed.

207. Gall digartrefedd effeithio ar amrywiaeth o ddangosyddion o ddatblygiad a llesiant plentyn, ac mae'r amser y bydd plentyn yn ei dreulio yn yr ysgol, neu'r amser y dylai ei dreulio yno, yn gyfle i adnabod disgyblion sy'n wynebu risg o ddigartrefedd, a gellir dadlau bod hyn yn fwy o gyfle i wneud hynny nag unrhyw ryngweithio arferol arall â gwasanaethau cyhoeddus.<sup>80</sup> Daeth prosiect cysylltu data a gynhaliwyd yn Abertawe i'r casgliad bod digartrefedd neu'r risg o ddigartref yn gysylltiedig â chynnydd o 7% yng nghyfanswm y sesiynau roedd disgyblion yn absennol ohonynt yn yr ysgol.<sup>81</sup> Hefyd, gwelwyd bod cyfran y plant a oedd yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn fwy ymhlith aelwydydd a oedd mewn cysylltiad â thîm tai'r awdurdod lleol.

208. Ceir [tystiolaeth](#) o gysylltiad rhwng peidio â bod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) a digartrefedd ymhlith pobl ifanc. Mae sampl o bobl sy'n ddigartref yng Nghymru yn awgrymu bod 59% wedi cael eu gwneud yn ddigartref am y tro cyntaf cyn iddynt gyrraedd 21 oed. Ar ben hynny, roedd 78% wedi bod yn ddigartref fwy na thair gwaith, sy'n dangos, pan fydd rhywun wedi bod yn ddigartref unwaith, y bydd hynny'n debygol o ddigwydd eto, sy'n atgyfnerthu'r ddadl o blaid mentrau ymyrryd cadarn. Nid yw hyn yn golygu bod pob person ifanc y nodir eu bod yn NEET yn wynebu risg o ddigartrefedd ymhlith pobl ifanc, er yn sicr y bydd rhywfaint o gydberthyniad.

209. Drwy'r [Fframwaith Ymgysylltiad a Chynnydd Ieuenctid](#) ar ei newydd wedd, a gyhoeddwyd yn 2022, rydym yn gweithio gydag awdurdodau lleol i atgyfnerthu ac addasu eu systemau adnabod yn gynnar llwyddiannus er mwyn ystyried ffactora risg a dangosyddion ychwanegol sy'n gysylltiedig â digartrefedd ymhlith pobl ifanc. Drwy'r Gwasanaeth Ieuenctid ac mewn cydweithrediad ag amrywiaeth o bartneriaid, y nod yw adnabod a chefnogi pobl ifanc sy'n dechrau dangos rhai o'r ffactorau risg a all arwain at ddigartrefedd. Bydd buddsoddi mewn gwasanaethau ar y cam cynnar hwn er mwyn cefnogi pobl ifanc a'u teuluoedd yn mynd i'r afael â phroblemau cyn

---

<sup>78</sup> <https://icc.gig.cymru/newyddion/cyhoeddiadau/gwneud-gwahaniaeth-tai-ac-iechyd/icc-gwneud-gwahaniaeth-tai-ac-iechyd-yr-achos-dros-fuddsoddi-pdf/>

<sup>79</sup> [Tai yng Nghymru \(Cyfrifiad 2021\) | LLYW.CYMRU](#)

<sup>80</sup> [Teachers Research Report.pdf \(ctfassets.net\)](#)

<sup>81</sup> [Absenoldeb o'r ysgol ymhlith plant o deulu digartref | LLYW.CYMRU](#)

iddynt waethygu. Mae ysgolion yn hollbwysig yn y broses hon gan nad yw pob un o'r dangosyddion yn seiliedig ar ddata, ac mae angen mewnbwn gan ymarferwyr i'w hategu. Gall trafodaethau rhwng ymarferwyr mewn ysgolion a phartneriaid amlasiantaethol eraill ffurfio darlun cyfannol o'r person ifanc a'i sefyllfa, a all newid yn gyflym. Gall mewnbwn gan ymarferwyr dynnu sylw at newidiadau i amgylchiadau teuluol, dangosyddion o ymddygiad heriol, newidiadau i ofynion cymorth ac ati, ac mae'n hanfodol er mwyn sicrhau y gellir rhoi cymorth effeithiol ar yr adeg gywir.

201. Hefyd, rydym yn buddsoddi i wneud yn siŵr bod ysgolion yn gallu gweithredu a datblygu fel Ysgolion Bro, sy'n estyn allan at deuluoedd i'w cynnwys ac yn gweithio gyda'r gymuned ehangach i gefnogi pob disgybl, yn enwedig y rhai o aelwydydd incwm isel. Eleni, gwnaethom roi £6.5m i awdurdodau lleol er mwyn cynyddu nifer y Swyddogion Ymgysylltu â Theuluoedd a gyflogir gan ysgolion, gan sicrhau y caiff partneriaethau cadarnhaol eu datblygu â theuluoedd fel eu bod yn cael cynnig cymorth pwrpasol ac yn cael eu cyfeirio at wasanaethau perthnasol fel y bo'n briodol. Rydym hefyd yn parhau i gyllido cynllun peilot Rheolwyr Ysgolion Bro, a fydd yn gweithio ar wella'r ymgysylltu rhwng ysgolion a'u cymunedau. Mae cyfres o ganllawiau'n cael ei datblygu er mwyn helpu rhanddeiliaid allweddol i roi dull Ysgolion Bro ar waith; cafodd [canllawiau cyffredinol ar Ysgolion Bro](#) eu cyhoeddi ym mis Tachwedd 2022, a chafodd y canllawiau atodol [Datblygu trefniadau ar gyfer ymgysylltu â theuluoedd mewn Ysgolion Bro](#) eu cyhoeddi ym mis Ionawr. Caiff canllawiau atodol pellach ar agweddau allweddol ar ymgysylltu â'r gymuned ac ymgysylltu amlasiantaethol eu cyhoeddi maes o law, ynghyd â gwaith ymchwil ac astudiaethau achos pellach.

### **Yr hyn y mae'r gyfraith yn ei ddweud ar hyn o bryd**

211. Gan awdurdod tai lleol yn bennaf y mae'r dyletswyddau a'r pwerau a ddarperir gan Ddeddf Tai (Cymru) 2014. Fodd bynnag, mae adran 95 o'r Ddeddf Tai 2014 yn darparu ar gyfer cydweithredu er mwyn helpu i atal a lleihau digartrefedd drwy swyddogaethau ehangach awdurdod lleol; rhwng gwasanaethau cymdeithasol a thimau digartrefedd yn benodol. Mae adran 95 hefyd yn ymestyn gofynion i gydweithredu y tu hwnt i'r awdurdod lleol ac yn caniatáu i awdurdod tai lleol wneud cais i gyrff cyhoeddus penodol a restrir gydweithredu ag ef er mwyn iddynt allu ei helpu i gyflawni ei swyddogaethau digartrefedd. Rhaid i gorff cyhoeddus gydweithredu â'r awdurdod oni fyddai'r cais yn anghydnaws â'i ddyletswyddau neu'n cael effaith andwyol ar ei swyddogaethau.

212. Mae adborth seiliedig ar arferion yn awgrymu bod y darpariaethau yn adran 95 wedi helpu i hwyluso cydberthnasau gweithio cadarn, yn enwedig rhwng gwasanaethau cymdeithasol a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig mewn rhai ardaloedd, ond nid yw'n ymddangos bod yr arferion hyn yn gadarn ledled Cymru gyfan. Ar ben hynny, nid yw'n ymddangos bod yr amrywiaeth o sefydliadau sydd eu hangen i fynd i'r afael ag achosion ac effeithiau digartrefedd yn cael eu defnyddio'n rheolaidd.

213. Mae Strategaethau Digartrefedd, wedi'u llunio o dan adran 50 o'r Ddeddf Tai 2014, hefyd yn allweddol i'r ffordd y bydd awdurdod tai lleol yn pennu camau gweithredu yr hoffai eu cymryd gyda phartneriaid sy'n gweithredu yn y sector cyhoeddus a'r trydydd sector er mwyn atal neu leihau digartrefedd. Dylid gwneud

hyn drwy gytundeb ac mewn ffordd integredig, gan adlewyrchu anghenion y bobl sy'n cael cymorth (mewn modd sy'n canolbwyntio ar unigolion ac sy'n ystyriol o drawma ac yn unol ag egwyddorion Fframwaith Cymru sy'n Ystyriol o Drawma 2022).<sup>82</sup>

214. Nid yw'r trefniadau i hybu cydweithredu sy'n helpu i atal neu leihau digartrefedd wedi'u cyfyngu i'r Ddeddf Tai 2014 ac maent hefyd wedi'u hadlewyrchu yn:

- rhan 9 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, gan gynnwys rôl Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn ogystal â threfniadau anstatudol.
- Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 sy'n cynnwys dyletswydd i lunio strategaeth leol.
- Llwybr Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Digartrefedd i Blant, Pobl Ifanc ac Oedolion mewn Sefydliadau Diogel.<sup>83</sup>
- Fframwaith Llety a Chymorth i Ymadawyr Gofal yng Nghymru<sup>84</sup>, a'r
- Llwybr Tai Cenedlaethol ar gyfer Cyn-aelodau'r Lluoedd Arfog, sy'n ategu'r ddyletswydd yng Nghyfamod Cymunedol y Lluoedd Arfog sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol ystyried y Cyfamod wrth gyflawni rhai swyddogaethau sy'n gysylltiedig â thai.<sup>85</sup>

## Cymaryddion yn y DU

215. Yn Lloegr, cyflwynodd adran 10 o Ddeddf Lleihau Digartrefedd 2017 ddyletswydd i atgyfeirio sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus penodedig hysbysu awdurdod tai lleol am unigolion os byddant yn ystyried eu bod yn ddigartref neu'n debygol o gael eu gwneud yn ddigartref.<sup>86</sup> Mae'r awdurdodau cyhoeddus hynny wedi'u henwi yn Rheoliadau Digartrefedd (Gweithdrefn Adolygu etc.) 2018 ("Rheoliadau 2018 Lloegr").<sup>87</sup> Nod y 'ddyletswydd i atgyfeirio' yw gwella cydweithio rhwng gwasanaethau er mwyn atal digartrefedd, gan sicrhau y bydd awdurdod cyhoeddus yn mynd ati i ystyried anghenion unigolyn o ran tai. Drwy'r cydweithio hwn, gall gwasanaethau ymyrryd yn well ar y cam cynharaf posibl.<sup>88</sup> Er y bydd yn haws i awdurdod cyhoeddus ganfod digartrefedd gwirioneddol, mae adnabod y bygythiad o ddigartrefedd yn fwy o her ac, o dan yr amgylchiadau hyn, disgwylir iddynt ystyried problemau ariannol posibl, problemau tenantiaeth (megis anghydfod â landlordiaid ynglŷn â chyflwr llety neu lefelau rhent), profiadau o gam-drin domestig a gwahanol fathau o drais, rhyddhau o sefydliadau cyhoeddus a phrofiadau o fod mewn gofal, yn y carchar neu yn y lluoedd arfog.

216. Yn ddiweddar, mae Llywodraeth yr Alban wedi ymgynghori ar ddyletswydd arfaethedig i 'ofyn a gweithredu', a all ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus nodi a yw'r bobl y maent yn gweithio gyda nhw yn wynebu risg o ddigartrefedd neu'n

<sup>82</sup> [Cymru sy'n Ystyriol o Drawma \(traumaframeworkcymru.com\)](http://traumaframeworkcymru.com)

<sup>83</sup> [27291 Llwybr Digartrefedd i Garcharorion \(llyw.cymru\)](http://llyw.cymru)

<sup>84</sup> [Fframwaith Llety a Chymorth i Ymadawyr Gofal yng Nghymru – Shelter Cymru](http://framwaith.llety.a.chymorth.i.ymadawyr.gofal.yng.nghymru-shelter.cymru)

<sup>85</sup> [llwybr-tai-cenedlaethol-ar-gyfer-cyn-aelodau-r-lluoedd-arfog.pdf \(llyw.cymru\)](http://llwybr-tai-cenedlaethol-ar-gyfer-cyn-aelodau-r-lluoedd-arfog.pdf)

<sup>86</sup> [Deddf Lleihau Digartrefedd 2017 \(legislation.gov.uk\)](http://legislation.gov.uk)

<sup>87</sup> [Rheoliadau Digartrefedd \(Gweithdrefn Adolygu etc.\) 2018 \(legislation.gov.uk\)](http://legislation.gov.uk)

<sup>88</sup> [A guide to the duty to refer - GOV.UK \(www.gov.uk\)](http://www.gov.uk)



wynebu problemau o ran tai, a gweithredu i fynd i'r afael â'r risg hon.<sup>89</sup> Mewn rhai achosion, y camau gweithredu gofynnol fyddai atgyfeirio at yr awdurdod lleol ac, mewn achosion eraill, mae'n bosibl y byddai'r corff cyhoeddus mewn sefyllfa i weithredu mewn ffordd fwy uniongyrchol i atal digartrefedd, megis rhoi gofal estynedig ar gyfer anghenion iechyd meddwl.

### **Y ffordd y mae'r gyfraith yn gweithio ar hyn o bryd**

217. Nid yw'r Ddeddf Tai 2014 yn darparu dull ar gyfer sicrhau cydweithredu ym mhob rhan o wasanaeth cyhoeddus Cymru er mwyn atal digartrefedd ac mae'r Panel Adolygu Arbenigol yn glir bod tystiolaeth o ddiffyg cydweithredu rhwng gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol er mwyn atal digartrefedd.<sup>90</sup> Mae hyn er bod y pwynt lle y bydd pobl yn ymuno â gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ac yn ymadael â nhw yn aml yn bwynt allweddol i ymyrryd er mwyn atal digartrefedd, er enghraifft pan fydd rhywun yn mynd i'r ysbyty i gael cymorth seiciatrig fel claf mewnol neu'n gadael y system ofal.

218. Fel yr amlinellwyd yn gynharach yn y bennod hon, mae pobl sy'n gweithio mewn awdurdodau lleol a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig wedi dweud eu bod yn teimlo ar adegau y bydd eu partneriaid yn tynnu cymorth yn ôl neu'n rhoi cyngor cyfyngedig i atal digartrefedd pan fydd blaenoriaethau croes yn eu hwynebu. Mewn llawer o achosion, mae hyn yn adlewyrchu pwysau drwy'r gwasanaeth cyhoeddus ehangach yng Nghymru a'r heriau sy'n wynebu gweithwyr proffesiynol ers pandemig COVID-19 a'r argyfwng costau byw presennol.

219. Bydd pob rhan o'r gwasanaeth cyhoeddus yn dibynnu ar eraill i ddarparu gwasanaethau, ond gall y dull cyfannol sydd ei angen i atal a lleihau digartrefedd, o ystyried ei ffactorau achosol pellgyrhaeddol, gyfyngu ar ganlyniadau, yn enwedig gan fod y dull 'neb heb help' wedi trawsnewid uchelgeisiau ar gyfer rhoi diwedd ar ddigartrefedd. Yn ein barn ni, nid yw'r system bresennol yn hwyluso cydweithio cystal ag yr hoffem iddi wneud. Er mwyn i ddigartrefedd ddod yn beth prin a byrhoedlog nad yw'n ailddigwydd, mae'n hollbwysig y gall y gwasanaeth cyhoeddus cyfan yng Nghymru chwarae ei ran i ganfod ac atal digartrefedd. Mae arferion da o ran cydweithio wedi cael eu canfod mewn rhannau o Gymru er mwyn mynd i'r afael â digartrefedd ar y stryd, ac mae'n hanfodol bod y ffordd hon o weithredu yn dod yn fwy cyffredin.<sup>91</sup>

### **Newidiadau Arfaethedig**

220. Mae angen gwneud diwygiadau i'r ddeddfwriaeth bresennol er mwyn atal rhagor o achosion o ddigartrefedd, sicrhau y gellir ymyrryd cyn gynted â phosibl a chreu ymateb mwy cyfannol sy'n canolbwyntio ar unigolion ac sy'n ystyriol o drawma ym mhob rhan o wasanaeth cyhoeddus Cymru ar gyfer pobl sy'n ddigartref neu sy'n wynebu risg o fod yn ddigartref. Er mwyn cyflawni hyn, rydym yn cynnig sicrhau bod gallu unigolion i gynnal llety (gan dargedu deiliaid contractau yn bennaf) ac atal digartrefedd yn gyfrifoldeb a rennir gan bartneriaid mewn gwasanaethau cyhoeddus ehangach a'i gwneud yn ofynnol i'r partneriaid hynny weithio gyda thimau

---

<sup>89</sup> Dylid nodi nad y polisi "Gofyn a Gweithredu" y cyfeirir ato yn neddfwriaeth Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Llywodraeth Cymru yw hwn.

<sup>90</sup> [Panel Adolygu Arbenigol Cymru \(crisis.org.uk\)](https://www.crisis.org.uk)

<sup>91</sup> [Cysgu Allan yng Nghymru – Problem i Bawb; Cyfrifoldeb i Neb \(archwilio.cymru\)](https://www.archwilio.cymru)

digartrefedd awdurdodau lleol i atal digartrefedd a helpu unigolion i gadw eu lle mewn llety parhaol. Lle bo angen, rydym hefyd yn cynnig creu timau amlddisgyblaethol o amgylch pobl sy'n ddigartref neu sydd dan fygythiad o ddigartrefedd, er mwyn mynd i'r afael â chymhlethdod eu hanghenion. Rydym yn cynnig cyflawni'r bwriad polisi hwn drwy'r diwygiadau deddfwriaethol arfaethedig canlynol:

### **Dyletswydd i ganfod ac atgyfeirio**

- **Dyletswydd newydd i adnabod pobl sy'n wynebu risg o ddigartrefedd a'u hatgyfeirio at rannau penodedig o'r gwasanaeth cyhoeddus, er mwyn i awdurdod lleol gael ei hysbysu cyn gynted â phosibl bod rhywun dan fygythiad o ddigartrefedd neu'n ddigartref yn barod.**
- **Ynghyd â'r ddyletswydd i atgyfeirio, rydym yn cynnig rhoi dyletswydd ar y rhannau penodedig o'r gwasanaeth cyhoeddus i weithredu o fewn eu swyddogaethau eu hunain i gynnal contractau meddiannaeth safonol neu ddiogel a lliniaru'r risg o ddigartrefedd.**
- **Dyletswydd ehangedig i gydweithredu (a osodir gan adran 95 o'r Ddeddf Tai 2014 ar hyn o bryd), er mwyn sicrhau y bydd mwy o wasanaethau cyhoeddus yn cael eu defnyddio ac y byddant yn gyfrifol am wneud digartrefedd yn beth prin a byrhoedlog nad yw'n ailddigwydd.**
- **Atgyfnerthu arweinyddiaeth strategol ym maes digartrefedd ar lefel ranbarthol.**
- **Dull statudol o gydgyssylltu achosion ar gyfer pobl sy'n ddigartref neu sy'n wynebu risg o ddigartref ac sydd â nifer o anghenion cymorth cymhleth.**

221. Mae gwerthusiad o Ddeddf Lleihau Digartrefedd 2017 yn Lloegrwedi darganfod bod y ddyletswydd i atgyfeirio wedi bod yn ddefnyddiol o ran cyfeirio pobl sy'n wynebu risg o ddigartrefedd at wasanaethau tai.<sup>92</sup> Mae'r gwerthusiad hefyd yn helpu i ddysgu rhai gwersi mewn perthynas â rhoi dyletswydd o'r fath ar waith; mae'n hollbwysig gweithredu ar y ddyletswydd cyn gynted â phosibl er mwyn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i ymyrryd yn gynharach, gyda'r ddyletswydd yn effeithiol fwy na thebyg pan fydd yn rhan o ddiwylliant ehangach o gydweithredu a rhannu cyfrifoldeb. Yn ein barn ni, rhaid i ddyletswydd i atgyfeirio hefyd sicrhau bod gwasanaethau cyhoeddus perthnasol, lle y bo'n angenrheidiol ac yn briodol, yn parhau i gyfrannu at ddarparu gwasanaethau i unigolyn a rhaid i'r dyletswyddau hyn fod yn rhan o ofyniad ehangach i gyrrff penodedig gydweithredu. Credwn fod y dull cyfunol hwn yn fwy tebygol o arwain at y trawsnewid sy'n ofynnol i wneud digartrefedd yng Nghymru yn beth prin a byrhoedlog nad yw'n ailddigwydd.

222. Bydd dyletswydd arfaethedig i ganfod ac atgyfeirio yn dibynnu ar ymgyrch genedlaethol i ddysgu a datblygu er mwyn sicrhau bod y rhai sy'n gweithio mewn rhannau perthnasol o wasanaeth cyhoeddus Cymru yn gallu canfod y ffactorau risg

<sup>92</sup> [hra-report-2022.pdf \(crisis.org.uk\)](https://www.crisis.org.uk/hra-report-2022.pdf)

ar gyfer digartrefedd, gan gynnwys ôl-ddyledion rhent, anawsterau ariannol, cam-drin neu dor perthynas. Byddai gofynion y ddyletswydd arfaethedig i ganfod ac atgyfeirio yn golygu, os bydd corff penodedig yn canfod un o'r ffactorau risg hyn neu fwy, ac yn cael cytundeb y sawl yr effeithir arno, y byddai'n ofynnol iddo roi gwybod i awdurdod tai lleol bod yr unigolyn yn ddigartref neu'n wynebu risg o hynny. Ochr yn ochr â'r ddeddfwriaeth arfaethedig, byddem hefyd yn cyflwyno canllawiau yn annog awdurdodau tai lleol i gynnwys cydsyniad i rannu gwybodaeth ar ffurflenni allweddol ym meysydd tai a gwasanaethau cymdeithasol, er mwyn eu helpu i rannu gwybodaeth pan fydd unigolyn yn ddigartref neu'n wynebu risg o hynny. Rydym yn cydnabod y bydd yn bwysig taro'r cydbwysedd cywir rhwng yr hyn sy'n ofynnol gan ddeddfwriaeth a pha arferion da sy'n cyflawni ein bwriad polisi. Drwy gydol yr ymgynghoriad, a thu hwnt, byddwn yn gweithio ym mhob rhan o'r gwasanaeth cyhoeddus i ddarganfod beth yw'r cydbwysedd hwn, beth yw rôl y ddeddfwriaeth, a beth yw'r ffordd orau o gyflawni ein nodau drwy gydweithio a rhannu arferion da.

223. Cynigir y byddai canllawiau a deunydd addysgol ategol yn ei gwneud yn glir y dylai ymateb i'r risg o ddigartrefedd fod yn un o'r ystyriaethau cyntaf i gorff penodedig, ac annog atgyfeiriadau cyn gynted â phosibl, yn hytrach nag aros am adeg benodedig cyn y gallai digartrefedd ddigwydd – sef 56 diwrnod ar hyn o bryd (neu chwe mis o bosibl, os cytunir ar gynigion cysylltiedig ynghylch digartrefedd yn y Papur Gwyn hwn). Mae egwyddor gweithredu'n gynnar wedi cael ei phwysleisio yn y canllawiau i awdurdodau lleol drwy ddyletswyddau atal a rhyddhad y Ddeddf Tai 2014 a dylid ei phwysleisio unwaith eto drwy'r ddyletswydd arfaethedig i atgyfeirio.<sup>93</sup> Rydym yn cynnig y bydd cyrff penodedig yn rhagweithiol o ran canfod pobl sy'n wynebu risg o ddigartrefedd, gyda'r cyfrifoldeb arnyn nhw i weithredu yn hytrach na dibynnu ar awdurdod lleol i'w gynnwys yn y broses. Drwy wneud hynny, mae'n debygol y gall y gwasanaethau perthnasol dan sylw, mewn partneriaeth, gymryd camau sy'n atal y risg o ddigartrefedd rhag dod yn ffaith neu, os na ellir gwneud hynny, y byddant mewn sefyllfa well i fynd i'r afael ag anghenion llety a chymorth parhaus yr unigolyn.

224. Gan y bydd cydsyniad yr unigolyn dan sylw wedi cael ei sicrhau, bwriedir y bydd yr atgyfeiriad yn gweithredu fel cais am gymorth digartrefedd, gan gyflymu'r broses y gallai awdurdodau lleol ei defnyddio i ymyrryd, yn hytrach nag aros i'r unigolyn wneud cais eto. Byddai'r diffiniad o ddigartrefedd neu'r risg o ddigartrefedd yn cyd-fynd â'r hyn a nodir yn y cynigion yn y Papur Gwyn hwn.

225. Ochr yn ochr â'r cynigion yn y Papur Gwyn hwn, rydym hefyd yn bwriadu datblygu adnoddau er mwyn helpu gwasanaeth cyhoeddus Cymru i ganfod digartrefedd yn gynharach a gwneud yr atgyfeiriadau hyn fel rhan o'n gwaith cynllunio cynnar ar gyfer rhoi'r Bil arfaethedig ar waith. Gall yr adnoddau hyn gynnwys pecyn e-ddysgu ynghyd â chanllawiau, a fydd hefyd yn disgrifio'r broses o wneud yr atgyfeiriad, yn nodi sut y dylid rhoi cydsyniad, a sut y gellir sicrhau cysondeb â diwygiadau deddfwriaethol eraill posibl a gynigir yn y Papur Gwyn hwn.

226. Mae'r cyrff penodedig y bydd dyletswydd arfaethedig i ganfod ac atgyfeirio yn gymwys iddynt wedi cael eu dewis yn seiliedig ar y crynodeb o'r dystiolaeth a

---

<sup>93</sup> [allocation-of-accommodation-and-homelessness-guidance-for-local-authorities\\_1.pdf \(llyw.cymru\)](#)

amlinellir ar ddechrau'r bennod hon, ynghyd â gwerthusiad o ddeddfwriaeth gysylltiedig a'r gwaith ymgysylltu a wneir i ddatblygu'r diwygiadau hyn.

227. Yn unol ag argymhelliad y Panel Adolygu Arbenigol, rydym yn cynnig y dylai'r ddyletswydd i ganfod ac atgyfeirio fod yn gymwys i'r cyrff penodedig hyn yng Nghymru:

Sefydliadau neu gyrff sy'n destun rheolaeth ddatganoledig

- i. Adrannau gwasanaethau cymdeithasol (o fewn yr un awdurdod lleol â'r adran ddigartrefedd berthnasol ac o awdurdodau gwahanol);
- ii. Byrddau Iechyd Lleol gan gynnwys gofal sylfaenol;
- iii. Landlordiaid cymdeithasol cofrestredig.

228. Gan gyfeirio at yr [ymrwymïadau diweddar](#) a wnaed gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â lleihau llwyth gwaith a biwrocratiaeth ar gyfer staff ysgolion, byddwn yn cynnal rhagor o brofion ac asesiad o'r effaith ar lwyth gwaith er mwyn asesu hyfywedd cynnwys ysgolion, unedau cyfeirio disgyblion a sefydliadau addysg bellach ac addysg uwch yn y rhestr o gyrff perthnasol.

229. Er mwyn bod mor effeithiol â phosibl, rydym yn cydnabod y byddai'n well i arferion amrywiaeth ehangach o sefydliadau gwasanaeth cyhoeddus gyd-fynd â'r dyletswyddau arfaethedig i ganfod, atgyfeirio a chydweithredu, a'n nod polisi yw y bydd hyn yn digwydd.

Mae'r cyrff hyn wedi'u rhestru isod:

Sefydliadau neu gyrff sy'n destun rheolaeth Llywodraeth y DU

- iv. Yr Adran Gwaith a Phensiynau;
- v. Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuencid;
- vi. Y Gwasanaeth Prawf;
- vii. Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM
- viii. Carchardai a chanolfannau cadw cyfiawnder troseddol eraill;
- ix. Yr heddlu:
- x. Y Swyddfa Gartref pan fydd yn ymwybodol bod ceisiwr lloches sydd wedi cael llety o dan Ddeddf Mewnffudo a Lloches 1999 wedi cael statws ffoadur ac y bydd felly dan fygythiad o ddigartrefedd o fewn chwe mis (ac yn llawer cynt na hynny o bosibl);
- xi. Yr Ysgrifennydd Gwladol dros Amddiffyn mewn perthynas â llety'r lluoedd arfog.

230. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod y pŵer i gyflwyno swyddogaethau i'r cyrff hyn wedi'i gadw gan Lywodraeth y DU ac, er mwyn i unrhyw ddarpariaeth arfaethedig fynd yn ei blaen, bydd angen i Lywodraeth Cymru wneud cais i'r Ysgrifennydd Gwladol perthnasol yn Llywodraeth y DU am gydsyniad. Rydym wedi rhannu ein bwriadau â Gweinidogion Llywodraeth y DU ac rydym yn gobeithio ymgysylltu ymhellach drwy gydol y cyfnod ymgynghori a thu hwnt.

231. Rydym hefyd yn cynnig pŵer i Weinidogion Cymru addasu'r rhestr o gyrff a fydd yn ddarostyngedig i'r rhwymedigaeth hon dros amser.

232. Un agwedd hollbwysig ar y ddyletswydd arfaethedig i ganfod ac atgyfeirio yw sicrhau y bydd y gyrff penodedig hefyd yn cymryd y camau y gallant eu cymryd (o fewn paramedrau dibenion y sefydliad) er mwyn helpu i atal digartrefedd. Mae'r canlynol yn enghreifftiau o'r mathau o weithgarwch y gallai hyn eu cynnwys:

- Pan ganfyddir risg o ddigartrefedd ar gyfer unigolyn sy'n derbyn gofal cymdeithasol, dylai adran gwasanaethau cymdeithasol awdurdod lleol wneud atgyfeiriad at yr awdurdod tai lleol. Os bydd o'r farn bod anghenion gofal cymdeithasol nas diwallwyd, dylid cynnal asesiad o anghenion gofal cymdeithasol a chymryd camau priodol i ddiwallu'r anghenion hynny.
- Os bydd tîm iechyd meddwl yn canfod risg o ddigartrefedd, dylai wneud atgyfeiriad i'r awdurdod tai lleol. Os bydd o'r farn bod anghenion iechyd meddwl nas diwallwyd, dylai gymryd camau gweithredu ochr yn ochr â'r atgyfeiriad i ddiwallu'r anghenion hyn.

### **Y ffordd y bwriedir rhoi'r ddyletswydd i ganfod ac atgyfeirio ar waith ar gyfer darparwyr llety i geiswyr Lloches**

233. Mae'r gwaith ymgysylltu a wnaed gan Tai Pawb er mwyn helpu i ddatblygu'r Papur Gwyn hwn wedi dangos angen penodol mewn perthynas â darparwyr llety i geiswyr lloches yn y ffordd y caiff y ddyletswydd i ganfod ac atgyfeirio ei rhoi ar waith.<sup>94</sup> Mae hyn yn ymwneud yn benodol â cheiswyr lloches sydd wedi cael statws ffoadur ac sydd mewn llety a ddarparwyd gan y Swyddfa Gartref drwy bwerau yn Neddf Mewnfudo a Lloches 1999.

234. Fel arfer, rhoddir 28 diwrnod i unigolyn adael ei lety i geiswyr lloches ar ôl iddo gael statws ffoadur, sy'n aml yn golygu y bydd yn wynebu risg o ddigartrefedd.<sup>95</sup> Rydym yn cynnig y dylid tybio bod yr unigolyn dan fygythiad o ddigartrefedd (yn unol â'r cynigion yn y bennod flaenorol) ar yr adeg y caiff wybod ei fod wedi cael caniatâd i aros (ac felly y bydd ar ryw adeg yn cael hysbysiad ymadael 28 diwrnod). Ar yr un pryd, os bydd y darparwr llety'n hysbysu awdurdod tai lleol am y risg o ddigartrefedd, a/neu'n gweithredu mewn ffordd sy'n atal y risg o ddigartrefedd, gellir lliniaru'r risg o ddigartrefedd. Rydym yn cydnabod y gellir gwneud gwaith atal mwy effeithiol os gellir rhoi rhybudd yn gynharach a byddai'n well gennym i hyn gyd-fynd â'n cyfnod atal chwe mis arfaethedig yng Nghymru. Gan na chaiff yr hysbysiad hwn ei roi fel mater o drefn, rydym yn gobeithio mynd ati ar y cyd â Llywodraeth y DU i ystyried cynnig y bydd dyletswydd i ganfod ac atgyfeirio yn effeithio ar y Swyddfa Gartref neu ddarparwyr llety i geiswyr lloches. Er ein bod yn ffafrio defnyddio'r ddyletswydd i ganfod ac atgyfeirio, mae'n bosibl y bydd dulliau eraill mwy addas ar gael er mwyn sicrhau ffordd gyson o weithredu ymhlith sefydliadau partner. Gallai hyn gynnwys sefydlu memorandwm cyd-ddealltwriaeth neu ddulliau eraill o gytuno sut y gall gwasanaethau lloches helpu awdurdod tai lleol i adnabod pobl sy'n wynebu risg o ddigartrefedd a chymryd camau i ddiwallu eu hanghenion yn effeithiol. Rydym yn

<sup>94</sup> [Experiences-of-homelessness-Final-Version-PDF.pdf \(taipawb.org\)](https://www.taipawb.org/experiences-of-homelessness-final-version-pdf)

<sup>95</sup> [Living in dispersal accommodation - English - GOV.UK \(www.gov.uk\)](https://www.gov.uk/government/publications/living-in-dispersal-accommodation)

bwriadu archwilio amrywiaeth o ddulliau gyda swyddogion cyfatebol yn Llywodraeth y DU.

### **Landlordiaid Preifat**

235. Gwnaeth y Panel Adolygu Arbenigol argymhell y dylid gosod dyletswydd ar landlordiaid preifat i atgyfeirio tenantiaid sy'n wynebu risg o ddigartrefedd at awdurdod tai lleol. Mae'n cynnig y gellid adlewyrchu hyn drwy'r trefniadau ar gyfer cofrestru landlord â Rhentu Doeth Cymru.<sup>96</sup> Gallai'r ddyletswydd i atgyfeirio ar gyfer landlordiaid preifat gael ei datblygu, drwy gytundeb â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder, er mwyn sicrhau, os caiff protocol cyn gweithredu ei gyflwyno ar gyfer landlordiaid preifat sy'n cychwyn achos cymryd meddiant, y gallai'r ddyletswydd i atgyfeirio fod yn rhan o ofynion y protocol, pan gaiff hysbysiad cymryd meddiant ei gyflwyno.

236. Ni chredwn y dylai'r cynnig hwn gael ei gynnwys yn y Bil Digartrefedd arfaethedig, am ei bod yn fwy priodol iddo gael ei ystyried fel rhan o adolygiad parhaus o Rhentu Doeth Cymru ac fel rhan o waith datblygu polisi a wneir ar yr un pryd mewn perthynas â thai digonol, rhenti teg a fforddiadwyedd.<sup>97</sup> Fodd bynnag, mae'n ddefnyddiol nodi bod hysbysiad terfynu rhagnodedig Llywodraeth Cymru ar gyfer landlordiaid (Ffurflen RHW16<sup>98</sup>) eisoes yn cyfeirio'r deiliad contract i geisio cymorth gan asiantaethau perthnasol yn y trydydd sector a chysylltu â'r awdurdod tai lleol os gwelir bod deiliad contract yn wynebu risg o ddigartrefedd. Mae hyfforddiant Rhentu Doeth Cymru ar drwyddedu, yn ogystal â'r Cod Ymarfer statudol ar gyfer landlordiaid ac asiantiaid gosod eiddo, yn darparu y dylai'r landlord (ar ôl i hysbysiad i derfynu'r contract meddiannaeth gael ei gyflwyno), fel arfer orau, roi manylion asiantaethau perthnasol yn y trydydd sector i ddeiliaid contractau nad oes ganddynt lety i symud iddo, neu sy'n ei chael hi'n anodd dod o hyd i rywle arall i fyw.<sup>99</sup>

237. Mae'r Gwasanaeth Cyngori ar Atal Colledion Tai newydd hefyd yn rhoi cyngor cyfreithiol a ariennir gan y llywodraeth i rywun o'r adeg y caiff hysbysiad cymryd meddiant neu rywbeth tebyg. Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi canllawiau i ddeiliaid contractau ar y broses cymryd meddiant, sydd ar gael [yma](#).

### **Ehangu'r ddyletswydd i gydweithredu**

238. Ni ddylai cyfrifoldeb awdurdod tai lleol am atal a lleihau digartrefedd gael ei leihau gan y diwygiadau deddfwriaethol arfaethedig. Er y cynigion, rydym yn bwriadu mai nhw fydd yr arbenigwyr ar atal digartrefedd a darparu'r seilwaith sydd ar gael i unrhyw un sy'n ddigartref neu'n wynebu risg o hynny o hyd. Fodd bynnag, ni allant ddiwallu anghenion cymorth ehangach y bydd cysylltiad cynhenid rhyngddynt â digartrefedd i rai pobl, ac ni ddylid disgwyl iddynt wneud hynny chwaith. Mae'n allweddol gwella darpariaethau presennol adran 95 o'r Ddeddf Tai 2014 (mewn perthynas â chydweithredu) er mwyn sicrhau bod amrywiaeth o gyrff penodedig yn cydweithredu'n fwy cyson i atal neu leihau digartrefedd ac nad ydynt yn dibynnu ar yr

---

<sup>96</sup> Gweler y rhestr termau am ddiffiniad

<sup>97</sup> [Creu llwybr tuag at dai digonol – gan gynnwys rhenti teg a fforddiadwyedd | LLYW.CYMRU](#)

<sup>98</sup> [ffurflen-RHW16.pdf \(llyw.cymru\)](#)

<sup>99</sup> [Cod ymarfer: Rhentu Doeth Cymru \(llyw.cymru\)](#)

awdurdod tai lleol i ysgogi hynny neu fod yn gyfrifol am anghenion cymorth na allant eu diwallu.

239. Fel yr amlinellwyd yn gynharach, mae adran 95 o'r Ddeddf Tai 2014 yn nodi'r agweddau ar gydweithredu y dylid eu hyrwyddo rhwng swyddogion awdurdod lleol sy'n cyflawni swyddogaethau tai a gwasanaethau cymdeithasol sy'n ei alluogi i wneud y canlynol:

- Atal digartrefedd,
- Darparu llety addas i unigolyn sy'n ddigartref neu a all fod yn ddigartref,
- Rhoi cymorth boddhaol i unigolyn sy'n ddigartref neu a all fod yn ddigartref, a
- Galluogi awdurdod tai lleol i gyflawni ei swyddogaethau digartrefedd yn effeithiol.

240. Gellir gofyn am gydweithredu gan gyrff eraill a restrir hefyd er mwyn cyflawni'r swyddogaethau hynny, oni fydd y cais hwnnw'n anghydnaws â swyddogaethau'r gyrff a restrir eu hunain neu'n cael effaith andwyol arnynt. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn nad yw pwysigrwydd y canlyniadau hyn a ddymunir wedi newid ac y dylent barhau. Hoffem ddatgan yn glir mai ar sail atal digartrefedd a chynnal contract meddiannaeth y gellid sbarduno'r ddyletswydd i gydweithio.

241. Nid yw adran 95 o'r Ddeddf Tai 2014 yn mynd yn ddigon pell i sicrhau'r gwasanaethau amlddisgyblaethol sydd eu hangen i gefnogi unigolyn sy'n ddigartref, sy'n wynebu risg o ddigartrefedd o bosibl, neu y mae angen cymorth arno i gadw contract meddiannaeth. Felly, rydym yn cynnig y dylid ehangu'r ddeddfwriaeth sy'n creu dyletswydd i gydweithredu fel ei bod yn gymwys i amrywiaeth ehangach o gyrff perthnasol. Rydym yn disgwyl i'r gyrff hyn adlewyrchu'r rhai y bwriedir i'r ddyletswydd i ganfod ac atgyfeirio fod yn gymwys iddynt, ond byddwn yn nodi ymhellach mewn canllawiau lle na fyddai hyn yn briodol o bosibl. Er enghraifft, efallai y bydd yn fuddiol i uned frys ysbyty fod yn ddarostyngedig i ddyletswydd i ganfod ac atgyfeirio, ond mae'n annhebygol y gall y staff yn yr uned honno gydymffurfio â dyletswydd i gydweithredu gan na fydd ganddynt gyberthynas broffesiynol hirdymor â defnyddwyr eu gwasanaeth yn aml.

242. Yn ogystal â'r gyrff a restrir yn adran 95 o'r Ddeddf Tai 2014, bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn cynnig aiddosbarthu canllawiau i awdurdodau lleol er mwyn annog contractau a ariennir drwy'r Grant Cymorth Tai i gynnwys gofynion i sefydliadau gwirfoddol gymryd rhan mewn gweithgarwch cydweithredu a rhoi gwybodaeth i awdurdodau tai lleol ar gais.<sup>100</sup> Gwneir hyn drwy'r broses ar gyfer dyfarnu'r grant.

243. Ar hyn o bryd, mae adran 95 o'r Ddeddf Tai 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i gorff a restrir gydymffurfio â chais awdurdod lleol i gydweithredu (neu roi gwybodaeth) oni fydd o'r farn y byddai gwneud hynny yn anghydnaws â'i ddyletswyddau ei hun neu fel arall yn cael effaith andwyol ar ddyletswyddau corff penodedig. Rydym yn cynnig nodi'n glir mewn deddfwriaeth y bydd yn rhaid i'r gyrff a restrir gydweithredu oni fydd ganddynt reswm da dros beidio â gwneud hynny. Prif nod y ddyletswydd i gydweithredu yw sicrhau y bydd pob corff penodedig yn cymryd camau gweithredu sydd o fewn swyddogaethau arferol ei sefydliad ond a fydd, pan

---

<sup>100</sup> [Grant Cymorth Tai: canllawiau ymarfer | LLYW.CYMRU](#)

gânt eu cyfuno â gwaith amlasiantaethol arall a dan arweiniad yr awdurdod tai lleol, yn debygol o liniaru'r risg sy'n gysylltiedig â digartrefedd unigolyn (neu'r risg y caiff ei wneud yn ddigartref).

244. Byddai'r ddyletswydd newydd arfaethedig i ganfod ac atgyfeirio yn cynnig sbardun cychwynnol i gorff penodedig weithredu ac, ar ôl gwneud hynny, fod yn barod i gydweithredu â'r awdurdod tai lleol, fel y bydd yn gallu cyflawni ei swyddogaethau digartrefedd. Dylai gweithredu'n brydlon fod yn un o egwyddorion sylfaenol y ddyletswydd i gydweithredu o ystyried arwyddocâd posibl camau gweithredu o'r fath o ran atal digartrefedd. Yn debyg i'r ddyletswydd i ganfod ac atgyfeirio, byddem yn awyddus i ymdrechion i gydweithredu ddechrau'n syth ar ôl i risg gael ei chanfod.

245. Rydym yn gobeithio y bydd y ddyletswydd ddiwygiedig arfaethedig i gydweithredu yn radical o ran ailffurfio'r ffordd y caiff cymorth ei roi i bobl sy'n ddigartref neu sy'n wynebu risg o hynny, o ystyried yr amrywiaeth o gyrff penodedig ychwanegol a restrir. Pan fydd y ddyletswydd ar waith, byddai hefyd yn ofynnol i'r cyrff penodedig ychwanegol gydweithredu â gwaith awdurdod tai lleol, er mwyn atal a lleihau digartrefedd, gan alluogi awdurdod tai lleol i gyflawni ei swyddogaethau digartrefedd a rhoi cymorth i bobl y bydd ei angen arnynt i gadw contractau meddiannaeth.

246. Rydym yn cynnig y byddai'r cydweithredu yn dod i ben drwy broses o gytuno ar y cyd rhwng yr awdurdod tai lleol a'r cyrff penodedig perthnasol. Bydd hyn yn dibynnu ar grebwyll a chyfiawnhad gan y rhai sy'n cydweithredu, a bydd canllawiau pellach ar yr amgylchiadau ar gyfer dod â chydweithredu i ben yn cael eu darparu.

### **Cydweithredu er mwyn atal digartrefedd i'r bobl â'r anghenion cymorth uchaf a mwyaf cymhleth**

247. Nid yw'r rhai sy'n ddigartref, neu sy'n wynebu risg o ddigartrefedd, yn grŵp unffurf o bobl. Mae'n bosibl mai anghenion cymorth isel fydd gan rai, os o gwbl, ac ychydig iawn o gymorth amlddisgyblaethol y bydd ei angen arnynt. Bydd gan eraill, gan gynnwys llawer o bobl sydd wedi bod yn ddigartref ac ar y stryd am gyfnodau hir, anghenion helaeth a chymhleth. Dyma pam nad ydym yn cynnig nodi un model y gellir ei ddefnyddio i roi'r ddyletswydd i gydweithredu ar waith ar gyfer pobl y bydd angen iddynt ddefnyddio gwasanaethau dwy asiantaeth gymorth neu lai.<sup>101</sup>

248. Ar gyfer pobl ag anghenion lluosog a chymhleth sy'n gofyn am fewnbwn gan dri gwasanaeth cyhoeddus neu fwy, neu er mwyn hwyluso diogelwch cymunedol, rydym yn cynnig dull gorfodol o gydweithio ar achosion gan gynnwys dewis gweithiwr proffesiynol arweiniol (na fyddai disgwyl iddo weithio i'r awdurdod tai lleol ym mhob achos) ochr yn ochr â ffordd o oruchwylio'r cydweithio hwn ar achosion er mwyn canfod bylchau yn y gwasanaethau a ddarperir i unigolion o'r fath a mynd i'r afael â nhw, yn ogystal â rheoli risgiau a'u hatal rhag gwaethygu. Os caiff y cynnig hwn ei

---

<sup>101</sup> Credwn y gall pobl ag anghenion is gael budd o gael cynnig cymorth mewn ffyrdd sy'n eu galluogi i ymateb ar unwaith a chymryd perchnogaeth dros benderfyniadau i atal neu leihau eu digartrefedd. Yn aml, gall grymuso pobl fel hyn eu helpu i adfer yn gyflymach ar ôl y profiad o fod yn ddigartref. Bydd amgylchiadau'n amrywio, ond mae pobl â dau fath o angen cymorth neu lai yn drothwy priodol ar gyfer math llai dwys o gymorth.



ddatblygu'n ddeddfwriaeth ddrafft, byddwn yn nodi canllawiau pellach ar y dull cydweithio ar achosion. Ymhlith y modelau arferion da ledled Cymru mae timau wedi'u cydleoeli, paneli amlddisgyblaethol, a chynadleddau achos, fel y nodir yng nghanllawiau NICE ar iechyd a gofal cymdeithasol integredig ar gyfer pobl sy'n ddigartref.<sup>102</sup>

### **Trefniadau rhanbarthol er mwyn sefydlu ac arwain dull amlasiantaethol o fynd i'r afael â digartrefedd**

249. Mae'r Panel Adolygu Arbenigol wedi argymhell y dylid gosod dyletswydd statudol newydd ar yr awdurdod tai lleol i sefydlu ac arwain dull amlasiantaethol o gyflawni swyddogaethau digartrefedd drwy Gyd-fwrdd Digartrefedd. Mae'r panel yn argymhell y gallai bwrdd o'r fath helpu i ddatrys unrhyw anghydfod mewn perthynas â chydweithredu ac y dylai gynnwys yr holl awdurdodau cyhoeddus y byddai'r ddyletswydd arfaethedig i ganfod ac atgyfeirio yn gymwys iddynt. Mae'r panel hefyd yn argymhell y dylai'r cyrff perthnasol gael y pŵer i ofyn am gael galw Cyd-fwrdd Digartrefedd ynghyd yn ogystal â dyletswydd i gydweithredu â'r bwrdd.

250. Er ein bod yn cefnogi'r argymhelliad i sefydlu bwrdd mewn egwyddor, rydym yn ystyriol o ganfyddiadau'r [Adolygiad o Bartneriaethau Strategol](#) a'r angen parhaus i symleiddio a chysoni'r dirwedd bartneriaethau, gan weithio o fewn y strwythurau polisi ac arweinyddiaeth lle bo modd. Felly, yn gyntaf, rydym yn cynnig pennu cwrmpas swyddogaethau neu fyrddau partneriaeth sydd eisoes yn bodoli a all gyflawni nodau polisi argymhellion y Panel Adolygu Arbenigol; trafod a datrys materion sy'n gysylltiedig ag achosion cymhleth, ymchwilio i ddigwyddiadau o natur ddifrifol, a chanfod dulliau effeithiol o gydweithio. Wrth gynnal yr ymarfer cwrmpasu hwn, byddwn yn ystyried yr adolygiad diweddar o rôl y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol a gwaith ehangach Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a Byrddau Cynllunio Ardal, ochr yn ochr ag argymhelliad y Panel Adolygu Arbenigol i atgyfnerthu cynrychiolaeth Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol ar gyfer digartrefedd. Pan fydd opsiwn priodol wedi'i ddewis, byddwn yn ystyried sut y gellir rhoi opsiwn o'r fath ar waith yn effeithiol.

---

<sup>102</sup> [Recommendations | Integrated health and social care for people experiencing homelessness | Guidance | NICE](#)

## Cwestiynau'r ymgynghoriad

8. Ydych chi'n cytuno â'r cynigion i osod dyletswydd i ganfod, atgyfeirio a chydweithredu ar nifer o gyrff perthnasol er mwyn atal digartrefedd?

Ydw/nac ydw

Rhowch eich rhesymau.

9. Ydych chi'n cytuno â'r cyrff perthnasol arfaethedig y byddai'r dyletswyddau i ganfod, atgyfeirio a chydweithredu yn gymwys iddynt? A fyddech yn ychwanegu neu'n tynnu unrhyw wasanaethau o'r rhestr?
10. Yn eich barn chi, a ydym wedi taro'r cydbwysedd cywir rhwng gofynion deddfwriaethol ac arferion gweithredol, yn enwedig mewn perthynas ag iechyd?
11. Pa fesurau ymarferol y bydd angen eu rhoi ar waith er mwyn i'r dyletswyddau arfaethedig i ganfod, atgyfeirio a chydweithredu weithio'n effeithiol? Gofynnwn ichi ystyried anghenion dysgu a datblygu, adnoddau, staffio, lleoliad a diwylliant.
12. Yn ogystal â'r dyletswyddau cyffredinol i ganfod, atgyfeirio a chydweithredu, mae'r bennod hon yn cynnwys cynigion i gyflwyno gofyniad i gydgyssylltu achosion yn well ar gyfer pobl ag anghenion lluosog a chymhleth. I ba raddau y bydd y cynigion yn helpu i atal digartrefedd ymhlith y grŵp hwn?
13. Mae'r Aseiad Effaith Rheoleiddiol cysylltiedig yn nodi ein gwaith meddwl cychwynnol ynglŷn â chostau a manteision y cynigion hyn. A oes unrhyw gostau a manteision nad ydym wedi'u hystyried?

### **Pennod 3: Cynigion wedi'u targedu i atal digartrefedd i'r rhai yr effeithir arnynt yn anghymesur**

251. Mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod digartrefedd yn effeithio'n anghymesur ar grwpiau penodol ac mae'r bennod hon yn nodi cynigion pwrpasol sydd â'r nod o sicrhau bod digartrefedd yn beth prin, byrhoedlog nad yw'n ailddigwydd, hyd yn oed i'r rhai sydd fwyaf agored i ddigartrefedd.

252. Gan adeiladu ar y bennod flaenorol, sy'n amlinellu pam mae rôl y gwasanaeth cyhoeddus ehangach mor bwysig o ran atal digartrefedd, mae'r adran hon yn nodi tystiolaeth ychwanegol ynglŷn â'r profiad o ddigartrefedd ar gyfer y grwpiau canlynol:

- Plant, pobl ifanc a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal.<sup>103</sup>
- Pobl ag anghenion iechyd cymhleth, gan gynnwys salwch meddwl neu broblemau iechyd meddwl, camddefnyddio sylweddau a'r rhai sy'n gadael yr ysbyty.
- Goroeswyr trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.
- Pobl anabl.
- Cyn-aelodau o'r Lluoedd Arfog.
- Pobl sy'n gadael y carchar.
- Pobl nad oes ganddynt hawl i gyllid cyhoeddus

253. Cyfeirir at y grwpiau hyn am fod y gwaith ymgysylltu a wnaed i ddatblygu'r Papur Gwyn hwn, gan gynnwys gwaith y Panel Adolygu Arbenigol ac ymgysylltu â phobl sydd wedi bod yn ddigartref, wedi arwain at gynigion cyfreithiol penodol i ateb rhai o'r heriau sy'n codi yn y system ddigartrefedd bresennol. Ni ddylid eu dehongli fel yr unig grwpiau y gall digartrefedd fod yn broblem iddynt ac mae profiadau llawer o grwpiau eraill, gan gynnwys y rhai â nodweddion gwarchodedig a'r rhai sydd wedi profi anfantais ehangach wedi cael eu hystyried wrth ddatblygu'r Papur Gwyn a thrwy gydol y broses o asesu effaith. Nid yw absenoldeb grwpiau eraill yma yn golygu nad ydynt wedi cael eu hystyried ond, yn hytrach, mae'n adlewyrchu'r farn nad diwygiadau deddfwriaethol pwrpasol yw'r opsiwn gorau i ateb unrhyw heriau a nodwyd ar gyfer y grwpiau hyn. Rydym yn gobeithio defnyddio'r adborth a gesglir drwy'r ymgynghoriad i brofi'r farn hon ac wrth i'r diwygiadau arfaethedig gael eu mireinio ac wrth i ddeddfwriaeth ddrafft gael ei pharatoi, byddwn yn ystyried a oes angen cymryd unrhyw gamau ychwanegol, er enghraifft, er mwyn sicrhau bod dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus (adran 149 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010) yn cael ei chymhwyso'n effeithiol drwy'r system ddigartrefedd gyfan.

254. Fel gyda'r adrannau blaenorol, ar gyfer pob grŵp, byddwn yn rhoi crynodeb lefel uchel o'r hyn y mae'r gyfraith yn ei ddarparu ar hyn o bryd, sut mae'r gyfraith yn gweithio'n ymarferol a'n cynigion ar gyfer ei diwygio.

---

<sup>103</sup> Gweler y rhestr termau am ddiffiniad

## Plant, pobl ifanc a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal

255. Wrth ddatblygu'r diwygiadau a gynigir yn yr adran hon, rydym wedi ystyried profiad plant dibynnol y mae eu teuluoedd yn ddigartref, ochr yn ochr â phobl ifanc sy'n ddigartref fel unigolyn a'r rhai sy'n gadael gofal neu'r ystad ddiogel ac sy'n wynebu risg o ddigartrefedd. At ddibenion y bennod hon, diffinnir plant fel y rhai o dan 16 oed a diffinnir pobl ifanc fel y rhai 16-25 oed.

256. Yn ystod 2018 – 2019 roedd tua 44% o'r holl aelwydydd a oedd o dan fygythiad o ddigartrefedd yng Nghymru yn deuluoedd â phlant dibynnol. O'r 10,869 o unigolion mewn llety dros dro ar adeg ysgrifennu, roedd 3,346 ohonynt yn blant dibynnol o dan 16 oed. Y math o lety a ddefnyddir i gartrefu'r rhan fwyaf o unigolion dros dro ar hyn o bryd yw llety Gwely a Brechwast a gwestai. Mae 3,612 o unigolion yn aros yn y math hwn o lety dros dro ar hyn o bryd, y mae 974 ohonynt yn blant dibynnol, yn ôl y data ar ddigartrefedd statudol.

257. Mae'r dystiolaeth yn awgrymu, mewn 6,018 o achosion, mai person ifanc oedd y prif ymgeisydd am gymorth digartrefedd gan ei awdurdod lleol yn 2022-2023 (y flwyddyn lawn ddiwethaf y mae gennym ddata yn ei chylch). O'r rhain, roedd 423 yn bobl ifanc rhwng 16-17 oed. Yn yr un flwyddyn, cafodd pobl ifanc 16 a 17 oed eu lleoli mewn llety Gwely a Brechwast dros dro ar 114 o achlysuron.<sup>104</sup> Cafodd pobl ifanc 18 i 21 a oedd wedi gadael gofal eu lleoli mewn llety Gwely a Brechwast dros dro ar 171 o achlysuron.<sup>105</sup> Y tebyg yw bod y data hyn yn tangynrychioli graddau digartrefedd ymhlith pobl ifanc, sy'n debygol o gynnwys mathau o ddigartrefedd a ystyrir yn 'gudd', megis cysgu ar sofffa pobl eraill a chysgu mewn ceir.

258. Un grŵp penodol o blant a phobl ifanc sy'n cael eu gorgynrychioli ar raddfa sylweddol yn y ffigurau ar gyfer digartrefedd yw'r rhai sydd â phrofiad o ofal. Yn ôl lechyd Cyhoeddus Cymru, amcangyfrifir bod mwy nag un o bob pedwar o'r holl bobl ddigartref ifanc wedi bod mewn gofal, bod 26% o'r unigolion sydd â phrofiad o ofal wedi cysgu ar soffas ffrindiau neu deulu, a bod 14% wedi cysgu allan ar y strydoedd.<sup>106</sup>

259. Gwyddys bod digartrefedd ymhlith pobl ifanc yn effeithio'n anghymesur ar bobl ifanc LHDT+. Canfu Ymddiriedolaeth Albert Kennedy fod 24% o'r bobl ddigartref ifanc yn y DU yn uniaethu'n LHDT.<sup>107</sup>

---

<sup>104</sup> Yn cyfuno data ar y rhai sy'n cael eu cartrefu o dan ddeddfwriaeth Digartrefedd a Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant

<sup>105</sup> [Cyfanswm y lleoliadau mewn llety gwely a brechwast yn ystod y chwarter, yn ôl hyd arhosiad a darpariaeth llyw.cymru\)](#)

<sup>106</sup> [PHW-WELSH-Infographic-Care-and-homelessness.pdf \(phwwhocc.co.uk\)](#)

<sup>107</sup> [Download.ashx \(llamau.org.uk\) Gwneir defnydd gwahanol o'r termau LHDT+ a LHDT i adlewyrchu'r iaith a ddefnyddir yn yr astudiaeth a'r derminoleg a ffefrir gan Lywodraeth Cymru.](#)

## Yr hyn y mae'r gyfraith yn ei ddweud ar hyn o bryd

260. Amlinellir y gyfraith mewn perthynas â phlant a phobl ifanc ddigartref mewn amrywiol ddarnau o ddeddfwriaeth, gan gynnwys Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014, Rheoliadau Ymadawyr Gofal (Cymru) 2015 a Deddf Tai (Cymru) 2014. Hefyd, ceir cyfraith achosion berthnasol ynglŷn â'r grŵp hwn y cyfeirir ati yn yr adran hon.

## Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

261. Mae'r ddeddf hon yn nodi nifer o ddyletswyddau ar yr awdurdod lleol sy'n ymwneud â rhoi llety a chymorth i blant o dan 18 oed sy'n ddigartref neu sydd ar fin bod yn ddigartref, gan gynnwys plant ar eu pen eu hunain sy'n ceisio lloches. Mae hefyd yn nodi nifer o hawliau i blant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael y system ofal.

262. Mae'r Cod Ymarfer ar Ran 6 (Plant sy'n Derbyn Gofal a Phlant sy'n Cael eu Lletya) o'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant yn nodi bod *"rhaid i gynlluniau ar gyfer pontio i fyd oedolion fod ar waith ar gyfer pob person ifanc 16 a 17 oed sydd wedi bod yn derbyn gofal am o leiaf 13 wythnos ar ôl cyrraedd 14 oed. Gall y 13 wythnos fod yn ddi-dor neu gynnwys cyfnodau gofal ar wahân. Nid ydynt yn cynnwys lleoliadau tymor byr sy'n deillio o ofal seibiant, ond rhaid iddynt gynnwys cyfnod o amser (o leiaf 24 awr) ar ôl cyrraedd 16 oed."*

263. Mae'r canllawiau yn y Cod Canllawiau (Dyrannu llety a digartrefedd: canllawiau ar gyfer awdurdodau lleol) a'r Cod Ymarfer ar Ran 6 yn nodi'n benodol mai gwasanaethau cymdeithasol sydd â'r prif gyfrifoldeb am letya pobl ifanc 16 a 17 oed, a phobl ifanc sy'n gadael gofal, ac y dylai gwasanaethau digartrefedd a gwasanaethau cymdeithasol weithio gyda'i gilydd i sicrhau llety addas.

264. Ymhelaethir ar hyn yn y Cod Ymarfer ar Ran 6 sy'n nodi'n glir mai dim ond pan fetho popeth arall y dylid defnyddio gwasanaethau digartrefedd ar gyfer pobl ifanc 16 a 17 oed.

265. Nid yw'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i adran gwasanaethau cymdeithasol ddarparu llety yn uniongyrchol (megis llety a ddarperir o dan adran 76 o'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant a fyddai fel arfer mewn gofal maeth), ond mae'r Cod Ymarfer ategol ar Ran 6 o'r Ddeddf yn nodi *"Pan fydd pobl ifanc yn gadael eu lleoliad gofal, mae'n rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau bod eu cartref newydd yn addas i'w hanghenion ac yn gysylltiedig â'u cynlluniau a'u dyheadau ehangach – er enghraifft, ei fod o fewn cyrraedd eu sefydliad addysg neu eu swydd. Yn aml, bydd symud yn uniongyrchol o leoliad gofal i fyw yn annibynnol yn gam rhy fawr i bobl ifanc. Felly, bydd yn ymarfer da i awdurdodau lleol gomisiynu amrywiaeth o ddewisiadau byw'n lled-annibynnol a byw'n annibynnol gyda chymorth priodol – er enghraifft, cynlluniau llety â chymorth, tŷ llety â chymorth, a mynediad i denantiaethau annibynnol yn y sector tai cymdeithasol a thai rhent preifat gyda chymorth hyblyg"*.

## Deddf Tai (Cymru) 2014 (y Ddeddf Tai 2014)

266. Nid yw'r Ddeddf Tai yn diffinio plant dibynnol, ond mae'r Cod Canllawiau yn nodi:

*“local authorities should treat as dependant all children under 16, and all children aged 16-18 (up to their 19th birthday) who are in, or are about to begin, full-time education (including further but not higher education) or training, or who for other reasons are unable to support themselves and who live at home”.*

267. O dan y ddeddfwriaeth bresennol, ystyrir bod pob person ifanc 16 a 17 oed a phobl y mae plentyn dibynnol yn byw gyda nhw neu y gellid yn rhesymol ddisgwyl i blentyn dibynnol fyw gyda nhw mewn angen blaenoriaethol. Ystyrir bod pobl ifanc 18-20 oed sy'n wynebu risg benodol o gamfanteisio rhywiol neu ariannol hefyd mewn angen blaenoriaethol, ochr yn ochr â phobl ifanc 18-20 oed a oedd wedi derbyn gofal neu ofal maeth ar unrhyw adeg o dan 18 oed. Mae'r Cod Canllawiau yn nodi'r canlynol mewn perthynas â phobl ifanc sy'n gadael gofal ac sy'n wynebu risg o ddigartrefedd ac sydd â chysylltiad lleol:

*“In the case of young people in the looked after system who have been placed out of area, where they are leaving care and wish to return to the area to which they were originally connected they should be accepted as having a connection with the area, even where they have been placed for a considerable time elsewhere. In assessing whether an applicant's household has a local connection with their area, an Authority should also consider whether any person who might reasonably be expected to live with the applicant has such a connection. Care leavers who wish to remain in the area of placement should also be considered to have a local connection should they meet the local connection test.”*

268. Mae'n rhaid i awdurdodau lleol sicrhau bod ymateb cydgysylltiedig i bobl ifanc 16 a 17 oed sy'n ddigartref neu sydd o dan fygythiad o ddigartrefedd a dylent roi protocolau ar waith i sicrhau'r canlyniadau gorau i'r person ifanc sy'n defnyddio eu gwasanaethau.

269. Mae adran 52 o'r Ddeddf Tai 2014 yn darparu bod yn rhaid i strategaethau digartrefedd awdurdodau lleol gynnwys darpariaeth ynglŷn â champau sy'n cael eu cynllunio mewn perthynas â phobl sy'n gadael llety cadw ieuencid. Nod y 'Llwybr Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Digartrefedd i Blant, Pobl Ifanc ac Oedolion mewn Sefydliadau Diogel' yw gwella gwasanaethau sydd wedi'u cynllunio i ddiwallu anghenion tai pobl sy'n gadael yr ystad ddiogel.<sup>108</sup>

270. Mae'r llwybr ar gyfer plant a phobl ifanc yn ymhelaethu ar yr asiantaethau sy'n gallu rhoi cymorth i bobl ifanc yn yr ystad ddiogel. Mae Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuencid yn gweithio'n agos gyda'r ystad ddiogel i sicrhau bod trefniadau adsefydlu priodol ar waith pan fydd plentyn neu berson ifanc yn gadael yr ystad ddiogel. Mae cyfrifoldeb ar Wasanaethau Cyfiawnder Ieuencid i helpu i ddarparu llety addas ar adeg rhyddhau a dylent wneud hyn ar y cyd â Gwasanaethau Plant a/neu'r awdurdod tai lleol.

---

<sup>108</sup> [Llwybr Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Digartrefedd i Blant, Pobl Ifanc ac Oedolion mewn Sefydliadau Diogel | LLYW.CYMRU](#)

271. Mae'r Cod Canllawiau yn nodi'n glir na ddylid fel arfer ystyried bod llety gwely a brechwast yn opsiwn addas i bobl ifanc 16 a 17 oed. At hynny, mae Gorchymyn Digartrefedd (Addasrwydd Llety) (Cymru) 2015 ("y Gorchymyn") yn nodi gofynion pellach ynglŷn ag addasrwydd ar gyfer aelwydydd mewn angen blaenoriaethol o ran lleoliad a llety gwely a brechwast a llety a rennir.

### **Rheoliadau Ymadawyr Gofal (Cymru) 2015**

272. Mae Rheoliadau Ymadawyr Gofal (Cymru) 2015 yn gwneud darpariaeth ynglŷn â'r cymorth i'w roi i bobl ifanc benodol nad ydynt yn derbyn gofal gan awdurdod lleol mwyach. Mae'r gofynion yn wahanol yn dibynnu ar statws y sawl sy'n gadael gofal (sy'n dod o dan bedwar categori) ond fel rhan o'r gofynion cyffredinol dylai awdurdodau lleol wneud y canlynol:

- cynllunio ar y cyd â phobl ifanc a'u cynnwys mewn penderfyniadau;
- osgoi symud pobl ifanc sydd mewn cartref sefydlog;
- asesu anghenion pobl ifanc a'u paratoi ar gyfer symud;
- sicrhau bod y llety yn diwallu unrhyw anghenion sy'n ymwneud â nam;
- ystyried anghenion addysg, hyfforddiant a chyflogaeth;
- lle y bo'n ymarferol, cynnig dewis o lety;
- sefydlu pecyn o gymorth ar y cyd â'r llety; a
- llunio cynllun ariannol clir ar gyfer y llety a chynllun wrth gefn.

### **Cyfraith achosion**

273. Ym mis Mai 2009, gwnaeth Tŷ'r Arglwyddi ddyfarniad nodedig a oedd yn egluro sut mae awdurdodau lleol yn darparu llety a chymorth i bobl ifanc 16 a 17 oed sy'n ddigartref.<sup>109</sup> Yn sgil yr achos hwn, os bydd person ifanc digartref 16 neu 17 oed yn gwneud cais i awdurdod tai, dylid darparu llety interim o dan y ddeddfwriaeth ddigartrefedd. Yna, dylai gael ei atgyfeirio at wasanaethau cymdeithasol er mwyn asesu ei anghenion o dan adran 21 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae'r dyletswyddau i ddarparu llety sy'n ddyledus i bobl ifanc digartref 16 a 17 oed o dan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant yn cael blaenoriaeth dros y dyletswyddau i ddarparu llety o dan y Ddeddf Tai 2014.

### **Y ffordd y mae'r gyfraith yn gweithio ar hyn o bryd**

274. Ceir nifer o feysydd lle mae'n ymddangos bod y fframwaith deddfwriaethol presennol yn ddiffygiol o ran hwyluso'r lefel o wasanaeth y byddem yn ei ddisgwyl i blant a phobl ifanc. Rhaid dweud, mewn rhai achosion, ni ellir priodoli hyn i fethiant yn y gyfraith. Ceir sawl maes ymarfer lle mae plant a phobl ifanc wedi rhannu profiadau gwael neu lle mae rhanddeiliaid wedi nodi heriau, na ddylent fod wedi digwydd ar sail ar y ddeddfwriaeth gyfredol.

275. Mae enghreifftiau pwysig o hyn yn ymwneud â phrofiad pobl ifanc 16 a 17 oed sy'n ddigartref a'r rhai sy'n gadael y system ofal. Er bod y gyfraith yn eglur yn hyn o beth, ac yn nodi'n benodol mai awdurdodau lleol fel y rhiant corfforaethol sy'n gyfrifol am y grŵp hwn, yr adborth gan bobl ifanc eu hunain a rhanddeiliaid eraill yw eu bod yn aml, wrth i berson ifanc nesáu at yr adeg pan fydd yn rhy hen i wasanaethau plant ond nad yw eto wedi pontio i wasanaethau oedolion, eu bod yn cael symud yn ôl ac ymlaen rhwng gwahanol adrannau yn yr awdurdod lleol nad yw (yn ôl eu canfyddiad)

---

<sup>109</sup> R (G) v Bwrdeistref Southwark, Llundain UKHL 26

yn barod i fod yn gyfrifol amdanynt oherwydd eu hoedran a'u statws tai. Soniodd un person ifanc a gyfrannodd at y gwaith o ddatblygu'r diwygiadau arfaethedig hyn am "frwydr" rhwng adrannau tai a gwasanaethau cymdeithasol lleol i osgoi bod yn gyfrifol.<sup>110</sup> Mae rhanddeiliaid yn dweud bod diffyg eglurder ynghylch ai cyfrifoldeb craidd adrannau gwasanaethau cymdeithasol ynteu adrannau tai yw cymorth i bobl ifanc 16 a 17 oed sy'n ddigartref. Mae'r gyfraith achosion wedi ei gwneud yn eglur mai gwasanaethau cymdeithasol sydd â'r prif gyfrifoldeb am gefnogi pobl ifanc 16 a 17 oed sy'n ddigartref a phobl ifanc sy'n gadael gofal a'i bod yn ofynnol i wasanaethau digartrefedd a gwasanaethau cymdeithasol weithio gyda'i gilydd i sicrhau llety addas. Fodd bynnag, ymddengys fod bwlch rhwng deddfwriaeth ac ymarfer o ran gweithredu.

276. Er bod nifer o hawliau wedi eu nodi mewn deddfwriaeth er mwyn sicrhau bod pobl ifanc sy'n cael eu rhyddhau o'r system ofal yn cael eu cartrefu'n briodol, mae'r adborth a gasglwyd i ddatblygu'r Papur Gwyn hwn yn glir ei bod yn dal yn beth cyffredin i berson ifanc gael ei ryddhau o'r system ofal yn uniongyrchol i'r system ddigartrefedd, gan danseilio egwyddorion Cymru sy'n Ystyriol o Drawma.<sup>111</sup> Mae ymchwil ehangach yn awgrymu bod cyfnodau pontio o ofal heb gymorth, o fod dan gadwad, ac o sefydliadau gofal iechyd i gleifion mewnol, yn achos uniongyrchol o ddigartrefedd i lawer o bobl ifanc.<sup>112</sup> Mae'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg wedi cyhoeddi adroddiad yn ddiweddar sy'n ystyried diwygiadau radical ar gyfer plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal ac mae argymhelliad 25 o'r adroddiad wedi cael ei ystyried fel rhan o'r gwaith o ddatblygu'r diwygiadau arfaethedig isod.<sup>113 114</sup>

277. Mae rhai o'r bobl ifanc a gymerodd ran ar bob cam o'r gwaith o ddatblygu'r Papur Gwyn hwn, wedi ei chael hi'n anodd cael cymorth gan eu hawdurdod lleol. Ategir y profiadau hyn ymhellach mewn ymchwil sy'n nodi ei bod yn anodd cael gwybodaeth gynhwysfawr am y cymorth tai sydd ar gael yng Nghymru a'r heriau y mae pobl ifanc yn eu hwynebu wrth fynd drwy'r system cymorth digartrefedd.<sup>115</sup> Mae gwaith gan Conti et al wedi tynnu sylw at ddiffyg hygyrchedd cyfathrebu a gohebiaeth ynglŷn â'r system ddigartrefedd a'r heriau penodol i'r rhai sy'n

---

<sup>110</sup> End Youth Homelessness Cymru, Don't Let Me Fall Through the Cracks (2020) a ddyfynnwyd yn Arbenigwyr trwy Brofiad: Adroddiad i'r Panel Adolygu Arbenigol - VAWDASV a Phobl Ifanc (Chwefror 2023) Reynolds-Feeney F; Dalton K

<sup>111</sup> [Fframwaith Cymru sy'n Ystyriol o Drawma.pdf](#)

<sup>112</sup> Atal Digartrefedd Ymhlith Pobl Ifanc | Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

<sup>113</sup> *Fel rhan o ddiwygiadau ymbarél i rianta corfforaethol ac fel rhan o'i diwygiadau arfaethedig i deddfwriaeth tai, dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno deddfwriaeth i wneud y canlynol:*

- *Diwygio Deddf Tai 1996 i sicrhau mai pobl sydd â phrofiad o fod mewn gofal sydd â'r brif flaenoriaeth wrth ddyrannu tai.*
- *Diwygio Deddf Tai 1996 i ddatgan y dylid diystyru 'cysylltiad lleol' ar gyfer pobl sydd â phrofiad o fod mewn gofal.*
- *Diwygio Deddf Tai (Cymru) 2014 i sicrhau bod pobl dros 21 oed sydd â phrofiad o fod mewn gofal yn cadw statws "angen blaenoriaethol" pan fyddant yn ddigartref.*
- *Diwygio Deddf Tai (Cymru) 2014 fel na ellir cyfeirio pobl sydd â phrofiad o fod mewn gofal sy'n wynebu digartrefedd at awdurdod lleol arall ar sail 'cysylltiad lleol' os nad ydynt yn dymuno i hynny ddigwydd".*

<sup>114</sup> [Os nad nawr, pryd? Diwygio radical ar gyfer plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal \(senedd.cymru\)](#)

<sup>115</sup> Youth-homelessness-and-care-leavers-Mapping-interventions-in-Wales.pdf (wcpp.org.uk) Youth Experiential Learning Simulation - Missing People, Llamau a ddyfynnwyd ym Mhapur Briffio'r Panel Adolygu Arbenigol ar Ddigartrefedd ar gyfer Cyfarfod 6: Digartrefedd ymhlith Plant a Phobl Ifanc a Thrais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV) Mawrth 2023



niwroamrywiol.<sup>116</sup> At hynny, mae pobl sydd â phrofiad o ofal yn aml yn dod i gysylltiad â nifer o wasanaethau ac maent wedi sôn bod gorfod ailadrodd eu stori wrth bob un o'r gwasanaethau hyn er mwyn cael y cymorth sydd ei angen arnynt yn eu haildrawmateiddio.<sup>117</sup> Mae adborth pobl ifanc yn awgrymu bod ymwneud gwasanaethau arbenigol i bobl ifanc yn helpu i liniaru'r profiadau negyddol hyn. <sup>118</sup>

278. Mae pobl ifanc hefyd yn disgrifio profiadau cymysg iawn o lety dros dro. Mae llawer yn canmol y llety â chymorth dros dro arbenigol i bobl ifanc (llety a ddarperir ochr yn ochr â gweithwyr cymorth arbenigol) yn fawr, ond, mae'n amlwg drwy'r gwaith ymgysylltu i gefnogi'r Papur Gwyn hwn fod rhai pobl ifanc yn cael eu lleoli mewn llety dros dro anaddas, gan gynnwys hosteli, llochesi dros nos a lle ar y llawr ac y gall y lleoliadau hyn fod yn frawychus, yn drawmatig ac arwain at strategaethau ymdopi anfuddiol neu anghenion cymorth ychwanegol, megis effeithiau defnyddio sylweddau neu salwch meddwl.

279. Er nad effaith uniongyrchol y ddeddfwriaeth gyfredol ydyw, mae'n anodd tu hwnt ar hyn o bryd i bobl ifanc ddod o hyd i gartref sefydlog sy'n fforddiadwy. Mae'r opsiynau llety sydd ar gael i bobl ifanc yn gyfyngedig iawn oherwydd y cyfyngiadau ariannol a osodir o dan y gyfradd ystafell o dan 35 oed (bwriedir i hawl pobl sengl o dan 35 oed i Lwfans Tai Lleol ar gyfradd is dalu am gost rhentu ystafell mewn tŷ a rennir ond nid yw'n ddigon i wneud hynny mewn llawer o ardaloedd).<sup>119</sup> Mae'r prinder llety symud ymlaen, yn enwedig i bobl sengl, ynghyd ag anfforddiadwyedd, yn debygol o olygu y bydd llawer o bobl ifanc yn cael eu lleoli mewn llety dros dro a rennir sy'n anaddas ac weithiau'n anniogel.<sup>120</sup>

280. Mae gwaith a wnaed gan Ganolfan Polisi Cyhoeddus Cymru yn tynnu sylw at bwysigrwydd "Sefydlogrwydd Tai" i bobl ifanc a gwerth cymorthdaliadau tai a chymorth ariannol, yn ogystal â'r defnydd o fentrau Tai yn Gyntaf i Bobl Ifanc, er mwyn helpu pobl ifanc i ddod o hyd i lety sefydlog.<sup>121</sup> Mae'r ymchwil hefyd yn awgrymu bod pobl ifanc yn wynebu rhwystrau ychwanegol wrth geisio cael tai cymdeithasol, gan gynnwys eu hanallu o dan y gyfraith i ymrwymo i gontract meddiannaeth (i'r rhai o dan 18 oed) ac yn wynebu canfyddiadau eu bod yn denantiaid sy'n dwyn risg o bosibl, yn enwedig os oes ganddynt anghenion cymorth ehangach.<sup>122</sup>

---

<sup>116</sup> Cyflwynwyd yn y gynhadledd ar Ymchwil i Ddigartrefedd, Prifysgol Caerdydd. Rhagfyr 2022

<sup>117</sup> Don't+Let+Me+Fall+Through+The+Cracks+-+Full+Report+-+End+Youth+Homelessness+Cymru+09-2020.pdf (squarespace.com)

<sup>118</sup> Arbenigwyr trwy brofiad: Adroddiad i'r Panel Adolygu Arbenigol: VAWDASV a Phobl Ifanc 2023 Reynolds-Feeney F a Dalton K

<sup>119</sup> [Local housing allowance \(LHA\) if you're under 35 - Shelter England](#)

<sup>120</sup> Arbenigwyr trwy brofiad: Adroddiad i'r Panel Adolygu Arbenigol: VAWDASV a Phobl Ifanc 2023 Reynolds-Feeney F a Dalton K

<sup>121</sup> Atal Digartrefedd Ymhlith Pobl Ifanc | Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

<sup>122</sup> [ABS-Report-v5high-1.pdf \(sheltercymru.org.uk\)](#)

## Newidiadau Arfaethedig

**Rydym yn bwriadu cryfhau'r cyfrifoldebau rhiant a corfforaethol presennol er mwyn sicrhau nad yw unigolion 16 a 17 oed sy'n ddigartref, neu sy'n wynebu risg o ddigartrefedd, yn syrthio rhwng gwasanaethau, a bod gwasanaethau cymdeithasol a gwasanaethau digartrefedd weithio mewn partneriaeth wirioneddol i sicrhau llety addas ac unrhyw gymorth ehangach sydd ei angen ar y bobl ifanc hyn.**

281. Dylai unrhyw berson ifanc 16 neu 17 oed sy'n ddigartref neu sy'n wynebu risg o ddigartrefedd gyrraedd y trothwy ar gyfer asesiad gan wasanaethau plant. Rydym am sicrhau bod y broses o asesu ac ystyried y cymorth sydd ei angen yn rhoi ystyriaeth briodol i'r posibilrwydd y gall y person ifanc fod yn fwy agored i niwed fel person digartref a'r effeithiau negyddol y gallai eu dioddef pe bai'n gorfod mynd drwy'r system ddigartrefedd i oedolion. Nodwn ei bod yn annhebygol mai diwygio deddfwriaethol fydd y prif sbardun i'r cynigion hyn ond, yn hytrach, cyngor, canllawiau a hyfforddiant ar weithredu.

**Yn ogystal â chryfhau arfer o dan ddeddfwriaeth bresennol, rydym yn cynnig egluro o fewn deddfwriaeth na ddylid lletya unrhyw blentyn 16 neu 17 oed mewn llety dros dro heb gefnogaeth ac i'r rhai sy'n gadael gofal cymdeithasol neu'r system cyfiawnder ieuenctid, mae'n benodol waharddedig defnyddio'r system ddigartrefedd fel llwybr allan o ofal neu gyfiawnder ieuenctid. Yn hytrach, dylid cynllunio, a gwneud trefniadau ar gyfer llety ymlaen llaw.**

282. Pe bai argyfwng yn codi, er gwaethaf y gwaith cynllunio, dylid gweithio ar y cyd i sicrhau bod yr unigolyn yn cael ei letya mewn lleoliad addas.

**Rydym yn cynnig, yn unol â'u cyfrifoldeb rhiant a corfforaethol, ac er mwyn atal unrhyw rai sy'n gadael gofal neu'r rhai sydd â phrofiad o ofal rhag mynd ar goll yn y system, y dylai fod yn ofynnol i awdurdodau tai lleol wneud ymholiadau ynghylch a yw ymgeisydd wedi cael profiad o ofal, wrth iddynt gwblhau'r asesiad o anghenion tai a'r Cynllun Tai Personol, fel y'i cynigiwyd yn gynharach yn y Papur Gwyn hwn.**

283. Pe bai unigolyn yn nodi ei fod wedi gadael gofal, dylent gynnig gwasanaethau perthnasol i'w gefnogi, yn ôl yr angen.

**Rydym yn cynnig y dylid ystyried ymhellach drwy'r ymgynghoriad hwn a ddylid diwygio Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 i ganiatáu i bobl ifanc 16 a 17 oed fod yn ddeiliaid contract meddiannaeth, ac, wrth wneud hynny, ehangu'r opsiynau llety sydd ar gael i'r grŵp hwn.**

284. Rydym yn deall y gall y cynnig hwn arwain at nifer o ganlyniadau anfwriadol a allai beri i fwy o bobl ifanc fynd i mewn i'r system ddigartrefedd ac, wrth gysoni ag argymhelliad y Panel Adolygu Arbenigol, rydym am ystyried yr opsiwn hwn ymhellach, drwy'r ymgynghoriad hwn, cyn penderfynu a oes angen diwygio'r Ddeddf Rhentu Cartrefi.

**Mewn ymateb i argymhelliad 25 yn adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, rydym yn cynnig y dylid ystyried bod pobl sydd â phrofiad o ofal mewn angen blaenoriaethol (oni ddiddymir y prawf neu hyd at ei ddiddymu (yn seiliedig ar y cynigion a nodwyd yn gynharach yn y Papur Gwyn hwn)).<sup>1</sup>**

285. Effaith y newid hwn mewn polisi fyddai sicrhau na fyddai unrhyw derfyn oedran uchaf yn cael ei gymhwyso wrth asesu angen blaenoriaethol i berson sy'n dod o dan adran 70(1)(h) o Ddeddf Tai (Cymru) 2014.

**O ran pobl ifanc sy'n gadael yr ystad ddiogel, rydym yn cynnig y dylai deddfwriaeth a chanllawiau fod yn glir mai'r awdurdod lleol fel rhan o'i gyfrifoldeb fel rhiant corfforaethol sy'n gyfrifol am bobl ifanc 16 a 17 oed y disgwylir iddynt gael eu rhyddhau o'r system cyfiawnder ieuencid o fewn chwe mis. Yn yr un modd, dylai pobl ifanc sydd mewn llety cadw ieuencid a phobl ifanc 18 i 21 oed sy'n gadael neu sydd wedi gadael gofal (neu 18 i 24 oed os ydynt mewn addysg neu hyfforddiant) hefyd gael budd o waith ar y cyd rhwng gwasanaethau cymdeithasol a'r awdurdod tai lleol i'w cynorthwyo a'u lletya.**

**Pobl ag anghenion iechyd cymhleth, gan gynnwys salwch meddwl, camddefnyddio sylweddau a'r rhai sy'n gadael yr ysbyty**

286. Mae salwch meddwl yn un o achosion digartrefedd, ac un o'r canlyniadau, ac mae'r profiad o salwch meddwl yn bresennol ar raddfa anghymesur ymhlith pobl ddigartref; mae 45% o bobl sy'n ddigartref wedi cael diagnosis iechyd meddwl, sy'n cynyddu i 80% o'r rhai sy'n ddigartref ar y stryd.<sup>123</sup>

287. Pan fydd salwch meddwl yn datblygu gall hyn ei gwneud yn anodd iawn i rywun gyflawni tasgau beunyddiol, gan gynnwys cadw swydd a rheoli arian. Mae problemau o'r fath yn cynyddu'r risg o golli llety a gall y profiad hwn a phrofiad o ddigartrefedd gael effaith niweidiol ar lesiant meddyliol unigolyn.<sup>124</sup>

288. Mae lefelau defnyddio cyffuriau ac alcohol hefyd yn gymharol uchel ymhlith pobl sy'n ddigartref, a gall y rhain yn aml ddigwydd ar yr un pryd â salwch meddwl. Mae dwy ran o dair o'r bobl sydd wedi cael profiad o fod yn ddigartref yn sôn am y defnydd o gyffuriau neu alcohol fel rheswm dros fynd yn ddigartref yn gyntaf ac mae'r rhai sy'n defnyddio cyffuriau saith gwaith yn fwy tebygol i fod yn ddigartref na'r rhai nad ydynt yn eu defnyddio.<sup>125</sup>

<sup>123</sup> [Homelessness and mental health | Crisis UK](#)

<sup>124</sup> [Homelessness and mental health | Crisis UK](#)

<sup>125</sup> [Drugs and alcohol | Crisis UK | Together we will end homelessness](#)

## **Yr hyn y mae'r gyfraith yn ei ddweud ar hyn o bryd**

### **Deddf Tai (Cymru) 2014 ("y Ddeddf Tai 2014")**

289. Mae adran 70(1)(c) o'r Ddeddf Tai 2014 yn nodi bod person sy'n agored i niwed o ganlyniad i ryw reswm arbennig (er enghraifft, henaint, salwch corfforol neu feddyliol, neu anabledd corfforol neu feddyliol) yn cael ei gategoreiddio'n berson y mae ganddo angen blaenoriaethol am lety. Nid yw'r ddeddfwriaeth yn cynnwys defnyddio sylweddau fel rheswm penodol dros ystyried bod ymgeiswyr yn agored i niwed ond gall awdurdodau ei ystyried yn 'rheswm arbennig' dros fod yn agored i niwed.

290. Mae adran 52(6) o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 yn nodi bod yn rhaid i strategaeth ddigartrefedd gynnwys darpariaeth ynglŷn â chamau mewn perthynas â'r rhai y mae'n bosibl bod angen cymorth arnynt yn benodol os ydynt yn ddigartref neu y gallent fynd yn ddigartref, gan gynnwys:

- pobl sy'n gadael yr ysbyty ar ôl triniaeth feddygol am anhwylder meddyliol fel claf mewnol,
- pobl sy'n cael gwasanaethau iechyd meddwl yn y gymuned.

291. Wrth gyflawni swyddogaeth tai i sicrhau bod llety ar gael i ymgeisydd sy'n ddigartref, neu sydd o dan fygythiad o ddigartrefedd, o dan Ran 2 o'r Ddeddf Tai 2014, mae'n rhaid i awdurdod tai lleol sicrhau bod y llety yn addas i'r ymgeisydd a holl aelodau o'i aelwyd. Mae adran 59 o Ddeddf 2014 (addasrwydd llety) yn pennu materion penodol i'w hystyried wrth benderfynu ar addasrwydd. Mae adran 59(3) yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru bennu amgylchiadau lle y dylid neu lle na ddylid ystyried bod llety yn addas i berson, a'r materion i'w hystyried wrth benderfynu a yw llety yn addas i berson. Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi'r materion hyn yng Ngorchymyn Digartrefedd (Addasrwydd Llety) (Cymru) 2015 ("y Gorchymyn Addasrwydd") ac maent yn cynnwys anghenion iechyd penodol y person; unrhyw anabledd sydd gan y person; agosrwydd a hygyrchedd cyfleusterau meddygol a gwasanaethau cymorth eraill sy'n cael eu defnyddio gan y person neu sy'n cael eu darparu iddo; ac sy'n hanfodol i lesiant y person. Gweler adran 4: Mynediad at lety ar gyfer addasrwydd symud ymlaen.

### **Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014**

292. Mae'r ddyletswydd i roi llety a chymorth a amlinellwyd yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014 yn gymwys i oedolyn sy'n sâl, yn anabl neu sydd ag anghenion iechyd meddwl.

293. Mae'r darpariaethau ynglŷn â chymorth i gael llety wedi'u cynnwys yn:

- Rhan 3 – asesiadau o anghenion ar gyfer pob ag anghenion gofal a chymorth
- Rhan 4 – dyletswyddau a phwerau i ddiwallu anghenion gofal a chymorth
- Rhan 6 – plant sy'n derbyn gofal a phlant sy'n cael eu lletya

294. Hefyd, mae'n rhaid i awdurdodau lleol, wrth arfer eu swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol, weithredu'n unol â'r gofynion a rhoi sylw i unrhyw

ganllawiau a geir yn y Codau Ymarfer perthnasol a gyhoeddir o dan adran 145 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant.

295. Mae Cod Ymarfer Rhan 8 y Ddeddf yn cynghori y dylai llawer o'r gwasanaethau a ddarperir o dan y Ddeddf gael eu darparu mewn partneriaeth ag eraill, gan gynnwys gwasanaethau tai ac iechyd. Mae'r Cod Ymarfer yn nodi bod yn rhaid i awdurdodau lleol weithio gyda phobl y mae angen gofal a chymorth arnynt a gofalfwyr y mae angen cymorth arnynt a'u cynorthwyo i sicrhau mwy o lesiant economaidd, bywyd cymdeithasol a llety addas sy'n diwallu eu hanghenion.

### **Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010**

296. O dan Ran 1 (adran 2) o'r mesur hwn, mae'n ofynnol i bartneriaid iechyd meddwl lleol (awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol) gymryd camau rhesymol i gytuno ar gynllun sy'n sicrhau darpariaeth gwasanaethau cymorth iechyd meddwl sylfaenol ar gyfer ardal yr awdurdod lleol. Mae adran 3 o'r mesur yn ei gwneud yn ofynnol i bartneriaid iechyd meddwl lleol ddarparu gwasanaethau cymorth iechyd meddwl sylfaenol yn unol â'r cynllun y cytunwyd arno.

297. Mae adran 6(4) o'r mesur yn rhestru'r cyrff y caniateir iddynt atgyfeirio person ar gyfer asesiad iechyd meddwl sylfaenol sydd wedi'u cyfyngu i'r rhai sy'n gweithio yn sector y GIG a'r sector meddygol.

298. O dan adran 25 o'r mesur, gall cyn-ddefnyddiwr gwasanaeth ofyn am asesiad pellach o'i iechyd meddwl, gyda'r nod o benderfynu a oes angen gwasanaethau iechyd meddwl eilaidd er mwyn gwella iechyd meddwl yr unigolyn neu ei atal rhag dirywio. Mae'n bosibl y bydd yr asesiad hefyd yn datgelu y gallai gwasanaethau gofal cymunedol, tai neu lesiant eraill wella iechyd meddwl y person neu ei atal rhag dirywio.

299. Mae adran 28 o'r mesur yn darparu, lle mae asesiad iechyd meddwl eilaidd wedi nodi gwasanaeth tai neu lesiant a allai helpu i wella iechyd meddwl oedolyn neu ei atal rhag dirywio, fod yn rhaid i'r partner ofyn i'r darparwr gwasanaeth cyfrifol ystyried a ddylai ddarparu'r gwasanaeth i'r oedolyn neu, os nad yw hynny'n briodol, a ddylai ofyn i'r oedolyn wneud cais am y gwasanaeth.

### **Deddf Camddefnyddio Cyffuriau 1971**

300. Mae'r gyfraith ynglŷn â chyffuriau yn fater a gedwir yn ôl i Lywodraeth y DU ac mae'n canolbwyntio'n fawr ar droseddoli. Mae adran 8 o Ddeddf Camddefnyddio Sylweddau 1971 yn creu trosedd lle mae person, sef y deiliad neu'r sawl sy'n rheoli unrhyw fangre, yn caniatáu i unrhyw un o'r gweithgareddau canlynol ddigwydd yn y fangre honno neu'n dioddef iddynt ddigwydd; cynhyrchu neu geisio cynhyrchu cyffur a reolir; cyflenwi neu geisio cyflenwi cyffur a reolir i un arall, neu gynnig cyflenwi cyffur a reolir i un arall; paratoi opiwm i'w smygu a smygu canabis, resin canabis neu opiwm wedi'i baratoi.

301. Mae Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Anabledd) 2010 yn nodi'n glir nad yw bod yn gaeth i alcohol, nicotin nac unrhyw sylwedd arall yn gyfystyr â nam at ddibenion Deddf Cydraddoldeb 2010, heblaw o ganlyniad i'r sylwedd gael ei ragnodi'n feddygol.

### **Polisi ehangach**

302. Yn ogystal â'r fframwaith deddfwriaethol hwn, mae sawl mesur polisi ehangach ar waith mewn perthynas ag iechyd meddwl, defnyddio sylweddau a digartrefedd.

303. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllawiau ar breswyliaeth cleifion iechyd meddwl, sy'n nodi, lle mae person yn peidio â chael ei gadw o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983, ei fod yn gymwys i gael gwasanaethau ôl-ofal, gan gynnwys tai. Yn yr achos hwn, cynhelir asesiad o dan adran 47 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Gofal yn y Gymuned 1990.<sup>126</sup>

304. Mae strategaeth Law yn Llaw at Iechyd Meddwl Llywodraeth Cymru yn pwysleisio'r cysylltiad cryf rhwng llesiant meddyliol a digartrefedd. Mae'n nodi bod tai sefydlog yn un o sylfeini allweddol llesiant meddyliol ac yn cydnabod bod pobl ddigartref yn wynebu mwy o risg o iechyd meddwl gwael, ac i'r gwrthwyneb. Mae'r strategaeth hefyd yn tynnu sylw at yr angen i sicrhau amrywiaeth lawn o ddatrysiadau tai, â chymorth, a ddylai fod ar gael i'r rhai y mae angen cymorth iechyd meddwl arnynt. Mae'r strategaeth sy'n olynu Law yn Llaw at Iechyd Meddwl wrthi'n cael ei datblygu, a rhagwelir y bydd y ddogfen hon yn cael ei chyhoeddi ar gyfer ymgynghoriad ffurfiol erbyn diwedd 2023, yn ogystal â'r cynllun a fydd yn olynu Cynllun Cyflawni ar gyfer Camddefnyddio Sylweddau 2019-22, a gaiff ei ddatblygu cyn hir.

305. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi cyhoeddi sawl canllaw yn amlinellu pwysigrwydd dulliau amlddisgyblaethol o ymdrin â defnyddio sylweddau a digartrefedd.<sup>127</sup>

### **Y ffordd y mae'r gyfraith yn gweithio ar hyn o bryd**

306. Mae'r adborth seiliedig ar ymarfer yn awgrymu nad yw pobl ag anghenion cymorth lluosog a chymhleth yn cyrraedd trothwy angen blaenoriaethol yn aml, er gwaethaf anghenion cymhleth sy'n gorgyffwrdd â'i gilydd. At hynny, gall anghenion iechyd meddwl nas diwellir a defnyddio sylweddau gael eu dehongli'n ymddygiad annerbyniol neu wrthgymdeithasol sy'n arwain at dynnu gwasanaethau yn ôl, gan gynnwys tai. Gobeithir y bydd y sefyllfa hon wedi gwella ar ôl gweithredu'r dull 'neb heb help' (fel y'i disgrifiwyd yn Mhennod 1 o'r Papur Gwyn hwn) ond lle mae hyn yn digwydd, gall arwain at sefydlu ac ailadrodd cylchoedd o ddigartrefedd ac effeithiau gwaeth ar iechyd.

307. Gall problemau salwch meddwl ac anghenion o ganlyniad i ddefnyddio sylweddau nad ydynt yn cael eu diwallu gael effaith sylweddol ar allu unigolyn i gael neu gynnal contract meddiannaeth. Mae'r adborth yn awgrymu bod yn rhaid i bobl

<sup>126</sup> [Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Gofal yn y Gymuned 1990 \(legislation.gov.uk\)](https://legislation.gov.uk)

<sup>127</sup> Y Cynllun Cyflawni ar gyfer Camddefnyddio Sylweddau, y Fframwaith Arferion Da ar gyfer Darparu Gwasanaethau Camddefnyddio Sylweddau ar gyfer Pobl Ddigartref a'r Rhai gyda Phroblemau gyda'u Llety, Canllawiau Diwygiedig Gweithio Gyda'n Gilydd i Leihau Niwed ar gyfer Byrddau Cynllunio Ardal Camddefnyddio Sylweddau a Fframwaith Gwasanaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer Trin Pobl sydd â Phroblemau Iechyd Meddwl a Phroblemau Camddefnyddio Sylweddau

sydd ag anghenion cymhleth, gan gynnwys problemau iechyd meddwl a defnyddio sylweddau, symud drwy wahanol gamau o lety yn aml, gan gynnwys hosteli a mathau eraill o lety dros dro a llety â chymorth, er mwyn gallu dangos eu bod yn barod i gael tenantiaeth cyn bod tai prif ffrwd ar gael iddynt. Gall y dull gweithredu hwn arwain at aildrawmateiddio a gwneud digartrefedd mynych yn fwy tebygol.

308. Mae'r dystiolaeth yn glir mai dulliau o ymdrin â phroblemau salwch meddwl a defnyddio sylweddau a digartrefedd sy'n gydgysylltiedig, yn amlddisgyblaethol ac sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn sydd fwyaf effeithiol a dylent gynnwys gwasanaethau iechyd a gwasanaethau eraill.<sup>128</sup>

309. Fodd bynnag, mae ymchwil gan Crisis yn awgrymu, os bydd gan unigolyn anghenion cymorth lluosog, ei fod yn aml yn cael profiad neu ganlyniad gwaeth nag eraill.<sup>129</sup> Mae pobl sy'n wynebu anfanteision lluosog yn aml yn wynebu 'math unigryw o ddadleoliad' oddi wrth gymdeithas sy'n golygu nad oes gwasanaethau digonol ar eu cyfer a bod angen gwasanaethau allgymorth rhagweithiol arnynt sy'n cyfateb i'w holl anghenion yn llawn.<sup>130</sup>

### **Beth hoffem ei newid?**

**Rydym yn cynnig y gall llawer o'r gwaith gwella sydd ei angen i gryfhau arferion amlddisgyblaethol rhwng gwasanaethau digartrefedd, iechyd meddwl a defnyddio sylweddau gael ei gyflawni heb ddiwygio deddfwriaethol ac y gall gael ei amlinellu'n well wrth ddatblygu'r strategaeth Law yn Llaw at Iechyd Meddwl a'r cynllun a fydd yn olynu'r Cynllun Cyflawni ar gyfer Camdefnyddio Sylweddau ochr yn ochr â defnyddio'r rhaglen cyllido anghenion cymhleth.**

310. Bydd y dull gweithredu hwn yn gyson ag argymhellion y Panel Adolygu Arbenigol i sicrhau bod y cynlluniau hyn yn croesgyfeirio at gymorth tai a'r angen, lle mae person yn wynebu risg o ddigartrefedd, am gydweithio ag opsiynau tai/gwasanaethau digartrefedd.

311. Drwy'r adolygiad o'r cynlluniau hyn, byddwn hefyd yn ystyried sut y gellir gwella'r ffordd y mae awdurdodau tai lleol a byrddau iechyd yn gweithio mewn partneriaeth, gan gynnwys y posibilrwydd o gydgyllido timau cymorth digartrefedd a thai amlddisgyblaethol ag arbenigedd iechyd meddwl penodol, cydleoli gwasanaethau, neu lwybrau sy'n ei gwneud yn bosibl i bobl sy'n ddigartref neu'n wynebu'r risg o fod yn ddigartref gael mynediad cyflym at wasanaethau iechyd meddwl y GIG.

<sup>128</sup> [What works in inclusion health: overview of effective interventions for marginalised and excluded populations - The Lancet; cr-ld15568-e.pdf \(senedd.wales\)](#)

<sup>129</sup> [Experiences of the Homelessness Reduction Act | Crisis UK](#)

<sup>130</sup> [Microsoft Word - Papur briffio Cyfarfod 7\\_29 Mawrth 2023 \(crisis.org.uk\)](#)

**Yn unol â'r Panel Adolygu Arbenigol, rydym yn bwriadu sicrhau bod asesiadau allweddol a chynlluniau megis Cynlluniau Gofal a Thriniaeth yn ystyried anghenion tai a sefydlogrwydd llety pobl fel mater o drefn. Byddwn yn gweithio gyda gwasanaethau i gryfhau sut y caiff llety person ei ystyried fel rhan o'r gwaith o gynllunio gofal a thriniaeth lle bynnag y bydd llety yn ffactor sy'n cyfrannu at salwch meddwl person neu lle bynnag y gallai llety rhywun fynd yn risg o bosibl (er enghraifft os bydd landlord yn tybio bod y person yn ymddwyn mewn ffordd annerbyniol neu os na all y person weithio na thalu'r biliau sy'n gysylltiedg â'i lety).**

### **Atal rhyddhau unigolion o'r ysbyty i ddigartrefedd**

312. Nid oes data ar gael ar gyfer Cymru o ran faint o bobl sy'n cael eu rhyddhau o'r ysbyty i ddigartrefedd, ond mae adroddiad Health Matters Cymorth Cymru yn awgrymu bod 11% o'r rhai a gymerodd ran yn yr ymchwil wedi cael eu rhyddhau o'r ysbyty i'r strydoedd. Yn ôl ymchwil a wnaed yn Llundain gyda phobl y nodwyd eu bod yn ddigartref a oedd yn yr ysbyty, nid oedd 92% o'r rhai a gymerodd ran yn gallu dychwelyd i'w hamgylcheddau byw cyn eu derbyn i'r ysbyty am nad oeddent yn briodol nac yn ddiogel at eu hanghenion.<sup>131</sup>

313. Mae'n amlwg bod rhyddhau o'r ysbyty yn groestoriad penodol rhwng bod yn agored i niwed a chyfle i'r rhai sy'n ddigartref, yn wynebu risg o ddigartrefedd neu'r rhai y bydd cyfnod yn yr ysbyty yn ei gwneud yn fwy tebygol y byddant yn mynd yn ddigartref (am nad yw'r llety presennol yn addas mwyach, er enghraifft).

314. Mae ymchwil a gyhoeddwyd gan y Sefydliad Siartredig Tai yn amlinellu nifer o ffactorau eraill sy'n gwneud rhywun yn agored i niwed sy'n gysylltiedig â'r risg gynyddol o ddigartrefedd ar ôl cael ei ryddhau o leoliadau iechyd. Mae'r rhain yn cynnwys yr angen i addasu llety ar ôl cyfnod yn yr ysbyty neu anghenion cymorth parhaus.<sup>132</sup>

315. Mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod y tebygolrwydd o ryddhau o'r ysbyty i ddigartrefedd yn cynyddu o ganlyniad i nifer o ffactorau, gan gynnwys diffyg cynllunio, gwybodaeth ansicr, newidiadau yn amgylchiadau'r claf, prinder llety priodol a gofal canolraddol yn y byrdymor a diffyg gofal parhaus a gwaith achos arbenigol. Iechyd meddwl yw'r broblem iechyd a godir amlaf mewn perthynas â'r risg hon.

316. Yn gyffredinol, mae'n amlwg bod pwysau ar y system gyfan a diffyg integreiddio rhwng digartrefedd a gwasanaethau iechyd yn cyfrannu at y risg hon mewn achosion unigol. Yn hanesyddol, bu rhai amrywiadau drwy'r system gyfan o ran mynd i'r afael â rhyddhau rhwng ysbytai, byrddau iechyd, awdurdodau lleol a phartneriaid eraill sy'n rhan o'r broses ryddhau. Fodd bynnag, yn fwy diweddar, gwelwyd camau sylweddol i gysoni arferion ledled Cymru er mwyn sicrhau dull gweithredu cyson. Un enghraifft o hyn fu gweithredu "Rhyddhau i Adfer yna Asesu" sy'n rhoi ffocws o'r

<sup>131</sup> [Health, housing and social care integration for people experiencing homelessness: needs identified in an inpatient audit - Transformation Partners in Health and Care](#)

<sup>132</sup> [from-hospital-to-home-final.pdf \(cih.org\)](#)



newydd ar lwybrau cleifion er mwyn i dimau gael gwell amcan o'r anghenion posibl a'r cymorth fydd ei angen ar unigolyn o bosibl ar adeg ei ryddhau ac sy'n argymhell bod timau rhyddhau o'r ysbyty yn dechrau paratoi ar gyfer y rhain o'r adeg derbyn i'r ysbyty. Mae'r newid hwn mewn ffocws, i gynllunio ar gyfer rhyddhau unigolyn ar y cam cynharaf oll, yn golygu y dylai cymorth o unrhyw fath (gofal cymdeithasol, tai, ac ati) fod ar waith ac yn barod i'r unigolyn hwnnw pan fydd ei driniaeth wedi dod i ben, a'i fod yn barod i gael ei ryddhau o'r ysbyty.

### **Newidiadau Arfaethedig**

317. Mae'r dystiolaeth ynglŷn â'r croestoriad rhwng iechyd a digartrefedd yn glir bod y risg o ddigartrefedd yn cynyddu pan fydd gan rywun nifer o anghenion cymorth (yn yr ymchwil a wnaed yn Llundain, dim ond un unigolyn (1%) roedd angen llety yn unig arno ar ôl ei gyfnod yn yr ysbyty).

**Rydym yn bwriadu adeiladu ar ein hymrwymiad strategol presennol i sicrhau na chaiff neb ei ryddhau o'r ysbyty i sefyllfa lle mae'n ddigartref a'r gwaith diweddar i sefydlu'r system Rhyddhau i Adfer yna Asesu er mwyn sicrhau y caiff atal digartrefedd ei ystyried wrth gynllunio ar gyfer rhyddhau unigolyn o'r ysbyty, drwy nodi'r canlynol mewn deddfwriaeth:**

- **Gofyniad bod asesiadau rhyddhau yn cynnwys ystyriaeth o anghenion tai claf**
- **Dyletswydd ar y cyd ar gyfer iechyd a'r awdurdod tai lleol i weithio gyda'i gilydd i atal digartrefedd ar adeg rhyddhau claf o'r ysbyty.**

318. Bydd yn hollbwysig, pan fydd awdurdod lleol yn cael atgyfeiriad gan ysbyty am berson sy'n wynebu risg o digartrefedd neu sy'n ddigartref, ei fod yn gweithredu'n gyflym i ymateb i'r atgyfeiriad hwnnw er mwyn sicrhau nad oes oedi cyn rhyddhau'r claf o'r ysbyty.

319. Mae oedi cyn rhyddhau unigolion sy'n ddigon iach i ddychwelyd adref o'r ysbyty yn un o'r pwysau unigol mwyaf ar y GIG ar hyn o bryd. Nid yw'n fwriad polisi bod y cynigion hyn yn ei gwneud yn ofynnol i ysbytai "gadw" unigolion mewn gwely yn yr ysbyty. Ein nod polisi yw sicrhau bod gwasanaethau iechyd a digartrefedd yn gweithio gyda'i gilydd i gynllunio ar gyfer rhyddhau cleifion a sicrhau nad oes neb yn gadael ar ôl cyfnod yn yr ysbyty i fyw ar y stryd.

320. Bwriedir i'r argymhellion polisi ehangach a wneir drwy'r Papur Gwyn cyfan hwn olygu y bydd mwy o bobl, a oedd o bosibl wedi cael eu hallgáu o'r system ddigartrefedd yn flaenorol, bellach yn gallu defnyddio'r gwasanaethau. Nid yw'n fwriad gennym fod ysbytai yn darparu llety parhaus. Byddwn yn ystyried, drwy'r ymgynghoriad hwn, y ffordd orau o gyflawni ein hamcanion polisi.

### **Goroeswyr trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol**

321. Gwyddys bod cydberthynas arwyddocaol rhwng y profiad o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol a digartrefedd. Mae cam-drin domestig yn benodol yn un o'r prif achosion mewn ceisiadau digartrefedd ledled y DU. <sup>133</sup>

<sup>133</sup> Fitzpatrick, S. et al (2022) The homelessness monitor: Great Britain 2022. Crisis: Llundain.

Mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod awdurdodau lleol wedi gweld cynnydd yn nifer y bobl sy'n ceisio cymorth digartrefedd oherwydd cam-drin domestig dros nifer o flynyddoedd, ac yn enwedig yn ystod cyfyngiadau symud COVID-19.<sup>134</sup>

322. Ceir dystiolaeth helaeth sy'n awgrymu bod y profiad o drais yn un o achosion cyffredin digartrefedd ymhlith menywod a bod cyfran uchel o fenywod sy'n ddigartref wedi profi trais ar sail rhywedd.<sup>135</sup> Mae menywod hefyd yn fwy tebygol o gael eu cam-drin (yn eiriol, yn gorfforol, yn rhywiol) pan fyddant yn ddigartref ar y stryd.<sup>136</sup>

323. Yn ogystal â'i rôl achosol, mae'n bwysig hefyd ystyried sut y gall profiad o gam-drin domestig nodweddu'r ffordd y mae ymgeisydd yn ymgysylltu â'r system ddigartrefedd, sy'n debygol o ddigwydd ar adeg argyfwng ac a fydd yn cynnwys plant dibynnol mewn llawer o achosion.

## **Yr hyn y mae'r gyfraith yn ei ddweud ar hyn o bryd**

### **Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 (Deddf VAWDASV)**

324. Mae Deddf VAWDASV yn rhoi'r diffiniadau canlynol mewn perthynas â Thrais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol:

*ystyr "trais yn erbyn menywod a merched" yw trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol pan fo'r dioddefwr yn fenywaidd", at ddibenion adran 2 o'r Ddeddf honno.*

Ymhelaethir ar hyn o fewn diffiniadau Deddf VAWDASV fel a ganlyn:

*ystyr "cam-drin" yw cam-drin corfforol, rhywiol, seicolegol, emosiynol neu ariannol;*

*ystyr "cam-drin domestig" yw cam-drin a ddaw o du person sy'n gysylltiedig neu wedi bod yn gysylltiedig â'r dioddefwr;*

*ystyr "trais ar sail rhywedd" yw—*

- a) trais, bygythiadau o drais neu aflonyddu sy'n codi yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol o werthoedd, credoau neu arferion sy'n ymwneud â rhywedd neu gyfeiriadedd rhywiol;*
- b) anffurfio organau cenhedlu benywod;*
- c) gorfodi person (pa un ai drwy rym corfforol neu orfodi drwy fygythiadau neu ddulliau seicolegol eraill) i ymrwymo i seremoni briodas grefyddol neu sifil (pa un a yw'n rhwymo mewn cyfraith ai peidio);*

*ystyr "trais rhywiol" yw camfanteisio rhywiol, aflonyddu rhywiol neu fygythiadau o drais o natur rywiol;*

*ystyr "cam-drin ariannol" yw—*

- a) bod arian neu eiddo arall person yn cael ei ddwyn,*
- b) bod person yn cael ei dwyllo,*
- c) bod person yn cael ei roi o dan bwysau mewn perthynas ag arian neu eiddo arall, a*

<sup>134</sup> [The Shadow Pandemic: Violence against women during COVID-19 | UN Women – Headquarters](#)

<sup>135</sup> Bimpson E, Green H, Reeve K, y Ganolfan Effaith Digartrefedd (2021) Women, homelessness and violence: what works

<sup>136</sup> Sanders, B. ac Albanese, F. (2016) "It's no life at all": Rough sleepers' experiences of violence and abuse on the streets of England and Wales.

d) *bod arian neu eiddo arall person yn cael ei gamddefnyddio.*

325. Mae Deddf VAWDASV hefyd yn rhoi diffiniad o bersonau cysylltiedig er mwyn diffinio cam-drin domestig.

326. Mae'r Ddeddf VAWDASV yn nodi nifer o ofynion ar restr o gyffwrthasol i gryfhau'r ymateb i VAWDASV yng Nghymru, gan gynnwys dyletswyddau i baratoi strategaethau lleol a chenedlaethol a sefydlu rôl Cyngorydd Cenedlaethol. Mae strategaeth ddiweddaraf Llywodraeth Cymru ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol ar gael yma: [Trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol: strategaeth 2022 i 2026 | LLYW.CYMRU](#)

327. Mae Deddf VAWDASV hefyd yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru gyhoeddi canllawiau ar unrhyw bwnn mewn perthynas â diben y Ddeddf. O dan y pŵer hwn, mae Gweinidogion wedi sefydlu'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol a pholisi o ymholi wedi'i dargedu ar gyfer VAWDASV a elwir yn "Gofyn a Gweithredu".<sup>137</sup>

### **Deddf Tai (Cymru) 2014 ("y Ddeddf Tai 2014")**

328. O dan y ddeddfwriaeth hon, mae gan berson sy'n ddigartref o ganlyniad i gam-drin domestig ac unrhyw un (ac eithrio'r camdriniwr) sy'n preswyllo neu y disgwylir yn rhesymol iddo breswyllo gyda'r person angen blaenoriaethol am lety. Nid oes angen i'r person ddangos ei fod yn agored i niwed ac mae'n rhaid i'r awdurdod lleol beidio ag atgyfeirio person at ardal arall os oes unrhyw un yn yr aelwyd yn wynebu risg o gael ei gam-drin yn yr ardal honno.

329. Mae'r Ddeddf Tai 2014 yn diffinio camdriniaeth fel trais corfforol, ymddygiad bygythiol neu fygyllus ac unrhyw ffurf arall ar gamdriniaeth a all, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, arwain at y perygl o niwed: bydd cam-drin domestig yn digwydd pan fo cysylltiad rhwng y dioddefwr a'r camdriniwr.

330. Hyd yn oed os bydd gan ymgeisydd digartref lety y gall ei feddiannu'n gyfreithlon, mae'r Ddeddf Tai yn nodi nad yw'n rhesymol i berson barhau i feddiannu llety os yw'n debygol y bydd yn hyn yn golygu y bydd y person, neu aelod o aelwyd y person, yn wynebu camdriniaeth.

331. Mae'r Ddeddf Tai 2014 yn nodi'n glir lle mae dioddefwr cam-drin domestig yn gwneud cais i awdurdod tai lleol, mae'n rhaid i'r awdurdod gynnig cymorth i'r dioddefwr oni bai bod ganddo/ganddi gysylltiad lleol ag ardal arall, lle nad yw'r aelwyd yn wynebu risg o gamdriniaeth.

### **Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014**

332. At ddibenion Rhan 7 o'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant diffinnir "oedolyn sy'n wynebu risg" fel oedolyn:

(a) sy'n cael, neu sy'n wynebu risg o gael, ei gam-drin neu ei esgeuluso,

---

<sup>137</sup> [Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol | LLYW.CYMRU; canllawiau-i-arweinwyr-cydgysylltwyr-a-rheolwyr-mewn-awdurdodau-perthnasol%20.pdf \(llyw.cymru\)](#)

- (b) y mae arno anghenion am ofal a chymorth (p'un a yw'r awdurdod yn diwallu unrhyw un neu rai o'r anghenion hynny ai peidio), ac
- (c) nad yw'n gallu, o ganlyniad i'r anghenion hynny, amddiffyn ei hun rhag cael, neu'r risg o gael, ei gam-drin neu ei esgeuluso.

333. Mae Rhan 7 o'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant yn cynnwys y dyletswyddau a ddisgrifir isod.

334. Mae'r ddyletswydd i wneud ymholiadau (adran 126 o'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant) yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol, os oes ganddo sail resymol dros gredu bod person yn oedolyn sy'n wynebu risg, wneud ymholiadau; peri i eraill wneud ymholiadau; penderfynu a yw'r person yn oedolyn sy'n wynebu risg; penderfynu pa gamau y mae angen eu cymryd, os o gwbl a chofnodi casgliadau yn ei gynllun gofal a chymorth.

335. Mae'r ddyletswydd i hysbysu (adran 128 o'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant) yn ei gwneud yn ofynnol i bartneriaid perthnasol awdurdod lleol hysbysu eu hawdurdod lleol pan fydd ganddynt sail resymol dros gredu bod person yn oedolyn sy'n wynebu risg. Mae hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol hysbysu awdurdod lleol arall (yng Nghymru neu yn Lloegr) os bydd oedolyn y maent yn credu ei fod yn wynebu risg yn byw neu'n symud i ardal yr awdurdod arall hwnnw.

336. Mae'r Ddeddf hefyd yn cynnwys dyletswydd i ystyried a oes angen diwallu anghenion person a aseswyd er mwyn ei ddiogelu rhag cael ei gam-drin neu ei esgeuluso. Os deir i'r casgliad bod angen diwallu'r anghenion am y rheswm hwn, bydd rhwymedigaeth ar yr awdurdod lleol i ddiwallu'r anghenion hynny, hyd yn oed os nad yw'n bodloni'r meini prawf cymhwysra. Nid yw cymorth gwasanaethau cymdeithasol wedi'i ddsbarthu'n gyllid cyhoeddus yn y cyd-destun hwn ac felly mae'n rhoi rhyw fudd i'r rhai sy'n ddarostyngedig i amod Dim Hawl i Gyllid Cyhoeddus. O dan y ddeddf hon, mae'n rhaid i awdurdodau gynnal asesiad o'r oedolyn, y plentyn a/neu'r gofalwr os yw'n bosibl bod arnynt anghenion gofal a chymorth. Mae'r ddyletswydd hon yn orfodol ac mae'n codi ni waeth beth fo'i statws mewnfudo.

### **Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (“Deddf 2016”)**

337. Mae Deddf 2016 yn caniatáu i ddeiliaid contract gael eu hychwanegu neu eu dileu o gontractau meddiannaeth heb fod angen terfynu un contract a dechrau un arall. Ni ellir terfynu contract meddiannaeth oni bai bod holl ddeiliaid y contract yn gweithredu gyda'i gilydd. Gall hyn helpu pobl sy'n wynebu cam-drin domestig drwy ei gwneud yn bosibl targedu'r camdriniwr a'i droi allan.

### **Deddfwriaeth Llywodraeth y DU**

338. Mae deddfwriaeth Llywodraeth y DU yn nodi diffiniad arall o gam-drin domestig yn Neddf Cam-drin Domestig 2021:

*Behaviour of a person (“A”) towards another person (“B”) is “domestic abuse” if—*

- a) A and B are each aged 16 or over and are personally connected to each other, and*
- b) the behaviour is abusive.*

*Behaviour is “abusive” if it consists of any of the following—*

- a) physical or sexual abuse;*
- b) violent or threatening behaviour;*
- c) controlling or coercive behaviour;*
- d) economic abuse (see subsection (4));*
- e) psychological, emotional or other abuse;*

*and it does not matter whether the behaviour consists of a single incident or a course of conduct.*

*“Economic abuse” means any behaviour that has a substantial adverse effect on B’s ability to—*

- a) acquire, use or maintain money or other property, or*
- b) obtain goods or services.*

*For the purposes of this Act A’s behaviour may be behaviour “towards” B despite the fact that it consists of conduct directed at another person (for example, B’s child).*

339. Mae'r Ddeddf hefyd yn nodi'r ffyrdd y mae gan ddau unigolyn “gysylltiad personol”.

### **Sut mae'r gyfraith yn gweithio ar hyn o bryd?**

340. Mae'r adborth seiliedig ar ymarfer yn awgrymu bod rhai goroeswyr yn ei chael hi'n anodd cael gafael ar gymorth priodol ac amserol ar gyfer eu hamgylchiadau. Mae'n bosibl y bydd hyn o ganlyniad i ddiffyg gwybodaeth a dealltwriaeth gan y rhai sy'n eu cynghori neu ddiffyg mynediad at gymorth arbenigol. Gall cyfathrebu gwael rhwng asiantaethau ac awdurdodau waethygu'r problemau hyn, a hynny ar adeg pan fo'r risg o gam-drin yn fawr iawn i'r goroeswr a'i deulu.

341. Gall hygyrchedd llety priodol hefyd fod yn rhwystr penodol i rywrai. Gall y prawf bwriadoldeb gael effaith anghymesur ar oroeswyr camdriniaeth a fydd yn gwneud penderfyniadau ar sail eu barn eu hunain am eu risg a'u llesiant a gallai gweithwyr proffesiynol ddehongli ar gam eu bod wedi eu gwneud eu hunain yn ddigartref yn fwriadol.

342. Mae prinder cymorth ariannol yn arbennig o heriol i oroeswyr cam-drin domestig pan fyddant yn cael eu gorfodi i adael eu cartrefi, yn enwedig yn achos rheolaeth a chamdriniaeth ariannol. Gall diffyg cymorth ariannol olygu bod unigolyn yn aros mewn perthynas gamdriniol. Mae'n bosibl hefyd ei fod wedi cael ei ynysu oddi wrth ffrindiau a theulu yn ystod cyfnod o gam-drin ac yn teimlo nad oes neb y gall droi ato am gymorth ariannol.

343. I'r rhai sy'n cael eu cam-drin, gall fod yn ddeiliad contract meddiannaeth ar y cyd â'r camdriniwr olygu ei bod yn anodd tu hwnt i'r goroeswr gadw'n ddiogel neu ddianc rhag y gamdriniaeth. Gall ffactorau eraill megis bod yn berchen ar gartref ar y cyd â'r camdriniwr neu deimlo dan bwysau i'w dderbyn yn ôl i'r cartref ei gwneud yn hynod anodd i oroeswyr fod yn gymwys i gael help neu ddeall eu hawliau.

344. Mae llawer o oroeswyr cam-drin domestig yn nodi nad yw'r prawf angen blaenoriaethol yn cael ei gymhwyso'n effeithiol er eu budd nhw. Gellir priodoli hyn yn aml i lefel gwybodaeth a dealltwriaeth awdurdodau lleol o VAWDASV ond mae argaeledd llety lloches a symud ymlaen yn y sector VAWDASV arbenigol hefyd yn cael effaith.

345. Mae goroeswyr camdriniaeth sy'n ddarostyngedig i amod dim hawl i gael cyllid cyhoeddus, a'r sefydliadau arbenigol hynny sy'n eu cefnogi, wedi mynegi pryder nad yw dyletswyddau o dan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, sydd ar gael i'r grŵp hwn, yn cael eu deall yn dda gan bob gweithiwr proffesiynol perthnasol ac mae rhai wedi sôn am weithwyr proffesiynol sy'n amharod i gynnig cymorth mewn rhai achosion.

346. Mae cynllun peilot a weithredir gan y Swyddfa Gartref ers 2020, y Cynllun Cymorth i Ddiodefwyr Mudol, wedi cymryd cam pwysig ymlaen i sicrhau llety diogel i ddiodefwyr trais rhywiol a chamdriniaeth sy'n ffoaduriaid, yn fudwyr ac yn geisiwyr lloches. Fodd bynnag, er gwaethaf y cyhoeddiad diweddar am gyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru, erys bylchau sylweddol o hyd yn y ddarpariaeth.<sup>138</sup> Er enghraifft, mae cyfyngiadau ar opsiynau tai, oherwydd cyfyngiadau amser y cynllun. Yn ystod y gwaith ymgysylltu a wnaed i gefnogi gwaith y Panel Adolygu Arbenigol a'r Papur Gwyn hwn, clywyd gan wasanaethau arbenigol 'gan ac ar ran' Pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol ynglŷn â'r anawsterau y mae'r goroeswyr hyn yn eu hwynebu wrth geisio gofalu am eu teuluoedd o fewn y cyllid sydd ar gael.<sup>139</sup> Mae hefyd yn amlwg y gall fod yn anodd cael gafael ar gymorth a threfniadau cyfeirio.

### Newidiadau Arfaethedig

**Rydym yn cynnig y dylid ehangu'r diffiniad o "cam-drin domestig" i gynnwys ymddygiad rheoli drwy orfodaeth a cham-drin economaidd a seicolegol yn fwy penodol. Mae'r Panel Adolygu Arbenigol hefyd wedi argymhell y dylai'r diffiniad fod yn gymwys os yw'r sawl sy'n cam-drin mewn perthynas bersonol â'r diodefwr am unrhyw gyfnod. Mae hyn eisoes yn digwydd yng Nghymru o dan Ddeddf VAWDASV (adran 24(2)(h)).**

347. Drwy'r cynnig hwn rydym yn anelu at gysoni'r diffiniadau yn Neddf VAWDASV, y Ddeddf Tai a Deddf Cam-drin Domestig 2021 Llywodraeth y DU, ac mae'n fwriad polisi gennym y bydd yn sicrhau bod diodefwyr cam-drin domestig, ni waeth sut y'i cyflawnwyd, yn cael budd o'r diwygiadau arfaethedig.

**Rydym yn cynnig diwygiad arall i sicrhau bod y brif ddyletswydd tai yn cynnwys dyletswydd i helpu'r ymgeisydd i gadw ei lety presennol (ar unwaith neu yn yr hirdymor) os dymuna a'i bod yn ddiogel gwneud hynny (gall help o'r fath gynnwys ei helpu i gael gorchymyn meddiannaeth, gosod nodweddion diogelwch ffisegol neu ei helpu i gael cyngor ar drosglwyddo'r berchenogaeth neu'r contract meddiannaeth i fod yn ei enw).**

<sup>138</sup> Mae'r Swyddfa Gartref wedi treialu'r Cynllun Cymorth i Ddiodefwyr Mudol ers 2020. Mae'n cynnig peth cymorth, llety, a chynhaliadau i bobl heb hawl i gyllid cyhoeddus sy'n ffoi rhag trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Mae Llywodraeth Cymru wedi lansio Cronfa Gymorth i Fudwyr sy'n Ddiodefwyr Trais yn ddiweddar sy'n rhoi cymorth atodol, a gaiff ei threialu am flwyddyn gan BAWSO. Bwriadwn ddefnyddio'r gwersi a ddysgir o'r cynllun peilot hwn, ynghyd â'r gwerthusiad o Gynllun Cymorth i Ddiodefwyr Mudol y Swyddfa Gartref er mwyn penderfynu sut y caiff cymorth ei gynllunio yn y tymor hwy i ddiwallu anghenion diodefwyr sy'n fudwyr yng Nghymru.

<sup>139</sup> Gwasanaethau sy'n cael eu rhedeg gan grwpiau wedi'u lleiafrifoli sy'n darparu cymorth arbenigol i'r cymunedau a wasanaethir ganddynt ac sydd wedi'u gwreiddio yn y cymunedau hynny yw gwasanaethau gan ac ar ran. Mae hyn yn wahanol i wasanaethau sy'n cael eu rhedeg 'gan ac ar ran' menywod.

348. Nod y diwygiad hwn yw sicrhau bod y brif ddyletswydd tai sydd wedi'i hymgorffori yn y ddeddfwriaeth yn gallu cael ei chyflawni pan fydd goroeswyr camdrin domestig yn gallu dychwelyd i'r cartref teuluol ar ôl cyfnod i ffwrdd, yn hytrach na gorfod aros mewn lloches/llety dros dro/symud i ffwrdd o'u cymuned os nad ydynt am wneud hynny. Mae'n bwysig nodi'n glir y byddai'r opsiwn ychwanegol hwn i gyflawni'r ddyletswydd yn cael ei arwain gan safbwyntiau ymgeiswyr ac y byddai'n seiliedig ar eu dewis ac asesiad o'r hyn sy'n ddiogel, gan gynnwys asesiad risg a gwblheir gan arbenigwr VAWDASV cymwysedig.

349. Drwy'r diwygiadau arfaethedig hyn rydym yn anelu at gryfhau cyfleoedd i ystyried safbwyntiau goroeswyr/ymgeiswyr ynglŷn â ble y byddent yn ddiogel, o ran lleoliad unrhyw lety sy'n cael ei sicrhau o dan ddyletswyddau'r Ddeddf Tai pan fydd penderfyniadau tai yn cael eu gwneud. Y nod fydd rhoi mwy o lais i oroeswyr camdrin o ran ble y dylent gael eu lletya ar ôl i'r brif ddyletswydd digartrefedd gael ei derbyn a rhoi cyfle am fwy o ystyriaeth i faterion megis agosrwydd a hygyrchedd rhwydwaith cymorth ymgeiswyr (a allai fod yn ehangach na'r teulu) wrth ystyried lleoliad llety.

**Cynigir y dylai cynnwys gwasanaethau VAWDASV arbenigol yn y broses o wneud penderfyniadau i ddefnyddwyr gwasanaethau o'r fath hefyd gael ei annog yn gryf pan fydd y goroeswr yn ceisio'r cymorth hwn. Bydd hyn yn sicrhau penderfyniadau diogel ar sail gwybodaeth.**

350. Er mwyn cefnogi'r newidiadau deddfwriaethol arfaethedig hyn, byddwn hefyd yn ystyried y gwaith polisi ehangach canlynol:

- Byddwn yn ystyried a yw'n ddichonol cynnig hyfforddiant "Gofyn a Gweithredu" i landlordiaid cymdeithasol cofrestredig yng Nghymru, gan gynnwys cost debygol ehangu o'r fath ac adnoddau'r rhaglen hyfforddiant bresennol.
- Byddwn hefyd yn ceisio cryfhau canllawiau a chodi ymwybyddiaeth o'r gallu i symud camdrinwyr o gartref lle mae contract meddiannaeth ar y cyd. Er bod y pwerau hyn eisoes wedi cael eu creu o dan Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016, mae'n ymddangos nad yw'r opsiwn yn un hysbys iawn neu nad yw'n cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd.

351. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y byddai'n sefydlu'r Gronfa Gymorth i Fudwyr sy'n Ddiodefwyr Trais ym mis Gorffennaf 2023, a fydd yn cael ei threialu am flwyddyn gan y sefydliad "gan ac ar ran" arbenigol yng Nghymru, BAWSO. Byddwn yn dysgu o'r cynllun peilot hwn wrth inni fynd ati i ddatblygu'r ddeddfwriaeth hon.

## **Pobl anabl**

352. Yn ôl Cyfrifiad 2021 mae 21.1% o boblogaeth Cymru yn anabl.<sup>140</sup> Nid yw data ar gyfran y bobl anabl sy'n ddiogel yng Nghymru ar gael ar gyfer Cymru, ond mae data Lloegr yn awgrymu bod 17% o'r rhai y mae dyletswydd digartrefedd yn ddyledus iddynt yn anabl neu'n dioddef problemau iechyd corfforol. Mae gan 5% arall anabledl dysgu.<sup>141</sup> At hynny, dangosodd gwerthusiad ar raddfa lai gan Crisis

<sup>140</sup> [Anabledl, Cymru a Lloegr - Swyddfa Ystadegau \(ons.gov.uk\)](https://ons.gov.uk)

<sup>141</sup> [Tablau ar ddiogelrwydd - GOV.UK \(www.gov.uk\)](https://www.gov.uk)

fod 39% o'r rhai a gefnogir gan ei brosiect Skylight yn anabl ac mae'r rhai sy'n gweithio mewn gwasanaethau tai yn aml yn sôn am y lefelau uchel o bobl anabl sy'n aros mewn llety dros dro.<sup>142</sup>

353. Mae hefyd yn amlwg o'r gwaith ymgysylltu gan Tai Pawb a'r Prosiect Cyngor Anabledd, ar ran Llywodraeth Cymru, nad yw'r system ddigartrefedd bob amser yn diwallu anghenion pobl anabl sy'n ddigartref neu sy'n wynebu risg o ddigartrefedd yn ddigon da a bod problemau o ran llety hygyrch.

## **Yr hyn y mae'r gyfraith yn ei ddweud ar hyn o bryd**

### **Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014**

354. Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn nodi'r dyletswyddau ar awdurdodau lleol sy'n ymwneud yn benodol â gwasanaethau cymorth i bobl anabl, ac o ran y dewis a'r rheolaeth y dylai fod modd i bobl anabl eu harfer dros gymorth, gan gynnwys ble i fyw a gyda phwy. Mae Cod Ymarfer Rhan 2 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (Swyddogaethau Cyffredinol) yn nodi: 'wrth arfer eu swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol mewn perthynas â phobl anabl y mae angen gofal a chymorth arnynt a gofalwyr anabl y mae angen cymorth arnynt, mae'n rhaid i awdurdodau lleol roi ystyriaeth briodol i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl Anabl.'

### **Deddf Tai (Cymru) 2014**

355. Mae adran 70(1)(c) o'r Ddeddf Tai 2014 yn nodi bod gan berson angen blaenoriaethol os yw'n agored i niwed oherwydd rhyw reswm arbennig, gan gynnwys "anabledd corfforol neu feddyliol".<sup>143</sup> Mae'r Cod Canllawiau yn nodi'n glir y gall pobl anabl fod yn agored iawn i fod yn ddigartref os na chaiff eu hanghenion eu nodi a'u diwallu drwy'r fframwaith gofal statudol.

356. Mae'r Cod Canllawiau hefyd yn nodi, lle mae llety yn cael ei ddyrannu i berson y mae angen iddo gael ei ailgartrefu ar sail feddygol neu les, gan gynnwys seiliau sy'n ymwneud ag anabledd, ei bod yn hanfodol asesu unrhyw anghenion cymorth neu ofal. At hynny, mae'n annog gweithio mewn partneriaeth er mwyn sicrhau na chaiff namau cudd eu colli, gan gynnwys nam meddyliol ac anableddau dysgu.

357. Mae Gorchymyn Digartrefedd (Addasrwydd Llety) (Cymru) 2015 yn darparu, wrth benderfynu a fyddai'n rhesymol i berson sy'n agored i niwed ac sydd mewn angen blaenoriaethol neu a all fod mewn angen blaenoriaethol, feddiannu llety ac wrth benderfynu a yw llety yn addas i berson sy'n agored i niwed, y caiff materion sy'n cynnwys y canlynol eu hystyried: a) anghenion iechyd penodol y person sy'n agored i niwed; b) agosrwydd a hygyrchedd cymorth teuluol; c) agosrwydd a hygyrchedd cyfleusterau meddygol, a gwasanaethau cymorth eraill; d) unrhyw anabledd sydd gan y person; e) agosrwydd cyflawnwyr honedig a dioddefwyr cam-drin domestig.

### **Deddf Cydraddoldeb 2010**

---

<sup>142</sup> [Hidden Homeless Exposed: Disability in Temporary... | Justlife](#)

<sup>143</sup> Lluniwyd y Ddeddf Tai (2014) cyn i Lywodraeth Cymru fabwysiadu'r model cymdeithasol o anabledd ac mae'r iaith hon yn adlewyrchu hynny.



358. Prif ddiben Deddf Cydraddoldeb 2010 yw cynnal hawliau unigolion, eu diogelu rhag triniaeth annheg oherwydd nodwedd warchoddedig ganfyddedig a chynyddu cyfle cyfartal. Mae'n nodi nifer o nodweddion sy'n warchoddedig (oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol) ac mae'n diffinio ac yn gwahardd gwahaniaethu sy'n gysylltiedig â'r nodweddion hyn. Mewn perthynas ag anabledd, mae'r Ddeddf yn dweud bod yn rhaid peidio â gwahaniaethu yn erbyn unigolyn am eu bod yn anabl, am fod rhywun yn meddwl eu bod yn anabl (gelwir hyn yn wahaniaethu drwy ganfyddiad) neu am ei fod yn gysylltiedig â rhywun sy'n anabl (gelwir hyn yn wahaniaethu drwy gysylltiad).

359. Mae Deddf 2010 yn diffinio anabledd fel nam corfforol neu feddyliol sy'n cael effaith 'sylweddol' a 'hirdymor' ar allu person i gyflawni gweithgareddau beunyddiol arferol. Diffinnir 'sylweddol' ymhellach fel bod "yn fwy na mân nam neu nam dibwys" a "hirdymor" ac mae'n golygu bod y nam wedi parhau neu'n debygol o barhau am o leiaf 12 mis neu am weddill bywyd y person.

360. Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 hefyd yn nodi dyletswydd gyfreithiol ar sefydliadau a chyrrff yn y sector cyhoeddus sy'n cyflawni swyddogaethau o natur gyhoeddus i newid y ffordd y maent yn gweithredu er mwyn sicrhau bod gwasanaethau yn hygyrch i bobl anabl. Cyfeirir at y newidiadau hyn fel addasiadau rhesymol a gallant olygu addasiadau i adeiladau drwy ddarparu lifftiau, drysau llydan, rampiau ac arwyddion cyffyrddol, ond gallant hefyd olygu newidiadau i bolisiâu, gweithdrefnau a hyfforddiant staff er mwyn sicrhau bod gwasanaethau yn gweithio yr un mor dda i bobl anabl, pobl ag anableddau dysgu a phobl nad ydynt yn anabl.

361. Gwnaeth Deddf 2010 hefyd gyflwyno Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, sydd â thri nod cyffredinol. Mae'n rhaid i'r rhai sy'n ddarostyngedig i'r ddyletswydd roi sylw dyledus i'r angen i wneud y canlynol:

- dileu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithlon ac ymddygiad arall a waherddir gan y Ddeddf;
- hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig a phobl nad ydynt yn ei rhannu;
- meithrin cydberthnasau da rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig a phobl nad ydynt yn ei rhannu.

362. Nod Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yw sicrhau bod y rhai sy'n ddarostyngedig iddi yn ystyried hyrwyddo cydraddoldeb yn eu gweithgareddau o ddydd i ddydd. Yn achos Llywodraeth Cymru mae hyn yn cynnwys llunio polisiâu a darparu gwasanaethau ac mae hefyd yn berthnasol i'n perthynas â'n cyflogeion. Mae rhestr o'r cyrrff sy'n ddarostyngedig i Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus ar gael [yma](#) ac mae'n cynnwys awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol.

363. Nid yw landlordiaid cymdeithasol cofrestredig yn cael eu henwi'n benodol fel sefydliadau sy'n dod o dan Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, ond mae'r gyfraith achosion a sefydlwyd yn 2009 wedi pennu mai "awdurdodau hybrid" yw darparwyr tai, am eu bod yn arfer cymysgedd o swyddogaethau cyhoeddus a phreifat. Ym mhob achos, bydd angen penderfynu a yw gweithred benodol (er enghraifft terfynu contract meddiannaeth) o natur breifat neu gyhoeddus. Fodd

bynag, os ydynt yn ymgymryd â gweithred gyhoeddus, byddent yn ddarostyngedig i'r ddyletswydd a bydd modd herio eu gweithredoedd ar seiliau cyfraith gyhoeddus/Hawliau Dynol y Confensiwn Ewropeaidd.

### **Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (“Deddf 2016”)**

364. Mae Deddf 2016 yn darparu fframwaith cyfreithiol symlach ar gyfer rhentu sy'n seiliedig ar ddau fath o gontract meddiannaeth. Bydd hyn yn ei gwneud hi'n haws i bobl anabl a phobl nad ydynt yn anabl ddeall eu hawliau a'u cyfrifoldebau. Yn ogystal, mae'r Ddeddf yn darparu math newydd o gontract meddiannaeth i unrhyw berson sy'n meddiannu eiddo ac y darperir gwasanaethau cymorth penodol iddo yn yr eiddo hwnnw, gan gynnwys cymorth i bobl y mae angen cymorth ychwanegol arnynt er mwyn byw'n annibynnol. Hefyd, mae'r Ddeddf yn estyn hawliau olynu i ofalwyr.

### **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (“Deddf 2015”)**

365. Mae Deddf 2015 yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus yng Nghymru ystyried effeithiau hirdymor eu penderfyniadau, i weithio gyda phobl, cymunedau a gyda'i gilydd yn well ac i osgoi problemau parhaus megis tlodi, anghydraddoldebau iechyd a newid yn yr hinsawdd. Un nod llesiant yw Cymru sy'n fwy cyfartal, lle y gall pawb gyrraedd ei botensial.

366. Mae gweithgarwch a dogfennau polisi ychwanegol yn amlinellu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gyflawni ei rhwymedigaethau sy'n codi o Gonfensiwn y Cenedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau ac ymrwymiad strategol i sicrhau cydraddoldeb i bobl anabl.

### **Asesiadau o'r Farchnad Dai Leol**

367. Ym mis Mawrth 2022, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru dull newydd o gynnal Asesiadau o'r Farchnad Dai Leol. Mae Asesiadau o'r Farchnad Dai Leol yn hanfodol er mwyn pennu gofynion tai lleol ac maent yn rhan allweddol o Gynlluniau Datblygu Lleol (CDLlau).<sup>144</sup>

368. Mae'n rhaid i CDLlau nodi sut a ble mae awdurdod yn bwriadu darparu cartrefi fforddiadwy i gyflawni'r targed a bennwyd ganddo Dylid eu defnyddio hefyd i gynllunio ar gyfer gwahanol anghenion amrywiol pobl a chymunedau gwahanol, gan gynnwys pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol, pobl anabl a phobl o wahanol oedrannau er mwyn sicrhau bod cartrefi yn diwallu'r anghenion hynny.

### **Gweithredu ar Anabledd: Yr Hawl i Fyw'n Annibynnol – Fframwaith a Chynllun Gweithredu<sup>145</sup>**

369. Cyhoeddwyd y cynllun hwn yn 2019 ac mae wedi cael ei lywio gan weithgarwch ymgysylltu â phobl anabl a rhanddeiliaid ehangach. Mae'n nodi nifer o gamau gweithredu mewn ymateb i argymhellion a wnaed yn adolygiad y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol a'r Archwilydd Cyffredinol o addasiadau tai yn 2018.

<sup>144</sup> [Asesiad o'r farchnad dai leol: canllawiau i awdurdodau lleol yng Nghymru | LLYW.CYMRU](#)

<sup>145</sup> [Gweithredu ar Anabledd: yr hawl i fyw'n annibynnol – fframwaith a chynllun gweithredu | LLYW.CYMRU](#)

## Tasglu Hawliau Pobl Anabl

370. Fe'i sefydlwyd yn 2021 ac mae'n dwyn ynghyd bobl â phrofiad bywyd, arweinwyr polisi Llywodraeth Cymru a sefydliadau cynrychioliadol er mwyn nodi'r rhwystrau sy'n effeithio ar fywyd llawer o bobl anabl yng Nghymru. Mae'r Tasglu yn gweithio o fewn cwrpas cylch gwaith cyfreithiol Llywodraeth Cymru ac nid mewn meysydd sy'n dod o dan gyfrifoldebau Llywodraeth y DU yn unig.

371. Mae'r Tasglu wedi nodi blaenoriaethau allweddol ar gyfer ei raglen waith, y bwriedir ymdrin â nhw drwy'r gweithgorau canlynol:

- Ymgorffori a Deall y Model Cymdeithasol o Anabledd (ledled Cymru)
- Mynediad at Wasanaethau (gan gynnwys Cyfathrebu a Thechnoleg)
- Byw'n Annibynnol: Iechyd
- Byw'n Annibynnol: Gofal Cymdeithasol
- Teithio
- Cyflogaeth ac Incwm
- Plant a Phobl Ifanc
- Tai Fforddiadwy a Hygyrch
- Llesiant

372. Mae'r gweithgorau yn cynnwys amrywiaeth o randdeiliaid, gan gynnwys sefydliadau sy'n cefnogi pobl anabl. Bydd argymhellion gan y grwpiau hyn yn llywio'r Cynllun Gweithredu Hawliau Pobl Anabl. Mae gwaith y pedwar gweithgor cyntaf wedi dod i ben, ac mae eu hargymhellion wedi cael eu cyflwyno i'r Tasglu ehangach. Mae ffrydiau gwaith Teithio, Cyflogaeth ac Incwm a Phlant a Phobl Ifanc wedi dechrau, a bydd Tai Fforddiadwy a Hygyrch yn dechrau yn Hydref 2023. Mae'r Tasglu yn anelu at gyhoeddi ei 'Gynllun Gweithredu Hawliau Pobl Anabl' ym mis Mawrth 2024.

## Awtistiaeth: Canllaw i Ymarferwyr o fewn Gwasanaethau Tai a Digartrefedd<sup>146</sup>

373. Cyhoeddwyd y canllaw hwn ym mis Medi 2019 ar y cyd â CLILC, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Llywodraeth Cymru a'r Tîm Awstistiaeth Cenedlaethol, mewn ymateb i ymchwil sy'n dangos bod canran uwch o bobl ddigartref yn awtistig ac yn nodi'r heriau a wynebir gan y grŵp hwn wrth gael gafael ar wasanaethau digartrefedd. Mae'r canllaw yn tynnu sylw at y problemau y mae rhai pobl ag awtistiaeth yn eu hwynebu wrth wneud cais am dai am y tro cyntaf, neu'r rhwystrau y gallant ddod ar eu traws wrth gydymffurfio â chontractau meddiannaeth. Mae'r canllaw, a'r hyfforddiant cysylltiedig a fydd ar gael, yn cynnig atebion ymarferol i ymarferwyr tai wrth iddynt ymdrin â materion a ystyrir weithiau yn ymddygiad gwrthgymdeithasol.

## Y Model Cymdeithasol o Anabledd

374. Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i'r Model Cymdeithasol o Anabledd ym mhob agwedd ar ei gwaith. Mae'r Model Cymdeithasol o Anabledd yn arddel y farn bod gan bobl namau o bosibl, ond eu bod yn cael eu hanablu gan gymdeithas.

---

<sup>146</sup> [https://autismwales.org/wp-content/uploads/2020/09/Autism\\_A-Guide-for-Practitioners-within-Housing-and-Homelessness-Services\\_Cym.pdf](https://autismwales.org/wp-content/uploads/2020/09/Autism_A-Guide-for-Practitioners-within-Housing-and-Homelessness-Services_Cym.pdf)

Datblygwyd y Model Cymdeithasol gan bobl ag anableddau eu hunain. Roedd eu profiadau yn dangos bod y rhan fwyaf o'r problemau a wynebant yn cael eu hachosi gan y ffordd y mae cymdeithas wedi'i threfnu. Nid eu namau na'u cyflyrau yw'r broblem. Mae rhwystrau cymdeithasol yn cynnwys agweddau pobl tuag at anabledd a rhwystrau ffisegol a sefydliadol.

## Y ffordd y mae'r gyfraith yn gweithio ar hyn o bryd

375. Mae tai hygyrch a chymorth sy'n gysylltiedig â thai yn hollbwysig i bobl anabl am eu bod yn ffactor allweddol sy'n galluogi annibyniaeth, ymreolaeth, urddas a diogelwch.<sup>147</sup> Drwy gydol y gwaith ymgysylltu a wnaed i gefnogi gwaith y Panel Adolygu Arbenigol a'r gwaith o ddatblygu'r Papur Gwyn hwn, mae rhanddeiliaid a phobl sydd â phrofiad o ddirgartrefedd wedi nodi'n glir bod cysylltiad rhwng bod yn anabl a dirgartrefedd. Prin yw'r data yn y maes hwn, sy'n golygu ei bod yn heriol dangos tystiolaeth o'r croestoriad hwn, ond mae rhanddeiliaid yn disgrifio sefyllfa heriol a pharhaus lle mae llawer o'r bobl sy'n aros mewn llety dros dro ar hyn o bryd yn anabl a lle mae rhai preswylwyr nad ydynt yn anabl yn wynebu risg o fynd yn anabl am fod eu problemau iechyd parhaus yn gwaethygu. At hynny, gall dechrau nam corfforol arwain yn gyflym at risg o ddirgartrefedd ac nid yw llety addas na llety hygyrch bob amser ar gael yn hawdd.

376. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf mae dau ymchwiliad pwysig (adolygiad ar ei liwt ei hun gan yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus [Adolygiad Dirgartrefedd: Drws agored i newid cadarnhaol](#) ac [Ymchwiliad y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol i anabledd a thai](#)) wedi cael eu cynnal sy'n ymwneud â phrofiad pobl anabl mewn perthynas â mynediad at dai. Nododd adroddiadau ymchwiliadau canlyniadol themâu tebyg sy'n cael eu crynhoi isod a'u hystyried yn erbyn yr adborth a gawsom drwy'r gwaith ymgysylltu a wnaed gan Tai Pawb i gefnogi'r Papur Gwyn hwn.<sup>148</sup>

## Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus

377. Nododd yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus fod diffyg ystyriaeth i nodweddion gwarchoddedig wrth reoli achosion o ddirgartrefedd.<sup>149</sup> Mae diffyg ystyriaeth o'r fath yn ymestyn i'r asesiad ynghylch a oedd person yn agored i niwed at ddibenion y prawf angen blaenoriaethol a nododd yr Ombwdsmon mai dim ond anghenion blaenoriaethol y cleient a ystyriwyd mewn rhai achosion, ac nid tystiolaeth feddygol ynglŷn ag anghenion iechyd neu anabledd partner neu ddibynnydd. O ganlyniad i'r hepgoriad hwn cynigir llety sy'n 'gwbl anaddas neu anhygyrch'. Caiff y canfyddiadau hyn eu hadlewyrchu yng ngwaith ymgysylltu Tai Pawb.

## Llety hygyrch

378. Mae'r cyflenwad o dai i ddiwallu anghenion amrywiol pobl anabl yn broblem a waethygir gan y pwysau cyffredinol ar y cyflenwad yn y system dai ac, yn ôl y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, methiant dyletswyddau eang wrth gynllunio deddfwriaeth i roi sylw i anghenion pobl anabl a throi hynny'n ystyriaeth

<sup>147</sup> <https://www.equalityhumanrights.com/sites/default/files/housing-and-disabled-people-wales-hidden-crisis-welsh-language-version.pdf>

<sup>148</sup> [Experiences-of-homelessness-Final-Version-PDF.pdf \(taipawb.org\)](#)

<sup>149</sup> [Cwynion Cam 4: 01 HOME - Adroddiad Ymchwiliad Drafft A21 \(ombwdsman.cymru\)](#)

lawn o bobl anabl mewn cynlluniau tai strategol a'r Asesiad o'r Farchnad Dai Leol.<sup>150</sup> Mae'r problemau hyn o ran y cyflenwad yn golygu bod pobl anabl yn aros am gyfnodau hir i gartrefi gael eu haddasu i ddiwallu eu hanghenion ac, mewn llawer o achosion, gallai hyn olygu cyfnodau estynedig mewn llety nad yw'n hygyrch neu mewn llety dros dro a all gael effeithiau niweidiol ar iechyd a llesiant unigolyn.

379. Mae gwaith ymgysylltu Tai Pawb a gwblhawyd at ddibenion y Papur Gwyn hwn yn awgrymu mai prin yw gwybodaeth awdurdodau lleol a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig am y stoc sydd ar gael iddynt, sy'n arwain at oedi wrth ddyrannu eiddo a dyrannu eiddo amhriodol. Codwyd y mater hwn yn adroddiad y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau dynol (dolen isod) sy'n nodi diffyg gwybodaeth am y cyflenwad o dai hygyrch.

380. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ddata ar Gofrestri Tai Hygyrch yn 2016.<sup>151</sup> Nododd y data hyn fod gan y mwyafrif (81%) o'r 21 o awdurdodau lleol a ymatebodd i'r arolwg Gofrestr Tai Hygyrch, gyda 19% yn dweud nad oes ganddynt un. Mae'r rhai nad oes ganddynt Gofrestr Tai Hygyrch yn defnyddio ffyrdd eraill, megis y Gofrestr Tai Cyffredin, rhestr a lunnir â llaw, neu Gosod Eiddo ar sail Dewis i gyflawni'r un swyddogaeth.

### **Addasrwydd**

381. Canfu'r Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus nad yw'r llety sy'n cael ei gynnig i bobl anabl bob amser yn cyrraedd y safonau priodol o ran addasrwydd ac nad yw anghenion pobl bob amser yn cael eu harchwilio'n llawn a'u hystyried wrth gynnig llety interim a llety parhaol.<sup>152</sup>

### **Mynediad at systemau**

382. Canfu'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol fod systemau cynnig ac ymgeisio awdurdodau lleol a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig yn aml yn anhygyrch, a oedd yn rhoi ymgeiswyr anabl o dan anfantais. Tynnodd sylw at y ffaith bod pobl anabl yn aml yn teimlo o dan bwysau i dderbyn llety anaddas rhag ofn y byddai eu henwau yn cael eu tynnu oddi ar restrau tai.<sup>153</sup> Ymhelaethwyd ar y canfyddiad hwn yng ngwaith Tai Pawb lle y mynegodd pobl anabl rwystredigaeth nad oedd eu gwybodaeth bersonol yn cael ei chofnodi'n briodol mewn systemau a olygai eu bod yn teimlo nad oedd eu hanghenion yn cael eu hasesu na'u deall yn dda.

### **Dyraniadau**

383. Noda'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol fod "cyfran uchel o bobl anabl mewn tai cymdeithasol oherwydd y rhent fforddiadwy is, sicrwydd y ddeiliadaeth a'r

---

<sup>150</sup> <https://www.equalityhumanrights.com/sites/default/files/housing-and-disabled-people-wales-hidden-crisis-welsh-language-version.pdf>

<sup>151</sup> [Awdurdodau Lleol, Cofrestri Tai Cyffredin a Chofrestri Tai Hygyrch: Adroddiad | \(llyw.cymru\)](#)

<sup>152</sup> <https://www.equalityhumanrights.com/sites/default/files/housing-and-disabled-people-wales-hidden-crisis-welsh-language-version.pdf>

<sup>153</sup> <https://www.equalityhumanrights.com/sites/default/files/housing-and-disabled-people-wales-hidden-crisis-welsh-language-version.pdf>

cymorth sy'n cael ei ddarparu" ond er gwaethaf hyn, mae polisiâu ac arferion dyrannu yn aml yn rhoi pobl anabl o dan anfantais<sup>154</sup>.

### **Newidiadau Arfaethedig**

**Mae'n fwriad polisi gennym y bydd y Cynlluniau Tai Personol a gynigir yn adran 1 o'r Papur Gwyn hwn yn gwella'r gwasanaeth a ddarperir i bobl anabl drwy ystyried anghenion tai unigol a'r cymorth sydd ei angen i gadw llety, yn ogystal â chynnwys unrhyw namau sydd gan yr ymgeisydd neu unrhyw aelod o'i aelwyd.**

**Er mwyn gwella effeithlonrwydd y broses o ddyrannu llety hygyrch, rydym yn cynnig y dylai fod yn ofynnol yn gyfreithiol i bob awdurdod lleol yng Nghymru lunio cofrestr tai hygyrch a chynnal adolygiad rheolaidd o'r llety hygyrch sy'n rhan o'u stoc.**

384. Byddai adolygiad o'r fath yn cynnwys pob partner sy'n dal stoc o dai cymdeithasol. Er bod y data a gyhoeddwyd yn 2016 yn awgrymu bod gan y rhan fwyaf o'r awdurdodau lleol gofrestr tai hygyrch, mae cyhoeddiadau canlyniadol yn bwrw amheuaeth ar y ffigurau hyn, gan awgrymu y gwneir llai o ddefnydd o gofrestri. Mae adborth gan randdeiliaid a defnyddwyr gwasanaethau yn awgrymu y gallai gwybodaeth am dai hygyrch mewn ardaloedd lleol gael ei gwella, ochr yn ochr â gwella effeithlonrwydd arferion dyrannu.

385. Fel y'i nodir yn Mhennod 1 o'r Papur Gwyn hwn, byddwn hefyd yn sicrhau bod gweithdrefnau cyfathrebu a hysbysu drwy gydol y broses ymgeisio yn hygyrch ac, fel rhan o hyn, byddwn yn mynd ati i ddileu anfantais i bobl anabl.

---

<sup>154</sup> housing-and-disabled-people-wales-hidden-crisis-welsh-language-version.pdf (equalityhumanrights.com)

## Cyn-aelodau o'r Lluoedd Arfog

386. Mae Cyfrifiad 2021 yn awgrymu bod tua 115,000 o gyn-aelodau o'r Lluoedd Arfog yng Nghymru, sef 4.5% o'r boblogaeth oedolion. Mae'r data yn awgrymu bod nifer y cyn-aelodau o'r Lluoedd Arfog sy'n dod drwy'r system ddiartrefedd yn isel. O'r 2,631 o aelwydydd roedd dyletswydd yn ddyledus iddynt yn 2018-19 (y flwyddyn lawn ddiwethaf y mae gennym ddata yn ei chylch) roedd rhwng chwech a naw yn aelwydydd cyn-aelodau o'r Lluoedd Arfog.<sup>155</sup> Fodd bynnag, mae'r gwaith ymgysylltu a wnaed gan Crisis a Llywodraeth Cymru i ddatblygu'r Papur Gwyn hwn yn awgrymu bod cyn-aelodau o'r Lluoedd Arfog yn wynebu nifer o rwystrau sy'n ymwneud â digartrefedd sydd i'w hystyried fel rhan o nodau'r Papur Gwyn hwn.

### Yr hyn y mae'r gyfraith yn ei ddweud ar hyn o bryd

#### Deddf y Lluoedd Arfog 2006 a Deddf y Lluoedd Arfog 2021

387. Diwygiwyd Deddf y Lluoedd Arfog 2006 gan Ddeddf y Lluoedd Arfog 2021 i osod dyletswydd gyfreithiol ('Cyfamod y Lluoedd Arfog') ar bersonau a chyrrff cyhoeddus penodedig i roi sylw dyladwy i egwyddorion Cyfamod y Lluoedd Arfog wrth arfer swyddogaethau statudol penodol ym meysydd gofal iechyd, addysg a thai. Mewn perthynas â Chymru, rhestrir y cyrrff penodedig yn adran 343AB(3) a nodir y swyddogaethau perthnasol yn adran 343AB (4-6). Daeth Dyletswydd y Cyfamod i rym ar 22 Tachwedd 2022.

388. Mae dyletswydd Cyfamod y Lluoedd Arfog y nodi pan fydd corff penodedig yn arfer swyddogaeth berthnasol, mae'n rhaid iddo roi sylw dyladwy i'r canlynol:

- “(a) y rhwymedigaethau a'r aberth unigryw a wneir gan y Lluoedd Arfog;
- (b) yr egwyddor ei bod yn ddymunol dileu anfanteision o Wasanaeth yn y Lluoedd Arfog, neu gyn Wasanaeth yn y Lluoedd Arfog, a
- (c) yr egwyddor y gellir cyfiawnhau darpariaeth arbennig i bobl sydd wedi/sy'n gwasanaethu oherwydd yr effaith y gallai aelodaeth, neu gyn-aelodaeth, o'r lluoedd arfog ei chael ar bobl o'r fath.”

Mae adran 343AB(4) o Ddeddf y Lluoedd Arfog 2006 yn nodi bod y cyfamod yn gymwys i swyddogaethau tai perthnasol o dan Ran 2 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014, ochr yn ochr â chyfraith tai berthnasol arall yng Nghymru.

#### Deddf Tai (Cymru) 2014

389. O dan adran 70 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014, caiff pobl sydd wedi gwasanaethu yn Lluoedd Arfog rheolaidd y Goron ac sydd wedi bod yn ddiartref ers gadael y lluoedd hynny, eu cydnabod yn bersonau digartref mewn angen blaenoriaethol.

---

<sup>155</sup> [Aelwydydd a ganfuwyd yn gymwys i gael cymorth, yn anfwriadol ddiartref ac mewn angen blaenoriaethol yn ystod y flwyddyn: Categoriâu angen blaenoriaethol yn ôl math o aelwyd \(adran 75\) \(llyw.cymru\)](#)

390. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei Llwybr Tai Cenedlaethol ar gyfer Cyn-aelodau o'r Lluoedd Arfog yn 2016, sy'n nodi'r llwybr ar gyfer diwallu anghenion tai cyn-aelodau o'r Lluoedd Arfog yng Nghymru.

### **Y ffordd y mae'r gyfraith yn gweithio ar hyn o bryd**

391. Mae digartrefedd ymhlith cyn-aelodau o'r lluoedd arfog yn aml yn cael ei rannu'n ddau gategori: pobl sy'n gadael y lluoedd ac sy'n cael eu 'rhyddhau' i ddigartrefedd, neu bobl sy'n mynd yn ddigartref beth amser ar ôl gadael y lluoedd. Mae ymchwil a wnaed yn Lloegr yn awgrymu bod y risg o ddigartrefedd yn union ar ôl gadael y gwasanaeth wedi cael ei lleihau i raddau helaeth o ganlyniad i'r rhaglenni rhyddhau llawer gwell, ond, mae gwaith ymgysylltu â rhanddeiliaid a wnaed i ddatblygu'r Papur Gwyn hwn yn awgrymu bod y data o bosibl yn tangynrychioli'r rhai sydd wedi gwasanaethu a bod nifer o feysydd lle mae cyn-aelodau o'r lluoedd arfog yn wynebu rhwystrau ychwanegol o ran y system digartrefedd.<sup>156</sup>

392. Yn ystod y gwaith ymgysylltu a wnaed i ddatblygu'r Papur Gwyn hwn, mae rhanddeiliaid wedi nodi'n glir nad ar gyn-aelodau o'r lluoedd arfog yn unig y mae digartrefedd yn effeithio, ond ar yr uned deuluol gyfan, a all wynebu heriau penodol wrth ddilyn llwybrau tai. Codwyd y prawf cysylltiad lleol fel her benodol; efallai y bydd y rhai sy'n gwasanaethu yn symud bob dwy flynedd, yn seiliedig ar eu lleoliad ac, o ganlyniad, gallant ei chael hi'n anodd dangos tystiolaeth o gysylltiadau lleol mewn unrhyw le. Mae'r gwaith ymgysylltu hefyd yn awgrymu y gall y prawf hwn fod yn arbennig o anodd i deuluoedd cyn-aelodau o'r lluoedd arfog sydd wedi gwahanu.

393. Fel yr amlinellir uchod, mae'r rhai sydd wedi gwasanaethu yn y lluoedd arfog yn dod o dan un o'r 11 o gategoriâu o angen blaenoriaethol ac maent hwy a'r sefydliadau sy'n eu cefnogi yn croesawu hyn yn gyffredinol. Fodd bynnag, mae categoreiddio o'r fath yn dibynnu ar ddatgelu gwasanaeth, nad yw'n digwydd bob amser, yn enwedig os bu'r unigolyn yn gwasanaethu beth amser yn ôl. Mae sicrhau darpariaeth tai yn mynd yn llawer mwy cymhleth os bydd rhywun yn mynd yn ddigartref flynyddoedd ar ôl i'w wasanaeth ddod i ben ac nad yw wedi cael cymorth gyda thrawma. Mae'n bosibl, mewn achosion o'r fath, na chaiff unigolion eu hasesu'n rhai mewn angen blaenoriaethol.

394. Fel sy'n digwydd gydag unrhyw un ag anghenion cymorth heb eu diwallu, gall llety dros dro fod yn arbennig o anodd i gyn-aelodau o'r lluoedd arfog sydd â nam, salwch meddwl neu anghenion cymhleth neu sy'n defnyddio sylweddau ac efallai fod yr anghenion cymorth ehangach hyn yn effeithio'n negyddol ar opsiynau symud ymlaen i lety tymor hwy.

395. Mae'r Llwybr Tai Cenedlaethol ar gyfer Cyn-aelodau o'r Lluoedd Arfog yn darparu fframwaith cadarn ar gyfer gweithio amlasiantaethol, ond mae ein gwaith ymgysylltu yn awgrymu bod mwy i'w wneud o ran ymgorffori'r arfer hon ledled Cymru. Mae pecyn cadarn o gymorth i'r Lluoedd Arfog, eu teuluoedd a chyn-aelodau

---

<sup>156</sup> Monitor Digartrefedd: Lloegr 2021; Fitzpatrick et al, Sefydliad ar gyfer Ymchwil Polisi Cymdeithasol, Tai a Chydraddoldebau



yng Nghymru eisoes ar waith a bydd hwn yn cael ei ategu drwy gyflawni nodau ehangach y diwygiadau arfaethedig hyn; er mwyn sicrhau bod ymateb a arweinir gan anghenion, sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac sy'n ystyriol o drawma i'r rhai sy'n ddigartref neu'n wynebu risg o ddigartrefedd.

## Newidiadau Arfaethedig

**Yn ogystal â'r cynigion a amlinellir yn adran 1 ynglŷn â chysylltiad lleol, rydym hefyd yn cynnig y dylid adolygu'r Llwybr Tai Cenedlaethol ar gyfer Cyn-aelodau o'r Lluoedd Arfog a cheisio ffyrdd o sicrhau ei fod yn cael ei gymhwyso'n gyson gan awdurdodau lleol.**

## Pobl sy'n gadael y carchar

396. Dim ond lleiafrif o'r bobl sy'n ddigartref fydd yn dechrau troseddu, ond mae treulio amser yn y carchar yn cynyddu'r risg o ddigartrefedd a gall diffyg llety sefydlog gynyddu'r risg o droseddu neu aildroseddu. Gall hyn arwain at gylch negyddol hunanbarhaol, gyda chyfnodau o ddigartrefedd a bod yn y carchar yn digwydd dro ar ôl tro.<sup>157</sup> Llety sefydlog a defnydd cynhyrchiol o amser yw dau o'r ffactorau diogelu pwysicaf sy'n atal aildroseddu a'r risg o niwed difrifol. Dylai fod gan bawb sy'n gadael y carchar rywle diogel i fyw; mae llety yn un o'r sylfeini sy'n helpu i adsefydlu pobl.

397. Dros yr wyth mlynedd diwethaf mae digartrefedd ymhlith y rhai sy'n gadael lleoedd cadw wedi bod yn un o'r heriau mwyaf sylweddol a wynebwr gan dimau digartrefedd ac mae'n parhau felly. Dros y degawd sydd i ddod, bydd yn llinyn mesur i lwyddiant y diwygiadau deddfwriaethol a'r broses o bontio i Ailgartrefu Cyflym yn ei gyfanrwydd.

398. Mae data Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi yn awgrymu bod 14% o'r rhai sy'n gadael y carchar yn ddigartref ar adeg eu rhyddhau yng Nghymru a Lloegr<sup>158</sup>, ac mae'r data ar ddigartrefedd statudol yn awgrymu y gellir priodoli 11% o'r achosion o ddigartrefedd yng Nghymru i bobl sy'n gadael y carchar.<sup>159</sup> Mae'r ffigur hwn bron yn sicr yn tangynrychioli niferoedd, o ystyried y posibilrwydd y caiff rhai sy'n gadael y carchar eu cyfrif mewn categorïau eraill at ddibenion cofnodi data ac na fyddai'n cyfrif y rhai nad ydynt yn hysbys i'r gwasanaethau, h.y. y rhai sy'n cysgu ar soffâ pobl eraill.

399. Hefyd, awgrymodd y cyfrif data blynyddol mwyaf diweddar ar gysgu allan yng Nghymru, ymhlith y rhai sy'n cysgu allan, fod 43% wedi treulio amser yn y carchar.<sup>160</sup> Mae hyn yn cefnogi tystiolaeth anecdotaidd sy'n awgrymu mai'r rhai sy'n gadael y carchar, yn enwedig dynion sengl, sy'n cyfrif am y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr hynny

<sup>157</sup> Crisis (2019); Criminal Justice and Homelessness: Introductory briefing for Prevention Review Group

<sup>158</sup> [Ad Hoc - Accommodation Following Release from Custody - GOV.UK \(www.gov.uk\)](https://www.gov.uk)

<sup>159</sup> [Aelwydydd a ganfuwyd sy'n gymwys, yn ddigartref yn amodol ar ddyletswydd i helpu i sicrhau yn ystod y flwyddyn. Y prif reswm dros gollir cartref sefydlog diwethaf yn ôl y math o aelwyd \(Adran 73\)](#)

<sup>160</sup> [Download.aspx \(wlga.wales\)](#)

sydd fwyaf anodd i'w cynorthwyo mewn ffordd gadarnhaol ac sy'n agored i fynd drwy gylchoedd byr o ddigartrefedd a chysgu allan dro ar ôl tro.

400. Mae'r rhesymau dros hyn yn amrywiol ac yn gymhleth ac maent yn wahanol wrth ystyried dynion, menywod, pobl ifanc a phlant. Mae'r materion yn amrywio o anawsterau o ran darparu gwasanaethau cymorth yn y carchar, yr heriau sy'n gysylltiedig â darparu gwasanaeth atal digartrefedd o bell a'r stigma a wynebir gan bobl sydd wedi bod mewn cysylltiad â'r system gyfiawnder. Nid yw'n syndod bod gan lawer o gyn-garcharorion hanes personol o drawma, camdriniaeth a (mewn rhai achosion) dibyniaeth ar sylweddau cyfreithlon ac anghyfreithlon i reoli effeithiau trawma. Bydd hanes o droseddau yn aml yn arwain at restr dipyn yn llai o opsiynau cymorth a thai. Hefyd, bydd y rhai sy'n destun proses y Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Amddiffyn y Cyhoedd (MAPP) neu sy'n Droseddwy'r Rhyw Cofrestredig hefyd yn gweld bod eu hopsiynau'n llawer llai o ganlyniad i risgiau canfyddedig eu lletya.

401. Mae'r heriau hyn, gyda'i gilydd, yn golygu bod carfan gymharol fach o bobl yn wynebu anfantais eithafol ac yn achosi llwyth gwaith anghymesur o fawr i wasanaethau. Mae'r rhai sy'n gadael yr ystad ddiogely'n wynebu risg o symud rhwng bod dan gadwad a gwasanaethau digartrefedd, sy'n croestorri â phroblemau cynyddol o ran defnyddio sylweddau yn ogystal â salwch meddwl.<sup>161</sup> Gall hyn arwain at gylch dirywiol o gam-drin o hyd ac anallu i gael gafael ar wasanaethau, sy'n ei gwneud hi'n heriol eu cartrefu a'u hadsefydlu bob tro y maent yn gadael y carchar ac yn cysylltu â gwasanaethau.

402. Mae'r heriau a wynebir gan fenywod yn yr ystad ddiogel ychydig yn wahanol, yn yr ystyr bod cydnabyddiaeth gynyddol bod troseddwy'r sy'n fenywod yn fwy agored i niwed a dealltwriaeth sy'n datblygu y bydd troseddwy'r sy'n fenywod yn aml wedi bod yn ddiodefwyr troseddau yn ogystal â'u cyflawni, y bydd ganddynt gyfrifoldebau gofalu a'u bod yn fwy tebygol o fod wedi mynd drwy drawma yn ystod plentyndod. Ystyrir bod menywod sy'n gadael y carchar hefyd yn wynebu mwy o risg o gamfanteisio sy'n golygu bod sicrhau mannau diogel i aros yn hanfodol bwysig. Gan nad oes carchar i fenywod na safle cymeradwy (CAS1) yng Nghymru, mae troseddwy'r sy'n fenywod yn wynebu anawsterau daearyddol o ran teithio'n ôl i'w hardal leol ar y diwrnod y cânt eu rhyddhau, a all hefyd gynyddu'r risg o gamfanteisio a/neu gysgu allan. Bydd y Gwasanaeth Prawf yn rhoi cymorth pan fydd cyfnod ar drwydded neu oruchwyliaeth ar ôl bwrw dedfryd. Fodd bynnag, os caiff y fenyw ei rhyddhau pan ddaw ei dedfryd i ben, y trydydd sector a'r dull system gyfan yng Nghymru sy'n cynnig y cymorth hwn. O dan y Glasbri't Cyfiawnder i Fenywod y cytunwyd arno gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU gwneir gwaith i liniaru'r heriau hyn, a gweithio gyda phartneriaid i adeiladu ar wasanaethau i fenywod yng Nghymru, a chyflymu'r broses o'u trawsnewid, drwy ffocws system gyfan. Mae hyn yn cynnwys cryfhau'r rhwydwaith o ddatrysiadau tai er mwyn ystyried anghenion penodol menywod yn well.

403. Mae digartrefedd ymhlith pobl ifanc a phlant sy'n gadael y System Cyfiawnder leuenctid yn gymharol brin oherwydd gwaith y Gwasanaethau Cyfiawnder leuenctid, sy'n cynnwys lechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol, Addysg, yr Heddlu a'r

---

<sup>161</sup> Gweler y rhestr termau am ddiffiniad

Gwasanaeth Prawf. Mae'r bobl ifanc hyn yn fwy tebygol o gael eu lletya mewn tai â chymorth ar adeg eu rhyddhau. Fodd bynnag, mae gwasanaethau yn sôn yn gyson o hyd am yr heriau pan fydd pobl ifanc yn symud i ystadau oedolion yn ystod eu dedfryd, yn bennaf mewn perthynas â throsglwyddo cymorth. Bydd y Glasbriant Cyfiawnder Ieuencid hefyd yn parhau i lunio argymhellion i bartneriaid a fydd yn rhoi ffocws i'w gwaith.

404. Cyfyd themâu sy'n gysylltiedig ag atal digartrefedd i unrhyw un sy'n gadael y carchar a'r rhai sydd â hanes o drosedd. Crynhoir y themâu hyn isod ac maent yn cynnwys diwylliant o wahaniaethu, a waethygir gan broblemau sylweddol o ran adnoddau. Ceir hefyd heriau ychwanegol sy'n gysylltiedig â chael mynediad at bobl yn yr ystad ddiogel ac wrth reoli meysydd a datganoledig ac annatganoledig o'r polisi hwn.

## Stigma

405. Mae ymchwil wedi cadarnhau y gall sicrhau darpariaeth tai ddigonol i'r rhai sy'n gadael y carchar leihau cyfraddau aildrosedd sylweddol, hyd at 50%.<sup>162</sup> <sup>163</sup> Os na fyddwn yn helpu cyn-droseddwyr i gael llety diogel a sefydlog mae'n debygol na allant ddatrys problemau sy'n gysylltiedig â thrawma nac osgoi cylchoedd o drosedd sydd, yn groes i bob rheswm yn cynyddu'r risg i gymunedau ac yn ei gwneud yn fwy heriol i wasanaethau cyfiawnder troseddol gefnogi a goruchwyllo cyn-droseddwyr.<sup>164</sup> Mae digartrefedd yn brofiad sy'n llawn stigma ac mae'r stigma hwn yn waeth i'r rhai sydd hefyd â hanes o drosedd. Yn anffodus, mae hyn yn aml yn adlewyrchu naratif cymhleth yn y cyfryngau ac ymhlith gweithwyr proffesiynol a'r cyhoedd sy'n gallu dwyn cysylltiad rhwng digartrefedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol a chardota. Weithiau, gall fod yn rhagfarn llai ymwybodol, ond weithiau mae'n fwy amlwg. Er bod unigolion sy'n gadael y carchar yn wynebu lefelau ychwanegol o ragfarn, gall Troseddwyr Rhyw Cofrestredig brofi hyn i raddau mwy a all arwain at rwystrau sylweddol sy'n eu hatal rhag cael eu hadsefydlu a dod yn rhan o gymdeithas unwaith eto.

## Mynediad at lety

406. Yn ôl y gwerthusiad o'r Ddeddf Tai 2014, mae'r rhai sy'n gadael y carchar yn wynebu rwystrau ychwanegol wrth geisio sicrhau llety yn y sector rhentu preifat.<sup>165</sup> Ymhlith y rhesymau a roddwyd gan y rhai a gymerodd ran roedd amharodrwydd ar ran landlordiaid i aros tan ddyddiadau rhyddhau i lenwi eiddo gwag a gwrthodiad llwyr gan rai landlordiaid i roi llety i unrhyw un sydd wedi bwrw dedfryd yn y carchar. Mewn rhai achosion, bydd yn rhaid i ddarpar denantiaid gyrraedd safon fetio uwch a datgelu eu hanes trosedd llawn cyn cael contract meddiannaeth. Mae Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF wedi gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru i ddatblygu pecyn "bod yn denant da" er mwyn helpu pobl sydd ar brawf i ddeall eu tenantiaeth

<sup>162</sup> Yr Uned Allgáu Cymdeithasol 2002.

<sup>163</sup> [Basic housing to keep offenders off streets and cut crime - GOV.UK \(www.gov.uk\)](https://www.gov.uk)

<sup>164</sup> Yr Uned Allgáu Cymdeithasol (2002) Reducing reoffending by ex-prisoners, London: Yr Uned Allgáu Cymdeithasol

Dore (2015) [Prison leavers and homelessness](#)

<sup>165</sup> [Llywodraeth Cymru \(2018\); Gwerthusiad ôl-weithredu o Ran 2 Deddf Tai \(Cymru\) 2014: Adolygiad Terfynol](#)

ond hefyd i gefnogi landlordiaid a rhoi sicrwydd iddynt, ond erys anawsterau o hyd o ran dod o hyd i'r math hwn o lety i bobl sydd ar brawf.

407. Mae'r sefyllfa yn y sector rhentu preifat yn gymhleth. Er bod rhai awdurdodau lleol yn nodi bod eu partneriaid sy'n landlordiaid cymdeithasol cofrestredig yn rhoi cymorth arbennig, ceir adborth cyson sy'n awgrymu bod y rhai sy'n gadael y carchar yn wynebu rhwystrau ychwanegol, yn aml ar ffurf cael eu gwahardd o restrau aros neu ddyrannu ar sail ymddygiad hanesyddol neu ôl-ddyledion rhent.

### **Cysylltiad lleol a lleoliadau y tu allan i'r sir**

408. Mae'r adborth gan awdurdodau lleol yn awgrymu bod y prawf cysylltiad lleol yn dal i fod yn werthfawr wrth reoli adnoddau. Fodd bynnag, daw'r prawf yn fwy heriol o ran cefnogi pobl sy'n gadael y carchar a throsglwyddo ymgeiswyr rhwng ardaloedd. Mae awdurdodau lleol yn nodi pryderon bod adsefydlu unigolion sy'n gadael y carchar yn ei gwneud yn fwy tebygol y bydd atgyfeiriadau cysylltiad lleol, a hefyd y bydd her gan yr awdurdod lleol sy'n cael yr atgyfeiriad. Nid yw'r Ddeddf Tai 2014 yn atal awdurdod lleol rhag darparu llety y tu allan i'w ardal heb fod angen atgyfeiriad cysylltiad lleol, ond mae adran 91 o'r Ddeddf Tai 2014 yn nodi'n glir y dylid hysbysu'r awdurdod lleol lle y caiff yr ymgeisydd ei letya o fewn 14 diwrnod i ddyddiad dechrau'r lleoliad ac y dylid cynnwys gwybodaeth sylfaenol am enw'r ymgeisydd arweiniol a manylion am aelodau'r aelwyd. Nid yw'n ofyniad rhoi manylion am unrhyw ymddygiad troseddol yn y gorffennol. Nid oes gan yr ail awdurdod lleol unrhyw bŵer i wrthod na gwrthwynebu'r lleoliad hwnnw. Mae tystiolaeth wedi nodi y bydd awdurdodau lleol, weithiau a phan fyddant wedi dod yn ymwybodol o leoliad ymgeisydd sydd â hanes o drosedd yn eu hardal, yn cysylltu â'r awdurdod lleol gwreiddiol sydd wedi lleoli'r ymgeisydd yn eu hardal ac yn mynnu ei fod yn cael ei symud i rywle arall, gan fethu â gwneud ymholiadau ynghylch pam y gall fod yn fuddiol i gyn-garcharor symud i leoliad newydd.<sup>166</sup>

### **Heriau o ran adnoddau**

409. Mae prinder tai, yn enwedig prinder llety i bobl sengl yn rhwystr mawr a wynebwr gan y rhai sy'n gadael y carchar, sydd yn aml yn arwain at gyfnodau estynedig mewn llety dros dro. Er gwaethaf ymdrechion gorau darparwyr, mae cyfnodau hir mewn llety dros dro yn cynyddu'r risg o ddod yn rhan o'r system cyfiawnder troseddol eto oherwydd diffyg cymorth, ansefydlogrwydd a rhyngweithio â throsiant uchel ymhlith preswylwyr.

410. Cyfyd her benodol hefyd mewn perthynas â'r rhai sy'n destun MAPPA. Gall gweithio amlasiantaethol cadarnhaol arwain at ffafriaeth ychwanegol wrth ddyrannu llety neu baru unigolion â landlordiaid cymdeithasol a phreifat bodlon, ond gall rhywun sy'n destun trefniadau o'r fath hefyd wynebu heriau ychwanegol o ran dod o hyd i lety sy'n bodloni partneriaid. Gall hyn arwain at sefyllfaoedd lle nad yw llety yn cael ei ystyried yn addas oherwydd ei leoliad a'r disgwyliadau heriol a osodir ar awdurdodau lleol i ddod o hyd i ail neu drydydd opsiwn. Gall hyn fod yn her sylweddol a gall arwain at dyndra, yn enwedig mewn rhannau o Gymru lle mae

---

<sup>166</sup> [Gwerthusiad o wasanaethau digartrefedd i oedolion yn yr ystad ddiogel | LLYW.CYMRU](#)

prinder amrywiaeth eang o lety sy'n bodloni gofynion penodol iawn, sy'n gysylltiedig â lleoliad a risg, er bod pawb yn gweithio tuag at ddiogelu'r cyhoedd.

411. Fel rhan o ddiwygiadau Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi i Wasanaethau Llety Cymunedol (CAS), mae math newydd o lety dros dro wedi cael ei ddatblygu mewn ymateb i broblem digartrefedd i'r rhai sy'n gadael y carchar. Mae llety CAS3 (CAS1 – mangreoedd cymeradwy a CAS2 – Llety Mechnïaeth a Gwasanaethau Cymorth) yn darparu llety dros dro, ynghyd â chymorth i symud ymlaen i lety sefydlog ac mae wedi'i anelu at y rhai sy'n destun goruchwyliaeth prawf ac yr aseswyd eu bod yn fwy tebygol o fod yn ddigartref ar adeg eu rhyddhau o'r carchar neu'r Fangre Gymeradwy (CAS1). Gall ddarparu llety ar gyfer y rhai a fyddai heb lety fel arall a gall leihau'r posibilrwydd y caiff rhywun ei adalw i'r carchar. Fodd bynnag mae nifer y gwelyau yn gyfyngedig ledled Cymru a dim ond am 84 noson y bydd y cymorth a'r llety ar gael.

### **Yr hyn y mae'r gyfraith yn ei ddweud ar hyn o bryd**

412. Materion a gedwir yn ôl yw troseddu a chyfiawnder. Rheolir y System Cyfiawnder Troseddol gan Lywodraeth y DU ac, fel y cyfryw, mae llawer o'r fframwaith deddfwriaethol yn y maes hwn yn ymwneud â deddfwriaeth y DU. Fodd bynnag, mae'r Ddeddf Tai 2014 yn cyfeirio at y rhai sy'n gadael y carchar, mewn cysylltiad â thai, ac mae arferion penodol i Gymru wedi cael eu datblygu o fewn y cyd-destun hwn.

### **Deddf Tai (Cymru) 2014**

413. Cafodd y Ddeddf Tai 2014 ei chynllunio i roi cymorth i unrhyw un sy'n ddigartref neu sy'n wynebu risg o ddigartrefedd, ni waeth beth fo'i gefndir. Nid yw'r dyletswyddau allweddol yn y Ddeddf (yn debyg i'r ddeddf a'i rhagflaenodd, sef Deddf Tai 1996), yn gwneud unrhyw ddarpariaeth wahanol i unrhyw un sydd yn y carchar neu sy'n gadael y carchar, heblaw mewn perthynas â phresenoldeb categori angen blaenoriaethol penodol.

414. Fodd bynnag, ceir nifer o ddarpariaethau penodol yn y Ddeddf Tai 2014 ar gyfer pobl sydd yn y carchar neu i gefnogi'r broses o gynllunio ar gyfer y rhai sy'n gadael y carchar.

### **Strategaethau digartrefedd**

415. Mae adran 52(6) o'r Ddeddf Tai 2014 yn sicrhau bod yn rhaid i bob strategaeth gynnwys darpariaeth ynglŷn â chamau gweithredu ar gyfer 'pobl sy'n gadael y carchar neu lety cadw ieuencid'.

### **Gwasanaeth Cyngori**

416. Mae adran 60 o'r Ddeddf Tai yn gosod dyletswydd ar bob awdurdod tai lleol i ddarparu gwasanaeth cyngori ar ddigartrefedd ac mae adran 60(4)(c) yn gosod gofyniad ar yr awdurdod tai lleol i sicrhau (yn enwedig drwy weithio gydag awdurdodau cyhoeddus eraill, cyrff gwirfoddol a phersonau eraill) fod y gwasanaeth yn cael ei gynllunio i ddiwallu anghenion 'pobl sy'n gadael y carchar neu lety cadw

ieuenctid'. Fel y noda adran 60 yn glir, mae'n rhaid i'r gwasanaeth fod ar gael i 'pobl yn ei ardal leol' neu bobl 'â chysylltiad lleol â'i ardal'. Gallai hyn gynnwys darparu gwasanaeth i'r rhai yn y carchar pan fydd carchar wedi'i leoli o fewn ffiniau daearyddol ardal yr awdurdod lleol neu wasanaeth i'r rhai mewn carchar y tu allan i'w ffiniau daearyddol. Mae'r Cod Canllawiau yn nodi rhagor o wybodaeth ynglŷn â sut y gellir cyflawni hyn.

### **Lle cadw/cysylltiad lleol**

417. Mae adran 81 o'r Ddeddf Tai 2014 yn amlinellu beth yw cysylltiad lleol. Mae adran 81(3) yn nodi'n benodol nad yw person sy'n preswyllo mewn ardal o ganlyniad i gael ei gadw o dan awdurdod deddfiad yno o ddewis ei hun. Felly, ni fyddai gan y person hwnnw gysylltiad lleol yn ardal yr awdurdod lleol lle mae'r cyfleuster cadw gan na fyddai'n preswyllo yno fel arfer ac nad yw'r preswyliaid o'i ddewis ei hun.

### **Angen Blaenoriaethol**

418. O dan y Ddeddf Tai 2014 diwygiwyd y statws angen blaenoriaethol awtomatig i bawb sy'n gadael y carchar, sydd wedi bod ar waith ers 2003, i'r rhai hynny a oedd yn agored i niwed am eu bod wedi bod yn y carchar neu le cadw yn unig, a ddiffinnir fel a ganlyn:

(j) person sydd â chysylltiad lleol ag ardal yr awdurdod tai lleol ac sy'n hyglwyf o ganlyniad i un o'r rhesymau canlynol—

- (i) bod wedi bwrw dedfryd o garchar o fewn ystyr adran 76 o Ddeddf Pwerau Llysoedd Troseddol (Dedfrydu) 2000 neu adran 222 o'r Cod Dedfrydu,
- (ii) bod wedi ei remandio mewn carchar neu ei draddodi i garchar gan orchymyn llys, neu
- (iii) bod wedi ei remandio i lety cadw ieuenctid o dan adran 91(4) o Ddeddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyr 2012,

neu berson y mae person o'r fath yn preswyllo gydag ef neu y gellid disgwyl yn rhesymol iddo breswyllo gydag ef.

419. Mae adran 70(1)(j) o'r Ddeddf Tai 2014 yn nodi bwriad y ddarpariaeth hon i gefnogi'r rhai sydd wedi cael eu rhoi mewn sefydliad neu wedi cael eu trawmateiddio ar ôl bod yn y carchar.

420. Yn y blynyddoedd cyn 2014 roedd rhwng 800 a 1000 o bobl y flwyddyn yn cael eu canfod yn rhai mewn angen blaenoriaethol am eu bod yn agored i niwed o ganlyniad i fod yn y carchar. Roedd y ffigur hwnnw wedi gostwng i ymhell o dan 100 yn y blynyddoedd ar ôl cyflwyno'r diffiniad diwygiedig. Fodd bynnag, o ystyried y pwyslais ar atal a nodwyd yn y Ddeddf Tai a'r potensial i gofnodi unigolion o dan gategori angen blaenoriaethol gwahanol, ni ddylid gwneud cymhariaeth uniongyrchol.

## **Dyletswydd i ddarparu gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy i gael gafael ar gymorth**

421. Mae'r ddyletswydd i sicrhau y darperir gwasanaeth gwybodaeth a chyngor fel y'i nodwyd yn adran 60 o'r Ddeddf Tai 2014 yn nodi y dylai'r gwasanaeth fod ar gael 'i bobl yn ei ardal'. Mae hyn yn cynnwys unrhyw un heb gysylltiad lleol sydd yn y carchar yn yr ardal honno. Nid oes unrhyw dimau a ariennir gan yr awdurdod lleol mewn unrhyw un o'r pum carchar yng Nghymru. Mae hyn mewn gwrthgyferbyniad llwyr â gwasanaethau statudol eraill, megis iechyd ac addysg, sydd â phresenoldeb cyson a hygyrch mewn carchardai. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru a Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi wedi ariannu cydgysylltwyr llwybr llety mewn lleoliadau prawf ar y cyd, gyda'r nod o weithio'n agos gyda rheolwyr troseddwr yn y carchar a rheolwyr troseddwr yn y gymuned er mwyn ceisio sicrhau bod proses ddi-dor o ryddhau unigolion. Mae'r timau adsefydlu yn gweithio'n agos gyda phob un o'r tair rôl hyn er mwyn sicrhau y caiff gwybodaeth ynglŷn â digartrefedd ei rhannu ymlaen llaw ag awdurdodau lleol. Mae Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi hefyd wedi sefydlu Tasglu Atal Digartrefedd sy'n rhannu data ag awdurdodau lleol er mwyn sicrhau y caiff y risg y bydd rhywun yn cael ei ryddhau i ddigartrefedd ar y stryd ei lleihau.

## **Rhyddhau'n gynnar**

422. Mewn rhai achosion, gellir ystyried rhyddhau unigolyn o'r carchar yn gynnar. Dim ond pan fydd llety wedi cael ei nodi a'i ddyrannu i'r unigolyn, sy'n ei wneud yn gymwys i fod yn destun cyrffw cyfyngu i'r cartref, y mae hyn yn bosibl. Felly, efallai y bydd y rhai heb lety neu fynediad at lety CAS2 yn colli'r cyfle i gael eu rhyddhau'n gynnar ac yn colli manteision a all ddod yn sgil hynny.

## **Trawsnewid Adsefydlu**

423. Fel rhan o'r agenda Trawsnewid Adsefydlu, cyflwynodd Llywodraeth y DU Ddeddf Adsefydlu Troseddwr 2014. O dan y Ddeddf, ehangwyd ar y cymhwysra am oruchwyliaeth brawf, a gosodwyd y llwyfan ar gyfer cyfres o Gwmnïau Adsefydlu Cymunedol sy'n ymgymryd â gwasanaethau adsefydlu yn ystod chwe mis olaf dedfryd i'r rhai a ystyrir yn risg isel neu ganolig o niwed. Cafodd y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol y cyfrifoldeb am oruchwyllo'r rhai a ystyrir yn risg uwch.

424. Yng Nghymru, symudodd Rheoli Troseddwr i mewn i'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol ym mis Rhagfyr ac yn 2021 symudodd pob agwedd arall ar brosesau cyflawni i mewn i'r Gwasanaeth Prawf newydd. Mae'r Gwasanaeth Prawf yn dal i gomisiynu gwasanaethau penodol drwy fframwaith dynamig a gelwir y rhain yn Wasanaethau Adsefydlu a Gomisiynwyd.

## **Y Llwybr Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Digartrefedd i Blant, Pobl Ifanc ac Oedolion mewn Sefydliadau Diogel<sup>167</sup>**

425. Yn 2014, sefydlwyd y Gweithgor Llety ac Ailsefydlu Carcharorion i ystyried yr opsiynau a oedd ar gael i sicrhau y gallai pawb a oedd ar fin gadael y carchar

---

<sup>167</sup> [27291 Llwybr Digartrefedd i Garcharorion \(llyw.cymru\)](#)

fanteisio ar y dyletswyddau i atal digartrefedd yn y Ddeddf Tai 2014. O ganlyniad, cyhoeddwyd y Llwybr Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Digartrefedd i Blant, Pobl Ifanc ac Oedolion mewn Sefydliadau Diogel ym mis Rhagfyr 2015. Gan ystyried gwahanol systemau ac anghenion cymorth oedolion a phlant, datblygodd y Llwybr ddwy broses ar wahân. Fe'i datblygwyd ar y cyd â'r holl bartneriaid ac roedd yn cymeradwyo proses atgyfeirio rhwng gwasanaethau adsefydlu heb eu datganoli sy'n gweithredu mewn carchardai a'r gwasanaethau digartrefedd statudol datganoledig a ddarperir yn y gymuned gan awdurdodau lleol.

426. Er bod y rhan fwyaf o'r Llwybr i Oedolion wedi'i seilio'n benodol ar gysylltu'r Ddeddf Tai â gwasanaethau prawf, er mwyn sicrhau'r defnydd mwyaf effeithiol o'r camau rhesymol o fewn y terfyn amser o 56 diwrnod o dan adrannau 73 a 74 o'r Ddeddf Tai 2014, mae'r Llwybr Cenedlaethol yn cynnig, lle mae rhywun yn ddigartref (h.y. nid oes unrhyw lety ar gael iddo yn y carchar), y dylid gohirio ceisiadau tan 66 diwrnod cyn ei ryddhau o'r carchar. Dewiswyd y terfyn amser o 66 diwrnod i roi cyfle i'r awdurdod gynnal asesiad pen desg ac roedd dyletswydd yn dechrau ac yn gorffen tra oedd ymgeisydd yn dal i fod yn y carchar, felly pan na fo dyletswydd adran 75 yn ddyledus, byddai'r ymgeisydd yn gymwys ar gyfer yr ail ddyletswydd o dan adran 73 o'r Ddeddf Tai 2014 ar ôl cael ei ryddhau ar sail newid perthnasol mewn amgylchiadau o ganlyniad i adael y carchar.

427. Wrth ddatblygu'r Llwybr i Oedolion, roedd newidiadau i brosiectau Prison Link Cymru yn Ne Cymru wedi cael dylanwad ar y gweithgor, er mwyn sicrhau ei fod yn gweithio ar dderbyn i'r carchar yn unig, gyda'r nod o gadw tenantiaethau lle bynnag y bo modd, fel arfer drwy sicrhau'r hawliau mwyaf posibl i fudd-daliadau yn ystod cyfnod rhywun yn y carchar. Yn ogystal, mae'r Llwybr Cenedlaethol hefyd yn cynnig, lle y caiff bygythiad o ddigartrefedd ei nodi ar unrhyw adeg yn ystod dedfryd, y gellir gwneud cais ar unwaith i'r tîm digartrefedd.

## **Y ffordd y mae'r gyfraith yn gweithio ar hyn o bryd**

### **Mynediad at y system**

428. Nid oes unrhyw rwystr cyfreithiol i unrhyw un sydd yn y carchar sy'n ei atal rhag manteisio ar y dyletswyddau craidd o dan y Ddeddf Tai 2014. Nid yw'r gyfraith yn gwahaniaethu o gwbl ac nid oes darpariaeth i wahardd unrhyw un yn y carchar rhag bod â hawl na bod yn gymwys. At hynny, nid ystyrir bod cell carchar yn llety addas yn ôl y gyfraith ac felly, mae unrhyw un nad oes ganddo hawl gyfreithiol i feddiannu llety yn y gymuned yn ddigartref yn gyfreithiol neu o dan fygythiad o ddigartrefedd tra bydd yn y carchar. Yn ei dro, mae gan unrhyw un yn y carchar, sy'n ddigartref neu sydd o dan fygythiad o ddigartrefedd yr hawl i wneud cais digartrefedd (drwy drydydd parti neu'n ysgrifenedig os oes angen) ac mae ganddo'r hawl i asesiad o dan adran 62 o'r Ddeddf Tai. Pan fydd dyletswydd digartrefedd yn ddyledus, byddai disgwyl i awdurdodau lleol gymryd camau rhesymol fel y maent yn ei wneud i unrhyw un arall.

429. Fodd bynnag, er gwaethaf ymdrechion i wella prosesau cyfathrebu a datblygu Tasgluoedd Atal Digartrefedd o fewn Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi, mae'r adborth seiliedig ar ymarfer yn glir bod rhwystrau o hyd i gyflwyno'r broses fel y'i nodir uchod. Mae'r rhwystrau hyn yn cynnwys yr her amlwg a wynebwr gan dimau



cyngor ar dai sy'n ceisio cysylltu ag unigolion yn y carchar yn ogystal â gallu ac adnoddau gwasanaethau adsefydlu.

## **Y Llwybr Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Digartrefedd i Blant, Pobl Ifanc ac Oedolion mewn Sefydliadau Diogel**

430. Mae'r Llwybr i Oedolion yn tybio y bydd gan wasanaethau adsefydlu a thimau digartrefedd yr adnoddau i gyflawni ei nodau, ac o ystyried y pwysau ar wasanaethau tai ledled Cymru, anghyson fu'r broses o'i roi ar waith. Mewn rhai achosion, mae hyn yn golygu bod carcharorion newydd eu rhyddhau yn cysylltu â thimau digartrefedd nad ydynt wedi cael unrhyw wybodaeth flaenorol am eu rhyddhau.

431. Cynhaliwyd gwerthusiad o'r Llwybr Cenedlaethol a'r penderfyniad i ddileu angen blaenoriaethol i bobl sy'n gadael y carchar gan Brifysgol Glyndŵr yn 2018. Drwy'r gwerthusiad hwn rhoddwyd darlun clir, lle roedd y Llwybr Cenedlaethol yn cael ei ddilyn, fod canlyniadau yn well o gymharu â'r canlyniadau i'r rhai a oedd yn cael eu cefnogi o dan Ddeddf Tai 1996. Awgrymodd yr adroddiad hefyd, er bod gwasanaethau derbyn yn gweithio'n effeithiol i sicrhau'r hawliau mwyaf posibl i fudd-daliadau a chadw llety, lle y bo'n briodol, i'w ddefnyddio eto ar ôl rhyddhau o'r carchar y dylid ymestyn y gwasanaethau hyn i gefnogi mwy o achosion ar adeg derbyn.<sup>168</sup>

432. Gwnaeth yr adroddiad gan Brifysgol Glyndŵr hefyd nodi bod ymgysylltu rhwng y Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol (ar y pryd) ac awdurdodau lleol, cyn i unigolyn gael ei ryddhau o'r carchar, yn rhoi gormod o ffocws ar benderfynu a oedd yn agored i niwed (h.y. cymhwystra am angen blaenoriaethol) yn hytrach na dod o hyd i opsiynau llety amgen.<sup>169</sup> O ganlyniad i hyn, roedd y rhai nad oeddent yn cyrraedd y trothwy ar gyfer angen blaenoriaethol, a oedd yn cael eu rhyddhau, yn annhebygol o gael llety. Cyn cyflwyno "neb heb help" ac ychwanegu'r categori digartrefedd ar y stryd at y categorïau o angen blaenoriaethol ym mis Hydref 2022, mae'n bosibl bod hyn wedi bod yn ffactor arwyddocaol y tu ôl i batrymau cysgu allan ymhlith cyn-garcharorion.

### **Bod yn agored i niwed**

433. Mae'r gwerthusiad o'r Ddeddf Tai 2014, ochr yn ochr ag adborth gan Shelter Cymru, yn tynnu sylw at bryderon bod yn rhaid i bobl sy'n gadael y carchar ddangos eu bod yn fwy agored i niwed er mwyn sbarduno naill ai dyletswydd llety dros dro adran 68 neu'r brif ddyletswydd o dan adran 75 i sicrhau llety na'r rhai nad oes ganddynt hanes o droseddu.

### **Newidiadau Arfaethedig**

434. Mae ein newidiadau arfaethedig i ddeddfwriaeth yn dod o dan nifer o gategoriâu:

---

<sup>168</sup> [Gwerthusiad o wasanaethau digartrefedd i oedolion yn yr ystad ddiogel: Papur cefndir \(llyw.cymru\)](#)

<sup>169</sup> [Gwerthusiad o wasanaethau digartrefedd i oedolion yn yr ystad ddiogel | LLYW.CYMRU](#)

- Newidiadau i'r dyletswyddau craidd presennol
- Cyfrifoldebau a rennir
- Plant a Phobl Ifanc

435. Dylid darllen y cynigion a nodir isod ochr yn ochr â Phenodau 1 a 2 o'r Papur Gwyn ar atal a chymorth a'r dyletswyddau newydd arfaethedig i adnabod, atgyfeirio a chydweithredu. Mewn perthynas â'r cynnig ar gyfer Cynlluniau Tai Personol, mae'n hollbwysig bod asesiad o anghenion a Chynllun Tai Personol yn cael eu llunio ar y cyd â rhywun sy'n mynd i'r carchar mor gynnar â phosibl yn ystod y ddyletswydd atal (o leiaf chwe mis cyn rhyddhau) yn bersonol a bod dymuniadau'r ymgeisydd ynglŷn â'r canlyniad y mae'n gobeithio ei sicrhau yn cael eu cofnodi. Cynigir y bydd rhagor o fanylion ynglŷn ag ymarfer mewn perthynas â Chynlluniau Tai Personol yn dilyn ar ffurf canllawiau ond y dylai'r cynllun gofnodi sut y gellid cadw llety presennol a'r camau y bydd yr awdurdod tai lleol yn cymryd i sicrhau hyn.

436. Mae'r Panel Adolygu Arbenigol wedi cyhoeddi rhestr helaeth o argymhellion ar gyfer canllawiau statudol yn y dyfodol yn y maes hwn a byddwn yn ystyriol o'r rhain wrth inni gynnwys unrhyw gynigion isod mewn deddfwriaeth ddrafft.

## **Newidiadau i ddyletswyddau craidd**

### **Gweithgarwch atal ar y cam derbyn**

**Rydym yn cynnig, pan fydd unigolyn yn cael ei ddedfrydu i dymor yn y carchar yn gyntaf, y dylid gwneud asesiad ar y cam derbyn (yr adeg y mae'r person yn mynd i'r carchar) ynghylch a yw'n debygol o golli unrhyw lety tra bydd yn bwrw ei ddedfryd yn y carchar ac, os felly, a yw hefyd yn debygol o golli ei eiddo ac a yw'n debygol o gael ei ryddhau, a bod yn ddigartref, o fewn chwe mis.**

437. Pan nodir risg o ddigartrefedd neu golli eiddo, hoffem weld gwaith partneriaeth rhwng yr awdurdodau tai lleol, y gwasanaeth carchardai a sefydliadau cymorth perthnasol i drefnu bod cyngor ar gael i'r unigolyn. Pan fydd unigolyn o dan fygythiad o ddigartrefedd o fewn chwe mis, dylai awdurdodau'r carchar atgyfeirio'r achos at yr awdurdod tai lleol a bydd dyletswydd atal yn ddyledus gan yr awdurdod tai lleol. Wrth inni ymgynghori ar y cynnig hwn, byddwn yn ymgysylltu ymhellach â Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi i ystyried y ffordd fwyaf effeithiol o roi'r cynnig hwn ar waith.

Nid yw pobl yn y carchar yn ddigartref tra byddant yn bwrw eu dedfrydau yn y carchar

**Rydym yn cynnig y dylid nodi'n glir mewn deddfwriaeth nad oes rhywun sydd yn y carchar yn ddigartref er nad oes ganddo fynediad at lety yn y gymuned.**

**Rydym yn cynnig na fydd y rhai yn y carchar (p'un a ydynt ar remand, wedi cael eu hadalw neu'n bwrw eu dedfryd) yn bodloni'r meini prawf ar gyfer digartrefedd oni bai bod un o'r tri amod canlynol yn cael ei fodloni:**

- **eu bod eisoes o dan ddyletswydd bresennol o dan y Ddeddf Tai 2014;**
- **pan fo llety presennol mewn perygl yn unol â'r diffiniad presennol (neu ddiwygiedig); a/neu**
- **chwe mis (neu lai) cyn rhyddhau.**

438. Bydd effaith y cynnig hwn yn golygu mai dim ond tra bod ymgeisydd yn y carchar y gall fod yn destun y ddyletswydd atal (sef adran 66 o'r Ddeddf Tai 2014 ar hyn o bryd). Ar adeg ei ryddhau, pe bai'r ymgeisydd yn ddigartref (yn unol â'r diffiniad yn adran 55) bydd yn dod yn destun y brif ddyletswydd ar unwaith. Byddai ymgeisydd sy'n dal i wynebu risg o ddigartrefedd (yn unol â'r diffiniad yn adran 55 o'r Ddeddf Tai 2014) ar ôl ei ryddhau yn parhau i gael ei gynorthwyo o dan y ddyletswydd atal.

439. Ein bwriad polisi ar gyfer y cynnig hwn yw rhoi eglurder i'r ymgeisydd a rhanddeiliaid ehangach ynghylch pryd y dylid gwneud cais i'r gwasanaeth digartrefedd a pha wasanaeth y dylid ei ddisgwyl. Ein bwriad yw y bydd sbarduno'r ddyletswydd atal chwe mis cyn rhyddhau, ynghyd â'r gweithgarwch cryfach ar adeg derbyn, yn gwella'r camau a gymerir i atal digartrefedd ymhlith carcharorion. Bydd y cynigion hefyd yn sicrhau bod gan y rhai sy'n parhau i fod yn ddigartref neu sydd o dan fygythiad o ddigartrefedd ar adeg eu rhyddhau yr hawl i gael cymorth pellach i leihau eu digartrefedd.

### **Y rhai sy'n gadael y carchar, atal a chysylltiad lleol**

**Pan ddaw'n amlwg y bydd carcharor yn ddigartref ar ôl gael ei ryddhau o'r carchar, rydym yn cynnig y dylid cymhwyso'r prawf cysylltiad lleol ar gam y ddyletswydd atal.**

440. Fel rhan o'r asesiad cychwynnol o anghenion tai carcharor sy'n wynebu risg o ddigartrefedd, dylid caniatáu i'r awdurdod tai lleol atgyfeirio'r ddyletswydd atal o dan atgyfeiriad cysylltiad lleol, fel y bydd yr un awdurdod tai lleol yn cyflawni'r ddyletswydd atal a'r brif ddyletswydd tai, yn hytrach nag un awdurdod tai lleol yn cyflawni'r ddyletswydd atal ac wedyn yn atgyfeirio'r brif ddyletswydd tai at awdurdod tai lleol arall.

## Rhyddhau'n gynnar

**Rydym yn cynnig y dylai deddfwriaeth nodi, pan fydd angen llety gan awdurdod tai lleol ar garcharor er mwyn iddo gael ei ryddhau'n gynnar neu gael parôl neu fechnïaeth, y dylid tybio bod y carcharor yn ddigartref ar y dyddiad rhyddhau'n gynnar.**

441. Y bwriad polisi ar gyfer y cynnig hwn yw unioni sefyllfa lle mae'r rhai sy'n gymwys i gael eu rhyddhau'n gynnar yn cael eu gwrthod am nad oes ganddynt lety ac na fydd llety yn cael ei ddarparu nes eu rhyddhau. Bydd y cynnig hwn yn sicrhau, yn achos y rhai sydd yn y carchar, sy'n gymwys i gael eu rhyddhau'n gynnar ac y mae dyletswyddau o dan adrannau 68 a 75 o'r Ddeddf Tai 2014 yn ddyledus iddynt, fod y dyletswyddau hynny yn ddyledus iddynt cyn eu rhyddhau a bod cyfeiriad yn cael ei ddarparu cyn eu rhyddhau.

## Newid perthnasol mewn amgylchiadau

442. Mae adran 62 o'r Ddeddf Tai 2014 yn darparu, os bydd rhywun yn gwneud cais i awdurdod tai lleol am lety neu am gymorth i gadw llety neu ddod o hyd i lety ac yr ymddengys i'r awdurdod y gall fod yn ddigartref neu o dan fygythiad o ddigartrefedd, fod yn rhaid iddo gynnal asesiad o achos yr ymgeisydd. Mae adran 62(1)(c) yn darparu nad yw'r ddyletswydd hon yn ofynnol os yw awdurdod wedi asesu'r person yn flaenorol, a bod yr awdurdod wedi'i fodloni nad yw amgylchiadau'r ymgeisydd wedi newid ers i'r asesiad hwnnw gael ei gynnal ac nad oes unrhyw wybodaeth newydd sy'n cael effaith berthnasol ar yr asesiad.

**Rydym yn cynnig y dylid ei gwneud yn glir bod yn rhaid ystyried unrhyw gyfnod yn y carchar yn newid mewn amgylchiadau, ni waeth am faint y bydd rhywun yn y carchar neu a yw'n gysylltiedig ag adalw i'r carchar.**

## Cyflawni dyletswydd

**Rydym yn cynnig y dylid ei gwneud yn glir, yn achos y rhai sy'n cael eu hadalw neu eu dedfrydu i dymor yn y carchar tra byddant o dan ddyletswydd gyfredol, na ddylai'r ddyletswydd honno ddod i ben yn awtomatig.**

443. Mae'r rhan fwyaf o droseddwyd sydd eisoes yn ddigartref yn mynd i'r carchar am ddedfrydau byr ac fel y cyfryw bydd hyn yn sicrhau parhad gwasanaeth ac yn ei gwneud yn fwy tebygol y bodd modd atal digartrefedd. Dylai'r newid i'r diffiniad o ddigartrefedd a gynigir uchod sicrhau bod rhywun sy'n derbyn dyletswydd yn parhau i gael ei gefnogi. Hefyd, rydym yn cynnig y dylid nodi'n benodol na fydd neb sy'n cael ei remandio, ei ddedfrydu, na'i adalw i'r carchar yn ddarostyngedig i'r pwyntiau cyflawni yn adran 79(2) i (5) o'r Ddeddf Tai 2014.

444. Bydd angen gwaith ehangach er mwyn sicrhau bod y Cod Canllawiau diwygiedig yn adlewyrchu'r sefyllfa o ran polisi na ddylai hawliau ehangach y rhai sy'n dewis dychwelyd i'r teulu a ffrindiau i gael cymorth digartrefedd a champau rhesymol gael eu gwrthod. Mae hefyd angen sicrhau nad oes unrhyw effaith negyddol o ran cyflawni'r ddyletswydd iddynt ar y rhai sy'n dewis peidio â dychwelyd i'r teulu a ffrindiau, weithiau oherwydd pryderon ynglŷn â risgiau aildroseddu (gweler pennod 4: Mynediad at lety).

### **Trefniadau cilyddol**

445. Nid oes unrhyw reswm cyfreithiol ar hyn o bryd pam na all trefniadau cilyddol, lle mae un awdurdod lleol yn gweithio gydag awdurdod cyfagos i roi cymorth a llety i rywun sy'n gadael y carchar yn gyfnewid am gymorth yn y dyfodol, ddigwydd. Mae llawer o resymau da pam y byddai dull gweithredu cilyddol yn fuddiol i'r ymgeisydd a'r awdurdod lleol, gan gynnwys rhoi cyfle i'r ymgeisydd ddechrau o'r newydd, y cyfle i ddianc rhag dylanwadau drwg a gwell cyfle i ddod o hyd i lety addas.

446. Fodd bynnag, am amrywiol resymau, gall prosesau cilyddol fod yn anodd i'w rheoli; gallant arwain at anghydfodau ynglŷn â throthwy i sbarduno'r trefniadau, diffyg ymddiriedaeth a her wleidyddol leol. Mae Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi wedi gweithio'n ddiweddar i ddatblygu proses o reoli trefniadau cilyddol ac mae'n ymrwymedig i hwyluso trefniadau o'r fath lle y bo'n briodol.

**Er mwyn cryfhau hyn ymhellach, rydym yn cynnig pŵer newydd i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau mewn perthynas â threfniadau cilyddol.**

447. Pe bai'r cynnig hwn yn cael ei fabwysiadu, byddwn yn gweithio gydag awdurdodau lleol i ddatblygu'r trefniadau. Byddai'r cynnig hwn hefyd yn gofyn am newidiadau i gymhwystra ar gyfer cysylltiad lleol; yn benodol i'r rhai y byddai amgylchedd newydd yn fuddiol iddynt a lle y byddai eu risgiau o aildroseddu neu ddychwelyd at ymddygiadau negyddol yn lleihau.

### **Dyletswydd i ddarparu gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy i gael gafael ar gymorth**

448. O dan adran 60(1) o'r Ddeddf Tai 2014, mae'n rhaid i awdurdod lleol sicrhau y darperir gwasanaeth gwybodaeth a chyngor sydd ar gael i unrhyw un 'yn ei ardal', ac mae adran 60(4) yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod 'sicrhau bod y gwasanaeth wedi ei ddylunio i ddiwallu anghenion grwpiau sy'n wynebu perygl arbennig o ddigartrefedd, gan gynnwys yn benodol pobl sy'n gadael y carchar neu lety cadw ieuencid.'

**Er mwyn sicrhau cysondeb o ran mynediad ac asesu, rydym yn cynnig y dylid ei nodi'n glir fod y ddyletswydd hon yn gosod disgwyliad ar awdurdodau lleol, pan fo sefydliad diogel o fewn ei ffiniau, i sicrhau y darperir gwasanaeth cynghori digonol i'r rhai yn y carchar neu mewn llety cadw ieuencid.**

449. Bydd angen cael trafodaethau manwl â Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF a charchardai unigol er mwyn ystyried sut y gellir hwyluso hyn a sut y gall ategu gwaith y staff a'r gwasanaethau presennol, a bydd angen hefyd ddiwygio'r ddyletswydd i atgyfeirio a chydweithredu hefyd er mwyn sicrhau bod yr awdurdod 'lletyol' yn gallu cynnal asesiad ar ran yr awdurdod gwreiddiol.

## Cadw llety

**Rydym yn cynnig, lle y bo modd, y dylid ystyried a ellid cynnig llety i rywun yn y carchar o dan y ddyletswydd atal, gyda'r nod o sicrhau ei fod ar gael ar adeg rhyddhau, naill ai o dan gontract meddiannaeth neu ar sail fwy anffurfiol (llety gyda theulu neu ffrindiau).**

450. Ni fwriadwn i'r opsiwn hwn olygu y bydd unigolyn yn cael ei gosbi os bydd yn gwrthod y cynnig o lety anffurfiol.

**Rydym yn cynnig y dylai'r brif ddyletswydd tai fod yn gymwys os daw'r ddyletswydd atal i ben a bod yr ymgeisydd ar fin bod yn ddigartref ar adeg ei ryddhau, hyd yn oed os yw'r ymgeisydd wedi gwrthod llety a gynigir o dan y ddyletswydd atal.**

451. Lle bynnag y bo modd, dylid rhoi blaenoriaeth i gadw llety presennol rhywun. Er mwyn gwneud hyn, mae'n hollbwysig bod gweithgarwch yn digwydd ar adeg dedfrydu rhywun a'i dderbyn i'r carchar. Gellid gwneud hyn drwy gydweithio agosach (yn gysylltiedig â'r ddyletswydd i gydweithredu) ac yn gysylltiedig a sicrhau bod gwasanaethau cynghori yn fwy rhagweithiol o ran gweithio y tu mewn i garchardai (gweler y paragraffau ar y ddyletswydd i ddarparu gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy).

**Er mwyn cryfhau trefniadau cydgysylltu a rheoli achosion, rydym hefyd yn cynnig y dylid datblygu rhagor o ganllawiau yn y maes hwn a fydd yn ystyried sut i'w rhoi ar waith yn fanwl. Gall hyn gynnwys rôl cydgysylltwyr arweiniol i gynllunio cymorth tai unigolyn.**

452. Mae'r dystiolaeth yn glir mai drwy gydgysylltu achos ar sail amlasiantaethol o dan swyddog arweiniol unigol a chyson, sy'n meithrin cydberthynas ymddiriedus â'r ymgeisydd, y sicheir y canlyniadau gorau i ymgeisydd yn aml. Fel rhan o'n cynigion ehangach ynglŷn â chydgyssylltu achosion (fel y'u nodwyd yn adran 2 o'r Papur Gwyn hwn) rydym am sicrhau bod sefydliad arweiniol yn cael ei nodi a bod swyddog rheoli achos arweiniol yn cael ei neilltuo ar gyfer y rhai yn y carchar er mwyn sicrhau parhad cymorth i'r ymgeisydd. Yn ein barn ni, ni fyddai angen i'r swyddog arweiniol fod wedi'i leoli yn yr awdurdod tai lleol ac rydym yn awgrymu y dylai'r swyddog arweiniol fod wedi'i leoli yn y gwasanaeth prawf neu'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuencid yn y rhan fwyaf o achosion, a byddwn yn ymgysylltu eto â phartneriaid i ystyried hyn ymhellach.

## Cadw eiddo

**Rydym yn cynnig diwygiad i Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 er mwyn sicrhau bod cadw eiddo wedi'i gynnwys fel rhan o'r camau rhesymol y mae angen eu cymryd o dan Ran 11 o'r Ddeddf honno.**

## Pobl Ifanc

453. Pan fydd person ifanc yn cael ei gadw yn yr ystad oedolion neu mewn sefydliad i droseddwr ifanc, mae'n hollbwysig bod ymateb amlasiantaethol ar waith i ymateb i anghenion y bobl ifanc hyn.

**Rydym yn cynnig y dylai'r ddeddfwriaeth a'r canllawiau fod yn gliriach ynglŷn â'r cysylltiad â Rhan 11 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 mai gwasanaethau cymdeithasol sy'n gyfrifol am blant 16 a 17 oed, sy'n disgwyl cael eu rhyddhau o'r system cyfiawnder ieuencid o fewn chwe mis, yn derbyn ymateb ar y cyd ar draws awdurdod lleol, yn unol â'n cynigion yn gynharach yn yr adran hon ynglŷn â phlant a ohobl ifanc.**

## Adolygu'r Llwybr Cenedlaethol

454. Caiff y cynigion hyn eu hategu gan waith polisi ehangach, gan gynnwys adolygu a diweddarw'r Llwybr Cenedlaethol, cymorth ychwanegol, hyfforddiant a chanllawiau i landlordiaid ynglŷn â chleientiaid sy'n agored i niwed a'r rhai ag anghenion cymhleth, yn ogystal â gwaith gyda Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF i wella'r ffordd y caiff data eu casglu a'u dadansoddi a chryfhau trefniadau gweithio mewn partneriaeth.

## Pobl nad oes ganddynt Hawl i Gyllid Cyhoeddus

455. Mae Cynllun Cenedl Noddfa – Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches yn nodi ymrwymiad i gefnogi'r broses o integreiddio'r rhai sy'n ceisio noddfa yng Nghymru a chyfyngu ar y risg y byddant yn anghenus.<sup>170</sup> Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi ymrwymo, drwy'r Cynllun Gweithredu Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd, i ddatblygu, diwygio neu wella'r ffordd y rhoddir llwybrau ar waith, gyda chymorth wedi'i deilwra, ymyriadau priodol a datrysiadau tai i grwpiau sy'n wynebu risg o niwed. Mae hyn yn cynnwys ffoaduriaid ynghyd ag amrywiaeth eang o bobl a allai fod yn agored i ddigartrefedd.

456. Fodd bynnag, mae'n rhaid i unrhyw wahaniaeth bwriadol mewn polisiau ac arferion rhwng Cymru a Lloegr osgoi'r posibilrwydd y bydd person sy'n ceisio lloches yn gweithredu mewn ffordd sy'n torri un o amodau ei hawl i fod yn y DU ac i aros yma. O ganlyniad, mae rheoliadau Llywodraeth Cymru ynglŷn â chymhwysra yn adlewyrchu'r Rheoliadau cyfatebol yn Lloegr ynglŷn â chymhwysra mor agos â phosibl. Mae newidiadau diweddar i hawliau cymhwysra sy'n effeithio ar grwpiau

<sup>170</sup> [Cenedl Noddfa – Cynllun Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches \(llyw.cymru\)](#)

penodol o bobl, megis pobl sy'n ffoi rhag trais yn Sudan, wedi ehangu'r niferoedd a all fod yn gymwys i gael cymorth tai a digartrefedd.<sup>171</sup>

457. Mae Llywodraeth y DU wedi nodi ei bod yn cydnabod y cyfraniad y mae mewnfudwyr yn ei wneud drwy gyfoethogi cymdeithas Brydeinig a chyfrifoldeb moesol y DU i gefnogi ffoaduriaid sy'n ffoi rhag perygl ac mae'n anelu at greu amgylchedd "cydymffurfiol". Mae'r dull gweithredu hwn yn ceisio sicrhau bod y system lloches yn deg a'i bod yn gwahaniaethu rhwng mathau cyfreithlon ac anghyfreithlono fudo.<sup>172 173</sup> Gosodir cyfyngiadau ar allu pobl sy'n dod i'r DU i hawlio cyllid cyhoeddus (a wneir drwy amod 'Dim Hawl i Gyllid Cyhoeddus' a osodir ar statws mewnfudo unigolyn), er mwyn sicrhau y gall y rhai sy'n cyrraedd gynnal eu hunain a chartrefu eu hunain. Mae Llywodraeth y DU yn nodi bod hyn yn cael ei wneud i roi sicrwydd i'r cyhoedd bod adnoddau cyfyngedig y wladwriaeth yn cael eu rhoi i'r rhai sydd wedi dod i fyw yn y DU yn barhaol.<sup>174</sup>

458. Yn ôl asesiadau annibynnol, mae'n bosibl y bydd cyfraith a pholisi lloches Llywodraeth y DU yn tanseilio ymdrechion yng Nghymru i ddiogelu hawliau ffoaduriaid.<sup>175</sup> Nododd pob un o adroddiadau'r Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd, a ystyriodd y camau roedd angen eu cymryd i roi diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru, broblemau a oedd wedi peri iddynt argymhell bod Llywodraeth Cymru yn ceisio darbwyllo Llywodraeth y DU i godi ei pholisi ynglŷn â dim hawl i gyllid cyhoeddus, yn enwedig wrth ddiwallu anghenion allweddol goroeswyr trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.<sup>176</sup> Mae'r data yn awgrymu, er bod nifer y bobl ag amod dim hawl i gyllid cyhoeddus yng Nghymru yn gymharol fach, fod effaith anghymhwysra i gael cymorth tai a digartrefedd yn sylweddol ac mae data i'r DU gyfan yn awgrymu ei fod yn arwain yn uniongyrchol at ddigartrefedd ar y stryd. Mae awdurdodau tai lleol yng Nghymru yn dibynnu ar y trydydd sector i helpu i letya pobl ag amod dim hawl i gyllid cyhoeddus yng Nghymru a'r galw yn aml yn fwy na'r cyflenwad. Mae'r nifer cymharol fach hwn o achosion yn gofyn am cryn dipyn o adnoddau gan sawl rhan o wasanaeth cyhoeddus Cymru.

459. Nodwn fod y Panel Adolygu Arbenigol yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru geisio cynnwys pobl heb hawl i gyllid cyhoeddus ymhlith y rhai sy'n gymwys i gael cymorth digartrefedd, gan gydgyssylltu â Llywodraeth y DU i ddodo hyd i ffordd ymlaen. Gan fod cymhwysra i gael cymorth tai a digartrefedd yn gysylltiedig â materion cenedligrwydd a mewnfudo, mae llawer o'r pwerau perthnasol i wneud newidiadau yn y meysydd hyn yn nwylo Llywodraeth y DU. Oni bai a hyd nes y bydd Llywodraeth y DU yn newid ei safbwynt, cyfyngedig yw'r opsiynau sydd ar gael i

---

<sup>171</sup> Mae newidiadau diweddar eraill i hawliau cymhwysra wedi cael eu gwneud ar gyfer Dinasyddion yr AEE, pobl heb wladwriaeth, deiliaid fisa Gwladolyn Prydeinig (Tramor) Hong Kong, pobl sy'n cyrraedd o Affganistan ac sy'n dychwelyd yno, pobl sy'n dod i Gymru o Wcráin, dioddefwyr caethwasiaeth a masnachu pobl.

<sup>172</sup> Dadleuir ynglŷn â'r termau hyn yn aml yng nghyd-destun mudo, sy'n gwneud y defnydd o dermau megis cyfreithlon ac anghyfreithlon yn broblemus. [Irregular migration in the UK - Migration Observatory - The Migration Observatory \(ox.ac.uk\)](#)

<sup>173</sup> [New Plan for Immigration: policy statement \(hygyrch\) - GOV.UK \(www.gov.uk\)](#)

<sup>174</sup> [Public funds \(publishing.service.gov.uk\)](#)

<sup>175</sup> [Council of Europe human rights commissioner finds significant regression in UK's protection of rights of refugees and asylum seekers | Rhwydwaith Mewnfudo Electronig \(ein.org.uk\)](#)

<sup>176</sup> [Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd: adroddiad Gorffennaf 2020 \(llyw.cymru\)](#)



fabwysiadu trefniadau cymhwysra sy'n fwy cyson â blaenoriaethau Gweinidogion Cymru. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i helpu awdurdodau lleol i ymateb i bolisiâu mewnfudo Llywodraeth y DU ac i ymgysylltu ag adrannau Llywodraeth y DU ynglŷn ag unrhyw newidiadau polisi y maent yn eu cyflwyno.

460. O fewn terfynau'r setliad datganoli, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllawiau ar amgylchiadau penodol pobl heb hawl i gyllid cyhoeddus, gan annog awdurdodau lleol i gynnig cymaint o gymorth â phosibl i'r rhai sydd yn yr amgylchiadau hyn.<sup>177</sup>

461. Rydym hefyd wedi sefydlu cronfa argyfwng, gan adeiladu ar Gynllun Dioddefwyr Mudol y Swyddfa Gartref, y gall darparwyr gwasanaethau ei ddefnyddio i gefnogi menywod mudol sy'n ddiodefwr neu'n oroeswyr trais rhywiol a thrais ar sail rhywedd ac sydd heb hawl i gyllid cyhoeddus. Bydd y gronfa argyfwng yn gweithredu ar sail cynllun peilot a dyma'r cam cyntaf o ymrwymiad yn y tymor hwy i ariannu gwasanaethau cymorth ar gyfer diodefwr trais ar sail rhywedd heb hawl i gyllid cyhoeddus. Fodd bynnag, dim ond pan fetho pob opsiwn cyfreithiol arall y bydd y gwasanaeth hwn ar gael.

462. Gall y ffaith bod swyddogion awdurdodau lleol yn anghyfarwydd ag achosion heb hawl i gyllid cyhoeddus, ynghyd â natur brin achosion o'r fath, olygu, hyd yn oed gyda chanllawiau Llywodraeth Cymru a'i phrofiad o ymdrin ag achos penodol, na fydd swyddogion yn meithrin gwybodaeth ddwfn nac arbenigedd i helpu rhywun yn effeithiol. O ganlyniad, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu caffael hyfforddiant, adnoddau ar-lein ac adnoddau eraill y gall awdurdod lleol a rhanddeiliaid eraill eu defnyddio i asesu'n gywir a phenderfynu'n gyfreithiol ar y cymorth y gellir ei roi i bobl ag amod dim hawl i gyllid cyhoeddus. Bydd hyn yn adeiladu ar y canllawiau cyfredol ar heb hawl i gyllid cyhoeddus ac yn helpu i'w mireinio. Byddwn hefyd yn ystyried opsiynau i sefydlu lleoliad annibynnol i gynnal swyddog arbenigol a fydd yn cynghori awdurdod lleol ac yn ei helpu i reoli achosion pobl heb hawl i gyllid cyhoeddus.

---

<sup>177</sup> [Dim Hawl i Gael Arian Cyhoeddus: canllawiau \[HTML\] | LLYW.CYMRU](#)

## **Cwestiynau'r ymgynghoriad**

- 14. A oes unrhyw grwpiau eraill o bobl, heb eu nodi yn yr adran hon, y mae digartrefedd yn effeithio'n anghymesur arnynt yn eich barn chi, ac y mae angen gweithgarwch wedi'i dargedu ychwanegol i atal a lleihau digartrefedd o'r fath (rhowch dystiolaeth i gefnogi'ch barn)?**
- 15. Pa gamau deddfwriaethol neu bolisi ychwanegol y gellid eu cymryd i atal neu leihau digartrefedd i'r grwpiau a nodir yn y Papur Gwyn hwn?**
- 16. Mae ein cynigion ynglŷn â phlant, pobl ifanc a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal yn ceisio gwella ac yn egluro cysylltiadau rhwng deddfwriaeth digartrefedd a'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant. Mae angen gwaith datblygu polisi sylweddol er mwyn asesu ymarferoldeb hyn. Yn eich barn chi, beth yw manteision a heriau ein dull gweithredu a pha ganlyniadau anfwriadol y dylem baratoi i'w lliniaru?**
- 17. A yw ein cynigion yn mynd yn ddigon pell i sicrhau bod pobl ifanc 16 a 17 oed sy'n ddigartref neu sy'n wynebu risg o ddigartrefedd yn cael cymorth ar y cyd gan wasanaethau cymdeithasol ac awdurdodau tai lleol? Beth yn rhagor y gellid ei wneud i gryfhau ymarfer a chyflawni cyfrifoldebau rhianta corfforaethol ehangach?**
- 18. A ydych yn cytuno neu'n anghytuno y dylid diwygio Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 i ganiatáu i bobl ifanc 16 a 17 oed allu dal contractau meddiannaeth?**
- 19. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol cysylltiedig yn nodi ein gwaith meddwl cychwynnol ynglŷn â chostau a manteision y cynigion hyn. A oes unrhyw gostau a manteision nad ydym wedi'u hystyried?**

## Pennod 4: Mynediad at lety

### Addaswydd a Llety Dros Dro

#### Addaswydd

463. Pryd bynnag y bydd awdurdod lleol yn sicrhau llety ar gyfer ymgeisydd, rhaid i'r llety hwnnw fod yn 'addas' i anghenion yr ymgeisydd ac unrhyw un sy'n byw gyda'r ymgeisydd neu y byddai'n rhesymol disgwyl iddo fyw gyda'r ymgeisydd. Mae'r Bennod hon yn nodi'r ddeddfwriaeth bresennol sy'n ymwneud ag addaswydd, yn asesu effeithiolrwydd y ddeddfwriaeth bresennol, yn enwedig mewn perthynas â'r straen parhaus sydd yn y system ddigartrefedd yng Nghymru, ac yn nodi cyfres o gynigion sy'n ymwneud â gwella addaswydd llety yn gyffredinol.

#### Yr hyn y mae'r gyfraith yn ei ddweud ar hyn o bryd

464. Mae adran 59(1) o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 (y Ddeddf Tai) yn nodi'r darpariaethau deddfwriaethol y mae'n rhaid i awdurdod tai lleol eu hystyried wrth sicrhau neu gynnig llety. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Clirio slymiau ([Rhan 9 o Ddeddf Tai 1985](#));
- Gorlenwi ([Rhan 10 o Ddeddf Tai 1985](#));
- Cyflwr tai ([Rhan 1 o Ddeddf Tai 2004](#));
- Trwyddedu tai amlfeddiannaeth ([Rhan 2 o Ddeddf Tai 2004](#));
- Trwyddedu dethol ar gyfer llety preswyl arall ([Rhan 3 o Ddeddf Tai 2004](#));
- Darpariaethau rheoli atodol mewn perthynas â llety preswyl ([Rhan 4 o Ddeddf Tai 2004](#));
- Rheoleiddio tai rhentu preifat ([Rhan 1 o'r Ddeddf Tai](#)).

465. Hefyd, mae adran 59(2) o'r Ddeddf Tai 2014 yn darparu ei bod yn rhaid i awdurdod tai lleol ystyried a yw'r llety sy'n cael ei gynnig i berson yn fforddiadwy iddo, er mwyn penderfynu a yw'n llety addas.

466. Mae adran 59(3) o'r Ddeddf Tai 2014 yn nodi y caiff Gweinidogion Cymru bennu amgylchiadau lle y dylid neu lle na ddylid ystyried bod llety yn addas i berson, a materion i'w hystyried neu i'w diystyru wrth benderfynu a yw llety yn addas i berson, (e.e. Gorchymyn Digartrefedd (Addaswydd Llety) (Cymru) 2015 ('y Gorchymyn Addaswydd')).

467. Rhaid i'r awdurdod tai lleol ystyried adran 59 o'r Ddeddf Tai 2014 a'r Gorchymyn Addaswydd wrth gyflawni'r dyletswyddau canlynol o dan y Ddeddf Tai 2014.

- Y ddyletswydd llety interim (adran 68 o'r Ddeddf Tai 2014).

468. Mae'r ddyletswydd hon yn cyfeirio at lety a gaiff ei sicrhau tra bydd awdurdod tai lleol yn gwneud ymholiadau i weld a yw ymgeisydd yn gymwys ac yn ddigartref ac wrth asesu a phenderfynu pa ddyletswyddau a allai fod yn ddyledus i'r ymgeisydd. Mae hefyd yn gymwys i lety a gaiff ei sicrhau o dan y ddyletswydd rhyddhad (adran 73 o'r Ddeddf Tai 2014), pan fydd yr awdurdod tai lleol yn fodlon bod yr ymgeisydd

yn ddigartref a bod ganddo angen blaenoriaethol. Gelwir llety o'r fath yn llety argyfwng neu'n llety interim.

- Y ddyletswydd atal (adran 66 o'r Ddeddf Tai 2014)

469. Mae'r ddyletswydd hon yn cyfeirio at lety y mae'n rhaid i'r awdurdod tai lleol helpu i sicrhau ei fod yn parhau i fod ar gael i'r ymgeisydd ei feddiannu (ar yr amod bod yr awdurdod tai lleol yn fodlon bod yr ymgeisydd dan fygythiad o ddigartrefedd a'i fod yn gymwys i gael help). Rhaid i'r llety hwn hefyd fod yn llety yr ystyrir ei fod yn addas i'r ymgeisydd ac unrhyw aelod o'i aelwyd.

- Y ddyletswydd i ymgeiswyr y mae eu hachos yn cael ei ystyried ar gyfer atgyfeirio (adran 82(1) o'r Ddeddf Tai 2014)

470. Mae'r ddyletswydd hon yn ymwneud â llety a gaiff ei sicrhau pan fydd awdurdod lleol wedi penderfynu hysbysu awdurdod arall y dylai'r ymgeisydd gael ei atgyfeirio ato, a hynny'n aml am resymau sy'n ymwneud â chysylltiad lleol. Rhaid i'r awdurdod tai lleol cyntaf gyflawni'r ddyletswydd hon a rhoi llety i'r ymgeisydd nes y gall hysbysu'r ymgeisydd bod y ddau awdurdod tai lleol wedi dod i gytundeb a bod amodau dilynol ar gyfer atgyfeirio wedi cael eu bodloni.

- Y ddyletswydd tai derfynol neu'r brif ddyletswydd tai (adran 75(1) o'r Ddeddf Tai 2014)

471. Mae'r ddyletswydd hon yn ymwneud â llety a roddir i ymgeisydd cymwys sydd ag angen blaenoriaethol, nad yw wedi'i wneud ei hun yn ddigartref yn fwriadol ac mae ei ddyletswydd rhyddhad wedi dod i ben. Mewn geiriau eraill, mae'r tri phrawf wedi cael eu bodloni. Gelwir llety o'r fath yn 'llety dros dro' a gellir ei ddefnyddio nes y gellir dod o hyd i lety sefydlog tymor hwy.

472. Ar bob un o'r camau hyn, rhaid i'r llety a gynnigir ac a ddarperir fod yn addas, a rhaid i'r awdurdod tai lleol ystyried y darpariaethau deddfwriaethol a nodir uchod gan gynnwys y Gorchymyn Addasrwydd wrth benderfynu ar addasrwydd. Yn ogystal â hynny, rhaid iddo hefyd ystyried nodweddion penodol yr unigolyn neu'r aelwyd fel y'u nodir yn y Gorchymyn Addasrwydd (ac fel y'u trafodir ymhellach isod). Rhaid i unrhyw lety sefydlog hirdymor (sy'n arwain at ddod â'r ddyletswydd atal, y ddyletswydd rhyddhad neu'r brif ddyletswydd tai i ben), p'un a gaiff ei gynnig gan yr awdurdod lleol neu ei gaffael gan yr ymgeisydd ei hun, hefyd fod yn addas.

473. Ceir achosion pan na fydd yn rhaid i awdurdod tai lleol sicrhau llety ar gyfer unigolyn neu aelwyd, ond lle y gall ddewis gwneud hynny. Ymhlith yr achosion o'r fath mae llety a gaiff ei sicrhau yn dilyn adolygiad o benderfyniad, ar gais ymgeisydd, gan gynnwys: adolygiad o'r penderfyniad bod y ddyletswydd interim neu'r ddyletswydd rhyddhad wedi dod i ben (adran 69(11) o'r Ddeddf Tai 2014); adolygiad o benderfyniad lle y dylai'r ymgeisydd gael ei atgyfeirio at awdurdod tai lleol arall (adran 82(6) o'r Ddeddf Tai 2014); yn ystod apêl i'r Llys Sirol (adran 88(5) o'r Ddeddf Tai 2014). Mae'r Ddeddf Tai hefyd yn nodi pryd y caiff unigolyn neu ymgeisydd wneud cais am adolygiad o addasrwydd llety a gynnigir a gall yr adolygiadau hyn hefyd gael eu cynnal lle y caiff y llety ei gynnig fel llety interim o dan ddyletswydd adran 68 (gweler yr hawl i ofyn am adolygiad yn adran 85(3) o'r Ddeddf Tai 2014); wrth aros am atgyfeiriad cysylltiad lleol o dan adran 82 (gweler yr hawl i ofyn am

adolygiad yn adran 82(6) o'r Ddeddf Tai 2014); llety sy'n cael ei gynnig er mwyn dod â'r ddyletswydd atal, y ddyletswydd rhyddhad neu'r brif ddyletswydd tai (gweler adrannau 67, 69, 74 a 76 o'r Ddeddf Tai 2014). Yn yr achosion hyn, caiff yr awdurdod lleol ddewis sicrhau llety yn ôl ei ddisgresiwn ei hun ac mewn achosion o'r fath rhaid i'r llety hwn hefyd fod yn addas.

474. Mae adran 59(3) o'r Ddeddf Tai 2014 yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru sy'n golygu y cânt, drwy Orchymyn, bennu amgylchiadau lle y dylid neu lle na ddylid ystyried bod llety yn addas i berson, a'r materion i'w hystyried neu i'w diystyru wrth benderfynu a yw llety yn addas i berson i berson. Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi'r materion hyn yng Ngorchymyn Digartrefedd (Addasrwydd Llety) (Cymru) 2015 (y Gorchymyn Addasrwydd), sy'n ymwneud â llety gwely a brechwast, llety a rennir a llety yn y sector rhentu preifat.

### **Gorchymyn Digartrefedd (Addasrwydd Llety) (Cymru) 2015 (“y Gorchymyn Addasrwydd”)**

475. Mae erthygl 3 yn Rhan 1 o'r Gorchymyn Addasrwydd yn nodi'r materion y mae'n rhaid eu hystyried, lle y bo'n briodol, wrth benderfynu a yw llety'n addas i bobl sydd ag angen blaenoriaethol neu y gall fod ganddynt angen o'r fath.

Mae'r rhain yn cynnwys:

- anghenion iechyd penodol yr ymgeisydd ac unrhyw aelod o'i aelwyd;
- agosrwydd a hygyrchedd cymorth teuluol;
- unrhyw amhariad;
- agosrwydd a hygyrchedd cyfleusterau meddygol a gwasanaethau cymorth eraill sy'n cael eu defnyddio gan yr ymgeisydd neu aelod o'r aelwyd, neu'n cael eu darparu iddo, ac sy'n hanfodol i lesiant y person hwnnw;
- os yw'r llety y tu allan i ardal yr awdurdod lleol, y pellter o ardal yr awdurdod lleol; i ba raddau y byddai lleoliad y llety yn tarfu ar gyflogaeth, cyfrifoldebau gofalu neu addysg y person;
- agosrwydd cyflawnwyr a dioddefwyr honedig cam-drin domestig.

### **Addasrwydd llety argyfwng ac amgylchiadau eithriadol**

476. Mae Rhan 2 o'r Gorchymyn Addasrwydd yn rhagnodi na ddylid ystyried bod llety gwely a brechwast na llety a rennir yn llety addas i berson sydd ag angen blaenoriaethol, neu y gall fod ganddo angen o'r fath, oni cheir eithriad.

477. Mae erthygl 7 o'r Gorchymyn Addasrwydd yn pennu eithriadau i'r rheol hon ac yn gwahaniaethu rhwng safonau llety sylfaenol ac uwch ar gyfer llety gwely a brechwast a llety a rennir (erthyglau 4 a 5 o'r Gorchymyn Addasrwydd). Caiff llety o safon sylfaenol a llety o safon uwch eu diffinio yn y Gorchymyn Addasrwydd (gweler erthygl 2). Mae'r Gorchymyn Addasrwydd yn pennu y gall llety gwely a brechwast a llety a rennir fod yn addas pan na cânt eu meddiannu am gyfnod sy'n hwy na phythefnos ar gyfer llety o safon sylfaenol, a chwe wythnos ar gyfer llety o safon uwch (gweler erthygl 7). Mae eithriadau argyfwng ychwanegol (a nodir yn erthygl 6 o'r Gorchymyn Addasrwydd) yn caniatáu i'r terfynau amser hyn gael eu diystyru dan

rai amgylchiadau penodol, gan gynnwys argyfyngau fel digartrefedd a achosir gan dân neu lifogydd.

### **Addasrwydd llety yn y sector rhentu preifat**

478. Mae Rhan 3 o'r Gorchymyn Addasrwydd yn ymwneud â llety yn y sector rhentu preifat a gaiff ei gynnig er mwyn cyflawni dyletswyddau awdurdod o ymgeiswyr digartref ag angen blaenoriaethol am lety fel y darperir gan adran 76(3) a (4) o'r Ddeddf Tai 2014. Mae erthygl 8 o'r Gorchymyn Addasrwydd yn pennu amgylchiadau lle na ddylid ystyried bod llety o'r fath yn addas. Ni ellir ystyried bod llety yn y sector rhentu preifat yn addas i ymgeisydd os yw'r awdurdod o'r farn nad yw'r llety'n cydymffurfio â'r holl ofynion statudol (megis gofynion sy'n ymwneud â thân, nwy, trydan, carbon monocsid a gofynion diogelwch eraill) ac os nad yw'r awdurdod yn credu bod y landlord yn berson cymwys a phriodol yn unol ag ystyr adran 20 o'r Ddeddf Tai 2014 i weithredu yn rhinwedd landlord. Yn ogystal â'r amodau rhagnodedig hyn, mae Rhan 1 o'r Ddeddf Tai yn ei gwneud yn ofynnol i berson sy'n gyfrifol am reoli eiddo gael trwydded. Mae'r Cod Canllawiau'n darparu y caiff yr awdurdod lleol ddewis bwrw golwg dros y contractau meddiannaeth arfaethedig. Mae'r canllawiau hefyd yn argymhell yn gryf y dylid darparu rhestr eiddo (ac y dylid cynnwys darparu rhestr eiddo fel teler atodol yn y contractau safonol ysgrifenedig enghreifftiol a ragnodir) ac y dylai'r awdurdod lleol atgoffa darpar landlordiaid a thenantiaid am ofynion y rheolau ynghylch blaendal tenantiaeth.

### **Y ffordd y mae'r gyfraith yn gweithio ar hyn o bryd**

479. Fel yr amlinellir uchod, ceir amrywiaeth o ddeddfwriaeth sy'n ymwneud ag addasrwydd pob math o lety. Fodd bynnag, mae adborth gan bobl â phrofiad personol o ddigartrefedd yn awgrymu nad yw'r ddeddfwriaeth hon yn cael ei rhoi ar waith yn unol â'r bwriad. Mae'r heriau allweddol sy'n gysylltiedig â'i rhoi ar waith wedi'u hamlinellu isod:

### **Nodweddion ffisegol**

480. Er mwyn penderfynu bod llety'n addas, ceir amodau ffisegol sylfaenol penodol y mae'n rhaid i eiddo eu bodloni. Er enghraifft, dylai llety lle mae peryglon Categori 1 yn bresennol gael ei ystyried yn anaddas am ei fod yn peri risg i iechyd a diogelwch unigolyn.<sup>178</sup> Gall y peryglon hyn gynnwys asbestos, lleithder a llwydni, a charbon monocsid.<sup>179</sup>

481. Fodd bynnag, mae'r ddeddfwriaeth bresennol ond yn darparu ei bod yn rhaid i awdurdod tai lleol 'ystyried' amodau a nodweddion ffisegol o'r fath, gan gynnwys presenoldeb peryglon a gorlenwi. Nid yw hyn yn gweithredu fel gwaharddiad llwyr sy'n atal lleoli unigolyn neu aelwyd mewn llety o'r fath. Mae awdurdodau tai lleol am

---

<sup>178</sup> Diffinnir peryglon Categori 1 fel rhai sy'n cyfateb i ddisgrifiad rhagnodedig sy'n perthyn i fand rhagnodedig am eu bod wedi cael sgôr rifiadol sy'n gyfwerth â rhif a ragnodir yn [Rhan 1 o Ddeddf Tai 2004 neu'n uwch, drwy ddull rhagnodedig ar gyfer cyfrifo difrifoldeb peryglon sy'n cyfateb i'r disgrifiad hwnnw](#)

<sup>179</sup> [Housing health and safety rating system \(HHSRS\) operating guidance: housing inspections and assessment of hazards - GOV.UK \(www.gov.uk\)](#)

allu cynnig llety o'r safon uchaf posibl ac mae Deddf Tai 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau tai lleol gymryd camau gorfodi priodol mewn perthynas â chadarnhad o bresenoldeb peryglon Categori 1. Mae Deddf Tai 1995 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gymryd camau gorfodi mewn ymateb i orlenwi. Fodd bynnag, mae adborth gan bobl â phrofiad personol o ddigartrefedd wedi tynnu sylw at y ffaith bod rhai pobl wedi cael profiad o lety sy'n achosi perygl i iechyd a diogelwch. Felly, credwn y gall fod angen gwaharddiad cyfreithiol cliriach ar gyfer lleoliadau o'r fath er mwyn sicrhau na fydd neb yn cael ei leoli mewn llety sy'n peri unrhyw risg i iechyd a diogelwch.

### **Digartrefedd ac amhariad corfforol**

482. Rhaid i lety fod yn hygyrch, yn seiliedig ar ofynion penodol unigolion. Felly, er y gall eiddo fod yn addas i un aelwyd, oherwydd amgylchiadau unigryw ac unigol yr unigolion, mae'n bosibl na fydd yn addas i deulu neu aelwyd arall.

483. Canfu gwaith ymgysylltu a wnaed gan Tai Pawb i lywio'r Papur Gwyn hwn nad yw pobl anabl yn teimlo bod eu hamhariad yn cael ei ystyried yn briodol bob amser wrth i lety argyfwng, dros dro a hirdymor gael ei ddyrannu iddynt, er y dylai hyn fod yn un o'r ffactorau pwysicaf wrth asesu addasrwydd.<sup>180</sup> Mae'n bosibl mai argaeledd y cyflenwad tai ac, yn enwedig, argaeledd eiddo hygyrch neu addasadwy yw'r rheswm dros hyn. Fodd bynnag, mae'n bosibl nad yw cartrefu pobl mewn llety nad yw'n addas i'w hanghenion corfforol, neu sy'n anhygyrch i'r unigolyn penodol, yn gydnaws â Deddf Cydraddoldeb 2010 ac y gall gael effaith andwyol ar lesiant person a'i allu i fyw ei fywyd yn annibynnol.

### **Gorlenwi**

484. Fel yr amlinellir uchod, rhaid i awdurdodau lleol ystyried lle a gorlenwi wrth benderfynu a yw cynnig o lety yn addas. Mae Rhan 10 o Ddeddf Tai 1985 yn nodi'r profion a ddefnyddir i benderfynu a yw llety wedi'i orlenwi'n statudol. Fodd bynnag, mae'r profion hyn yn hen erbyn hyn ac nid ydyn yn adlewyrchu safonau tai modern na'r newidiadau i ddemograffeg anghenion tai yng Nghymru.

485. Mae maint aelwydydd ar gyfartaledd yng Nghymru wedi bod yn lleihau ers 1991 pan oedd aelwyd yn cynnwys 2.52 o bobl ar gyfartaledd, gan gwmpo i 2.26 o bobl yn 2020.<sup>181</sup> Fodd bynnag, mae nifer yr aelwydydd sy'n cynnwys 5 neu fwy o bobl wedi codi, yn enwedig aelwydydd sydd ag 1 oedolyn a 4 neu fwy o blant (2,191 o aelwydydd yn 1991, i 3,559 o aelwydydd yn 2020) ac aelwydydd o 5 neu fwy heb ddim plant yn bresennol (o 7,269 o aelwydydd yn 1991, i 11,525 o aelwydydd yn 2020).<sup>182</sup> Mae argaeledd llety sy'n addas i aelwydydd o'r maint hwn, yn enwedig o fewn y stoc tai cymdeithasol, yn gyfyngedig ac yn llawer is na'r galw.

486. Mae ein Hasesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn awgrymu bod gorlenwi, er ei fod yn broblem ledled Cymru, yn effeithio ar rai grwpiau gwarchodedig a mathau o aelwydydd ar lefelau anghymesur. Ceisiodd Cyfrifiad 2021 ddeall lefelau gorlenwi yng Nghymru a dangosodd wahaniaethau clir yn seiliedig ar ethnigrwydd a ffydd yr

---

<sup>180</sup> Tai Pawb – [Profiad o ddigartrefedd ymhlith pobl â nodweddion gwarchodedig yng Nghymru](#) – Mawrth 23

<sup>181</sup> [Amcangyfrifon aelwydydd: canol-2020 | LLYW.CYMRU](#)

<sup>182</sup> [Aelwydydd fesul math a blwyddyn \(llyw.cymru\)](#)

aelwyd; roedd aelwydydd lle roedd pob aelod yn ystyried ei hun yn “Fwslimaidd” fwy na chwe gwaith yn fwy tebygol o fod mewn llety gorlawn o gymharu â'r holl aelwydydd yng Nghymru. Aelwydydd lle roedd pob aelod yn ystyried ei hun yn “Ddu, Du Prydeinig, Du Cymreig, Caribiaidd neu Affricanaidd” oedd â'r lefel uchaf o orlenwi (11.9% yng Nghymru) o gymharu â'r holl aelwydydd (2.2% yng Nghymru).<sup>183</sup> Mae data'r cyfrifiad yn awgrymu y dylid ystyried proffiliau oedran grwpiau ethnig lefel uchel wrth edrych ar wahaniaethau rhwng sgôr gyfanheddu ac y gall gwahanol broffiliau oedran grwpiau crefyddol ddylanwadu ar sgoriau cyfanheddu.

487. Mae'n bwysig bod asesiadau o addasrwydd llety yn ystyried yr hyn sy'n briodol yn ddiwylliannol, gan sicrhau digon o le i fyw'n iach.

### **Aelwydydd un person**

488. I'r gwrthwyneb, tyfodd aelwydydd un person yng Nghymru 57% rhwng 1991 a 2020.<sup>184</sup> Ceir diffyg sylweddol o ran eiddo i bobl sengl ac eiddo un ystafell wely ledled Cymru, ac mae dynion sengl yn cyfrif am gyfran sylweddol o'r boblogaeth ddigartref; ac, yn aml, cânt eu gosod mewn llety dros dro am gyfnodau hir oherwydd prinder llety addas i symud ymlaen iddo.

489. Ceir tystiolaeth sy'n awgrymu, o ganlyniad i newidiadau i reolau'r budd-dal tai, fod eiddo dwy ystafell wely o fewn y stoc tai cymdeithasol a stoc y sector rhentu preifat sy'n anaddas i deuluoedd ond, yn sgil mathau eraill o bwysau, gan gynnwys y tâl tanfeddiannu (y cyfeirir ato'n aml fel y dreth ystafell wely), na ellir eu darparu i bobl sengl am eu bod yn anfforddiadwy.

### **Fforddiadwyedd**

490. Mae'r gyfraith yn darparu ei bod yn rhaid i awdurdod tai lleol ystyried fforddiadwyedd wrth benderfynu a yw llety'n addas. Mae'r argyfwng costau byw presennol yn cael effaith barhaus ar fforddiadwyedd llety ac felly'n ei gwneud yn fwy tebygol yr ystyrir bod stoc dai sydd eisoes yn gyfyngedig yn anfforddiadwy ac felly'n anaddas. Mae'r Lwfans Tai Lleol yn dal wedi'i rewi ar gyfraddau 2019, ac mae rhenti wedi parhau i godi. Gan fod incwm gwario'n lleihau yn sgil cynnydd mewn costau, mae mwy o bobl yn wynebu risg o ddigartrefedd neu'n gweld nad yw eu llety presennol yn fforddiadwy mwyach. Mae hyn yn arbennig o berthnasol i'r sector rhentu preifat, sy'n mynd yn gynyddol anfforddiadwy i bobl ar fudd-daliadau neu incymau isel. Mae hyn, yn ei dro, yn rhoi rhagor o bwysau ar system sydd eisoes dan straen lle mae'r galw yn llawer mwy na'r cyflenwad.

491. Daeth adroddiad gan y Sefydliad Tai Siartredig a gomisiynwyd gan Adran Cymunedau Gogledd Iwerddon i'r casgliad bod problemau fforddiadwyedd i aelwydydd incwm isel i'w priodoli'n bennaf i agweddau cosbol ar y system les, megis rhewi cyfraddau Lwfansau Tai Lleol a'r defnydd o'r gyfradd llety a rennir ar gyfer pobl sengl iau mewn cartrefi ag un ystafell wely, yn hytrach na chwyddiant rhent.<sup>185</sup>

---

<sup>183</sup> [Overcrowding and under-occupancy by household characteristics, England and Wales - Office for National Statistics \(ons.gov.uk\)](https://www.ons.gov.uk)

<sup>184</sup> [Aelwydydd fesul math a blwyddyn \(llyw.cymru\)](https://www.llyw.cymru)

<sup>185</sup> [Rent Regulation in the Private Sector in Northern Ireland | Department for Communities \(communitiesni.gov.uk\)](https://www.communitiesni.gov.uk)



492. Er y byddai dadrewi cyfradd y Lwfans Tai Lleol yn cael effaith gadarnhaol iawn ar fforddiadwyedd yn y sector rhentu preifat, nid yw materion yn ymwneud â lles wedi'u datganoli i Lywodraeth Cymru a mater i Lywodraeth y DU yw cynyddu'r gyfradd. Mae Llywodraeth Cymru wedi ysgrifennu fwy nag unwaith i Lywodraeth y DU i'w hannog i ddadrewi'r Lwfans Tai Lleol gan fod ei gynyddu'n elfen allweddol o'n nod o sicrhau bod digartrefedd yn beth prin a byrhoedlog nad yw'n ailddigwydd.

493. Mae fforddiadwyedd hefyd yn broblem o ran llety dros dro. Mae adborth seiliedig ar arferion yn awgrymu y gall y costau a'r taliadau gwasanaeth sy'n gysylltiedig â'r math hwn o lety olygu y bydd pobl yn wynebu'r opsiwn o roi'r gorau i waith (er mwyn cael budd-daliadau sy'n rhoi mwy o arian i dalu'r costau hyn) er mwyn iddynt allu aros mewn llety sydd wedi'i fwriadu fel cam dros dro ar eu taith ym maes tai.

### **Gofynion o ran llety dros dro**

494. Fel yr amlinellir uchod, mae canllawiau ac is-ddeddfwriaeth ar waith mewn perthynas ag addasrwydd llety dros dro neu lety argyfwng, gan gynnwys maint, safon ac amserlenni sy'n berthnasol i lety gwely a brecwast, gwestai a llety a rennir. Felly, mae llety o'r fath yn anaddas os nad yw'n cyrraedd y safonau hyn neu os caiff ei feddiannu am gyfnod hwy na'r amser a ganiateir.

495. Fel y nodir ym mhennod 1 o'r Papur Gwyn hwn, ar ddechrau'r pandemig, gofynnwyd i bob awdurdod lleol, am resymau yn ymwneud ag iechyd y cyhoedd, roi llety i bawb a oedd yn dod i gysylltiad â gwasanaethau digartrefedd nad oedd ganddynt lety. Lle y gosododd awdurdodau lleol ymgeiswyr digartref ag angen blaenoriaethol mewn llety gwely a brecwast interim, mae'n debygol iddynt ddibynnu ar erthygl 6 o'r Gorchymyn Addasrwydd, sy'n darparu eithriad i'r cyfyngiadau amser mewn perthynas â llety o'r fath. Roedd hyn yn fodd i awdurdodau lleol roi llety i bobl dan yr amgylchiadau hynny am gyfnodau hwy.

496. Fel yr amlinellir yn mhennod 1 o'r Papur Gwyn hwn, ar hyn o bryd, mae niferoedd y bobl sydd ym mhob math o lety dros dro yn uchel iawn ac, mae nifer sylweddol o bobl mewn llety gwely a brecwast. Mae hyn yn cynnwys pobl ifanc 16 a 17 oed, a phobl agored i niwed rhwng 18 a 21 oed, gan gynnwys pobl sy'n gadael gofal. Mae Llywodraeth Cymru wedi cynghori mai dim ond yn yr achosion mwyaf â'r brys mwyaf y dylid defnyddio llety o'r fath ar gyfer grwpiau o'r fath, ac y dylai'r llety fod yn llety 'â chymorth', lle y rhoddir cymorth priodol ac angenrheidiol i ymgeiswyr tra byddant yn aros yno. Mae'r Cod Canllawiau'n amlinellu camau penodol y dylid eu cymryd i helpu pobl ifanc yn adran 19.

497. Mae canllawiau yncael eu datblygu er mwyn helpu awdurdodau lleol i ddefnyddio cyn lleied â phosibl o'r math hwn o lety dros dro a bydd rhaglen casglu data ychwanegol yn cael ei chyflwyno yn ystod Hydref 2023 er mwyn darparu data manylach ar y defnydd ohono ledled Cymru.

### **Beth hoffem ei newid?**

498. Fel y mae pennod 1 ac adroddiad y Panel Adolygu Arbenigol yn nodi'n glir, ar hyn o bryd mae cyflenwad annigonol o gartrefi sefydlog a straen sylweddol ar lety

dros dro. Clywodd y panel gryn dipyn o dystiolaeth gan bobl â phrofiad personol o arferion mewn perthynas â llety dros dro yn methu â chyrraedd y safonau cyfreithiol presennol o bosibl.

499. Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno â'r egwyddor a ddilynwyd gan y Panel Adolygu Arbenigol sydd wedi nodi ei awydd i weld trothwyon sylfaenol ar gyfer safon llety dros dro yn gwella, gan gydnabod adborth clir gan awdurdodau lleol ynglŷn â'r hyn sy'n realistig ar hyn o bryd, lle mae lle mewn llety dros dro yn brin ac mae'r dewis sydd ar gael i ddarparwyr ac ymgeiswyr yn gyfyngedig. Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno ag argymhelliad y Panel y dylid cyflwyno safonau uwch ar gyfer llety dros dro yn y dyfodol wrth i'r cyflenwad tai gynyddu ac wrth i'r straen ar lety dros dro leihau.

500. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau ar hyn o bryd, sydd wedi'u cynnwys yn y Ddeddf Tai 2014, i bennu, drwy Orchymyn, amgylchiadau lle na ddylid ystyried bod llety'n addas a materion eraill y mae'n rhaid eu hystyried neu eu diystyru. Fodd bynnag, mae'r diwygiadau arfaethedig a amlinellir isod yn cynnig cyfle i fynd i'r afael â'r problemau a amlinellir uchod ac ystyried safonau llety dros dro yn y tymor hwy.

### **Cynigion ar gyfer gwella safonau ar unwaith**

#### **Sicrhau bod llety â pheryglon Categori 1 yn anaddas bob amser**

**Rydym yn cynnig y dylai'r ddeddfwriaeth bresennol gael ei hatgyfnerthu er mwyn gwahardd ystyried bod llety â pheryglon Categori 1 yn addas.**

501. Diben unrhyw lety, boed yn llety dros dro neu'n llety sefydlog hirdymor, yw darparu amgylchedd diogel i ar gyfer unigolion a theuluoedd er mwyn iddynt fyw eu bywydau. Dylai risgiau i iechyd corfforol ac iechyd meddwl a diogelwch a achosir gan broblemau o'r fath yn y cartref gael eu lleihau i'r eithaf lle bynnag y bo modd. Byddwn yn nodi mewn canllawiau sut y gellir lleihau'r risgiau sy'n gysylltiedig â lleoli pobl mewn llety o'r fath a ffyrdd y dylid annog ymgeiswyr i roi gwybod am broblemau o'r fath.

**Rydym yn cynnig y dylai hyn hefyd gynnwys llety yr ystyrir ei fod yn 'yn anaddas i bobl fyw ynddo' (gan ystyried y 29 o faterion ac amgylchiadau a restrir yn Rheoliadau Rhentu Cartrefi (Ffitrwydd Annedd i Bobl Fyw Ynddi) (Cymru) (Diwygio) 2022 ("Rheoliadau 2022")). Pe bai llety'n cael ei ystyried yn anaddas i bobl fyw ynddo yn unol ag adran 91 o Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 ("Deddf 2016") a Rheoliadau 2022, ni ddylid defnyddio'r llety hwnnw.**

## **Gwahardd lleoedd cysgu a rennir**

502. Ar hyn o bryd, caniateir lleoedd cysgu a rennir (o fewn yr amserlenni rhagnodedig) mewn llety dros dro safon sylfaenol ac uwch.

**Rydym yn deall na chaiff lleoedd cysgu a rennir eu defnyddio'n aml ond rydym yn cynnig y dylid ei gwneud yn glir mewn deddfwriaeth na chaiff lleoedd cysgu a rennir byth eu caniatáu, hyd yn oed mewn llety dros dro neu lety argyfwng.**

503. Er y gall fod angen cyfleusterau a rennir mewn llety argyfwng, megis cyfleusterau golchi dillad, ymolchi neu goginio, nid yw lle cysgu a rennir byth yn briodol dan unrhyw amgylchiadau.

**Defnyddio'r un safonau ar gyfer llety sy'n eiddo preifat a llety sy'n eiddo i awdurdod tai lleol/landlord cymdeithasol cofrestredig neu lety a reolir nad yw'n hunangynhwysol**

**Rydym yn cynnig y dylid cael gwared ar eithriadau yn y gyfraith sy'n darparu y bydd llety nad yw'n cyrraedd y safon uwch yn addas am hyd at chwe wythnos os yw'r llety'n eiddo i awdurdod tai lleol neu landlord cymdeithasol cofrestredig neu'n cael ei reoli ganddo.**

504. Dylai'r un safonau fod yn gymwys ar gyfer llety sy'n eiddo preifat a llety sy'n eiddo i awdurdod tai lleol/landlord cymdeithasol cofrestredig neu lety a reolir nad yw'n hunangynhwysol.

## **Ymgorffori dewis yn y system**

505. Er mwyn sicrhau'r dull sy'n canolbwyntio ar unigolion ac sy'n ystyriol o drawma sy'n rhan ganolog o nodau'r diwygiadau deddfwriaethol hyn, mae'n bwysig bod barn yr ymgeiswyr ynghylch pa lety sy'n addas iddynt yn cael ei hymgorffori yn y broses ddigartrefedd.

506. Mae pennod 2 o'r Papur Gwyn hwn yn amlinellu ein cynnig i'w gwneud yn ofynnol i awdurdodau tai lleol Iunio Cynllun Tai Personol. Fel rhan o'r cynllun hwn, dylai'r awdurdod tai lleol ganfod beth yw barn yr ymgeisydd ynghylch addasrwydd llety mewn perthynas â'i amgylchiadau personol, a dangos sut mae'r safbwyntiau hyn wedi dylanwadu ar gynigion dilynol o lety. Dylai'r cynllun fod yn gymwys i lety argyfwng, llety interim a llety sefydlog.

507. Dylai'r Cynllun Tai Personol gynnwys asesiad cyffredinol o anghenion unigolyn. Nid ydym yn cynnig y dylid nodi'r anghenion hyn mewn deddfwriaeth, ond byddwn yn rhoi canllawiau ac adnoddau rheoli achosion maes o law.

508. Rydym yn cydnabod ei bod, ar hyn o bryd ac yn y tymor byr a'r tymor canolig, yn anodd iawn i awdurdodau tai lleol gynnig y lefel o ddewis yr hoffent ei chynnig wrth iddynt ddyrannu lleoliadau mewn llety dros dro, ac y bydd achosion lle nad oes modd diwallu holl anghenion unigolyn o fewn y cyflenwad cyfyngedig o lety sydd ar

gael. Fodd bynnag, drwy'r diwygiadau hyn a gwaith ategol, rydym yn ceisio sicrhau system sy'n canolbwyntio'n fwy ar unigolion ac sydd mewn sefyllfa well i allu ystyried anghenion unigolion a sut y gallai diwallu'r anghenion hynny, neu beidio â'u diwallu, effeithio ar iechyd a llesiant person. Gall anghenion o'r fath gynnwys y gallu i fyw gydag anifail anwes, neu leoli unigolyn mewn llety a fydd yn ei helpu i roi'r gorau i ddefnyddio sylweddau.

**Rydym yn cynnig cyflwyno gofyniad ei bod yn rhaid ystyried yr amgylchiadau personol hyn wrth asesu addasrwydd llety, hyd yn oed os na fydd modd diwallu'r holl anghenion hynny drwy leoli'r unigolyn mewn llety ar adeg yr asesiad.**

509. Ochr yn ochr â'r diwygiadau hyn, bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i gydweithio'n agos ag awdurdodau lleol i fonitro'r defnydd o lety dros dro ac archwilio gofynion polisi ehangach yn unol â'n polisi Ailgartrefu Cyflym.

**Sicrhau nad yw lleoli unigolion mewn llety gorlawn byth yn addas ar adeg cyflawni'r brif ddyletswydd tai.**

**Rydym yn cynnig atgyfnerthu'r ddeddfwriaeth er mwyn nodi'n glir na ddylid byth ganiatáu lleoli unigolion mewn llety gorlawn wrth benderfynu ar addasrwydd llety pan fydd y brif ddyletswydd tai yn ddyledus.**

**Ni ddylid ffafrio lleoli teuluoedd dan amodau gorlawn, ond nodir y gall lleoliad o'r fath (gydag aelodau o'r teulu neu ffrindiau) fod yn ffafriol i aelwydydd sy'n symud i lety argyfwng ac, am y rheswm hwn, rydym yn cynnig na ddylai'r gwaharddiad fod yn gymwys i'r ddyletswydd atal, os bydd hyn yn cyd-fynd â dymuniadau'r ymgeisydd.**

**Gwahardd y defnydd o lety dros dro heb gymorth i bobl ifanc**

**Rydym yn cynnig, ar gyfer pobl o dan 25 oed, na ddylid caniatáu'r defnydd o-lety dros dro anaddas, gan gynnwys llety gwely a brecwast a llety a rennir, am unrhyw gyfnod.**

510. Nid yw'r amgylchedd anhrefnus a geir yn aml mewn llety o'r fath yn addas ar gyfer meithrin gwydnwch a defnyddio'r system dai.

**Rydym yn cynnig ei gwneud yn glir drwy ddeddfwriaeth, lle y caiff pobl yn y grŵp oedran hwn eu cartrefu mewn llety dros dro, ei bod yn rhaid i'r llety hwn fod yn llety â chymorth. Felly, dylai'r llety gael ei gyfuno â chymorth (sydd wedi'i deilwra ar gyfer yr unigolyn neu'r aelwyd ac anghenion yr unigolyn neu'r aelwyd) a dylai fod ar gael nes bydd yr unigolyn yn barod i symud ymlaen i leoliad byw'n annibynnol.**

**Hefyd, rydym yn cynnig ei gwneud yn glir mewn deddfwriaeth na ddylai pobl ifanc 16 a 17 oed byth gael eu rhoi mewn llety dros dro heb gymorth sydd wedi'i fwriadu ar gyfer oedolion yng Nghymru (gweler adran 3 o'r Papur Gwyn hwn).**

511. Rydym yn cydnabod bod y cynigion hyn yn uchelgeisiol ac y bydd yn her i awdurdodau lleol gydymffurfio â nhw ar unwaith ac yn y tymor byr. Fodd bynnag, wrth i ni bontio i ddull Ailgartrefu Cyflym, rydym yn disgwyl i'r ddibyniaeth ar lety dros dro leihau ar y cyfan. Byddwn yn parhau i gydweithio'n agos ag awdurdodau lleol ledled Cymru ac, fel rhan o'r ymgynghoriad hwn, byddwn yn asesu i weld pa amserlenni sy'n realistig ar gyfer cyflawni'r dyletswyddau.

512. Bwriad polisi'r cynigion hyn yw torri cylch digartrefedd mynych sydd, i rai pobl, yn gallu dechrau'n ifanc. Mae'n hollbwysig bod profiad cyntaf person ifanc o ymwneud â'r system yn un cyfannol, er mwyn mynd i'r afael ag anghenion cymorth ehangach, ac yn effeithlon, er mwyn galluogi'r unigolyn i gael llety hirdymor.

### **Lleoliad**

513. Lle y caiff yr ymgeisydd gynnig llety tymor hwy neu lety sefydlog er mwyn dod â'r ddyletswydd atal neu'r brif ddyletswydd tai i ben, gall fod yn rhesymol disgwyl i'r ymgeisydd newid ysgol a/neu gyfleusterau meddygol, yn dibynnu ar amgylchiadau'r unigolyn. Ni fyddai byth yn rhesymol disgwyl i ymgeisydd neu aelod o'i aelwyd adael swydd bresennol.

**Rydym yn cynnig na ellir ystyried bod llety'n addas oni bai ei fod wedi'i leoli o fewn pellter teithio rhesymol i gyfleusterau addysgol, gweithle, cyfrifoldebau gofalu a chyfleusterau meddygol presennol neu newydd, oni fydd yr ymgeisydd yn dymuno symud y tu hwnt i bellter teithio rhesymol oddi wrth y cyfleusterau hynny.**

514. Dylai'r diwygiadau arfaethedig ddarparu ar gyfer eithriad lle y dylid llety interim ei sicrhau o dan adran 68 o'r Ddeddf Tai 2014 ac nad oes llety addas ar gael. Dylai'r eithriad hwnnw fod wedi'i gyfyngu i gyfnod penodol.

## Ystyried anghenion cymorth ehangach

Rydym yn cynnig y dylai fod yn ofynnol i'r awdurdod tai lleol ystyried, mewn perthynas â'r ymgeisydd ac unrhyw aelod o aelwyd yr ymgeisydd, unrhyw anghenion iechyd penodol, unrhyw amhariad, y pellter o'r llety i ardal yr awdurdod os yw wedi'i leoli y tu allan i ardal yr awdurdod, arwyddocâd unrhyw darfu a achosir gan y pellter rhwng y llety â gweithle, cyfrifoldebau gofalu neu leoliad addysg yr unigolyn ac agosrwydd cyflawnwyr a dioddefwyr honedig cam-drin domestig a mathau eraill o gam-drin.

515. Rydym hefyd yn cynnig cyflwyno gofyniad i ystyried llesiant ymgeisydd a'r cymorth sydd ar gael iddo mewn ffordd fwy cyffredinol, gan gynnwys rhwydweithiau nad ydynt yn rhai teuluol.

## Llety diwylliannol briodol

Rydym yn cynnig y dylai'r ddeddfwriaeth ddarparu ar gyfer ystyried mai safleoedd (yn hytrach na llety brics a mortar) yw'r llety mwyaf addas, fel arfer, ar gyfer ymgeisydd o gymuned y teithwyr (Sipsiwn, Roma a Theithwyr) a dylai fod yn rhaid i'r awdurdod tai lleol ofyn i ymgeisydd o'r gymuned Sipsiwn, Roma a Theithwyr p'un a yw'n gwrthwynebu brics a mortar am resymau diwylliannol, a sicrhau bod addasrwydd llety'n ddiwylliannol briodol ar gyfer yr ymgeisydd.

## Polisi a chanllawiau ategol ehangach

516. Mae'n bosibl y bydd angen sawl mesur ehangach i ategu'r diwygiadau deddfwriaethol arfaethedig hyn. Byddwn yn amlinellu'r newidiadau hyn mewn canllawiau wrth i'r gwaith hwn ddatblygu, ond ceir crynodeb o'r newidiadau arfaethedig hyn isod:

- Caiff y Cod Canllawiau ei atgyfnerthu er mwyn helpu awdurdodau lleol i roi dull Ailgartrefu Cyflym ar waith a lleihau eu dibyniaeth ar lety dros dro yn gyffredinol.
- Caiff canllawiau ar ddatblygu Ailgartrefu Cyflym a'r defnydd o lety dros dro eu llunio i ymdrin â'r tymor byr, y tymor canolig a'r tymor hir a chaiff astudiaethau achos eglurhaol o arferion gorau eu datblygu a'u rhannu ag awdurdodau lleol.
- Bydd yn ofynnol i awdurdodau lleol fwrw ymlaen â'r broses o roi eu [Cynlluniau Pontio Ailgartrefu Cyflym](#) ar waith ledled Cymru, gan nodi eu cyfeiriad strategol a'u cynlluniau i hwyluso a chefnogi'r newidiadau gan yr awdurdod lleol a'i bartneriaid i groesawu Ailgartrefu Cyflym a'i roi ar waith yn llawn, a helpu unigolion i gael cartrefi hirdymor sy'n addas iddynt cyn gynted â phosibl. Bwriedir i hyn leihau'r defnydd o lety dros dro a'r amser a dreulir mewn llety o'r fath.

- Bydd yn ofynnol i awdurdodau lleol weithio mewn partneriaeth â landlordiaid cymdeithasol a landlordiaid yn y sector rhentu preifat er mwyn sicrhau bod cynlluniau adeiladu'n cyd-fynd â'r angen am dai mewn ardaloedd lleol.
- Caiff y Cod Canllawiau ei atgyfnerthu er mwyn ei gwneud yn glir y dylai fod gan unigolion ac aelwydydd doiled a chyfleusterau ymolchi a choginio sy'n gweithio'n iawn (boed yn gyfleusterau preifat neu'n rhai a rennir) ac na ddylent gael eu rhoi mewn llety heb ddim mynediad at gyfleusterau golchi dillad a choginio a rennir o leiaf a Wi-Fi fforddiadwy neu rad ac am ddim.
- Os bydd llety wedi'i leoli ymhell oddi wrth drafnidiaeth gyhoeddus gan olygu bod angen defnyddio trafnidiaeth breifat ddrud (megis tacsis), neu drafnidiaeth gyhoeddus ddrud (megis sawl siwrnai a thocyn teithio) i ddefnyddio cyfleusterau allweddol gan gynnwys addysg a chyflogaeth, nid ystyrir bod y llety'n addas oni fydd yr awdurdod tai lleol yn fodlon bod y gost yn fforddiadwy i'r ymgeisydd.
- Yr amgylchiadau pan allai fod yn rhesymol disgwyl i ymgeisydd newid ysgol a/neu gyfleusterau meddygol.
- Yn ystod y broses ymgysylltu ar gyfer datblygu'r diwygiadau hyn, dywedodd pobl â phrofiad personol o ddigartrefedd fod 'rheolau tŷ' (megis dim ymwelwyr, cyrffiw penodedig, a'r defnydd o system teledu cylch cyfyng) yn gallu gwneud iddynt deimlo'n ynysig, yn gallu bod yn anghefnogol ac yn gallu effeithio ar eu gallu i fyw'n annibynnol. Dylid nodi mai yn ôl disgrisiwn y landlord, y rheolwr neu berchennog y safle y caiff rheolau o'r fath eu gosod yn aml, ond rydym yn cynnig datblygu a chyhoeddi canllawiau i awdurdodau lleol sydd naill ai'n gweithio gyda landlordiaid i ddarparu llety dros dro neu'n rheoli eu safleoedd eu hunain, er mwyn anghymhell rheolau diangen ac ymwithiol ac annog annibyniaeth a symud ymlaen yn llwyddiannus.
- Ystyried cysylltiad unigolyn â'r Gymraeg o fewn asesiad o addasrwydd llety

## Digartrefedd gartref

**Rydym yn cynnig ffurfioli Cynllun Digartref Gartref ar sail genedlaethol.**

517. 508 Byddai cynllun o'r fath yn sicrhau bod unigolion sydd wedi cael gwybod ei bod yn rhaid iddynt, yn y tymor hwy, adael y llety y maent yn byw ynddo ar hyn o bryd, yn cael opsiwn i aros yn y llety hwnnw (lle bo hynny'n ymarferol ac yn ddiogel) am gyfnod byrrach a chael eu hystyried yn ddigartref neu dan fygythiad o ddigartrefedd. Bydd gan yr ymgeisydd hawl i wneud cais i'r awdurdod tai lleol am gymorth digartrefedd.

518. Gall hyn gynnig ateb mwy dymunol i rai ymgeiswyr na symud i mewn i lety dros dro, ac mae rhai awdurdodau lleol ledled Cymru yn gwneud hyn yn anffurfiol mewn ffyrdd amrywiol. Cynigir y gallai polisi cenedlaethol ffurfiol helpu i fynd i'r afael â rhai anghysondebau cyfreithiol a welir wrth i'r cynllun gael ei roi ar waith yn lleol.

519. Cynigir y caiff diffiniad o Ddigartrefedd Gartref ei ddarparu ac y bydd yn helpu awdurdodau i adnabod eu prif ddyletsydd tai barhaus. Bydd y diffiniad hwn hefyd yn nodi y dylai'r unigolyn sy'n 'Ddigartref Gartref' gael ei drin fel unrhyw ymgeisydd

arall sydd mewn llety dros dro ac na ddylid ei ddadflaenoriaethu o ran dod o hyd i lety tymor hwy mwy addas.

520. Y rheswm dros hyn yw er mwyn sicrhau na chaiff ymgeiswyr eu hanghymell rhag bod yn Ddigartref Gartref, sef arfer sy'n lleddfu pwysau ar lety dros dro.

### Casglu Data

**Byddwn yn sicrhau ar lefel leol a chenedlaethol ein bod yn gallu proffilio'r argaeledd a'r stoc o lety dros dro yng Nghymru.**

521. Er mwyn adeiladu ar waith sydd eisoes yn mynd rhagddo wrth i Gynlluniau Pontio Ailgartrefu Cyflym awdurdodau lleol, yr [Asesiad o'r Farchnad Dai Leol](#) (asesiad o'r angen hirdymor am dai) a chynlluniau adeiladu gael eu datblygu, byddwn yn sicrhau ar lefel leol a chenedlaethol y gallwn broffilio argaeledd a stoc y llety dros dro yng Nghymru, proffil y rhai sy'n ei ddefnyddio (gan gynnwys profiadau grwpiau gwarchoddedig) ac am faint o amser y mae pobl yn aros mewn llety dros dro.

### Cynigion ar gyfer gwelliannau tymor hwy i lety dros dro

522. Rydym yn cynnig adolygu safonau addasrwydd bob tair blynedd er mwyn asesu i weld a yw datblygiadau o ran y cyflenwad o lety yn ein galluogi i gyflwyno lefel uwch o safonau gofynnol. Yn unol ag argymhellion y Panel Adolygu Arbenigol, gall y safonau uwch hyn gynnwys:

- a. a ddylid rhagnodi nad yw llety dros dro gorlawn byth yn addas;
- b. a ddylid rhagnodi i le byw fod ar wahân i ystafelloedd gwely;
- c. a ddylid rhagnodi safonau lle mwy hael ar gyfer ystafelloedd cysgu;
- d. a ddylid rhagnodi safonau gofynnol yn ymwneud â mynediad preifat (yn hytrach na mynediad a rennir) at gyfleusterau megis cyfleusterau coginio a thoiledau.



## Dyrannu tai cymdeithasol

523. Mae awdurdodau lleol a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig (a elwir hefyd yn Gymdeithasau Tai ac yn landlordiaid cymunedol) yn darparu tai cymdeithasol ac fe'u gelwir ar y cyd yn landlordiaid cymdeithasol. Maent yn wahanol i landlordiaid eraill am mai eu prif amcan yw diwallu anghenion o ran tai ac, yng Nghymru, am mai sefydliadau nid-er-elw ydynt. Tai a ddarperir ar gyfraddau fforddiadwy i bobl na allant fforddio rhentu na phrynu cartref ar y farchnad agored yw tai cymdeithasol.<sup>186</sup> Caiff y gweithdrefnau y bydd awdurdodau lleol a chymdeithasau tai yn eu dilyn i benderfynu pwy sy'n cael y tai hyn ac ym mha drefn eu disgrifio fel "dyraniadau". Gall unigolyn neu aelwyd wneud cais am dai cymdeithasol drwy'r cynllun dyrannu lleol neu'r 'rhestr aros'.

524. Yn dibynnu ar y cynllun sydd ar waith a ph'un a oes gan awdurdod lleol ei stoc dai ei hun ai peidio, bydd awdurdod lleol naill ai'n dyrannu cartrefi cymdeithasol yn uniongyrchol i unigolion neu'n enwebu unigolyn neu aelwyd i gael ei ystyried ar gyfer un o eiddo landlord cymdeithasol cofrestredig. Er y cânt eu llywodraethu gan ddeddfwriaeth, mae cynlluniau dyrannu'n amrywio rhwng awdurdodau lleol a rhwng landlordiaid cymdeithasol cofrestredig, gan gynnwys y rhai sy'n gweithio o fewn ardal yr un awdurdod lleol, hyd yn oed.

525. Ceir agweddau cymhleth ar y ffordd y mae dyraniadau tai cymdeithasol yn gweithredu ledled Cymru, sy'n golygu ei bod yn anodd cynnal asesiad manwl o effeithiolrwydd yraniadau tai cymdeithasol. Er mwyn gwella ein dealltwriaeth o'r mater a'n galluogi i asesu'r ddeddfwriaeth bresennol yn gywir, mae Llywodraeth Cymru wedi gweithio gyda Cartrefi Cymunedol Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i gomisiynu gwaith ymchwil annibynnol ar ddyraniadau ledled Cymru.

526. Mae *'Allocations: Understanding more, in the context of homelessness in Wales'* wedi cael ei gyhoeddi ochr yn ochr â'r Papur Gwyn hwn, yn dilyn cyfnod o waith yn ystod mis Ebrill a mis Mai 2023. Ymchwiliodd y gwaith hwn i'r ffordd y caiff gweithdrefnau dyrannu eu dilyn ar lefel Cymru gyfan a thrwy astudiaethau achos "sbotolau" manwl yn ardaloedd pum awdurdod lleol. Cafodd canfyddiadau'r gwaith hwn eu cyflwyno i'r Panel Adolygu Arbenigol a gwnaethant helpu i lywio ei argymhellion a'r cynigion a nodir yn y Papur Gwyn hwn.

527. Mae'r bennod hon yn adeiladu ar y gwaith ymchwil hwn er mwyn nodi sut y caiff y ddeddfwriaeth bresennol ei defnyddio i lywodraethu cynlluniau dyrannu sydd ar waith ledled Cymru, a pha mor effeithiol yw cynlluniau presennol o ran galluogi pobl ddigartref i gael gafael ar dai cymdeithasol. Caiff diwygiadau arfaethedig, sydd â'r nod o sicrhau bod cynlluniau dyrannu'n ddull effeithiol yn ein hymateb pellgyrhaeddol i roi diwedd ar ddigartrefedd, eu hystyried tuag at ddiwedd y bennod.

---

<sup>186</sup> [Tai cymdeithasol | Cyfraith Cymru \(llyw.cymru\)](#)

## Yr hyn y mae'r gyfraith yn ei ddweud ar hyn o bryd

528. Caiff y gyfundrefn statudol ar gyfer dyrannu tai cymdeithasol yng Nghymru gan awdurdodau lleol ei llywodraethu gan Ran 6 o Ddeddf Tai 1996 ("Deddf 1996"). Mae hyn yn gymwys i ddyrannu tai cymdeithasol i bobl sydd ag angen o ran tai a phobl nad oes ganddynt angen o ran tai, ar yr amod eu bod yn gymwys. Nid yw'n ymwneud yn benodol â digartrefedd, ond dylid hefyd ystyried Rhan 2 o'r Ddeddf Tai 2014 a'r dyletswyddau digartrefedd wrth ddatblygu gweithdrefnau dyrannu

## Cynlluniau Dyrannu

529. O dan adran 167 o Ddeddf 1996, mae'n ofynnol bod gan awdurdodau lleol gynllun dyrannu sy'n pennu blaenoriaethau'r awdurdod a'r weithdrefn i'w dilyn i ddyrannu tai. Mae'r Cod Canllawiau'n pennu sut y gall polisïau dyrannu yn y cynllun edrych, ac yn rhoi enghreifftiau o hynny, ond lle'r awdurdod lleol yw penderfynu sut i ddatblygu ei gynllun dyrannu a'i roi ar waith. O dan a.167(1A) o Ddeddf 1996, rhaid i'r cynllun gynnwys datganiad o bolisi'r awdurdod lleol ar gynnig dewis o lety i ymgeiswyr cymwys, neu gynnig cyfle iddynt fynegi dewisiadau mewn perthynas â'r llety a gaiff ei ddyrannu iddynt.

530. Mae deddfwriaeth yn nodi cyfres o ofynion ar gyfer cynlluniau dyrannu, gan gynnwys y gofyniad i gadw cofrestr dai, nodi meini prawf cymhwysedd ar gyfer ymuno â'r cynllun dyrannu a'r grwpiau penodol y gall fod yn rhesymol rhoi blaenoriaeth iddynt ar gyfer tai o dan y cynllun.

## Cymhwysedd ar gyfer dyrannu

531. Ni all awdurdod lleol ddyrannu tai i unigolion nad ydynt yn gymwys. Fodd bynnag, *os bydd person eisoes yn ddelliaid contract mewn perthynas â llety a ddyrannwyd gan awdurdod lleol, nid fydd y rheolau dyrannu'n gymwys*. Os felly, bydd awdurdod yn rhydd i ddyrannu eiddo yn ôl ei ddisgresiwn. Mae deddfwriaeth yn rhagnodi amgylchiadau lle na chaiff awdurdod lleol ddyrannu llety fel y nodir isod.

## Statws mewnfudo

532. O dan 160A(3) a (5) o Ddeddf 1996, ni chaniateir i awdurdod lleol ddyrannu llety i bobl o wledydd tramor sy'n ddarostyngedig i reolaeth fewnfudo (yn unol ag ystyr Deddf Mewnfudo a Lloches 1996), oni bai eu bod yn perthyn i ddsbarth a ragnodwyd gan Weinidogion Cymru.<sup>187</sup> Gall Gweinidogion Cymru hefyd ragnodi dosbarthiadau eraill o bobl o wledydd tramor nad ydynt yn ddarostyngedig i reolaeth fewnfudo, ond sy'n anghymwys fel arall ar gyfer dyrannu llety. Mae [Rheoliadau Dyrannu Tai a Digartrefedd \(Cymhwysra\) \(Cymru\) 2014 \(fel y'u diwygiwyd\)](#) yn darparu ar gyfer pa bobl o wledydd tramor a fydd yn gymwys neu'n anghymwys ar gyfer dyrannu llety o dan Ran 6 o Ddeddf 1996.

---

<sup>187</sup> Fel y rhagnodwyd yn adran 160A(1) a (3) o Ddeddf 1996.

## Ymddygiad annerbyniol

533. Mae'r unig amgylchiadau eraill lle y gall awdurdod lleol drin ymgeisydd fel pe bai'n anghymwys ar gyfer y broses dyrannu wedi'u rhagnodi yn adran 160A(7) o Ddeddf 1996, os bydd yr awdurdod yn fodlon bod yr ymgeisydd, neu aelod o'i aelwyd, wedi bod yn euog o ymddygiad annerbyniol sy'n ddigon difrifol i olygu nad yw'n addas i fod yn denant i'r awdurdod tai lleol a'i fod, ar adeg y cais, yn dal i gael ei ystyried yn anaddas oherwydd yr ymddygiad hwnnw.

534. Mae'r 'prawf ymddygiad annerbyniol' a'r ymddygiad a ystyrir yn annerbyniol wedi'u pennu mewn deddfwriaeth a dim ond y mathau penodol hyn o ymddygiad y gall awdurdod lleol eu hystyried wrth ddefnyddio'r prawf.

535. Mae adran 160A(8) o Ddeddf 1996 yn pennu mai'r unig ymddygiad y gellir ystyried ei fod yn annerbyniol at ddibenion peidio â dyrannu llety i rywun yw ymddygiad a fyddai, pe bai'r person hwnnw'n un o ddeiliaid contractau'r awdurdod, yn torri adran 55 o Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016. Caiff yr ymddygiad hwn ei ddiffinio yn adran 55 ac mae'n cynnwys ymddwyn neu fygwth ymddwyn mewn ffordd a allai beri niwsans i breswylwyr eraill neu bobl sy'n byw'n lleol, y landlordiaid neu berson a gyflogir i gyflawni swyddogaethau'r landlord, neu annog preswlydd arall neu ymwelydd i ymddwyn yn y fath fodd. Mae'r Cod Canllawiau'n nodi prawf triphlyg ar gyfer ystyried a yw'r ymddygiad annerbyniol yn ddigon difrifol i gyfiawnhau ystyried bod person yn anghymwys.

536. Fodd bynnag, lle'r awdurdod lleol yw dewis p'un a fydd yn defnyddio'r prawf hwn ai peidio ac, os bydd yn defnyddio'r prawf, gall awdurdod lleol osod ymgeisydd sydd wedi methu'r prawf ar y rhestr aros o hyd. Caniateir awdurdodau lleol i gosbi'r unigolyn drwy gael gwared ar flaenoriaeth ychwanegol neu resymol hefyd (gweler yr adran isod). Rhaid i'r awdurdod lleol hysbysu'r ymgeisydd am ganlyniad y 'prawf ymddygiad annerbyniol' ac unrhyw benderfyniad dilynol sy'n seiliedig ar y canlyniad hwn.

537. Ni chaniateir i awdurdodau lleol ystyried unrhyw ffactorau eraill er mwyn gwahardd rhywun o gynllun dyrannu, ac ni allant gyflwyno eithriadau cyffredinol ar gyfer categorïau neu grwpiau o bobl chwaith. Ar ôl hynny, p'un a oes ganddynt angen brys o ran tai ai peidio, gall pawb nad ystyrir eu bod yn anghymwys ar gyfer dyrannu tai ar sail y 'prawf ymddygiad annerbyniol', ac sy'n bobl o wledydd tramor sy'n gymwys, wneud cais a chael eu rhoi ar y rhestr aros am dai cymdeithasol.

## Blaenoriaeth resymol

538. Mae Deddf 1996 yn pennu pum grŵp penodol y mae'n rhaid i'r awdurdod tai lleol roi 'blaenoriaeth resymol' iddynt o fewn ei gynllun dyrannu,<sup>188</sup> sef:

- pobl sy'n ddigartref (yn unol ag ystyr Rhan 2 o'r Ddeddf Tai 2104);
- pobl y mae unrhyw ddyletswydd yn ddyledus iddynt gan awdurdod tai lleol o dan adrannau 66, 73 neu 75 o'r Ddeddf Tai 2014;
- pobl sy'n meddiannu tai afiach neu orlawn neu sydd fel arall yn byw mewn tai o gyflwr anfoddhaol;

---

<sup>188</sup> Adran 167(2) o Ddeddf 1996.

- pobl y mae angen iddynt am resymau meddygol neu resymau yn ymwneud â lles;
- pobl y mae angen iddynt symud i ran benodol o ardal yr awdurdod, os byddai methu â diwallu'r angen hwnnw'n achosi caledi (iddyn nhw eu hunain neu i eraill).

539. Er bod deddfwriaeth yn pennu ei bod yn rhaid rhoi blaenoriaeth resymol i'r pum grŵp hyn, caiff awdurdodau lleol ddewis sut y dylid gwneud hyn ac a ddylid rhoi blaenoriaeth i unrhyw grŵp o fewn y pum categori. Fel arfer, caiff hyn ei adlewyrchu yn y ffordd y bydd awdurdodau tai lleol yn defnyddio bandiau neu'n rhoi 'pwyntiau' i'r rhai sydd ar y rhestr aros.

540. Gall unigolyn berthyn i un o'r pum grŵp blaenoriaeth resymol hyn, ond mae'n bosibl na chaiff y flaenoriaeth resymol honno ei rhoi iddo am ei fod yn cael ei drin fel unigolyn anghymwys yn sgil y prawf ymddygiad annerbyniol.

### **Blaenoriaeth ychwanegol**

541. Mae adran 167(3) o Ddeddf 1996 yn caniatáu disgresiwn i awdurdodau tai lleol roi 'blaenoriaeth ychwanegol' i ymgeiswyr. Dim ond i bobl sy'n perthyn i un o'r pum grŵp blaenoriaeth resymol ac sydd ag 'angen brys o ran tai' y gellir rhoi'r flaenoriaeth ychwanegol hon. Mae'r Cod Canllawiau'n rhoi enghreifftiau o achosion o'r fath, megis pobl y mae dyletswydd digartrefedd yn ddyledus iddynt am y bu'n rhaid iddynt adael eu cartrefi oherwydd trais neu fygythiad o drais.

542. Hefyd, gall awdurdodau lleol ddewis pennu categorïau a ffactorau y gellid eu defnyddio i roi mwy neu lai o flaenoriaeth yn y cynllun dyrannu i ymgeiswyr nad ydynt yn perthyn i'r categorïau blaenoriaeth resymol. Ymhlith y ffactorau y gellid eu hystyried fel rhesymau posibl dros roi mwy o flaenoriaeth i ymgeisydd unigol mae cysylltiad lleol neu drigolion sy'n tanfeddiannu ac sy'n awyddus i symud i eiddo llai ar frys. Rhaid i awdurdod lleol nodi'r categorïau a'r ffactorau hyn yn glir yn eu polisiau dyrannu a sicrhau nad yw eu cynllun dyrannu'n cynnwys gormod o bobl nad oes ganddynt hawl i gael blaenoriaeth resymol.

### **Polisiau gosod eiddo lleol**

543. Gall awdurdodau lleol ddarparu ar gyfer cynnwys polisi gosod eiddo lleol penodol yn eu cynllun dyrannu yn unol ag adran 167(2E) o Ddeddf 1996, a fydd yn darparu ar gyfer dyrannu llety penodol i ymgeisydd sy'n gwneud cais penodol am y llety hwnnw ac i bobl sy'n cyfateb i ddisgrifiad penodol, heb fod rhaid i'r bobl hynny eu hunain fod â hawl i gael blaenoriaeth resymol. Mae cynlluniau o'r fath yn darparu ar gyfer defnyddio mathau penodol o lety fel llety gwarchod ar gyfer pobl y mae ei angen arnynt, neu lety addasadwy neu hygyrch ar gyfer pobl anabl.

### **Cymhwyso'r gyfraith**

544. Y deddfwriaeth a drafodir yn yr adran hon sy'n rhagnodi ac yn llywodraethu prosesau awdurdodau lleol yng Nghymru ar gyfer dyrannu tai cymdeithasol. Nid

yw'n gymwys i landlordiaid cymdeithasol cofrestredig na phartneriaid eraill ym maes tai.

545. Yr unig ddyletswydd ddeddfwriaethol y mae landlordiaid cymdeithasol cofrestredig yn ddarostyngedig iddi yw adran 170 o Ddeddf 1996, sy'n ei gwneud yn ofynnol i ddarparwr tai cymdeithasol preifat cofrestredig neu landlord cymdeithasol cofrestredig gydweithredu ar gais yr awdurdod tai lleol i'r graddau sy'n rhesymol er mwyn cynnig dyraniad o dai cymdeithasol i bobl â blaenoriaeth o dan gynllun dyrannu'r awdurdod. Ategir hyn ymhellach gan y ddyletswydd i gydweithredu ag awdurdodau tai lleol er mwyn eu helpu i gyflawni eu dyletswyddau o dan adran 95 o'r Ddeddf Tai 2014. Er mwyn cefnogi'r cydweithredu hwn, gall landlordiaid cymdeithasol cofrestredig ymrwmo i gytundebau contractiol ag awdurdodau tai lleol er mwyn diffinio rolau a chyfrifoldebau yn y bartneriaeth, a dylai'r cytundebau hyn gynnwys yr awdurdod tai lleol yn enwebu unigolion neu aelwydydd i landlordiaid cymdeithasol cofrestredig ar gyfer eiddo gwag.

546. Rhaid i landlordiaid cymdeithasol cofrestredig yng Nghymru gydymffurfio â safonau perfformiad a bennir ar eu cyfer gan Weinidogion Cymru yn y [Fframwaith Rheoleiddiol ar gyfer Cymdeithasau Tai yng Nghymru](#) a [Chylchlythyr Cymdeithasau Tai 004/15](#).<sup>189</sup> <sup>190</sup> Ar hyn o bryd, nid oes safonau yn y fframwaith hwn sy'n llywodraethu'r broses o ddyrannu llety, naill ai'n annibynnol neu yn rhinwedd y rhwymedigaeth i gydweithredu ag awdurdodau tai lleol. Fodd bynnag, mae safon RS1a) yn berthnasol. Mae'r safon hon yn nodi ei bod yn rhaid bod gan y landlord cymdeithasol cofrestredig strategaeth sy'n adlewyrchu ei weledigaeth, ei ddiwylliant a'i werthoedd ac sy'n nodi sut y bydd y sefydliad yn cyflawni ei ddiben craidd fel landlord cymdeithasol – darparu tai cymdeithasol a diwallu'r angen lleol am dai.

547. Er bod rhywfaint o arferion da mewn perthynas â dyraniadau wedi'u nodi yn y Cod Canllawiau, nid oes cyfyngiadau ar landlordiaid cymdeithasol cofrestredig o ran datblygu eu cynlluniau dyrannu eu hunain, a all gynnwys gwrthod enwebiadau ar gyfer dyraniadau ar sail hanes blaenorol ymgeisydd neu aelod o'i aelwyd, ôl-ddyledion rhent neu orchmynion adennill meddiant blaenorol. Nid oes deddfwriaeth i ddiffinio'r cytundebau hyn na'r broses o gytuno ar enwebiadau neu eu gwrthod (oni chaiff cytundebau a phrotocolau clir eu drafftio yn eu cytundebau contractiol â'r awdurdodau lleol), ond mae'r Cod Canllawiau'n nodi y dylai awdurdodau tai lleol a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig gydweithio â'i gilydd i lunio polisiau tai cyffredin.

### **Y ffordd y mae'r gyfraith yn gweithio ar hyn o bryd**

548. Mae Deddf 1996 yn nodi fframwaith cyfreithiol sylweddol i awdurdodau tai lleol ei ddefnyddio wrth iddynt ddatblygu eu cynlluniau dyrannu a'u rhoi ar waith. Fodd bynnag, mae'r dirwedd ym maes tai wedi newid yn sylweddol yn y 23 mlynedd ers cyflwyno'r deddfwriaeth hon ac yn y 38 mlynedd ers cyflwyno ei rhagflaenydd, sef Deddf Tai 1985 ("Deddf 1985"). Er nod nifer o newidiadau wedi cael eu gwneud i'r deddfau hyn yn ystod y cyfnod hwn, erys elfennau sylweddol o'r deddfau nad ydynt yn berthnasol i'r amgylchedd tai presennol mwyach, neu lle nad yw'r deddfwriaeth

---

<sup>189</sup> [WG44078 \(llyw.cymru\)](#)

<sup>190</sup> Fel y nodir yn adrannau 33A a 33B o Ddeddf 1996.

yn ddigonol i ddiwallu'r angen presennol am dai. Yn ystod cyfnod Deddf 1985, roedd yn rhaid i awdurdodau tai lleol ddal stoc dai. Ers hynny, mae nifer cynyddol o awdurdodau tai lleol wedi trosglwyddo eu stoc i landlordiaid cymdeithasol cofrestredig, yn dilyn pleidlais ymhlith tenantiaid. Fel yr oedd pethau ar 31 Mawrth 2022, dim ond 11 o awdurdodau lleol yng Nghymru sydd â'u stoc dai eu hunain, sy'n gwneud cyfanswm o 87,927 o unedau, o gymharu â 149,468 o unedau a ddelir gan landlordiaid cymdeithasol cofrestredig yng Nghymru. Mae hyn yn dangos newid clir ym mherchnogaeth y stoc o dai cymdeithasol dros y pedwar degawd diwethaf, a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig yw'r deiliad asedau mwyaf blaenllaw o bell ffordd erbyn hyn. Er bod y tai hyn wedi cael eu trosglwyddo i sefydliadau nad yw Deddf 1985 na Deddf 1996 yn gymwys iddynt (ac eithrio'r ddyletswydd i gydweithredu yn adran 170 o Ddeddf 1996, a drafodir isod), nid yw'r ddeddfwriaeth sy'n gymwys i ddyrannu tai cymdeithasol wedi newid yn ystod y cyfnod hwn. Mae'r adran ganlynol yn crynhoi rhai o'r problemau sy'n deillio o'r amryfusedd deddfwriaethol hwn.

### **Y ddyletswydd i gydweithredu**

549. Mae adran 170 o Ddeddf 1996 yn ei gwneud yn ofynnol i landlord cymdeithasol cofrestredig gydweithredu ag awdurdod lleol fel y bo'n 'rhesymol dan yr amgylchiadau' er mwyn cynnig dyraniad i bobl â blaenoriaeth o dan gynllun dyrannu'r awdurdod. Nid yw adran 170 yn ei gwneud yn ofynnol i landlord cymdeithasol cofrestredig dderbyn pob enwebiad, a gellir sicrhau enwebiadau mewn nifer o ffyrdd. Os oes cytundebau enwebu traddodiadol ar waith, dylai'r sail sy'n caniatáu i landlord cymdeithasol cofrestredig dderbyn neu wrthod enwebiad gan yr awdurdod tai lleol fod wedi'i chynnwys yn y cytundeb contractiol y cytunwyd arno rhwng y landlord cymdeithasol cofrestredig a'r awdurdod tai lleol, ond anaml y nodir hyn mewn contractau o'r fath, ac nid oes gan awdurdodau lleol lawer o le i gwestiynu na herio penderfyniad i wrthod enwebiad.

550. Fodd bynnag, rydym yn ymwybodol bod y mwyafrif o awdurdodau lleol wedi rhoi polisiâu dyrannu cyffredin a chofrestri tai cyffredin (partneriaethau dyrannu) ar waith yn lle cytundebau enwebu "traddodiadol". Partneriaethau rhwng landlordiaid cymdeithasol cofrestredig ac awdurdod lleol yw'r rhain, a bwriedir iddynt symleiddio'r broses ddyrannu ar gyfer ymgeiswyr mewn ardal benodol drwy un pwynt mynediad i faes tai cymdeithasol (un gofrestr dai) a sefydlu polisi dyrannu cyson i bob darparwr, ond gyda rhai amrywiadau y cytunwyd arnynt yn lleol. Yn gyffredinol, caiff partneriaeth ddyrannu ei hategu gan gytundeb ffurfiol y bydd pob parti'n ymrwymo iddo'n wirfoddol, ac sy'n nodi'r ffordd y bydd y bartneriaeth yn gweithio yn ogystal â'r system ar gyfer blaenoriaethu a chynnig/gwrthod cytundebau. Bydd yn nodi prosesau apelio yn ogystal â sut y bydd y bartneriaeth yn monitro ac yn adolygu, ac am ba hyd y bydd y cytundeb mewn grym. Bydd y bartneriaeth yn mynd ati ar y cyd i ddatblygu'r polisi dyrannu cyffredin ac yn gwneud y trefniadau ymgynghori a chyhoedduswydd ar gyfer y ffordd newydd o weithio. Mae'n arferol i un o'r partneriaid weinyddu'r cynllun ar ran y gweddill ac, yn y rhan fwyaf o achosion, bydd y partneriaid yn ariannu cyfran o'r costau sy'n gysylltiedig â rhedeg y cynllun, a fydd fel arfer yn gymesur â'r stoc sydd ganddynt yn yr ardal. Bydd cymryd rhan mewn partneriaeth ddyrannu fel arfer yn golygu y bydd stoc gyfan landlord cymdeithasol cofrestredig ar gael i'r bartneriaeth. Hefyd, gan fod polisi ddyrannu gyffredin, ni fydd angen y gallu i wrthod enwebiadau mwyach. Mae tystiolaeth anecdotaidd yn

awgrymu na chaiff aelwydydd digartref eu blaenoriaethu bob amser ar gyfer tai cymdeithasol, ac mae awdurdodau tai lleol yn dweud mai ychydig iawn o gyfle a gânt i ddylanwadu ar benderfyniadau i ddyrannu llety i'r bobl sydd â'r angen mwyaf amdano lle mae cytundebau o'r fath ar waith.

551. Dangosodd gwaith ymchwil a gomisiynwyd gan Cartrefi Cymunedol Cymru, Llywodraeth Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i gefnogi gwaith y Panel Adolygu Arbenigol a helpu i ddatblygu'r Papur Gwyn hwn fod gwahaniaeth clir rhwng cyfraddau enwebu a dyraniadau yn destun pryder.<sup>191</sup> Er bod llawer o awdurdodau lleol yn dweud mai enwebiadau ar gyfer aelwydydd digartref yw 100% o'r enwebiadau a wneir ganddynt ar gyfer tai cymdeithasol, mae lefelau dyrannu tai cymdeithasol i aelwydydd digartref yn llawer is na hyn. Yn yr ardaloedd sbotolau y tynnwyd sylw atynt yn y gwaith ymchwil, roedd dyraniadau'n amrywio o 23% i 60%. Nid yw'n glir bob amser beth sy'n achosi'r gwahaniaeth rhwng enwebiadau a dyraniadau.

552. Mae Monitor Digartrefedd Prydain Fawr 2022, sef y mwyaf diweddar, yn dangos bod y llif blynyddol o ran gosod eiddo, ar gyfer aelwydydd digartref ac aelwydydd eraill ag angen brys, yn cael effaith fwy ar roi diwedd ar ddiartrefedd na darparu cartrefi newydd.<sup>192</sup> Gall fod rhesymau dilys pam y bydd landlord cymdeithasol cofrestredig yn gwrthod enwebiad o bosibl, os bydd cytundebau dyrannu'n caniatáu hynny, er enghraifft argaeledd neu hygyrchedd stoc. Fodd bynnag, mae'r cyfraddau presennol ar gyfer dyrannu tai cymdeithasol i bobl ddiartref, sy'n amrywiol, ac yn isel mewn llawer o achosion, yn destun pryder.

### **Defnyddio'r prawf ymddygiad annerbyniol**

553. Fel yr amlinellir uchod, dim ond ar sail statws mewnfudo neu ymddygiad annerbyniol y gall awdurdodau lleol wahardd unigolion o gynllun dyrannu.

554. Ar yr adeg pan fydd yr awdurdod lleol yn defnyddio'r 'prawf ymddygiad annerbyniol', bydd yn ystyried ymddygiad blaenorol a'r risg barhaus y byddai rhagor o ymddygiad o'r fath yn ei hachosi i gontract meddiannaeth.

555. Ceir pryder nad yw'r prawf, yn y ffordd y caiff ei ddefnyddio ar hyn o bryd, yn rhoi cyfle i ystyried yn briodol newidiadau mewn ymddygiad neu gamau lliniaru a fydd yn lleihau'r risg y bydd yr ymddygiad yn digwydd eto, gan olygu bod pobl yn ddiartref am fwy o amser. Mae hyn i'w weld yn yr anghysondeb a ymddengys yn y ffordd y caiff y prawf ei ddefnyddio gan wahanol awdurdodau lleol a hyd yn oed ar gyfer gwahanol ymgeiswyr. Mae'r gwaith ymchwil a gomisiynwyd er mwyn helpu i ddatblygu argymhellion y Panel Adolygu Arbenigol a'r Papur Gwyn hwn yn awgrymu bod ôl-ddyledion rhent ac ymddygiad gwrthgymdeithasol wedi bod yn cael eu hasesu'n anghyson drwyddi draw. Roedd hyn yn golygu bod rhai aelwydydd ag ôl-ddyledion rhent cymharol isel neu droseddau cymharol fach yn cael eu hystyried yn anghymwys, a bod eraill â hanes o ôl-ddyledion rhent uwch neu ymddygiad gwrthgymdeithasol mwy difrifol yn cael ei hystyried yn gymwys ac wedi cael cymorth

---

<sup>191</sup> *Allocations Understanding more, in the context of homelessness in Wales*, Comisiynwyd gan Cartrefi Cymunedol Cymru, Llywodraeth Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, ac ar gael ochr yn ochr â'r Papur Gwyn hwn

<sup>192</sup> [Homelessness Monitor 2022 | Great Britain | Crisis UK](#)

i sicrhau tenantiaethau newydd. Mae'r anghysondeb hwn yn y ffordd y caiff y prawf ei ddefnyddio yn rhwystr sy'n atal pobl mewn angen rhag cael tai cymdeithasol, ac mae'n ymestyn y tu hwnt i'r cam asesu. Hefyd, daeth y gwaith ymchwil i'r casgliad bod landlordiaid cymdeithasol cofrestredig yn gallu bod yn anghyson wrth ystyried ymddygiad blaenorol (er y dylai pob un o'r partneriaid sydd wedi cytuno ar bolisi dyrannu cyffredin fod wedi cytuno ar y gofynion manwl mewn perthynas ag ymddygiad hanesyddol ac ôl-ddyledion rhent). Roedd rhai'n gofyn am 12 mis o dystiolaeth bod ymgeisydd yn cael ei ystyried yn 'barod am denantiaeth'. I ymgeiswyr digartref, byddai hyn yn golygu bod angen aros mewn llety dros dro am 12 mis ac, yn ystod y cyfnod hwnnw, gall y profiadau negyddol sy'n gysylltiedig ag aros mewn llety o'r fach arwain at effeithiau negyddol; gan eu gwneud yn llai tebygol fyth o sicrhau tai cymdeithasol drwy'r cynllun dyrannu. Gan fod lefelau'r galw am dai cymdeithasol fel y mae, dywedodd ymatebwyr dienw i'r arolwg dyraniadau fod landlordiaid cymdeithasol cofrestredig yn gallu dewis rhwng pobl y mae angen tai cymdeithasol arnynt ar hyn o bryd, gan 'ddewis a dethol' ymgeiswyr mewn rhai achosion. Bydd Llywodraeth Cymru yn comisiynu rhagor o waith ymchwil er mwyn archwilio'r honiad hwn ymhellach ac asesu i ba raddau y mae penderfyniadau o'r fath yn digwydd a'r rhesymau sy'n sail iddynt. Bydd canfyddiadau'r gwaith ymchwil hwn yn llywio deddfwriaeth ddrafft yn y dyfodol.

556. Roedd diystyru achosion hanesyddol o ymddygiad gwrthgymdeithasol ac ôl-ddyledion rhent wrth ddyrannu cartrefi yn argymhelliad clir yn adolygiad Shelter Cymru o ddyraniadau yn Abertawe yn 2020.<sup>193</sup>

### **Rhestrau aros anhydri**

557. Gall unrhyw rai sy'n gymwys i gael tai cymdeithasol gofrestru â'r cynllun dyrannu, p'un oes ganddynt unrhyw fath o angen am dai ai peidio.

558. Er bod cyfyngiadau ar y data a gaiff eu casglu gan awdurdodau lleol, mae'r data sydd ar gael yn dangos bod nifer y bobl sydd ar y rhestr aros am dai cymdeithasol wedi tyfu'n sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf, yn rhannol oherwydd y cynnydd sylweddol yn nifer y bobl sy'n ddigartref a hefyd am fod y galw am dai yn llawer mwy na'r cyflenwad. O ganlyniad i hynny, mae'n anochel y bydd pobl yn treulio mwy o amser ar y rhestr aros.

559. Mae'r llif o bobl sy'n cael tai o'r rhestr aros yn lleihau, a dim ond 9,746 o aelwydydd a gafodd dai cymdeithasol (ac eithrio trosglwyddiadau a chyfnewidiadau) yn 2021-22, o gymharu â 12,863 o aelwydydd yn 2018-19, sy'n dangos llai o symud drwy'r rhestr aros.<sup>194</sup> Rhoddwyd tai cymdeithasol i 4,567 o aelwydydd a oedd yn ddigartref ac mewn angen yn 2021-22, sy'n fwy na'r 3,722 o aelwydydd yn 2018-19.

560. O ystyried y galw am dai cymdeithasol yn seiliedig ar ddigartrefedd a'r angen ehangach am dai, mae'n debygol iawn y bydd rhai pobl sydd ar y rhestr aros yn parhau i fod arni am gryn dipyn o amser ac mae'n bosibl na chaiff tai cymdeithasol byth eu dyrannu iddynt.

---

<sup>193</sup> [Allocation-of-Social-Housing-Report.pdf \(sheltercymru.org.uk\)](#)

<sup>194</sup> [Nifer yr eiddo ar osod yn ôl blwyddyn a'r math o eiddo ar osod \(llyw.cymru\)](#)



## Blaenoriaeth o fewn cynlluniau dyrannu

561. Fel yr amlinellir drwy'r Papur Gwyn hwn i gyd, mae digartrefedd yn uwch nag erioed ar hyn o bryd, ac mae llawer iawn o bobl mewn llety dros dro. Bydd rhai o'r bobl hynny'n wynebu effeithiau andwyol ar eu hiechyd a'u llesiant meddyliol gan gynnwys diffyg rheolaeth dros eu hamgylchedd eu hunain, diffyg lle a rhyddid cyfyngedig i blant ddysgu, chwarae a datblygu.

562. Er gwaethaf y ffigurau hyn, nid yw'n ymddangos bod aelwydydd digartref yn cael blaenoriaeth ychwanegol o fewn cynlluniau dyrannu yn gyffredinol. Canfu gwaith ymchwil gan y Sefydliad Tai Siartredig ("CIH") yn 2020 nad oedd o leiaf saith awdurdod lleol yng Nghymru yn rhoi ymgeiswyr digartref, na'r rhai dan fygythiad o ddigartrefedd, yn y bandiau blaenoriaeth uchaf.<sup>195</sup> Ceir amrywiaeth o resymau dros hyn, gan gynnwys penderfyniadau gwleidyddol lleol, neu fwy o bwyslais ar 'roi blaenoriaeth ychwanegol', gan gynnwys cysylltiad lleol â'r ardal neu gysylltiad â'r lluoedd arfog.

563. Dylid nodi bod yr [Atodlen i Reoliadau Awdurdodau Tai Lleol \(Egwyddorion Rhagnodedig ar gyfer Cynlluniau Dyrannu\) \(Cymru\) 1997](#) yn nodi na ddylai aelodau etholedig fod yn rhan o'r broses o wneud penderfyniadau ynghylch unrhyw ddyraniad unigol. Fodd bynnag, nid oes gofyniad cyfreithiol i beidio â chynnwys nodweddion cynlluniau dyrannu cyfan, megis blaenoriaethau dyfarnu neu flaenoriaeth ychwanegol, ym mhenderfyniadau aelodau etholedig wrth gytuno ar y polisi lleol.

564. Er bod y disgrisiwn a roddir i awdurdodau lleol mewn perthynas â rhoi 'blaenoriaeth ychwanegol' yn bwysig er mwyn cynnal cymunedau, yn enwedig cymunedau Cymraeg gwledig, mae'n destun pryder nad yw'n ymddangos bod mwy o flaenoriaeth yn cael ei rhoi i sicrhau llety ar gyfer pobl nad oes ganddynt gartrefi.

565. Rydym yn deall bod aelwydydd digartref yn aml yn cael eu cadw allan o'r bandiau blaenoriaeth uchaf er mwyn sicrhau nad yw digartrefedd yn cael ei weld fel ffordd uniongyrchol o gael tai cymdeithasol ac, felly, nad yw'n cyflwyno cymhelliant gwyrddoedig yn y system tai cymdeithasol. Daeth y pwynt hwn i'r amlwg fel pryder sylweddol i awdurdodau lleol a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig yng nghanfyddiadau'r gwaith ymchwil ar ddyraniadau a wnaed i ategu gwaith y Panel Adolygu Arbenigol a'r broses o ddatblygu'r Papur Gwyn hwn.

## Cofrestr Tai Cyffredin

566. Er bod polisiâu dyrannu cyffredin wedi cael eu mabwysiadu gan y mwyafrif o awdurdodau lleol ledled Cymru, nid oes deddfwriaeth ar waith yng Nghymru ar hyn o bryd sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig weithredu Polisi Dyrannu Cyffredin neu Gofrestr Dai Gyffredin (er y caiff hyn ei annog yn gryf yn y Cod Canllawiau). Mae Cofrestr Dai Gyffredin yn gweithredu fel rhestr aros ar y cyd am dai a ddarperir gan yr awdurdod lleol ac unrhyw landlordiaid cymdeithasol cofrestredig neu awdurdod tai sy'n gweithio mewn partneriaeth â'r awdurdod. Mae hyn yn fodd i wella dealltwriaeth o gyfanswm y stoc a'r math o stoc sydd ar gael, ac ehangu'r opsiynau sydd ar gael i ymgeiswyr ar y

---

<sup>195</sup> [time-to-refocus.pdf \(cih.org\)](#)

rhestr aros neu'r cynllun dyrannu. Hefyd, mae polisiâu o'r fath yn gyfle i bob partner gytuno ar amodau a manylion y cynllun, gan roi cyfle i symud i fwrdd oddi wrth gytundebau enwebu unigol a'r angen i wrthod enwebiadau.

567. Daeth adolygiad a gynhaliwyd gan CIH i'r casgliad bod 19 o'r 22 awdurdod lleol ledled Cymru yn dewis gweithredu Cofrestr Dai Gyffredin ar hyn o bryd a gwelwyd eu bod, drwy wneud hynny, yn hybu gwell cydberthnasau a chydweithio rhwng awdurdodau lleol a'r landlordiaid cymdeithasol cofrestredig sy'n gweithio mewn partneriaeth â nhw.<sup>196</sup>

568. Hefyd, lle y ceir Cofrestri Tai Cyffredin, credir eu bod yn cynnig mwy o dryloywder i'r ymgeisydd a ffordd haws iddo ymwneud â'r system, gan mai dim ond un 'rhestr aros' sydd i ymuno â hi, ac un 'gofrestr' i wirio yn ei herbyn. Mae Cofrestr Dai Gyffredin hefyd yn helpu i hybu gosod eiddo yn seiliedig ar ddewis, gan ehangu'r cyfleoedd sydd ar gael i unigolion o fewn y stoc, er mwyn i stoc fwy addas gael ei hystyried ar gyfer aelwydydd. Ar y cyfan, ar ôl iddi gael ei sefydlu, mae angen llai o adnoddau i weithredu Cofrestr Dai Gyffredin o gymharu â sawl rhestr aros am dai, ac mae'n ei gwneud yn haws i awdurdodau lleol a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig gytuno ar gynlluniau gosod eiddo a'u datblygu er mwyn cydweithio i benderfynu ar ddyraniadau a dyrannu tai i grwpiau â blaenoriaeth.

### **Anghenion cymorth a chadw contractau meddiannaeth**

569. Bydd gan rai pobl sy'n ddigartref anghenion cymorth ychwanegol ac, i rai, gallai'r anghenion hyn fod yn gymhleth. Mae angen i unigolion ag anghenion cymhleth gael llawer o gymorth er mwyn eu helpu i sicrhau cartref a chynnal contract meddiannaeth. Mae'n debygol y bydd darparu cartref sefydlog hirdymor yn fwy effeithlon yn helpu i ddiwallu anghenion cymorth eraill yr unigolion hyn, gan leihau'r effeithiau negyddol y gall llety dros dro eu cael arnynt. Yn lle hynny, mae'r gofyniad hwn am gymorth yn eu hatal rhag cael tai cymdeithasol yn rhy aml. Mae rhai landlordiaid cymdeithasol cofrestredig yn teimlo nad ydynt yn gallu cefnogi tenantiaid o'r fath, a all effeithio ar eu penderfyniad ynghylch enwebiadau gan yr awdurdod tai lleol.

### **Newidiadau Arfaethedig**

570. Mae'r ddeddfwriaeth bresennol mewn perthynas â dyrannu tai cymdeithasol yn hen ac nid yw'n gymwys i'r cyrff sy'n rheoli'r mwyafrif o'r stoc tai cymdeithasol yng Nghymru. Ceir amwysedd mewn cryn dipyn o'r ddeddfwriaeth o ran sut y dylid ei rhoi ar waith ac, o ganlyniad i hynny, mae polisiâu dyrannu lleol yn amrywio'n fawr ledled Cymru.

571. Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig cyfres o ddiwygiadau sydd â'r nod o sicrhau y caiff arferion dyrannu eu defnyddio'n fwy effeithiol fel ysgogiad i roi diwedd ar ddigartrefedd. Mae hyn yn arbennig o bwysig wrth i Gymru nesáu at gyflawni un o nodweddion allweddol ein polisi Ailgartrefu Cyflym, sef sicrhau y caiff cartrefi sefydlog hirdymor sy'n addas eu dyrannu i bobl ddigartref, a hynny cyn gynted â phosibl.

---

<sup>196</sup> [time-to-refocus.pdf \(cih.org\)](https://time-to-refocus.pdf(cih.org))

**Rydym yn cynnig darpariaeth ddeddfwriaethol newydd a fydd yn datgan yn glir na all landlord cymdeithasol cofrestredig wrthod atgyfeiriad gan awdurdod tai lleol yn afresymol, o fewn amserlen benodedig, ac eithrio dan amgylchiadau penodedig.**

572. Mae landlordiaid cymdeithasol cofrestredig yn bartner hanfodol yn y gwaith o atal digartrefedd a, thrwy gydol y broses o ddatblygu'r Papur Gwyn hwn, rydym wedi clywed llawer o enghreifftiau o gydberthnasau gwaith cadarn rhwng landlordiaid cymdeithasol cofrestredig ac awdurdodau lleol a rôl ehangach hollbwysig landlordiaid cymdeithasol cofrestredig o ran lleddfu gofid ynglŷn â thai nad yw'n uniongyrchol gysylltiedig â digartrefedd o bosibl.

573. Fodd bynnag, mae tystiolaeth yn awgrymu y gellir gwneud mwy i atgyfnerthu rôl landlordiaid cymdeithasol cofrestredig o ran lleihau digartrefedd.<sup>197</sup> Yn unol ag argymhelliad y Panel Adolygu Arbenigol, rydym yn cynnig diwygiad deddfwriaethol er mwyn galluogi awdurdodau lleol i'w gwneud yn ofynnol i landlordiaid cymdeithasol cofrestredig ailgartrefu pobl ddigartref sy'n destun atgyfeiriadau statudol, o fewn cyfnod penodol, ac eithrio dan amgylchiadau penodedig. Mae'r cynnig hwn yn debyg i'r ddarpariaeth yn [adran 5 o Ddeddf Tai \(Yr Alban\) 2001](#), sydd wedi bod yn adnodd pwysig er mwyn galluogi pobl y mae dyletswydd digartrefedd statudol yn ddyledus iddynt i gael tai.<sup>198</sup>

574. Cynigir y byddai'r newid hwn i ddeddfwriaeth sylfaenol yn sicrhau ei bod yn haws i aelwydydd digartref gael gafael ar y tai cymdeithasol sydd ar gael, ac y gallai ehangu'r opsiynau sydd ar gael wrth sicrhau llety o bosibl. Byddai'r gofyniad arfaethedig hwn i landlordiaid cymdeithasol cofrestredig yn ychwanegol at y ddyletswydd bresennol i gydweithredu. Rydym yn cynnig y bydd y gofyniad yn gymwys yn dilyn cais gan awdurdod lleol i'r landlord cymdeithasol cofrestredig ac mai dim ond i ymgeisydd sy'n ddigartrefedd y bydd yn gymwys.

575. Cynigir na fydd yn ddyletswydd ddiamedd ar landlordiaid cymdeithasol cofrestredig. Bydd yn rhaid i awdurdodau tai lleol ystyried argaeledd stoc yn yr ardal, mynediad at gymorth, ysgolion a thrafnidiaeth gyhoeddus ymhlith materion eraill er mwyn sicrhau na fyddant yn gosod gofynion na ellir eu cyflawni ar y landlord cymdeithasol cofrestredig. Bydd adegau pan na fydd landlordiaid cymdeithasol cofrestredig yn gallu cyflawni'r gofyniad hwn am resymau dilys a bydd y rhain wedi'u cynnwys yn yr amgylchiadau penodedig a fydd yn caniatáu i landlord cymdeithasol cofrestredig wrthod y cais.

576. Nid ydym yn bwriadu cyflwyno cynllun cwotâu na thargedau ar gyfer dyraniadau ac nid yw hyn yn rhan o'n cynigion. Fodd bynnag, rydym yn deall bod rhai ardaloedd wedi datblygu eu systemau cwotâu eu hunain. Cynigir na fydd gwrthod atgyfeiriad ar y sail bod landlord cymdeithasol cofrestredig wedi cyrraedd cwota y cytunwyd arno eisoes gyda'r awdurdod lleol yn dderbyniol fel amgylchiad penodedig na rheswm da dros wrthod dyrannu llety. Caiff yr amgylchiadau penodedig eu pennu a'u datblygu fel rhan o waith dilynol i ddatblygu Bil, gan ystyried yr ymgynghoriad hwn,

<sup>197</sup> Allocations Understanding more, in the context of homelessness in Wales, Comisiynwyd gan Cartrefi Cymunedol Cymru, Llywodraeth Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

<sup>198</sup> A. Britain, L. Robertson, J. Tate, S. Livingstone Craigforth (2009) Review of Section 5 of the Housing (Scotland) Act 2001.

safbwyntiau awdurdodau lleol a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig ac argymhellion adolygiad a gynhaliwyd yn 2009 o'r ddarpariaeth debyg yn yr Alban.<sup>199</sup>

577. Bwriad polisi'r cynnig hwn yw sicrhau y caiff dyraniadau eu defnyddio yn y ffordd fwyaf effeithiol posibl o ran atal digartrefedd, cefnogi mwy o gydweithredu rhwng awdurdodau lleol a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig a chyflwyno tryloywder i'r broses ddyrannu. Rhagwelir y bydd presenoldeb y ddyletswydd ychwanegol hon yn annog mwy o gysondeb rhwng polisiâu a blaenoriaethau dyrannu ac y bydd y newid diwylliannol hwn, dros amser, yn lleihau'r angen i awdurdodau lleol ddefnyddio'r pŵer hwn. Caiff y ddyletswydd debyg yn neddfwriaeth yr Alban ei defnyddio ar lefelau ac amlderau amrywiol gan awdurdodau'r Alban; ni fydd rhai awdurdodau byth yn ei defnyddio tra bydd eraill yn ei defnyddio'n aml. Fodd bynnag, mae rhanddeiliaid wedi datgan yn glir bod presenoldeb y pŵer a'r ddyletswydd gysylltiedig yn elfennau allweddol yn y broses o greu newid diwylliannol a fydd yn sicrhau cynifer â phosibl o ddyraniadau i aelwydydd digartref.

### Ystyriaethau dosbarthu

578. Wrth wneud y cynnig hwn, rydym yn ymwybodol o statws dosbarthu landlordiaid cymdeithasol cofrestredig fel **Corfforaethau Preifat Anariannol** gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG), at ddibenion cyfrifon gwladol, ac o argymhelliad y Panel Adolygu Arbenigol y dylai unrhyw risg o ailddosbarthu gael ei lliniaru wrth ddatblygu'r cynigion hyn.

579. O ganlyniad i benderfyniad gan SYG yn 2016 i ailddosbarthu landlordiaid cymdeithasol cofrestredig fel Corfforaethau Cyhoeddus Anariannol, cyflwynodd Llywodraeth Cymru Ddeddf Rheoleiddio Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (Cymru) 2018, sef deddf diwygio rheoleiddio a ddiddymodd reolaethau'r sector cyhoeddus (llywodraeth ganolog a lleol) dros landlordiaid cymdeithasol cofrestredig er mwyn gallu dychwelyd i'w statws presennol fel Corfforaethau Cyhoeddus Anariannol.

580. Rydym yn cydnabod y gall datblygu newid deddfwriaethol sylweddol newydd, yr ystyrir ei fod yn ailgyflwyno rheolaethau llywodraeth ganolog neu leol, ysgogi adolygiad ailddosbarthu pellach a allai arwain at oblygiadau sylweddol i landlordiaid cymdeithasol cofrestredig. Gallai'r goblygiadau hyn gynnwys effaith negyddol bosibl ar eu gallu i ddatblygu cartrefi newydd, gan y byddai'n rhaid ystyried eu gallu i fenthycu yng nghyd-destun cyllideb gyfalaf gyffredinol Llywodraeth Cymru, sy'n golygu y byddent yn cystadlu â blaenoriaethau eraill Llywodraeth Cymru ar gyfer gwario cyfalaf. Byddai'r benthycu (presennol a newydd) hefyd yn cynyddu lefel benthycu net/dyled y sector cyhoeddus.

581. Felly, wrth inni ymgynghori ar y cynnig hwn a'i ddatblygu, byddwn yn ystyried yr effaith ar landlordiaid cymdeithasol cofrestredig ac yn cynnal asesiadau effaith perthnasol ar yr adegau priodol. Nid yw Llywodraeth Cymru yn bwriadu gosod

---

<sup>199</sup> A. Britain, L. Robertson, J. Tate, S. Livingstone Craigforth (2009) Review of Section 5 of the Housing (Scotland) Act 2001.

gofynion deddfwriaethol ar landlordiaid cymdeithasol cofrestredig yng Nghymru a fydd yn arwain at eu hailddosbarthu fel cyrff cyhoeddus.

### **Prawf Ymddygiad Annerbyniol**

**Rydym yn cynnig y dylai'r prawf presennol ar gyfer ymddygiad annerbyniol, sy'n caniatáu i awdurdod tai lleol wahardd ymgeiswyr o'u cynlluniau dyrannu, neu dynnu unrhyw flaenoriaeth resymol oddi arnynt, ond bod yn gymwys dan yr amgylchiadau canlynol:**

- a. os bydd ymgeisydd (neu aelod o'i aelwyd) wedi bod yn euog o ymddygiad annerbyniol sy'n ddigon difrifol i dorri adran 55 o Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 i arwain at orchymyn meddiant llwyr;
- b. ar adeg ystyried y cais, os bydd yr ymgeisydd yn dal yn anaddas i fod yn denant oherwydd yr ymddygiad hwnnw (adrannau 160A(7) ac (8) a 167(2B) a (2C) o Ddeddf Tai 1996).

582. Rydym hefyd yn cynnig datblygu canllawiau pellach ar ddefnyddio'r 'prawf ymddygiad annerbyniol', gan dynnu sylw at arferion da a sut y dylai amgylchiadau lliniarol a darpariaeth ategol gael eu hystyried yn yr asesiad, gan leihau'r ddibyniaeth ar yr hyn a gaiff ei ystyried yn ymddygiad gwael ac ôl-ddyledion rhent er mwyn gwrthod ymgeiswyr.

### **Pŵer i dynnu pobl nad oes ganddynt angen o ran tai oddi ar y rhestr aros**

583. O ystyried y pwysau byrdymor a thymor canolig sy'n ymwneud â digartrefedd a chyflenwad tai, bydd pobl nad oes ganddynt angen o ran tai sy'n gwneud cais am dai cymdeithasol yn aros sawl blwyddyn am lety ac, mewn rhai achosion, ni fydd llety byth yn cael ei ddyrannu iddynt.

584. Mae angen adnoddau awdurdodau lleol i reoli'r rhestr o hyd a gall y niferoedd mawr o bobl sy'n aros orlethu timau awdurdodau lleol a gwneud y gwaith o flaenoriaethu a rheoli ceisiadau yn heriol iawn.

**Felly, rydym yn cynnig rhoi'r pŵer i awdurdodau lleol dynnu pobl nad oes ganddynt angen o ran tai oddi ar y rhestr aros yn eu hardaloedd.**

585. Rydym yn cynnig y caiff y ddeddfwriaeth ei diwygio er mwyn rhoi pŵer i awdurdodau tai lleol bennu na fydd grwpiau penodol o bobl nad oes ganddynt angen o ran tai yn gymwys ar gyfer eu cynllun dyrannu. Pŵer caniatol yn unig fyddai hwn; bydd awdurdodau tai lleol yn cadw disgrisiwn i dderbyn pob ymgeisydd i'w cynlluniau dyrannu p'un a oes ganddo angen o ran tai ai peidio.

586. Os caiff y cynnig hwn ei ddatblygu'n ddeddfwriaeth, bydd angen cynnwys diffiniad o angen o ran tai mewn canllawiau a fydd hefyd yn ceisio nodi ble y bydd angen eithriadau i'r pŵer hwn. Byddwn yn gweithio gydag awdurdodau lleol a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig wrth inni ddatblygu cynigion deddfwriaethol i ystyried sut y gellir canfod ac asesu eithriadau o'r fath.

587. Bwriad y cynnig hwn yw ei gwneud yn haws i'r bobl â'r angen mwyaf gael tai, sicrhau data mwy cywir mewn perthynas â digartrefedd ac anghenion o ran tai ledled Cymru a sicrhau bod pobl nad ydynt mewn angen ond sydd ar y rhestr aros yn cael cyngor clir ar y tebygolrwydd y byddant yn llwyddo i gael tai cymdeithasol. Dim ond i bobl yr aseswyd nad oes ganddynt angen o ran tai ac sy'n byw mewn llety addas y bydd y pŵer arfaethedig yn gymwys.

### **Rhoi 'blaenoriaeth ychwanegol' i bobl sy'n ddigartref**

**Rydym yn cynnig rhoi blaenoriaeth ychwanegol i bobl sy'n ddigartref ac y mae dyletswydd digartrefedd statudol yn ddyledus iddynt dros grwpiau eraill â blaenoriaeth yr ystyrir bod ganddynt 'angen brys o ran tai'.**

588. Nid yw'r cynnig hwn yn newid y pum grŵp y rhoddir 'blaenoriaeth resymol' iddynt ar hyn o bryd o fewn cynlluniau dyrannu, ond bydd yn rhagnodi ar gyfer blaenoriaethu aelwydydd digartref yn y pum categori hyn. Ar hyn o bryd, caniateir i awdurdodau lleol bennu eu blaenoriaethau eu hunain rhwng y grwpiau rhesymol ac, oherwydd gwahanol gynlluniau dyrannu a blaenoriaethau eraill sy'n benodol i ardaloedd (gan gynnwys cysylltiad lleol), nid yw pob awdurdod lleol yn rhoi pobl sy'n ddigartref yn ei fandiau blaenoriaeth. Nod y cynnig hwn yw sicrhau y caiff anghenion ymgeiswyr digartref eu blaenoriaethu wrth ddyrannu llety, gan arwain at gyfnodau byrrach mewn llety dros dro a lliniaru'r canlyniadau negyddol a allai ddeillio o aros mewn llety o'r fath.

589. Mae'r Panel Adolygu Arbenigol a Llywodraeth Cymru yn glir na ddylai fod angen y cynnig hwn fel polisi hirdymor sy'n rhan o'r drefn arferol. Yn y tymor hwy, yn dilyn cyfnod o roi Ailgartrefu Cyflym a phontio iddo a chynnydd yn y cyflenwad o dai, rydym yn rhagweld na fydd angen i awdurdodau lleol roi blaenoriaeth ychwanegol mwyach. Fel y cyfryw, byddwn yn archwilio opsiynau er mwyn rhoi terfyn amser ar y cynnig hwn neu roi pŵer i Weinidogion Cymru 'ddiffodd' y gofynion am blaenoriaeth ychwanegol pan fydd rhestrau aros a cheisiadau digartrefedd wedi lleihau i lefelau rhagnodedig.

### **Rhoi 'blaenoriaeth ychwanegol' i bobl â phrofiad o fod mewn gofal sy'n ddigartref a'r rhai sy'n ffoi rhag camdriniaeth**

590. Fel yr amlinellir yn adran 3 o'r Papur Gwyn hwn (atal wedi'i dargedu), mae pobl sy'n gadael gofal neu bobl â phrofiad o fod mewn gofal yn wynebu risg fwy o fod yn ddigartref yng Nghymru.

**Felly, mae Llywodraeth Cymru yn cynnig cyflwyno diwygiadau i ddeddfwriaeth er mwyn i bobl sy'n gadael gofal ac sy'n ddigartref allu cael blaenoriaeth ychwanegol dros grwpiau eraill â blaenoriaeth y diffinnir bod ganddynt angen brys o ran tai. Bydd hyn yn fodd i roi mwy o flaenoriaeth i bobl sy'n gadael gofal o fewn systemau dyrannu presennol, gyda'r bwriad o'i gwneud yn haws iddynt gael llety fforddiadwy a lliniaru'r risg ychwanegol o ddigartrefedd sy'n eu hwynebu.**

**Rydym yn cynnig newid tebyg er mwyn caniatáu i awdurdodau tai lleol nodi yn eu cynlluniau dyrannu y dylai pobl sy'n ddigartref o ganlyniad i ffoi camdriniaeth gael mwy o flaenoriaeth.**

### **Gofyniad statudol am Gofrestr Dai Gyffredin/Polisiau Dyrannu Cyffredin**

**Rydym yn cynnig cyflwyno deddfwriaeth i'w gwneud yn ofynnol i bob awdurdod lleol yng Nghymru ddefnyddio Cofrestr Tai Cyffredin a pholisiau dyrannu cyffredin.**

591. Er bod y mwyafrif o awdurdodau lleol eisoes yn gweithredu Cofrestr Dai Gyffredin a bod llawer yn gweithredu polisiau dyrannu cyffredin, mae'r manteision i bartneriaid cyflenwi a defnyddwyr terfynol yn golygu ei bod yn bwysig sicrhau bod y gwasanaeth hwn ar gael ym mhob rhan o Gymru. Bydd defnyddio un gofrestr yn sicrhau bod pob partner yn gweithredu yn unol â blaenoriaethau cyson. Bwriad polisi'r cynnig hwn yw sefydlu dull cyson a dealladwy a gwneud y weithdrefn ddyrannu'n fwy effeithlon. Bydd mabwysiadu Cofrestr Dai Gyffredin yn ardal pob awdurdod lleol yn helpu i roi cynigion eraill sydd yn yr adran hon ar waith.

592. Mae'r Cod Canllawiau eisoes yn cynnwys cyngor sy'n argymhell defnyddio Cofrestr Tai Cyffredin a datblygu polisiau dyrannu cyffredin ledled Cymru. Cynigir y caiff hyn ei atgyfnerthu i ategu'r newid arfaethedig i ddeddfwriaeth. Er mai lle awdurdodau lleol a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig fydd sefydlu trefniadau contractiol ffurfiol i ategu'r gofrestr a'r polisi dyrannu a fydd ar waith o dan hyn a chytuno arnynt o hyd, caiff cyngor ei atgyfnerthu. Nodwn fod rhai mathau o dai cymdeithasol (e.e. llety â chymorth arbenigol) yn cael eu rheoli y tu allan i brosesau Cofrestr Tai Cyffredin lleol ar hyn o bryd am fod eu hangen mewn ymateb i atgyfeiriadau gwasanaethau cymdeithasol. Wrth i ganllawiau ar Gofrestr Tai Cyffredin gael eu datblygu yn y dyfodol, byddwn yn gweithio gyda rhanddeiliaid i sicrhau na fydd pobl ag anghenion cronig, cymhleth a hirdymor yn cael eu rhoi dan anfantais gan y cynnig.

593. Wrth ystyried y cynigion uchod, ar ôl gwaith ymgysylltu ac ymgynghori a wneir gan Lywodraeth Cymru i ffurfioli deddfwriaeth, bydd hefyd yn ofynnol o dan adran 167(7) o Ddeddf 1996 i awdurdodau lleol ymgysylltu â'u landlordiaid cymdeithasol cofrestredig partner a'u hysbysu ynghylch eu cynlluniau dyrannu ac unrhyw newidiadau arfaethedig. Rhaid i gopïau drafft o'r newidiadau o'r newidiadau arfaethedig i gynllun gael eu hanfon at bob landlord cymdeithasol cofrestredig, a rhaid i'r landlordiaid cymdeithasol cofrestredig gael cyfle rhesymol i wneud sylwadau ar y cynigion hynny.

594. Os caiff y cynnig hwn ei ddatblygu'n ddeddfwriaeth, byddwn yn ystyried canllawiau pellach ar gyfer awdurdodau tai lleol a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig ynghylch polisïau dyrannu tai cymdeithasol, gan geisio sicrhau dull mwy cyson a lleihau effeithiau polisïau y mae'n hysbys eu bod yn creu rhwystrau, megis ôl-ddyledion rhent hanesyddol, gwarantwyr (lle y bydd yr amgylchiadau'n golygu y gall ymgeisydd ddangos y byddai'n anodd cael gwarantwr), polisïau rhent ymlaen llaw, cyfyngiadau ar bobl dros 55 oed, polisïau dim anifeiliaid anwes, cyfyngiadau ar gyn-droseddwy'r defnydd o feini prawf cysylltiad lleol. Caiff canllawiau o'r fath eu datblygu ar y cyd â'r sector a byddant yn seiliedig ar arferion gorau sydd eisoes ar waith.

### **Herio penderfyniad dyrannu**

595. Os caiff y cynigion hyn eu datblygu'n ddeddfwriaeth ddrafft, byddwn hefyd yn ystyried a yw'n briodol ac yn ymarferol datblygu dull neu broses lle y gall ymgeisydd herio penderfyniad ynghylch dyrannu tai cymdeithasol gan awdurdod lleol neu landlord cymdeithasol cofrestredig.

### **Cyflwyno 'prawf camddefnydd bwriadol'**

596. Drwy gydol y gwaith ymgysylltu a wnaed i ddatblygu'r Papur Gwyn hwn, rydym wedi clywed pryderon y gallwn, drwy gyflwyno'r cynigion hyn, greu cymhelliant gwyrddoedig anfwriadol yn y system a fydd yn annog pobl i fod yn ddigartref er mwyn cael tai cymdeithasol. Gallai'r risg y caiff y cynllun ei gamddefnyddio gan bobl nad oes ganddynt angen brys o ran tai arwain at gyfeirio gwasanaethau ac adnoddau i ffwrdd oddi wrth y bobl sydd â'r angen mwyaf ac ychwanegu pwysau ar system sydd eisoes wedi'i gordanystrifio.

**Felly, rydym yn cynnig cyflwyno 'prawf camddefnydd bwriadol' i'w ddefnyddio ar gam dyrannu'r broses ddigartrefedd.**

597. Bwriedir i'r prawf hwn gyfyngu/diddymu unrhyw flaenoriaeth a roddwyd ar sail digartrefedd a byddai wedi'i gyfyngu i bobl y gwelir eu bod yn euog o 'gamddefnydd bwriadol' o'r system ddigartrefedd er mwyn cael mantais wrth wneud cais am dai cymdeithasol. Mae'n bwysig pwysleisio nad nod y cynnig hwn yw effeithio ar hawliau pobl sy'n gwneud cais am gymorth o ran tai (digartrefedd); dim ond i'r broses o ddyrannu tai cymdeithasol y bydd yn gymwys. Byddai'r prawf yn rhoi disgresiwn i awdurdodau lleol gael gwared ar unrhyw 'flaenoriaeth resymol' y byddai'r ymgeisydd fel arfer wedi bod yn gymwys i'w chael wrth ddyrannu tai cymdeithasol. Rydym yn ymrwymedig i sicrhau y bydd unrhyw berson sy'n ddigartref neu'n wynebu risg o ddigartrefedd yn parhau i allu cael y gymorth sydd ei angen arno i atal neu leihau digartrefedd.

598. Gallai "camddefnydd bwriadol" gynnwys anwirio tystiolaeth neu gamarwain awdurdodau i gredu na all ymgeisydd sicrhau llety addas er y gall wneud hynny, neu anwirio tystiolaeth neu gamarwain awdurdodau i gredu na all ymgeisydd fforddio lle i fyw drwy ddulliau y tu allan i'r system ddigartrefedd (h.y. y sector rhentu preifat neu fel perchennog eiddo), pan fydd tystiolaeth yn awgrymu ei fod yn gallu fforddio hyn. Gallai camddefnydd bwriadol hefyd gynnwys gweithredoedd neu anweithredoedd



eraill, ond byddai hyn yn fwy cyfyngedig na'r enghreifftiau a restrir yn y Cod Canllawiau presennol, er mwyn cydnabod bod rhai mathau o ymddygiad, megis ymddygiad gwrthgymdeithasol, yn aml yn deillio o drawma neu anghenion cymorth ehangach, yn hytrach na'u bod yn enghreifftiau o ymddygiad bwriadol neu wirfoddol.

599. Byddai unrhyw benderfyniad a chamau dilynol i leihau blaenoriaeth unigolyn yn y system ddyrannu yn destun adolygiad, yn yr un modd â phenderfyniadau eraill a wneir ynglŷn â dyrannu llety fel y nodir yn adran 167(4A)(c) a (d) o Ddeddf Tai 1996.

600. Rhagwelir y byddai'r prawf nid yn unig yn darparu ar gyfer canfod unigolion sy'n ceisio camdefnyddio'r system, ond hefyd yn gweithredu mewn ffordd sy'n atal gweithgarwch o'r fath yn y lle cyntaf, gan gael gwared ar y cymhellion gwyrddroedig posibl a all fod wedi deillio o'r cynigion eraill a amlinellir fel arall. Byddwn yn monitro'r defnydd o'r prawf er mwyn sicrhau y caiff ei ddefnyddio'n briodol, a byddwn yn datblygu mesurau diogelu lle bo angen.

## **Opsiynau tai ychwanegol ar gyfer cyflawni'r brif ddyletswydd digartrefedd**

### **Yr hyn y mae'r gyfraith yn ei ddweud ar hyn o bryd**

601. Ar hyn o bryd, dim ond os bydd ymgeisydd yn cael cynnig llety sy'n addas yn unol â Rhan 6 (tai cymdeithasol), neu lety addas yn y sector rhentu preifat, ac yn ei dderbyn neu ei wrthod (neu'n gwrthod llety addas) y gall y brif ddyletswydd digartrefedd ddod i ben. Yn ogystal â hynny, gallai rhai camau a gymerir hefyd ddod â'r ddyletswydd i ben, er enghraifft os caiff cais ei dynnu'n ôl, os bydd ymgeisydd yn ei wneud ei hun yn ddigartref yn fwriadol ar ôl bod mewn llety dros dro neu os na fydd yr ymgeisydd yn cydweithredu â'r awdurdod tai lleol.

### **Newidiadau Arfaethedig**

**Rydym yn cynnig amrywiaeth ehangach o opsiynau y gellir eu defnyddio i ddod â'r brif ddyletswydd digartrefedd yn adran 75 o'r Ddeddf Tai 2014 i ben.**

602. Gall yr opsiynau hyn gynnwys llety cynaledig, llety â chymorth ac aros mewn llety blaenorol, gan gynnwys cartref y teulu, neu ddychwelyd yno.

603. Byddai'r argymhelliad hwn yn caniatáu i awdurdod tai lleol ddefnyddio'r opsiynau hyn dim ond os bydd yr awdurdod tai lleol yn fodlon bod yr amodau canlynol wedi'u bodloni a dim ond os bydd yr ymgeisydd yn cytuno bod y llety'n addas i'r ymgeisydd a phob aelod o'i aelwyd ei feddiannu a'i bod yn debygol y bydd y llety ar gael i'r ymgeisydd a phob aelod o'i aelwyd ei feddiannu am o leiaf 12 mis.

604. Nod cynnwys yr opsiynau ychwanegol hyn yw rhoi hyblygrwydd ar gyfer amrywiaeth eang o amgylchiadau, a sicrhau bod cynifer â phosibl o opsiynau ar gael mewn ardal leol, yn enwedig yn sgil y pwysau yn y system bresennol. Dylai cynnig opsiynau ychwanegol olygu y bydd gan bobl sy'n wynebu digartrefedd yr un amrywiaeth o opsiynau ag aelodau eraill o'r cyhoedd, a dewis a rheolaeth dros yr opsiynau hynny lle bynnag y bo modd. Hefyd, dylai tegwch o ran opsiynau olygu na fydd dim byd yn anghymell unigolion rhag derbyn y cynnig sydd ar gael i atal digartrefedd er mwyn cael cynnig o dŷ 'gwell' (h.y. tai cymdeithasol).

605. Rydym yn cynnig na fyddai'r brif ddyletswydd tai yn dod i ben pe bai'r ymgeisydd yn gwrthod llety o'r fath.

606. Yn unol ag argymhellion y Panel Adolygu Arbenigol, rydym yn cynnig y dulliau ychwanegol canlynol o ddod â'r brif ddyletswydd tai i ben:

- rhoi cyngor a chymorth sydd wedi galluogi ymgeisydd a oedd yn ddigartref oherwydd roedd ganddo lety nad oedd yn rhesymol parhau i'w feddiannu (oherwydd y risg o gam-drin domestig neu fathau eraill o gam-drin neu drais) i ddychwelyd i feddiannu'r llety hwnnw. Ymhlith yr enghreifftiau o gyngor a chymorth o'r fath mae helpu ymgeisydd i gael gorchymyn meddiannaeth neu rwymedi cyfreithiol arall i gau cyflawnwr trosedd allan, gosod nodweddion diogelwch corfforol, helpu'r ymgeisydd

i gael cyngor er mwyn trosglwyddo'r contract meddiannaeth neu berchnogaeth-i'w enw ei hun yn unig;

- helpu'r ymgeisydd i symud i lety cynaledig neu fath arall o lety â chymorth;
- helpu'r ymgeisydd i ddychwelyd i gartref y cafodd ei gau allan ohono gan ei rieni neu ei deulu, er enghraifft drwy ddarparu gwasanaethau cyfryngu.

607. Rydym yn cynnig y trefniadau diogelu canlynol i gyd-fynd â'r opsiynau cyflawni ychwanegol hyn:

- Cytundeb ysgrifenedig, megis contract meddiannaeth (os yw hynny'n briodol) a/neu ddatganiad gan y landlord i ddeiliad y contract yn nodi hawliau a chyfrifoldebau'r naill barti a'r llall.
- Rhaid i'r ymgeisydd hefyd fod wedi cael ei hysbysu'n ysgrifenedig am ganlyniadau derbyn y cynnig (daw'r ddyletswydd i ben).
- Rhaid i'r ymgeisydd dderbyn cynnig o lety o'r fath yn ysgrifenedig er mwyn i'r opsiwn hwn gael ei ddefnyddio i ddod â'r ddyletswydd tai i ben. Ni ellir dod â'r brif ddyletswydd tai i ben os caiff llety o'r fath ei wrthod.
- Mynediad at gyngor annibynnol ar dai i'r ymgeisydd cyn iddo dderbyn llety "opsiwn ychwanegol".
- Gwybodaeth ysgrifenedig i'r ymgeisydd am ei hawl i wneud cais am adolygiad o addasrwydd y llety.
- Rhoi gwybod i'r ymgeisydd y caiff wneud cais newydd i'r awdurdod tai lleol am gymorth digartrefedd os bydd y cytundeb yn methu (a sut i wneud hynny).
- Yn ogystal â llety sy'n cyrraedd yr holl safonau arferol ar gyfer 'addasrwydd', rydym yn cynnig y dylid darparu'r canlynol:

- i. mynediad 24 awr i'r llety hwnnw
- ii. cyfleusterau ymolchi a thoiled digonol
- iii. mynediad at gyfleusterau cegin
- iv. ystafell wely breifat
- v. lle byw ar gael os yw'r ymgeisydd yn byw gyda phlant.

608. Rydym yn cynnig y dylai fod dyletswydd ar yr awdurdod tai lleol i gysylltu â'r ymgeisydd chwe mis ar ôl iddo dderbyn y cynnig er mwyn gwybod a yw'r llety'n dal yn addas a/neu a yw'r ymgeisydd yn ddigartref neu dan fygythiad o ddigartrefedd. Os bydd yn ymddangos i'r awdurdod tai lleol nad yw'r llety ar gael i'r ymgeisydd (neu i holl aelodau ei aelwyd) mwyach neu nad yw'n addas mwyach, yna dylai'r awdurdod tai lleol helpu'r ymgeisydd i wneud cais newydd am gymorth digartrefedd (adran 62(1) o'r Ddeddf Tai 2014).

## **Achosion o droi pobl allan**

### **Achosion o droi pobl allan o dai cymdeithasol**

609. Ar adeg ysgrifennu'r ddogfen hon, diolch i ymroddiad a gwaith partneriaeth cadarn rhwng landlordiaid cymdeithasol cofrestredig ac awdurdodau tai lleol, ychydig iawn o bobl a gaiff eu gwneud yn ddigartref drwy gael eu troi allan o dai cymdeithasol yng Nghymru. Yn ein barn ni, cyhyd ag y bydd y sefyllfa hon yn parhau ac yn cael ei hatgyfnerthu lle bo angen, ni fydd angen diwygiadau deddfwriaethol mewn perthynas â throi pobl allan o dai cymdeithasol.

### **Achosion o droi pobl allan o'r sector rhentu preifat**

610. Mae Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 wedi cael ei rhoi ar waith yn llawn yn ddiweddar ac mae Llywodraeth Cymru o'r farn y bydd y ddeddfwriaeth hon yn sicrhau y bydd cynnig cadarn ar gael i ddiogelu tenantiaid preifat. Felly, nid ydym yn bwriadu diwygio'r ddeddfwriaeth hon ar hyn o bryd. Os bydd angen gwneud newidiadau pellach mewn perthynas â'r sector rhentu preifat, mae'n bosibl mai'r cyfrwng deddfwriaethol priodol ar gyfer hyn fydd y gwaith ategol ond cyfochrog sydd eisoes yn mynd rhagddo ar sicrhau ffordd o gael tai digonol, rhenti teg, a fforddiadwyedd.

611. Bydd data ar bobl yn cael eu gwneud yn ddigartref drwy gael eu troi allan o dai cymdeithasol a'r sector rhentu preifat yn cael eu hadolygu'n rheolaidd er mwyn sicrhau y bydd y cynnydd tuag at roi diwedd ar wneud pobl yn ddigartref drwy eu troi allan yn parhau.

## **Cwestiynau'r ymgynghoriad**

- 20. I ba raddau rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r cynigion byrdymor i wneud llety yn fwy addas? Yn eich barn chi, a oes camau ychwanegol y dylid eu cymryd ar unwaith ar y diben hwn?**
- 21. I ba raddau rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r cynigion sy'n ymwneud â dyrannu tai cymdeithasol a rheoli rhestrau aros am dai? Beth ydych chi'n credu fydd canlyniadau'r cynigion hyn?**
- 22. I ba raddau rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r cynnig i gyflwyno opsiynau tai ychwanegol ar gyfer cyflawni'r brif ddyletswydd digartrefedd? Beth rydych chi'n rhagweld fydd canlyniadau (bwriadol neu anfwriadol) y cynnig hwn?**
- 23. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol cysylltiedig yn nodi ein gwaith meddwl cychwynnol ynglŷn â chostau a manteision y cynigion hyn o ran mynediad at dai. A oes unrhyw gostau a manteision nad ydym wedi'u hystyried?**

## **Pennod 5: Gweithredu**

### **Rhoi'r diwygiadau arfaethedig ar waith**

612. Mae'r diwygiadau arfaethedig yn y Papur Gwyn hwn yn eang ac yn gymhleth ac, fel yr amlinellir yn yr Achos dros Newid, cânt eu cyflwyno ar adeg eithriadol o heriol i wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru ac, yn enwedig, y sector tai. Ar adeg ysgrifennu mae'r argyfwng costau byw a'r pwysau chwyddiannol ehangach ar dai a gwasanaethau cysylltiedig wedi creu tirlun sy'n peri anawsterau unigryw wrth i ni geisio cyflawni'r uchelgais ar y raddfa a nodir yn y Papur Gwyn hwn.

613. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod y bydd angen trawsnewid hirdymor er mwyn mynd i'r afael â'r pwysau yn y system dai ac, fel rhan o hyn, bydd angen diwygiadau deddfwriaethol er mwyn helpu i newid i system sy'n canolbwyntio ar atal ac Ailgartrefu Cyflym. Fel rydym wedi'i nodi, mae'r diwygiadau arfaethedig yn rhan o'r strategaeth ehangach i roi diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru a fydd yn cymryd peth amser i'w chyflawni. Yn anffodus, o ystyried y pwysau sydd arnom, gall y diwygiadau gymryd mwy o amser i'w cyflawni nag y byddem wedi'i obeithio ond mae'n bwysig ein bod yn dechrau eu dylunio ac yn cynllunio sut y cânt eu rhoi ar waith yn y dyfodol. Mae'r bennod hon yn amlinellu sut rydym yn cynnig cefnogi gwaith i roi'r diwygiadau ar waith yn y dyfodol a gorfodi'r deddfwriaeth yn y dyfodol.

614. Gan gydnabod y tirlun anodd iawn, rydym yn gobeithio defnyddio'r cyfnod ymgynghori i brofi dulliau, amserlenni, adnoddau a gofynion ar gyfer gweithredu a chynllunio ar gyfer hyn gyda rhanddeiliaid. Drwy hynny, byddwn yn adeiladu ar waith y grŵp cyfeirio awdurdodau lleol sydd wedi helpu â'r gwaith cynllunio cychwynnol wrth i ni ddatblygu'r Papur Gwyn hwn.

### **Yr hyn y mae'r gyfraith yn ei ddweud ar hyn o bryd**

#### **Gwasanaethau digartrefedd**

615. Nid yw Deddf Tai 2014 yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru reoleiddio swyddogaethau awdurdod lleol wrth iddo ddarparu ei wasanaethau digartrefedd. Mae'r pwerau hynny wedi'u datganoli i aelodau awdurdodau lleol fel rhan o'u dyletswydd sefydledig i oruchwylio a chraffu ar swyddogaethau awdurdod tai lleol.<sup>200</sup> Yn fras, bydd y gwaith goruchwylio a chraffu hwnnw yn canolbwyntio ar berfformiad cyffredinol gwasanaethau digartrefedd yn hytrach na phenderfyniadau unigol.

616. Yn ogystal, gellir craffu ymhellach ar benderfyniadau awdurdod tai lleol drwy Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.<sup>201</sup> Mae'r rôl hon yn ymchwilio i gwynion o gamweinyddu a methiannau gwasanaeth honedig gan awdurdod tai lleol wrth ddarparu cymorth tai. Gall yr Ombwdsmon hefyd benderfynu cynnal 'ymchwiliadau ar ei liwt ei hun' i wasanaethau cyhoeddus mewn achosion lle gellir bod wedi gweld camweinyddu neu fethiannau gwasanaeth systemig (os yw'n fodlon

---

<sup>200</sup> Darparwyd pwerau craffu gan Ddeddf Llywodraeth Leol 2022 a gafodd ei diwygio'n ddiweddarach gan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011

<sup>201</sup> [Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru](#)

bod y meini prawf ymchwilio wedi cael eu bodloni).<sup>202</sup> Cafodd ymchwiliad o'r math hwn i wasanaethau digartrefedd yng Nghymru ei gyhoeddi ym mis Hydref 2021.<sup>203</sup> Yn hanesyddol, mae ymchwiliadau o'r fath wedi ystyried materion penodol yn hytrach na chraffu'n rheolaidd ac fel mater o drefn ar drefniadau rheoleiddio gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.

## Tai cymdeithasol a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig

6.17. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau o dan Ran 1 o Ddeddf Tai 1996 i reoleiddio landlordiaid cymdeithasol cofrestredig yng Nghymru. Mae Rhan 1 o Ddeddf 1996 wedi cael ei diwygio gan Ran 2 o Fesur Tai (Cymru) 2011 ("y Mesur"). Mae'r Mesur yn rhoi mwy o bwerau rheoleiddio ac ymyrryd i Weinidogion Cymru mewn perthynas â darpariaeth tai landlordiaid cymdeithasol cofrestredig a'r camau gorfodi y gellir eu cymryd yn eu herbyn. Mae'r safonau rheoleiddio wedi'u cyhoeddi yn y Fframwaith Rheoleiddiol.<sup>204</sup>

6.18. Mae Tîm Rheoleiddio Llywodraeth Cymru yn cyflawni'r swyddogaethau reoleiddio ar ran Gweinidogion Cymru. Mae'r swyddogaeth hon yn rhan o ddull cydreoleiddio lle mai bwrdd pob cymdeithas dai sy'n gyfrifol yn y pen draw am drefniadau llywodraethu effeithiol, perfformiad a hyfywedd ariannol ei sefydliad. Yn ogystal â chynnal hunanwerthusiad trylwyr, rhaid i fyrddau fodloni eu hunain eu bod yn cydymffurfio â'r safonau rheoleiddio. Rôl y Tîm Rheoleiddio yw asesu ac adrodd ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd proses a sylwedd yr hunanasesiad hwn drwy waith goruchwylio rheoleiddiol parhaus a thrwy gyhoeddi dyfarniadau rheoleiddiol ar gyfer llywodraethu, gan gynnwys gwasanaethau tenantiaid a hyfywedd ariannol.

6.19. Mae landlordiaid cymdeithasol cofrestredig ac eraill sy'n darparu gwasanaethau gofal a reoleiddir hefyd yn ddarostyngedig i broses reoleiddio arall a gaiff ei goruchwylio gan Arolygiaeth Gofal Cymru drwy broses statudol sy'n cynnwys cofrestru, arolygu a, lle bo angen, bennu gofynion er mwyn gwella ansawdd gwasanaethau.<sup>205</sup>

## Modelau rheoleiddio yn y DU

6.20. Mae modelau rheoleiddio eraill ar gyfer digartrefedd a gwasanaethau tai wedi cael eu mabwysiadu ledled y DU. Yn yr Alban, mae Rheoleiddiwr Tai'r Alban yn rheoleiddiwr annibynnol i landlordiaid cymdeithasol ac awdurdodau tai lleol, gan weithio fel Adran Anweinidogol, ar wahân i Lywodraeth yr Alban.<sup>206</sup> Mae Rheoleiddiwr Tai'r Alban yn asesu perfformiad mewn perthynas â thenantiaid tai cymdeithasol, pobl sy'n ddigartref a phobl sy'n defnyddio gwasanaethau landlordiaid cymdeithasol. Mae Rheoleiddiwr Tai'r Alban yn cyflogi tua 50 o aelodau o staff ac ar hyn o bryd mae'n gweithredu gyda chyllideb refeniw o £4.92m ar gyfer 2022/23.<sup>207</sup>

<sup>202</sup> [Ymchwiliadau Ar Ei Liwt Ei Hun \(ombwdsmon.cymru\)](https://www.ombwdsmon.cymru/)

<sup>203</sup> [Yr Ombwdsmon yn cyhoeddi ei ymchwiliad ar ei liwt ei hun cyntaf i'r broses adolygu digartrefedd yng Nghymru, gan ganfod tystiolaeth o "gamweinyddu systemig" gan awdurdodau lleol](#)

<sup>204</sup> [WG44078 \(llyw.cymru\)](https://www.llyw.cymru/WG44078)

<sup>205</sup> Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016

<sup>206</sup> [Hafan | Rheoleiddiwr Tai'r Alban](#)

<sup>207</sup> [scottish housing regulator annual report and accounts 2021-22.pdf \(housingregulator.gov.scot\)](https://www.housingregulator.gov.scot/scottish-housing-regulator-annual-report-and-accounts-2021-22.pdf)

621. Yn Lloegr, mae cylch gwaith y Rheoleiddiwr Tai Cymdeithasol yn fwy cul na Rheoleiddiwr Tai yr Alban, gan ei fod yn ystyried y sector tai cymdeithasol yn nhermau safonau economaidd a defnyddwyr, heb gyfeirio'n benodol ar wasanaethau digartrefedd.<sup>208</sup>

### **Hawliau adolygu unigol**

622. Er nad yw'n swyddogaeth reoleiddio, mae'n bwysig nodi bod y broses ceisiadau digartrefedd yn cynnwys cyfleoedd mewnol i herio penderfyniadau unigol. Gall ymgeisydd herio penderfyniad awdurdod tai lleol drwy hawl adolygu a ddarperir gan adran 85 o Ddeddf Tai 2014. Bydd adolygiad yn ystyried y penderfyniadau a wnaed gan awdurdod tai lleol mewn perthynas â'r canlynol:

- cymhwysedd ymgeisydd i gael cymorth tai;
- p'un a oes dyletswydd a ddarperir o dan adrannau 66, 68, 73 neu 75 o Ddeddf Tai 2014 yn berthnasol i ymgeisydd (a ph'un a yw'r dyletswyddau hynny wedi cael eu cwblhau'n briodol);
- p'un a yw'r awdurdod wedi cyfeirio achos yr ymgeisydd at awdurdod arall neu wedi penderfynu ei fod yn bodloni'r amodau ar gyfer cyfeirio; ac
- addasrwydd y llety pan gaiff ei gynnig i ymgeisydd.

623. Cynhelir yr adolygiadau gan swyddog o'r awdurdod tai lleol, na fydd yn rhan o'r penderfyniad gwreiddiol. Mae gan yr ymgeisydd hawl i apelio i'r Llys Sirol mewn perthynas â phwyntiau cyfreithiol.

624. Mae Adran 1 o'r Papur Gwyn hwn yn nodi'r cynigion ar gyfer hawliau adolygu unigol ychwanegol.

### **Data**

625. Drwy'r gwaith ymgysylltu a wnaed i ddatblygu'r Papur Gwyn hwn, rydym wedi clywed adborth y gellid gwella gwaith casglu a dadansoddi data ynghylch digartrefedd er mwyn cael dealltwriaeth well o'r ffactorau allweddol sy'n cyfrannu at ddigartrefedd a monitro perfformiad gwasanaethau. Yn ei adroddiad i Lywodraeth Cymru, dywed y Panel Adolygu Arbenigol, wrth i ni symud tuag at Gymru lle mae digartrefedd yn beth prin a byrhoedlog nad yw'n ailddigwydd, fod gwella'r tirlun data yn hanfodol er mwyn mapio a monitro'r daith honno, yn ogystal â sefydlu a all fod angen mwy o fesurau.

626. Mae Llywodraeth Cymru'n casglu data i fonitro lefelau digartrefedd yng Nghymru, drwy Wybodaeth Reoli Fisol ac ystadegau digartrefedd statudol blynyddol a gyhoeddir.<sup>209 210</sup> Data cyfanredol yw hyn sy'n helpu i esbonio amgylchiadau'r rhai a all fod yn ddigartref ai peidio a'r cymorth y gallent fod yn ei gael. Mae awdurdodau lleol yn cyfrannu at y data a gesglir gan Lywodraeth Cymru, gan ddarparu eu data cyfanredol eu hunain sy'n adlewyrchu'r rhyngweithio rhyngddynt â phobl sy'n ceisio cymorth tai.

<sup>208</sup> [Rheoleiddiwr Tai Cymdeithasol - GOV.UK \(www.gov.uk\)](http://www.gov.uk)

<sup>209</sup> [Darpariaeth llety digartrefedd a chysgu allan | LLYW.CYMRU](#)

<sup>210</sup> [Ystadegau digartrefedd | LLYW.CYMRU](#)



627. Mae'r ystadegau digartrefedd statudol blynyddol presennol yn cynnwys sut y darparwyd cymorth yn ôl canlyniad a math o aelwyd ar gyfer y canlynol:

- yr aelwydydd hynny sydd mewn perygl o fod yn ddigartref ac sy'n cael cymorth i'w hatal rhag bod yn ddigartref (adran 66 Deddf Tai 2014),
- y rhai sy'n cael rhyddhad digartrefedd o dan y ddyletswydd i sicrhau llety (adran 73 Deddf Tai 2014), ac
- y rhai sy'n gymwys i gael cymorth tai ac sydd mewn angen blaenoriaethol (y brif ddyletswydd - adran 75 Deddf Tai 2014).

628. Drwy ymgysylltu â phartneriaid a'r Panel Adolygu Arbenigol, rydym wedi clywed adborth ar ansawdd y trefniadau casglu data presennol, yn enwedig yr ystadegau digartrefedd statudol blynyddol, a sut y gellid eu gwella. Mae'r adborth hwn yn awgrymu y gellid atgyfnerthu'r wybodaeth a'r ymchwil presennol mewn nifer o feysydd, gan gynnwys y canlynol:

- amgylchiadau cymunedau na chânt eu gwasanaethu'n ddigonol a'r rhai â nodweddion gwarchoddedig,
- profiad pobl mewn llety dros dro,
- y modd y caiff y prawf cysylltiad lleol ei gymhwyso,
- hawliau adolygu penderfyniadau a wneir gan awdurdodau tai lleol ar geisiadau digartrefedd,
- y modd y caiff tai cymdeithasol eu dyrannu,
- y modd y caiff safonau addasrwydd eu cymhwyso,
- y modd y caiff camau adfeddu eu cymryd,
- y modd y caiff pobl a all gael eu rhyddhau o wasanaethau a dod yn ddigartref eu trin,
- tueddiadau ym maes troi allan,
- profiad y rhai sy'n gadael carchar, a
- phrofiad cyn-aelodau o'r lluoedd arfog

629. Mae gwaith yn mynd rhagddo eisoes i ddatblygu system casglu data digartrefedd ar lefel achosion unigol yng Nghymru.

630. Bydd data manylach yn rhoi dealltwriaeth well o amgylchiadau'r rhai sy'n profi digartrefedd statudol a hynt eu ceisiadau am gymorth drwy'r system, gan gyfoethogi'r sail dystiolaeth a ddefnyddir i ddatblygu polisïau.

631. Mae gwaith ymgynghori ar Fframwaith Canlyniadau Llywodraeth Cymru ar gyfer Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd wedi amlinellu'r egwyddorion allweddol ar gyfer datblygu dangosyddion data, sef:

- eu bod yn benodol, er mwyn sicrhau ein bod yn mesur yr agweddau pwysicaf ar ddigartrefedd fel y gellir deall y cynnydd sy'n cael ei wneud yn erbyn pob canlyniad manwl,
- eu bod yn gymesur o ran nifer, er mwyn adlewyrchu lefel y cymhlethdod wrth fesur canlyniad manwl,
- eu bod yn dod o ffynonellau data cadarn lle y bo'n bosibl, fel ystadegau swyddogol neu wybodaeth reoli, ac

- eu bod yn seiliedig ar fesurau data sy'n bodoli'n barod lle y bo'n bosibl, ond y gellir dweud hefyd eu bod yn fesurau data y dylid anelu i'w casglu yn y dyfodol os nad ydynt ar gael eto.<sup>211</sup>

632. Mae'r egwyddorion hyn yn berthnasol i unrhyw ddata y gall fod angen eu casglu drwy'r diwygiadau deddfwriaethol arfaethedig a amlinellir yn y Papur Gwyn hwn. Hefyd, mae gan Awdurdod Ystadegau'r DU God Ymarfer ar gyfer Ystadegau, sy'n gymwys i Lywodraeth y DU a gweinyddiaethau datganoledig, y dylai pawb yn y llywodraeth sy'n cynhyrchu ac yn defnyddio ystadegau ei ddefnyddio. Mae'r fframwaith ar gyfer y Cod yn seiliedig ar dri philer – dibynadwyedd, ansawdd a gwerth.<sup>212</sup> Mae'r Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau hefyd yn argymhell y dylai data a dangosyddion gael eu datblygu mewn ffordd gydlynol a thryloyw drwy gydweithio.

633. Yng nghyd-destun gosodiadau tai cymdeithasol (dyraniadau), nid yw Llywodraeth Cymru'n gofyn am ddata gan awdurdodau lleol yng Nghymru mor aml nac ar yr un raddfa ag y mae Llywodraeth y DU yn casglu data gan awdurdodau lleol yn Lloegr drwy ei system Cofnodi Parhaus (CORE).<sup>213</sup>

## Strategaeth a chynllunio

634. Mae cynnal adolygiadau rheolaidd o'r angen am dai wedi bod yn un o gyfrifoldebau hirsefydlog awdurdodau lleol, sy'n ofynnol o dan adran 8 o Ddeddf Tai 1985, gydag adran 87 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 ("Deddf 2003") yn sefydlu cylch rheolaidd ar gyfer y gwaith hwn. Yn ogystal, mae'n rhaid i awdurdodau lleol ddatblygu strategaeth ddigartrefedd bob pedair blynedd o dan adrannau 50, 51 a 52 o Ddeddf Tai 2014.

635. Yr adnodd a ddefnyddir i adolygu'r angen am dai yw Asesiad o'r Farchnad Dai Leol (LHMA) a gaiff ei lunio gan awdurdod lleol. Ym mis Mawrth 2022, lluniodd Llywodraeth Cymru ganllawiau i swyddogion tai a chynllunio lleol sy'n cynnal LHMA's yn eu hardaloedd, gan amlinellu methodoleg newydd i'r rhai sy'n cyflawni'r gwaith hwn.<sup>214</sup> Mae'r LHMA's eu hunain yn bwydo i mewn i'r dystiolaeth ar gyfer Cynlluniau Datblygu ehangach awdurdodau lleol a'u polisiâu tai, sy'n cefnogi anghenion pobl a chymunedau gwahanol. Mae'r canllawiau LHMA yn nodi y bydd LHMA's yn ddogfen ffynhonnell allweddol a fydd yn llywio strategaethau digartrefedd sy'n ofynnol o dan adrannau 50, 51 a 52 o Ddeddf Tai 2014 ac y dylai timau Tai a Digartrefedd rannu'r wybodaeth sydd ar gael er mwyn cefnogi'r asesiad o'r angen am dai yn y ffordd orau bosibl.

636. Mae trafodaethau a gynhaliwyd gan y Panel Adolygu Arbenigol wedi awgrymu y gellid diwygio deddfwriaeth er mwyn sicrhau bod ystyriaeth fwy penodol yn cael ei rhoi i'r boblogaeth leol sy'n ddigartref wrth asesu'r angen lleol am dai a bod demograffeg y boblogaeth leol sy'n ddigartref yn cael ei defnyddio wrth ddatblygu llety newydd. Gellid ategu hyn ymhellach drwy broffilio'r cyflenwad tai yn ardal awdurdod lleol er mwyn ystyried mathau penodol o lety sy'n addas i grwpiau arbennig o bobl sy'n ddigartref, gan gynnwys llety hygyrch a llety â chymorth.

<sup>211</sup> [Fframwaith Canlyniadau ar gyfer Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd | LLYW.CYMRU](#)

<sup>212</sup> [About the Code – Code of Practice for Statistics \(statisticsauthority.gov.uk\)](#)

<sup>213</sup> [Social housing lettings - GOV.UK \(www.gov.uk\)](#)

<sup>214</sup> [Cynnal Asesiadau o'r Farchnad Dai Leol \(LHMA's\), Mawrth 2022](#)

637. Mae'r cylch cyntaf o LHMA's sy'n defnyddio'r fethodoleg a'r canllawiau diwygiedig yn cael eu cwblhau ar hyn o bryd a byddant yn helpu i wella asesiadau o'r angen am dai, gan gynnwys anghenion tai pobl sydd mewn perygl o fod yn ddigartref, neu sydd eisoes yn ddigartref.

### **Y ffordd y mae'r gyfraith yn gweithio ar hyn o bryd**

638. Mae gwaith craffu diweddar gan y Senedd wedi nodi newidiadau posibl y gellid eu gwneud i'r trefniadau ar gyfer rheoleiddio gwasanaethau digartrefedd presennol yng Nghymru, gan roi sylw penodol i safonau llety dros dro, yn ogystal â gwella gwasanaethau a datblygu uchelgeisiau ehangach i roi diwedd ar ddigartrefedd ac ystyried sefydlu rheoleiddiwr digartrefedd.<sup>215</sup>

639. Mae'r Panel Adolygu Arbenigol a Llywodraeth Cymru wedi ystyried yr argymhellion hyn yn ofalus ac yn ogystal â hynny, maent wedi ystyried sut y gellir sicrhau lefelau cyson o wasanaeth a chydweithio effeithiol rhwng awdurdodau lleol a'u partneriaid.

640. Mae'n hanfodol y gall ymgeiswyr sy'n gwneud cais am wasanaethau digartrefedd wneud hynny gan ddefnyddio proses hygyrch, dryloyw a chyson. Ymhellach, mae'n hanfodol bod modd nodi themâu ynghylch y ddarpariaeth ddigartrefedd yn lleol ac yn genedlaethol er mwyn llywio gwelliannau, sicrhau bod y gyfraith yn cael ei gweithredu'n effeithlon a nodi heriau sy'n dod i'r amlwg.

641. Mae wedi dod yn anos craffu'n effeithiol ar wasanaethau digartrefedd a'u rheoleiddio yn sgil y trawsnewid a welwyd ar ôl y pandemig. Mae newidiadau wedi digwydd sy'n anos eu cofnodi drwy'r trefniadau casglu data neu adrodd presennol, yn enwedig o safbwynt ymgeiswyr unigol am wasanaethau digartrefedd. Mae'r darlun aneglur sydd gennym nawr yn ei gwneud yn anodd barnu a yw gwasanaethau digartrefedd yn perfformio mor effeithiol â phosibl. Mae'r nodau a amlinellir yn y Papur Gwyn hwn, sef bod mwy o wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru yn cyfrannu at roi diwedd ar ddigartrefedd, hefyd yn hyrwyddo dull gweithredu nad yw wedi'i gydnabod eto drwy'r trefniadau craffu a rheoleiddio presennol. Mae'n debygol y bydd angen cipio data am effaith dyletswyddau arfaethedig i atgyfeirio a chydweithio, ynghyd â diwygiadau eraill, mewn ffordd wahanol.

642. Mae'n debygol y byddai sefydlu rheoleiddiwr newydd yn dod â ffocws a sylw i'r materion a ystyrir uchod. Fodd bynnag, nid yw'r Panel Adolygu Arbenigol (na all ddod i gonsensus) na Llywodraeth Cymru yn argyhoeddedig y caiff gwerth posibl creu trefniadau rheoleiddio ychwanegol ar gyfer awdurdodau tai lleol ei gyfiawnhau gan y cynnydd mewn cymhlethdod o ran trefniadau llywodraethu a chostau gweinyddol. Yn hytrach, rydym o'r farn y gellid cyflawni'r un canlyniadau drwy ddefnyddio swyddogaethau rheoleiddio ehangach; gwneud gwelliannau i drefniadau casglu a dadansoddi data, yn ogystal â mecanweithiau i sicrhau cysondeb drwy gymorth corfforaethol neu gymorth gan gymheiriaid i staff awdurdodau tai lleol. Bydd yr opsiynau hyn yn gwneud defnydd mwy effeithiol o adnoddau presennol ac maent yn fwy fforddiadwy.

---

<sup>215</sup> [Digartrefedd \(senedd.cymru\)](https://www.senedd.cymru)

## Beth hoffem ei newid?

643. Rydym wedi dechrau adolygu'r holl ysgogiadau sydd ar gael i'w defnyddio er mwyn atgyfnerthu camau gweithredu a, lle y bo angen, orfodi ein diwygiadau arfaethedig.

**Rydym yn cynnig y dylid defnyddio ac ymestyn y strwythurau presennol a ddarperir drwy drefniadau craffu llywodraeth leol a rheoleiddio tai cymdeithasol er mwyn monitro'r ddarpariaeth ddigartrefedd a'r camau i weithredu'r diwygiadau deddfwriaethol arfaethedig.**

644. Mae ffyrdd eraill y gallai'r cyfundrefnau rheoleiddio hyn a rhai eraill ystyried anghenion pobl sy'n ddigartref a'r gwasanaethau sy'n eu cefnogi yn well, ac amlinellwn hyn isod.

**Byddwn yn ystyried a yw'n briodol gwneud newidiadau i'r Safonau Rheoleiddio sy'n gymwys i Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig er mwyn annog hyd yn oed mwy o ymrwymiad i roi diwedd ar ddigartrefedd a monitro perfformiad a darpariaeth.**

645. Byddai'n rhaid ymgynghori â sefydliadau sy'n cynrychioli'r sector ar unrhyw newidiadau o'r fath, fel sy'n ofynnol gan adran 33C o Ddeddf 1996.

**Rydym yn cynnig y dylid ystyried swyddogaethau arolygiaethau sydd eisoes yn bodoli yng Nghymru, fel Arolygiaeth Gofal Cymru ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, er mwyn nodi'r rôl y gallai'r sefydliadau hyn ei chwarae wrth sicrhau bod y nodau a amlinellir yn y Papur Gwyn hwn yn cael eu cyflawni er mwyn sefydlu cyfrifoldeb ehangach dros atal digartrefedd ar draws gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.**

646. Ar hyn o bryd, mae gan Weinidogion Cymru bwerau eang ar gyfer ymyrryd a chyfarwyddo o dan Ran 6 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

**Byddwn yn adolygu ac yn ystyried a oes angen pwerau ychwanegol ar Weinidogion Cymru er mwyn sicrhau bod y deddfwriaeth arfaethedig yn cyflawni ei nodau, gan gynnwys pwerau cyfarwyddo posibl i orfodi awdurdod lleol i fodloni'r gofynion o fewn y deddfwriaeth arfaethedig newydd. Wrth inni ddatblygu'r diwygiadau arfaethedig hyn, ein bwriad polisi fydd sicrhau, os daw i'r amlwg (drwy gŵyn, adborth gan randdeiliaid/defnyddwyr gwasanaeth neu waith goruchwyllo Llywodraeth Cymru) nad yw awdurdod lleol yn bodloni gofynion y Bil arfaethedig neu nad yw'n darparu gwasanaeth i'r safon ddisgwyliedig, y gall Llywodraeth Cymru ymyrryd er mwyn rhoi cymorth ac, os bydd angen, herio a chymryd rhan yn uniongyrchol.**

647. Rydym o'r farn y gellid hefyd sicrhau mwy o gysondeb ym mherfformiad awdurdodau tai lleol drwy ddefnyddio'r arbenigedd sydd o fewn y sector tai a digartrefedd. Mae CLILC yn edrych ar ffyrdd o gynyddu capasiti a gallu cydweithwyr llywodraeth leol, a allai fod yn gam allweddol er mwyn gwella perfformiad. Yn flaenorol, mae Llywodraeth Cymru wedi cynnal ei hymweliadau anffurfiol ei hun ag awdurdodau tai lleol er mwyn eu helpu i ddeall polisi ac ymarfer ar ôl i Ddeddf 2014 gael ei chyflwyno. Gallai ymweliadau o'r fath ategu'r trefniadau adrodd sy'n gysylltiedig â Chynllun Gweithredu Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd Llywodraeth Cymru a'r Fframwaith Canlyniadau arfaethedig ar gyfer Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd, a fydd yn destun adroddiadau blynyddol.<sup>216 217</sup>

**Byddwn hefyd yn ystyried sut y gallwn sicrhau bod safbwyntiau pobl sydd â phrofiad o ddigartrefedd yn parhau i lywio ein dealltwriaeth o'r ffordd y mae systemau digartrefedd yn gweithio a sicrhau bod yr adborth hwn yn dylanwadu ar ddatblygiad parhaus gwasanaethau ac yn ysgogi camau gweithredu gan Weinidogion Cymru lle y bo'n briodol. Byddwn yn gweithio'n agos gyda phartneriaid arbenigol i gyflawni'r gwaith hwn ac yn dylunio methodoleg mewn partneriaeth â nhw.**

**Yn unol ag argymhellion gan y Grŵp Cyngori ar Ddigartrefedd ac Adroddiad Blynyddol diweddar y Bwrdd Cyngori Cenedlaethol ar Roi Diwedd ar Ddigartrefedd, bydd Llywodraeth Cymru'n gweithio i wella trefniadau casglu data parhaus ym mhob rhan o'r sector tai a digartrefedd.**

648. Defnyddir y data hyn er mwyn helpu i fonitro cydymffurfiaeth â gofynion statudol yn ogystal â nodi bylchau yn y system. Bydd y data yn rhoi ystyriaeth benodol i gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant.

**Rydym hefyd yn cynnig y dylid creu pŵer y gallai Llywodraeth Cymru ei ddefnyddio er mwyn 'galw i mewn' y data a gesglir gan awdurdod tai lleol wrth gyflawni ei swyddogaethau digartrefedd.**

649. Byddai hyn yn helpu i nodi dangosyddion cynnydd addas wrth weithredu'r diwygiadau a gynigir yn y Papur Gwyn hwn ac yn golygu y gellir cynnal dadansoddiadau manwl o faterion penodol. Byddai pŵer o'r fath yn cael ei ddefnyddio'n gymesur er mwyn peidio â rhoi gormod o faich ar awdurdodau tai lleol. Byddwn hefyd yn ystyried a oes gwerth ailddechrau'r casgliad data yng Nghymru, sy'n adlewyrchu system CORE (Cofnod Parhaus o Osodiadau a Gwerthiannau Tai Cymdeithasol yn Lloegr) ond a gafodd ei atal yn ddiweddar.<sup>218</sup>

<sup>216</sup> [Rhoi diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru: cynllun gweithredu lefel uchel 2021 i 2026 | LLYW.CYMRU](#)

<sup>217</sup> [Fframwaith Canlyniadau ar gyfer Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd | LLYW.CYMRU](#)

<sup>218</sup> [CORE - Frequently Asked Questions \(communities.gov.uk\)](#)

650. Rydym am sicrhau bod awdurdodau tai lleol yn ystyried eu hadolygiad a'u strategaeth digartrefedd (adrannau 50, 51 a 52 o Ddeddf Tai 2014) a lefelau digartrefedd yn eu hardal, a lefelau tebygol yn y dyfodol, wrth lunio eu strategaeth dai a LHMA. Fodd bynnag, o gofio'r diwygiadau diweddar iawn i'r LHMA's a'r bwriad a gyhoeddwyd eisoes i ddod â'r dogfennau hyn a'r dull Ailgartrefu Cyflym yn agosach at ei gilydd, nid ydym yn bwriadu cyflwyno newid deddfwriaethol ar hyn o bryd.

## **Cwestiynau'r ymgynghoriad**

- 24. I ba raddau, yn eich barn chi, y bydd y cynigion a amlinellir uchod yn helpu i weithredu a gorfodi'r diwygiadau arfaethedig?**
- 25. Pa ysgogiadau/swyddogaethau/mecanweithiau eraill y gellid eu defnyddio i ddal awdurdodau tai lleol a chyrff cyhoeddus eraill yn atebol am eu rôl wrth atal digartrefedd?**
- 26. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol cysylltiedig yn nodi ein gwaith meddwl cychwynnol ynglŷn â chostau a manteision y cynigion hyn. A oes unrhyw gostau a manteision nad ydym wedi'u hystyried?**
- 27. Beth, yn eich barn chi, fyddai effeithiau tebygol y diwygiadau arfaethedig yn y Papur Gwyn hwn ar y Gymraeg? Mae gennym ddiddordeb penodol mewn unrhyw effeithiau tebygol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.**
- **A oes unrhyw gyfleoedd i hyrwyddo unrhyw effeithiau cadarnhaol, yn eich barn chi?**
  - **A oes unrhyw gyfleoedd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol, yn eich barn chi?**

## Atodiad 1: Cwestiynau'r ymgynghoriad

1. Ydych chi'n cytuno y bydd y cynigion hyn yn arwain at gynnydd mewn atal digartrefedd a rhyddhad o ddigartrefedd?
  - i. Ydw/nac ydw
2. Beth yw eich rhesymau dros hyn?
3. Yn eich barn chi, a oes cynigion deddfwriaethol ychwanegol y dylem eu hystyried er mwyn sicrhau gwelliannau o ran atal digartrefedd a rhyddhau pobl o ddigartrefedd?
4. Ydych chi'n cytuno â'n cynnig i ddiddymu'r prawf angen blaenoriaethol?
  - i. Ydw/nac ydw
5. Ydych chi'n cytuno â'n cynnig i ddiddymu'r prawf bwriadoldeb?
  - i. Ydw/nac ydw
6. Ydych chi'n cytuno â'n cynnig o gadw'r prawf cysylltiad lleol ond ychwanegu grwpiau eraill o bobl at y rhestr o eithriadau er mwyn darparu ar gyfer cysylltiadau nad ydynt yn rhai teuluol â chymunedau ac ystyried yn well y rhesymau pam na all rhywun ddychwelyd i'w awdurdod lleol gwreiddiol?
7. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol cysylltiedig yn nodi ein gwaith meddwl cychwynnol ynglŷn â chostau a manteision y cynigion hyn. A oes unrhyw gostau a manteision nad ydym wedi'u hystyried?
8. Ydych chi'n cytuno â'r cynigion i osod dyletswydd i ganfod, atgyfeirio a chydweithredu ar nifer o gyrff perthnasol er mwyn atal digartrefedd?
  - i. Ydw/nac ydw

Rhowch eich rhesymau.

9. Ydych chi'n cytuno â'r cyrff perthnasol arfaethedig y byddai'r dyletswyddau i ganfod, atgyfeirio a chydweithredu yn gymwys iddynt? A fydddech yn ychwanegu neu'n tynnu unrhyw wasanaethau o'r rhestr?
10. Yn eich barn chi, a ydym wedi taro'r cydbwysedd cywir rhwng gofynion deddfwriaethol ac arferion gweithredol, yn enwedig mewn perthynas ag iechyd?
11. Pa fesurau ymarferol y bydd angen eu rhoi ar waith er mwyn i'r dyletswyddau arfaethedig i ganfod, atgyfeirio a chydweithredu weithio'n effeithiol? Gofynnwn ichi ystyried anghenion dysgu a datblygu, adnoddau, staffio, lleoliad a diwylliant.
12. Yn ogystal â'r dyletswyddau cyffredinol i ganfod, atgyfeirio a chydweithredu, mae'r bennod hon yn cynnwys cynigion i gyflwyno gofyniad i gydgyssylltu



achosion yn well ar gyfer pobl ag anghenion lluosog a chymhleth. I ba raddau y bydd y cynigion yn helpu i atal digartrefedd ymhlith y grŵp hwn?

13. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol cysylltiedig yn nodi ein gwaith meddwl cychwynnol ynglŷn â chostau a manteision y cynigion hyn. A oes unrhyw gostau a manteision nad ydym wedi'u hystyried?
14. A oes unrhyw grwpiau eraill o bobl, heb eu nodi yn yr adran hon, y mae digartrefedd yn effeithio'n anghymesur arnynt yn eich barn chi, ac y mae angen gweithgarwch wedi'i dargedu ychwanegol i atal a lleihau digartrefedd o'r fath (rhowch dystiolaeth i gefnogi'ch barn)?
15. Pa gamau deddfwriaethol neu bolisi ychwanegol y gellid eu cymryd i atal neu leihau digartrefedd i'r grwpiau a nodir yn y Papur Gwyn hwn?
16. Mae ein cynigion ynglŷn â phlant, pobl ifanc a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal yn ceisio gwella ac yn egluro cysylltiadau rhwng deddfwriaeth digartrefedd a'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant. Mae angen gwaith datblygu polisi sylweddol er mwyn asesu ymarferoldeb hyn. Yn eich barn chi, beth yw manteision a heriau ein dull gweithredu a pha ganlyniadau anfwriadol y dylem baratoi i'w lliniaru?
17. A yw ein cynigion yn mynd yn ddigon pell i sicrhau bod pobl ifanc 16 a 17 oed sy'n ddigartref neu sy'n wynebu risg o ddigartrefedd yn cael cymorth ar y cyd gan wasanaethau cymdeithasol ac awdurdodau tai lleol? Beth yn rhagor y gellid ei wneud i gryfhau ymarfer a chyflawni cyfrifoldebau rhianta corfforaethol ehangach?
18. A ydych yn cytuno neu'n anghytuno y dylid diwygio Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 i ganiatáu i bobl ifanc 16 a 17 oed allu dal contractau meddiannaeth?
19. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol cysylltiedig yn nodi ein gwaith meddwl cychwynnol ynglŷn â chostau a manteision y cynigion hyn. A oes unrhyw gostau a manteision nad ydym wedi'u hystyried?
20. I ba raddau rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r cynigion byrdymor i wneud llety yn fwy addas? Yn eich barn chi, a oes camau ychwanegol y dylid eu cymryd ar unwaith ar y diben hwn?
21. I ba raddau rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r cynigion sy'n ymwneud â dyrannu tai cymdeithasol a rheoli rhestrau aros am dai? Beth ydych chi'n credu fydd canlyniadau'r cynigion hyn?

22. I ba raddau rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r cynnig i gyflwyno opsiynau tai ychwanegol ar gyfer cyflawni'r brif ddyletswydd digartrefedd? Beth rydych chi'n rhagweld fydd canlyniadau (bwriadol neu anfwriadol) y cynnig hwn?
23. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol cysylltiedig yn nodi ein gwaith meddwl cychwynnol ynglŷn â chostau a manteision y cynigion hyn o ran mynediad at dai. A oes unrhyw gostau a manteision nad ydym wedi'u hystyried?
24. I ba raddau, yn eich barn chi, y bydd y cynigion a amlinellir uchod yn helpu i weithredu a gorfodi'r diwygiadau arfaethedig?
25. Pa ysgogiadau/swyddogaethau/mecanweithiau eraill y gellid eu defnyddio i ddal awdurdodau tai lleol a chyrrff cyhoeddus eraill yn atebol am eu rôl wrth atal digartrefedd?
26. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol cysylltiedig yn nodi ein gwaith meddwl cychwynnol ynglŷn â chostau a manteision y cynigion hyn. A oes unrhyw gostau a manteision nad ydym wedi'u hystyried?
27. Beth, yn eich barn chi, fyddai effeithiau tebygol y diwygiadau arfaethedig yn y Papur Gwyn hwn ar y Gymraeg? Mae gennym ddiddordeb penodol mewn unrhyw effeithiau tebygol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.
- A oes unrhyw gyfleoedd i hyrwyddo unrhyw effeithiau cadarnhaol, yn eich barn chi?
  - A oes unrhyw gyfleoedd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol, yn eich barn chi?
28. Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych chi unrhyw faterion cysylltiedig sydd heb gael eu trafod yn benodol, mae croeso i chi ddefnyddio'r lle hwn i'w nodi.

Wrth ymateb, byddai'n ddefnyddiol pe baech yn cadarnhau a ydych yn ymateb fel unigolyn ynteu'n cyflwyno ymateb swyddogol ar ran sefydliad, ac yn cynnwys:

- eich enw
- eich swydd (os yw'n berthnasol)
- enw'r sefydliad (os yw'n berthnasol)
- cyfeiriad (gan gynnwys cod post)
- cyfeiriad e-bost • rhif ffôn cyswllt

## Ymateb i'r ymgynghoriad

Byddwch cystal â chyflwyno'ch sylwadau erbyn 16 Ionawr 2024, yn un o'r ffyrdd canlynol:

- cwblhau ein ffurflen ar-lein
- lawrlwytho, cwblhau ein ffurflen ymateb ac e-bostio [DiwygioDeddfwriaethDigartrefedd@llyw.cymru](mailto:DiwygioDeddfwriaethDigartrefedd@llyw.cymru)
- lawrlwytho, cwblhau ein ffurflen ymateb a'i phostio i:

Tîm Deddfwriaeth Atal Digartrefedd  
Llywodraeth Cymru  
Parc Cathays  
Caerdydd  
CF10 3NQ